

B B C

VISION
ONTES F
INGDOM
OL 2023



**Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon
Grŵp y BBC 2022/23**

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon
Grŵp y BBC **2022/23**

(h) Hawlfraint y BBC 2023

Gellir atgynhychu'r testun yn y ddogfen hon (ac eithrio, lle maent yn ymddangos, yr Arfbais Frenhinol a phob logo adrannol neu asiantaethol) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei atgynhychu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y BBC a nodi teitl y ddogfen. Defnyddir ffotograffau (h) BBC neu cânt eu defnyddio o dan delerau cytundeb PACT, oni nodir fel arall. Mae'n rhaid cael caniatâd deiliaid yr hawlfraint cyn atgynhychu unrhyw ffotograffau.

Gallwch lawrlwytho'r cyhoeddiad hwn o bbc.co.uk/annualreport

Dyluniwyd gan [Emperor emperor.works](http://Emperor.emperor.works)

Cyfieithwyd gan Prysg prysg.cymru

Paratowyd yn unol â Siarter Frenhinol y BBC 2016 (Erth.37)

ISBN 978-1-5286-4117-3

E02913787

YN YR ADRODDIAD HWN

4

Adroddiad strategol



Y BBC

2 Y BBC – i bawb

Adroddiad strategol

- 4 Rhoi ein strategaeth ar waith yn 2022/23
- 7 Datganiad gan y Cadeirydd
- 8 Adolygiad y Cyfarwyddwr Cyffredinol
- 12 Cyflawni ein cylch gwaith creadigol
 - Newyddion a gwybodaeth ddiudedd
 - Dysgu i bobl o bob oedran
 - Allbwn creadigol, nodedig, o'r ansawdd gorau
 - Adlewyrchu cymunedau amrywiol y DU
 - Cyflwyno'r DU i'r byd
- 42 Sicrhau gwerth i gynulleidfaoedd
- 46 Ymgysylltu â chynulleidfaoedd
- 47 Adroddiad gweithredol
 - Adolygiad y Prif Swyddog Gweithredu
 - Ein sefyllfa ariannol
 - Gwariant Darlledu Cyhoeddus
 - Ein pobl
 - Hyfforddiant o'r radd flaenaf
 - Amrywiaeth a chynhwysiant yn y gweithlu a'n hadroddiad ar wybodaeth cydraddoldeb
 - Adroddiad ar y Bwlch Cyflog
 - Ymgynghoriadau
 - Cynaliadwyedd amgylcheddol
 - Gwaith elusennol
 - Partneriaethau a mentrau cydweithredol
- 74 Gweithrediadau masnachol
 - Adolygiad y Prif Swyddog Gweithredol
 - BBC Studios
 - BBC Studioworks

Llywodraethu

- 85 Bwrdd y BBC
- 86 Strwythur llywodraethu
- 87 Adroddiad cydymffurfiaeth gorfforaethol a llywodraethu
- 88 Pwyllgor Gweithredol
- 88 Pwyllgor y Genhedlaeth Nesaf
- 89 Adroddiad cydnabyddiaeth
- 97 Datgeliadau cyflogau
- 105 Adroddiad y Pwyllgor Enwebiadau
- 106 Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Risg
- 111 Ein prif risgiau
- 121 Datganiad ynghylch hyfywedd
- 122 Adroddiad y Bwrdd Daliadau Masnachol
- 123 Adroddiad y Pwyllgor Canllawiau a Safonau Golygyddol
- 125 Adroddiadau Pwyllgorau'r Gwledydd
- 127 Adroddiad y Pwyllgor Masnachu Teg
- 128 Adroddiad Sicrwydd Annibynnol ar Fasnachu Teg
- 129 Datganiad o gyfrifoldebau'r Bwrdd
- 130 Perfformiad yn erbyn ymrwymadau cyhoeddus
- 139 Pecynnau data perfformiad

Datganiadau ariannol (yn Saesneg)

- 170 Tystysgrif ac Adroddiad C&AG ar Ddatganiadau Ariannol Grŵp y BBC
- 179 Datganiad incwm cyfunol
- 179 Datganiad cyfunol o incwm cynhwysfawr
- 180 Mantolen gyfunol
- 181 Datganiad cyfunol o newidiadau mewn ecwiti
- 182 Datganiad llif arian parod cyfunol
- 183 Themâu allweddol ar gyfer y BBC
- 184 Nodiadau i'r cyfrifon

Gwybodaeth ychwanegol

- 239 Mynegai
- 240 Credydau delweddau
- 241 Gwybodaeth gyswllt ac adborth



84

Llywodraethu



Datganiadau ariannol

169

Y BBC — I BAWB

Mae'r BBC yn bodoli i hysbysu, addysgu a diddanu cynulleidfaoedd ledled y DU a'r byd. Rydym yn cyflawni cynnwys eithriadol, sy'n unigryw Brydeinig ac sy'n cynnig rhywbeth at ddant pawb – ac rydym wedi bod yn gwneud hynny ers dros ganrif. Mae wyth o bob deg oedolyn yn y DU yn credu yng nghenhadaeth y BBC ac mae'r tudalennau hyn yn nodi rhai o'n cyflawniadau ar gyfer cynulleidfaoedd ac economi'r DU yn 2022/23.

“ Mae popeth a wnawn yn canolbwyntio ar gyflawni buddiannau hollbwysig darlledu cyhoeddus – diwylliannol, cymdeithasol ac economaidd – i'r DU gyfan yn yr hirdymor.”

Tim Davie, Cyfarwyddwr Cyffredinol

Mae gan y BBC ddiben cymdeithasol sy'n hollbwysig i gymunedau ar draws y DU ac i gynulleidfaoedd byd-eang. Cawn ein cydnabod fel darparwr cynnwys diduedd, annibynnol, yr ymddiriedir ynddo ledled y byd, gan gyrraedd 447 miliwn o bobl bob wythnos. Mae nifer helaeth yn ystyried mai ni yw'r ffynhonnell newyddion yr ymddiriedir ynddi fwyaf i bobl ar draws y DU ac un o'r brandiau newyddion yr ymddiriedir ynddo fwyaf yn y byd.

Rhif 1

y brand newyddion yr ymddiriedir ynddo fwyaf yn y DU ac yn yr UD, a'r darparwr newyddion rhyngwladol yr ymddiriedir ynddo fwyaf yn fyd-eang

8 o bob 10

y nifer o oedolion (16+) yn y DU sy'n defnyddio gwasanaethau BBC News bob wythnos ar gyfartaledd – mae hynny ddwbl y darparwr agosaf nesaf

76%

y BBC yw allforyn diwyllianol amlycaf y DU o hyd, gyda 76% o ymwybyddiaeth ymysg dylanwadwyr ledled y byd

87%

canran yr oedolion (16+) yn y DU sy'n credu ei bod yn bwysig bod gwasanaethau, rhaglenni a chynnwys y BBC yn helpu pobl i ddeall beth sy'n mynd ymlaen yn y DU a'r byd

12m

y nifer o bobl ers mis Mawrth 2020 sydd wedi rhyngweithio â Radio Lleol y BBC a'n hymgyrch Make a Difference, a sefydlwyd i ddatlu gweithredoedd o garedigrwydd bob dydd gan aelodau'r o'r cyhoedd

435,000

y nifer o fyfyrwyr a gymerodd ran yn Rhanna dy Stori i nodi canmlwyddiant y BBC, a gynlluniwyd i ysbrydoli pobl ifanc i gyflawni eu nodau ac i helpu i wireddu eu dyheadau

Mae'r BBC yn cyflawni rhagoriaeth greadigol Brydeinig, a werthfawrogir gan gynulleidfaoedd ar draws y DU a ledled y byd. Rydym yn adrodd straeon mewn ffyrdd dyls a nodedig, gan adlewyrchu diwylliant a gwerthoedd Prydeinig yn ôl i ni ein hunain ac allan i'r byd. Mae ein cyrhaeddiad a'n heffaith yn dyst i ansawdd yr hyn rydym yn ei wneud a sut rydym yn ei wneud.

Rhif 1

brand mwyaf poblogaidd y DU ar gyfer y cyfryngau

9 o bob 10

y nifer o oedolion yn y DU (16+) sy'n defnyddio'r BBC ar gyfartaledd bob wythnos, ac 8 o bob 10 bron o bobl 16-34 oed – mwy nag unrhyw frand cyfryngau arall

6 awr 9 munud

yr amser a dreulir yn gwyllo teledu'r BBC/iPlayer ar gyfartaledd y pen, bob wythnos – mwy na Netflix, Disney+ ac Amazon Prime Video gyda'i gilydd

95%

canran yr oedolion (16+) yn y DU a ddefnyddiodd ein gwasanaethau yn y cyfnod rhwng cyhoeddi marwolaeth EM Y Frenhines a'r angladd 11 diwrnod yn ddiweddarach

7 o bob 10

y nifer o ddramâu gan y BBC ar y rhestr o'r dramâu a wylwyd fwyaf yn 2022

7.3bn

y nifer o achosion o ffrydio ar BBC iPlayer, record newydd ac i fyny 11% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol

Rydym wrth wraidd diwydiannau creadigol y DU, yn bartner hanfodol i un o sectorau economi'r DU sy'n tyfu gyflymaf sy'n enwog yn rhyngwladol am yr hyn a gynhrychir ganddo. Rydym yn gatalydd ar gyfer newid a datblygu yn y diwydiant a ni yw'r grym y tu ôl i'r broses o sefydlu a thyfu clystyrau creadigol newydd ar draws y DU.

Rhif 1

y buddsoddwr unigol mwyaf mewn cynnwys gwreiddiol o'r DU sy'n adlewyrchu straeon o bob un o'r gwledydd a'r rhanbarthau

£1 = £2.63

am bob £1 o weithgarwch economaidd uniongyrchol y BBC, caiff £2.63 ei greu yn economi'r DU yn gyffredinol

£4.9bn

y cyfraniad i economi'r DU bob blwyddyn, gyda 50% o'r effaith economaidd honno y tu allan i Lundain, o gymharu ag 20% ar gyfer y diwydiant ehangach

60%

rydym ar y trywydd cywir i gyrraedd ein targed Across the UK o sicrhau bod o leiaf 60% o'r gwariant ar gomisiynu teledu rhwydwaith y tu allan i Lundain erbyn 2027

50,000+

y nifer o swyddi a gefnogir gan y BBC ar draws y DU – gan weithio gyda mwy na 14,000 o gyflenwyr, y mae 75% ohonynt yn fusnesau bach a chanolig

99%

canran ein cynnwys gwreiddiol a wneir yn y DU

STRATEGAETH I SICRHAU GWERTH I BAWB

Mae gan y BBC bedair blaenoriaeth strategol i feithrin gwydnwch a sicrhau gwerth i bawb



Adnewyddu ein hymrwymiad i ddiueddrwydd

Mae didueddrwydd yn hanfodol er mwyn i gynulleidfaoedd ymddiried yn y BBC. Mae'n allweddol i'n cenhadaeth ein bod yn gwasanaethu pob cynulleidfa heb ofn, ffafriaeth, buddiannau gwleidyddol na masnachol.

Nid yw cyflawni ymrwymiad i gyrraedd y safonau uchaf o ran didueddrwydd byth yn hawdd, ond dyma'r rheswm pam mai ni yw'r ffynhonnell newyddion yr ymddiriedir ynddi fwyaf yn y DU o hyd, a'r darlledwr newyddion rhyngwladol yr ymddiriedir ynddo fwyaf. Gwyddom fod angen i ni ennyn yr ymddiriedaeth honno ymhlith ein cynulleidfaoedd bob dydd.

Y flwyddyn hon, rydym wedi atgyfnerthu ein hymrwymiad i ddiueddrwydd drwy wneud y canlynol:

- darparu darllediadau y gellir ymddiried ynddynt o ddigwyddiadau byd eang, fel yr ymosodiadau ar Wcráin a'r sefyllfa yn Iran, y mae cynulleidfaoedd yn eu miliynau wedi dibynnu arnynt, gartref a ledled y byd
- gwasanaethu cynulleidfaoedd lleol drwy gyfres lwyddiannus o gyfweiliadau Radio Lleol y BBC â'r Prif Weinidog ar y pryd, Liz Truss
- dangos mwy o'r gwaith rydym yn ei wneud y tu ôl i'r llenni i'n cynulleidfaoedd, er mwyn trechu twyllwbyodaeth a darparu newyddiaduraeth o'r radd flaenaf
- parhau i roi ein cynllun gweithredu didueddrwydd ar waith, gan gynnwys drwy gyhoeddi adolygiad thematig cyntaf Bwrdd y BBC o'n hallbwn ar drethiant, gwariant cyhoeddus, benthyciadau gan y Llywodraeth a dyledion
- lansio adolygiad annibynnol o'n canllawiau ar y cyfryngau cymeithasol



Canolbwyntio ar gynnwys unigryw, o bwys

Er mwyn sicrhau gwerth i bawb, rhaid i'r BBC gynnig cynnwys gwych i bawb, ni waeth pwy ydynt na ble y maent. Mae hyn yn golygu cynhyrchu rhaglennu fideo a sain o'r ansawdd gorau ym mhob genre.

Yn y dirwedd hynod gystadleuol sydd ohoni, ein nod yw canolbwyntio ar gynnwys sy'n unigryw i Brydain, sy'n ein gosod ar wahân i'r gweddill ac sydd fwyaf perthnasol i'n cynulleidfaoedd.

Y flwyddyn hon, rydym wedi bod yn canolbwyntio ar gynnwys o bwys drwy wneud y canlynol:

- cynhyrchu allbwn poblogaidd nodedig ar gyfer cynulleidfaoedd y DU – o *Wild Isles* i *Happy Valley*, *The Traitors* i *Ghosts*, *Piano Room* ar Radio 2 i *Night Tracks* ar Radio 3
- cynrychioli straeon o bob cwr o'r DU mewn dramâu fel *Blue Lights*, *Guilt*, *Hidden* a *Sherwood*
- cefnogi talent newydd, syniadau beiddgar a straeon pwysig drwy gynnwys llwyddiannus fel *Am I Being Unreasonable*, *Mood*, *The Real Mo'Nique*, *The Coming Storm* ar Radio 4 neu *You, Me, and the Big C* ar 5 live
- cyflawni ein cynllun i fuddsoddi £112 miliwn o'n cyllideb comisiynu fideo a sain dros dair blynedd mewn cynnwys amrywiol a chynhwysol
- dwyn y DU ynghyd ar gyfer digwyddiadau dathlu a choffáu cenedlaethol, fel y Jiwbilî Blatinwm ac angladd Ei Mawrhydi y Frenhines Elizabeth II
- darparu darllediadau byw ar bob llwyfan yn ystod un o'r blynyddoedd mwyaf cofiadwy o gerddoriaeth a chwaraeon byw, o Glastonbury a Proms y BBC i fuddugoliaeth y Llewesau yn Ewros y Menywod, a gyrhaeddodd 27.4 miliwn o bobl ar deledu'r BBC dros gyfnod y twrnament ac a ddilynwyd yn ddiweddarach yn y flwyddyn gan Gwpan y Byd FIFA dynion gyntaf i gael ei chynnal yn y gaeaf, gan gyrraedd 38.8 miliwn o bobl ar deledu'r BBC a mwy na 100 miliwn o geisiadau gwyllo ar-lein

“Mae gennym strategaeth glir ar waith ar gyfer y blynyddoedd sydd i ddod. Ei nod yw sicrhau bod y BBC yn parhau i fod yn berthnasol i bawb, drwy sicrhau gwerth gwyb i bob un o’n cynulleidfaoedd yn yr oes ddigidol.”

Tim Davie, Cyfarwyddwr Cyffredinol



Edrychwch am y symbolau hyn drwy’r adroddiad strategol er mwyn gweld sut mae’r blaenoriaethau hyn yn sail i bopeth a wnawn.



Cael mwy o werth o gynnyrch ar-lein

Mae mwy a mwy o’r cynnwys a ddefnyddir gan gynulleidfaoedd o bob oedran ar-lein. Er mwyn sicrhau gwerth i bawb, rhaid i gynhyrchion ar-lein y BBC fod o’r radd flaenaf a chynnig y profiad gorau posibl.

Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol gyda BBC Ar-lein, gyda Newyddion, Chwaraeon, iPlayer a Sounds. Ond mae angen i ni fynd gam ymhellach i gysylltu ein harlwy a helpu cynulleidfaoedd i ganfod hyd yn oed mwy o gynnwys unigryw ar draws ein llwyfannau.

Y flwyddyn hon, rydym wedi gweithio’n galed i sicrhau mwy o werth o’n harlwy ar-lein drwy wneud y canlynol:

- torri recordiau newydd ar gyfer iPlayer gyda 7.3 biliwn o geisiadau ffrydio, i fyny 11% o gymharu â’r flwyddyn ddiwethaf, gan gynnwys 110 miliwn ar gyfer *Happy Valley* yn unig yn ystod tri mis cyntaf 2023
- gweithio gyda sefydliadau partner i’w gwneud yn haws i bawb ddod o hyd i iPlayer a’i ddefnyddio fel y mynnant, boed hynny drwy ffyn ffrydio neu lwyfannau teledu gwahanol
- bodloni ceisiadau i chwarae 1.64 biliwn o eitemau o radio, cerddoriaeth a phodlediadau ar Sounds, i fyny 7% o gymharu â’r flwyddyn ddiwethaf
- cyrraedd un o bob tri oedolyn yn y DU ar gyfartaledd bob wythnos drwy BBC News Online, a dyblu nifer yr ymweliadau â thudalennau byw BBC News
- trawsnewid y ffordd y gall gwrandawyr ganfod cynnwys drwy Back To Back Sounds, gan gynnig oriau o gerddoriaeth ddi-dor wedi’i churadu gan ein harbenigwyr ac enwau mawr yn y diwydiant cerddoriaeth
- cynyddu ein dealltwriaeth o’r hyn y mae cynulleidfaoedd am ei gael gan ein cynhyrchion digidol, gyda mwy na 22 miliwn o gyfrifon yn cyrchu ein cynhyrchion bob wythnos ar gyfartaledd yn 2023 hyd yma a sylfaen o ddefnyddwyr sy’n mewngofnodi o fwy na 50 miliwn o gyfrifon i gyd.



Cynyddu ein hincwm masnachol

Er mwyn cynnig y gwerth gorau posibl i dalwyr ffi’r drwydded, mae angen i ni gynyddu incwm masnachol er mwyn rhoi mwy o werth ar y sgrin ac ar yr awyr, a chynyddu enillion ariannol.

Mae perfformiad BBC Studios yn parhau i arwain y ffordd, gan fuddsoddi mewn talent o Brydain a chreu cynnwys nodedig sy’n ddiau yn perthyn i’r BBC, wrth gefnogi ffi’r drwydded drwy fuddsoddi mewn rhaglennu a difendau arian parod.

Y flwyddyn hon, rydym wedi profi ein gallu i gynyddu incwm masnachol a byd-eang drwy wneud y canlynol:

- cyflawni’r gwerthiannau a’r elw uchaf erioed i BBC Studios, gan ragori ar £2 biliwn mewn gwerthiannau am y tro cyntaf a chyflawni EBITDA (enillion cyn llog, treth, dibrisiant ac amorteiddio) o £240 miliwn, i fyny 6%
- creu cynnwys eiconig, gan gynnwys *Platinum Party at the Palace* a *Happy Valley* ar gyfer y BBC, a *Prehistoric Planet* ar gyfer AppleTV+
- parhau i fod yn allforiwr cynnwys teledu mwyaf y DU, o *Dancing with the Stars* i *Frozen Planet II* – rhaglen ffeithiol fwyaf poblogaidd y DU yn 2022
- gweithio mewn partneriaeth â Disney+ fel rhan o gytundeb dosbarthu byd-eang nodedig ar gyfer *Doctor Who*, a chyflwyno *Bluey*, sydd wedi dod yn rhaglen boblogaidd yn rhyngwladol, i 60 o wledydd
- sefydlu strategaeth dwf newydd ar gyfer BBC Studios gyda’r nod o ddyblu’r busnes erbyn diwedd 2027/28
- cynyddu cyfran UKTV o’r gynulleidfa deledu fasnachol i’r lefelau uchaf erioed unwaith eto, sef 8.7% yn 2022, a chynyddu nifer yr ymweliadau â gwasanaeth ffrydio am ddim UKTV Play 27%

TRAWSNEWID Y BBC

Er mwyn sicrhau gwerth i bawb, mae angen i ni drawsnewid y BBC mewn tair ffordd



Y BBC ar draws y DU

Mae ein cynllun Across the UK wrth wraidd ein strategaeth i sicrhau mwy o werth i bob cynulleidfa. Bwriedir i'r cynllun drawsnewid y BBC drwy symud pobl, pŵer a grym gwneud penderfyniadau i wledydd a rhanbarthau'r DU.

Ein nod yw gwneud yn siŵr bod y BBC yn adlewyrchu safbwyntiau a lleisiau'r DU gyfan ac yn adrodd y straeon sy'n fwyaf perthnasol i fywyd beunyddiol pobl. Ond rydym hefyd am sicrhau bod buddiannau cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd y BBC yn cyrraedd pob cwr o'r DU.

Y flwyddyn hon, rydym wedi datblygu ein cynllun Across the UK ymhellach drwy wneud y canlynol:

- gwneud cyfresi newydd a chyfresi sy'n dychwelyd ar y rhwydwaith ledled y gwledydd a'r rhanbarthau, fel *The Traitors*, *Bloodlands* a *Waterloo Road*
- parhau ar y trywydd cywir i gyrraedd ein targed i sicrhau bod o leiaf 60% o'n gwariant ar gomisiynu teledu rhwydwaith y tu allan i Lundain erbyn 2027, gan gyrraedd 58% yn 2022
- darparu mwy na 200 o rolau amser llawn y tu allan i Lundain, gan gynnwys newyddiadurwyr BBC News mewn pum lleoliad gwahanol ar draws y DU
- symud timau allweddol ar draws y DU, fel BBC Asian Network a BBC Newsbeat i Birmingham, a gwneud Glasgow yn gartref i'n newyddiaduraeth technoleg
- cefnogi'r sector creadigol ledled y DU drwy fwrw ymlaen â mentrau fel ein partneriaeth £25 miliwn yng Ngoogledd-ddwyrain Lloegr a chynlluniau i symud pencadlys Gorllewin Canolbarth Lloegr i Digbeth, yn ogystal â chyhoeddi cynlluniau i symud *MasterChef* a *Silent Witness* i'r rhanbarth
- parhau ar y trywydd cywir o ran cynlluniau buddsoddi y disgwylir iddynt greu 4,750 o fusnesau creadigol a 45,000 o swyddi ychwanegol y tu allan i Lundain erbyn 2027/28



BBC sy'n ddigidol yn gyntaf

Ym mis Mai 2022, gwnaethom bennu cynllun chwe blynedd uchelgeisiol i greu sefydliad digidol modern a all gyflawni mwy ar gyfer cynulleidfaoedd a sicrhau'r gwerth gorau o ffi'r drwydded.

Cynllun i drawsnewid a diwygio ydyw, sydd â'r nod o ymateb i symudiadau cyflym cynulleidfaoedd ar-lein a chreu sefydliad cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus digidol byd-eang cyntaf y byd.

Y flwyddyn hon, rydym wedi datblygu ein cynlluniau digidol yn gyntaf ymhellach drwy wneud y canlynol:

- cynyddu cyllid ar gyfer newyddion digidol lleol a newyddiaduraeth ymchwiliadol ar draws y DU, a dod â thimau newyddion lleol ynghyd ar draws radio, teledu ac ar-lein am y tro cyntaf
- creu un sianel newyddion 24 awr sy'n gwasanaethu cynulleidfaoedd y DU a chynulleidfaoedd rhyngwladol, gyda'r nod o greu'r newyddion byw a'r newyddion sy'n digwydd ar y pryd gorau ar y teledu ac ar lwyfannau digidol
- cyflymu trawsnewidiad digidol BBC World Service er mwyn cynyddu ein heffaith ar gynulleidfaoedd ledled y byd
- parhau i drawsnewid a phersonoli profiad iPlayer i gyflawni ei flwyddyn fwyaf erioed, gyda mwy o focs-setiau nag erioed a mwy o deitlau o'r archif, a galluogi plant i gael eu proffiliau eu hunain gyda rhaglennu sy'n briodol i'w hoedran
- ysgogi uchelgais greadigol a gwaith datblygu cynhyrchion BBC Sounds drwy ddatblygiadau arloesol fel y gallu i oedi radio byw a mynd yn ôl ar seinyddion clyfar, a thrawsnewid y ffordd y gall gwrandawyr ganfod cynnwys drwy Back to Back Sounds



Lle gwych i weithio

Er mwyn sicrhau'r gwerth gorau posibl i bob cynulleidfa, rhaid i'r BBC fod yn sefydliad modern ac effeithiol sy'n galluogi'r bobl orau i wneud eu gwaith gorau.

Mae hynny'n golygu meithrin diwylliant creadigol, arloesol a chynhwysol sy'n gosod y safonau ar gyfer ein diwydiant a thu hwnt; lle sy'n cael ei arwain yn dda heb rwystrau i lwyddiant, lle y gall talent ffynnu o fewn ein gwerthoedd gwasanaeth cyhoeddus.

Y flwyddyn hon, rydym wedi parhau i ail-lunio'r BBC drwy wneud y canlynol:

- sicrhau cydbwysedd rhwng y rhywiâu ym mhob rhan o grŵp y BBC fel rhan o'n huchelgais i greu sefydliad 50:20:12 a chyflawni ein targed o 25% ar gyfer amrywiaeth economaidd-gymdeithasol
- cynyddu nifer ein prentisiaid o 517 i 629, gyda'r nod o gyrraedd 1,000 erbyn 2025
- gweithio tuag at gyflawni ein nod o gyrraedd sero net erbyn 2030/31 gyda thargedau sy'n seiliedig ar wyddoniaeth i leihau allyriadau o'n gweithrediadau uniongyrchol 46%, ac allyriadau o'n cadwyn gwerth 28%
- trawsnewid ein dull o recriwtio drwy gyflwyno pecyn cymorth cyflogi newydd sy'n cydnabod potensial ochr yn ochr â phrofiad
- cynnal adolygiad o ddatblygiad arweinwyr a chefnogi mwy na 500 o arweinwyr drwy hyfforddiant a mentora mewnol
- cynnal ein cyfradd gorbenion o 5%, sef y gyfradd orau yn y diwydiant, gan olygu bod y BBC unwaith eto o fewn chwarter uchaf sefydliadau cymharol
- adnewyddu gwerthoedd ac ymrwymiad y BBC i ddatblygu BBC creadigol a chynhwysol sy'n llawn cyfleoedd, gyda chyfres newydd o ymddygiadau sy'n llywio popeth a wnawn

Datganiad gan y Cadeirydd

WRTH WRAIDD BYWYD CENEDLAETHOL Y DU



Y flwyddyn hon, mae'r BBC unwaith eto wedi profi ei fod yn rym creadigol o'r radd flaenaf, sy'n chwarae rôl greiddiol hanfodol ym mywyd cenedlaethol y DU.

Rwy'n falch o gofnodi'r cyflawniadau a amlinellir yn yr adroddiad hwn. Mae'n cwmpasu fy mlwyddyn ariannol lawn olaf fel Cadeirydd, wedi i mi ymddiswyddo o fy rôl ar ôl diwedd 2022/23, ac roedd yn bleser gennyf gymeradwyo'r adroddiad yn fy nghyfarfod olaf o'r Bwrdd ym mis Mehefin.

Y flwyddyn hon, croesawodd y Bwrdd y cynllun a gyflwynwyd gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol mewn ymateb i setliad chwe blynedd ffi'r drwydded, i greu sefydliad digidol modern symlach a all sicrhau'r gwerth gorau posibl i bob cynulleidfia.

Gwnaethom gefnogi cynlluniau'r sefydliad i wella iPlayer drwy gynnig mwy o focs-setiau a mynediad i'r archif, yn ogystal â sicrhau bod newyddion a materion cyfoes wedi'u gwreiddio yr un mor ddwfn ym mhrofiad iPlayer ag y maent wrth gael eu darlledu. Roedd yn bleser gennym weld bod Ofcom yn cefnogi'r penderfyniad hwnnw.

Gwnaethom fwrw ymlaen â chynllun gweithredu didueddrwydd y BBC, yn benodol drwy gyhoeddi'r cyntaf mewn cyfres o adolygiadau thematig annibynnol

rheolaidd o'n hallbwn mewn meysydd allweddol sy'n destun trafodaeth gyhoeddus. Hoffwn ddiolch i Michael Blastland a Syr Andrew Dilnot am eu hadroddiad trylwyr, ystyriol a hynod adeiladol ar sylw'r BBC i faterion yn ymwneud â threthiant, gwariant cyhoeddus, benthyciadau gan y Llywodraeth a dyledion.

Gwnaethom hefyd gynnal ein ffocws drwyddi draw ar ddiogelu buddiannau hirdymor talwyr ffi'r drwydded yng nghyd-destun Adolygiad Tymor Canolig y Llywodraeth o systemau llywodraethu a rheoleiddio y BBC, yn ogystal â thrafodaethau ehangach am gyllid y sefydliad yn y dyfodol.

Roeddwn yn falch o weld, ym mis Mawrth, bod y Llywodraeth wedi dewis dyfarnu £20 miliwn i BBC World Service i gefnogi gwasanaethau ieithoedd a darlledu Saesneg ledled y byd, yn ogystal â helpu i drechu bygythiad cynyddol twyllwbyodaeth fyd-eang.

Pan siaradais am y pwnc hwn ym mis Ionawr, dywedais fod BBC World Service yn ased cenedlaethol gwerthfawr. Mewn oes o dwyllwbyodaeth, mae'n cynnig cyfle eithriadol i ni sefydlu ein hunain fel darparwr ffeithiau digyffelyb i'r byd, ac i gynnig newyddion annibynnol y gellir ymddiried ynddo lle y mae ei angen fwyaf. Nid yn unig mae hyn yn fuddiol ynddo'i hun, ond mae'n gyfle i lywio gwerthoedd y DU o ran

democratiaeth, rhyddid a phwysigrwydd rheolaeth y gyfraith ledled y byd.

Mae'r Llywodraeth wedi cydnabod ers tro yr hyn y mae BBC World Service yn ei gyflawni ar gyfer y DU. Ond mewn gwirionedd, fel y mae'r ffigurau yn yr adroddiad hwn yn ei ddangos (gweler tudalennau 39-41), mae'r pwysau ariannol ar y BBC yn ein hatal ar yr adeg dyngedfennol. Mewn manau eraill yn y byd, ystyrir bod darpariaeth newyddion yn ddull pwysig o amharu ar ddemocratiaeth, gyda miloedd yn fwy o gyllid na'r hyn a fuddsoddir yn ein World Service.

Credaf fod achos cryf iawn erbyn hyn i'r Llywodraeth ailystyried ysgwyddo cyfrifoldeb am ariannu BBC World Service. Rwy'n gobioithio y bydd y Bwrdd yn parhau i gyflwyno'r achos hwn.

Mae wedi bod yn fraint enfawr cael Cadeirio'r sefydliad gwych hwn. Hoffwn ddiolch i'r Bwrdd am ei waith caled a'i ymroddiad dros y ddwy flynedd ddiwethaf, ac i bobl y BBC am eu gwychder. Credaf fod y gwaith a ddechreuwyd o dan y Bwrdd hwn dros y ddwy flynedd ddiwethaf wedi rhoi'r BBC ar ben ffordd ar gyfer y blynyddoedd i ddod. Mae'n bleser gennyf weld y Fonesig Elan Closs Stephens yn ymgymryd â rôl y Cadeirydd dros dro, a hithau'n ddewis delfrydol i lywio'r BBC yn fedrus drwy'r cyfnod nesaf, a dymunaf bob llwyddiant i fy olynydd hirdymor.


Richard Sharp

Richard Sharp
Cadeirydd
27 Mehefin 2023



Y pedwerydd Doctor ar ddeg yn ymddangos yn *Doctor Who*

SICRHAU GWERTH I BAWB



Mae ein nod yn arbennig ac yn unigryw. Rydym yn gweithio i greu sefydliad cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus digidol byd-eang cyntaf y byd, ac i sicrhau'r holl fuddiannau y gall hwnnw ei gynnig i bobl Prydain dros y blynyddoedd i ddod.

Mae nod y BBC yn syml: cynnwys a gwasanaethau cyhoeddus, ar gael i bawb, er budd i bawb. Mae popeth a wnawn yn canolbwyntio ar wneud yn siŵr ein bod yn parhau i gyflawni buddiannau hollbwysig darlledu cyhoeddus – diwylliannol, cymdeithasol ac economaidd – i'r DU gyfan ar gyfer yr hirdymor.

Dyna pam y mae gennym strategaeth glir ar waith ar gyfer y blynyddoedd i ddod. Ei nod yw sicrhau bod y BBC yn parhau i fod yn berthnasol i bawb, drwy sicrhau gwerth gwych i bob un o'n cynulleidfaoedd yn yr oes ddigidol.

Mae'r adroddiad hwn yn nodi cynnydd sylweddol er gwaethaf heriau marchnad sy'n datblygu'n gyflym a chyfyngiadau cyllid. Mae'n dangos i ba raddau rydym yn cyflawni ein strategaeth 'Gwerth i Bawb', a pha mor benderfynol ydym o wneud y dewisiadau sydd eu hangen i addasu a chyflawni ein cenhadaeth yn llwyddiannus dros dalwyr ffi'r drwydded yn y farchnad cyfryngau sy'n newid yn gyflym sydd ohoni.

Nid yw'r gwaith hwn yn hawdd. Mae'r gystadleuaeth gan gwmnïau byd-eang mawr yn fwy nag erioed. Nid yw'r her ariannol erioed wedi bod mor fawr. Mae'r BBC wedi wynebu gostyngiad o tua 30% mewn incwm mewn termau real dros y degawd ers 2010, ac mae'n parhau i weithredu mewn amgylchedd o chwyddiant eithriadol a phenderfyniadau pellach i rewi ffi'r drwydded. Mae graddau llawn y pwysau economaidd a wynebwn wedi'u nodi yn ein Hadroddiad Gweithredol ar dudalennau 48-49, ynghyd â'n cofnod o fesurau lliniaru ac arbedion effeithlonrwydd a'r modd rydym yn parhau i ymateb i fythygiadau seiberddiogelwch cynyddol.

Yn y cyfamser, mae mwy a mwy o bobl o bob oedran yn symud ar-lein. Mewn cyd-destun economaidd heriol, mae'n rhaid i ni wneud dewisiadau anodd am wasanaethau poblogaidd er mwyn parhau i fod yn berthnasol i gynulleidfaoedd wrth i'w harferion a'u gofynion newid, gan sicrhau hefyd nad ydym yn gadael neb ar ôl. Nid ydym yn arloesi dim ond er mwyn gwneud hynny. Fel rydym wedi'i wneud dros y can mlynedd ers ein sefydlu, mae'n rhaid i ni arloesi'n gyflym er mwyn parhau i fod yn berthnasol i fywydau ein cynulleidfaoedd.

Ond er gwaethaf yr heriau hyn, mae gan y BBC stori gref iawn i'w hadrodd. Ar ddechrau ein hail ganrif, ni yw brand cyfryngau mwyaf poblogaidd y DU o hyd, a ddefnyddir gan naw o bob deg oedolyn bob wythnos ar gyfartaledd. Erys cefnogaeth gref i'n cenhadaeth, gydag wyth o bob deg oedolyn yn y DU yn teimlo ein bod yn darparu gwasanaeth cyhoeddus gwerthfawr. Rydym yn parhau i gyflwyno llais, gwerthoedd a dylanwad y DU i gynulleidfa ryngwladol wythnosol o 447 miliwn.

EM Y Frenhines a Paddington Bear y cael te i ddatlu'r Jiwbil



Ein blaenoriaeth gyntaf yw didueddrwydd ac ymddiriedaeth. Y cyd-destun sy'n sail i hyn yw'r frwydr gynyddol am wirionedd rydym yn ei hwynebu ledled y byd. Mae twyllwbyodaeth wedi dechrau dominyddu ein tirwedd cyfryngau fyd-eang yn gynyddol. Megis dechrau ydym wrth geisio deall yr hyn y gallai datblygiadau cyflym mewn deallusrwydd artiffisial ei olygu i gywirdeb ein hamgylchedd gwbyodaeth. Mae'r ymosodiadau parhaus ar Wcráin wedi dangos yn glir faint sydd yn y fantol o ran rhyddid a democratiaeth.

Yn ôl Mynegai Rhyddid diweddaraf Gwasg y Byd, mae newyddiaduraeth bellach wedi'i hatal yn llwyr neu'n rhannol mewn dros 70% o'r 180 o wledydd a ystyrir ganddo. Dengys ymchwil gan Freedom House mai dim ond tua 20% o bobl sy'n byw mewn gwledydd yr ystyrir eu bod yn wledydd rhydd erbyn hyn, sydd wedi haneru dros y degawd diwethaf.

Yn y cyd-destun hwn, mae'r hyn y mae'r BBC yn ei gynnig yn unigryw. Darpariaeth newyddion lleol, cenedlaethol a rhyngwladol heb ei hail. Ymrwymiad sylfaenol i adrodd heb ofn, ffafriaeth, buddiannau gwleidyddol na masnachol, gan gyrraedd y safonau newyddiadurol uchaf. Dyma'r rheswm pam mai'r BBC yw'r brand newyddion yr ymddiriedir ynddo fwyaf yn y DU o hyd, ac un o'r rhai yr ymddiriedir ynddynt fwyaf ledled y byd.

Heddiw, mae wyth o bob deg oedolyn yn y DU yn defnyddio gwasanaethau BBC News bob wythnos ar gyfartaledd. Mae'r ffaith bod ein timau wedi ennill 11 o wobrau Newyddiaduraeth Teledu RTS y flwyddyn hon ar draws adroddiadau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol – gan gynnwys ein darllediadau o'r rhyfel yn Wcráin a 'Chyfweliad y Flwyddyn' ar gyfer cyfweliad unigryw Steve Rosenberg ag Arlywydd Lukashenko o Felarws – yn destament i'n hymrwymiad i ansawdd.

Yn y cyfamser, cafodd wyth cyflwynydd Radio Lleol y BBC eu cydnabod yng ngwobrau cenedlaethol Urdd y Wasg Ddarlledu am eu cyfres fythgofiadwy o gyfweliadau â Lizz Truss yn ystod ei chyfnod fel Prif Weinidog.

Y flwyddyn hon, gwnaethom gynyddu ein hymrwymiad i ddarparu newyddion dibynadwy drwy barhau i roi ein cynllun didueddrwydd cynhwysfawr ar waith, gan gynnwys ein hadolygiad thematig cyntaf o'n sylw i faterion economaidd. Gwnaethom hefyd lansio adolygiad annibynnol o'n canllawiau ar y cyfryngau cymdeithasol i weithwyr llawrydd. Rydym yn deall y craffu a'r dadlau ynghylch y mater hwn yn yr amgylchedd ar-lein llawn emosiwn sydd ohoni. Rydym am wneud yn siŵr bod ein canllawiau yn glir, yn gymesur ac yn briodol, nawr ac yn y dyfodol.

Gwyddom fod yn rhaid i ni ennyn ymddiriedaeth yn y BBC bob dydd. Felly, rydym wedi gweithio'n galetach nag erioed i wneud ein prosesau'n dryloyw ac i ddangos mwy o'r gwaith sy'n cael ei wneud y tu ôl i lenni ein newyddiaduraeth i'n cynulleidfaoedd. Yn fwyaf diweddar, rydym wedi lansio BBC Verify – gweithrediad arbenigol iawn sydd wrth wraidd ein hystafell newyddion a fydd yn cynyddu dealltwriaeth o'r ffordd rydym yn dod o hyd i'r gwirionedd drwy ddangos i gynulleidfaoedd sut rydym yn trechu twyllwbyodaeth ac yn dilysu ein hadroddiadau.

Adolygiad y Cyfarwyddwr Cyffredinol parhad

“Erys yr her yn fawr, ond mae'r flwyddyn hon wedi dangos pa mor gryf y gallwn gyflwyno'r achos dros ragoriaeth greadigol barhaus y BBC a'i werth unigryw i gynulleidfaedd Prydain.”

Tim Davie, Cyfarwyddwr Cyffredinol

Ein hail flaenoriaeth yw cynnig cynnwys o'r radd flaenaf ar draws pob genre. Mae hyn yn golygu adrodd straeon o'r ansawdd uchaf sy'n unigryw i Brydain, sy'n adlewyrchu, yn cynrychioli ac yn portreadu cymunedau amrywiol niferus y DU. Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, codwyd cwestiynau gwirioneddol am allu eiddo deallusol a berchenogir yn y DU a chreadigrwydd lleol i ffynnu yn wyneb y cwmnïau byd-eang anferth a'u cyllidebau enfawr. Mae llawer wedi cwestiynu a fyddai darlledwyr cyhoeddus yn gallu goroesi hyd yn oed, heb sôn am lwyddo.

Erys yr her yn fawr, ond mae'r flwyddyn hon wedi dangos pa mor gryf y gallwn gyflwyno'r achos dros ragoriaeth greadigol barhaus y BBC a'i werth unigryw i gynulleidfaedd Prydain (gweler tudalennau 13–49).

Rydym wedi denu cynulleidfaedd anferth ar gyfer rhaglenni poblogaidd sy'n unigryw i Brydain ym mhob genre, fel *Happy Valley*, *Wild Isles*, *Ghosts* a *The Traitors*. Rydym wedi gweld straeon gwych o bob cwr o'r DU mewn dramâu fel *Blue Lights*, *Hidden*, *Sherwood* a *Guilt*. Rydym wedi adrodd straeon pwysig drwy raglenni fel *Frozen Planet II*, *Inside Our Autistic Minds*, *The Coming Storm* a *You, Me and the Big C*.

Nid dim ond cynulleidfaedd sydd wedi cydnabod rhagoriaeth greadigol y BBC, ond y diwydiant hefyd. Y flwyddyn hon enillwyd 13 o Wobrau Teledu Bafta ar gyfer rhaglenni yn amrywio o *This is Going to Hurt* a *The Real Mo'Nique* i *Am I Being Unreasonable?* a *The Repair Shop: A Royal Visit*. Enillwyd 18 o Wobrau Aur yng Ngwobrau'r Diwydiant Sain a Radio hefyd, gan gynnwys gwobrau am y rhaglen lafar amser brecwast orau ar gyfer 5 Live, y rhaglen gerddoriaeth amser brecwast orau ar gyfer 1Xtra, y ddrama sain orau ar gyfer *Dear Harry Kane* a 'Gorsaf y Flwyddyn' ar gyfer Radio 4.

Wrth gwrs, roedd hon yn flwyddyn pan welwyd miliynau yn heidio i'r BBC ar gyfer digwyddiadau dathlu a choffâu cenedlaethol heb eu hail, o Rownd Derfynol Ewros y Menywod, y Jiwbilî Blatinwm i angladd Ei Mawrhydi y Frenhines Elizabeth II.

Yn fwyaf diweddar, roeddwn yn eithriadol o falch o'r ffordd yr aeth timau'r BBC ati i ateb yr her o gynnal dau o ddiwyddiadau darlledu byw mwyaf y byd mewn un wythnos, sef Coroni Brenin Charles III a chystadleuaeth fythgofiadwy yr Eurovision, a gynhaliwyd yn Lerpwl ar ran Wcráin. Mae'n dangos gallu creadigol a thechnegol eithriadol y bobl rydym yn parhau i'w denu i'r BBC, yn ogystal â'r gallu blaenllaw ledled y DU na ddylem fyth ei gymryd yn ganiataol.

Ein trydedd flaenoriaeth yw cynnig mwy o werth i gynulleidfaedd ar-lein. Gwyddom y bydd llwyddiant ein gwasanaethau ar-lein yn y blynyddoedd i ddod yn diffinio llwyddiant y BBC. Felly, rydym wedi bod yn gweithio'n galetach nag erioed i wneud yn siŵr ein bod yn darparu cynhyrchion digidol o'r radd flaenaf.

Y flwyddyn ddiwethaf oedd blwyddyn orau iPlayer, gyda rhaglenni'n cael eu ffrydio 7.3 biliwn o weithiau, sef y nifer uchaf erioed – i fyny 11% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol – gan olygu bod nifer yr achosion o ffrydio ar iPlayer wedi mwy na dyblu dros y pedair blynedd diwethaf.

Yn 2022, dywedodd tua thri chwarter o'r cyhoedd eu bod wedi defnyddio iPlayer, a chafwyd dechrau cryfach i 2023 nag unrhyw flwyddyn arall. Cafodd cynulleidfaedd eu denu i ddramâu newydd sbon o Brydain fel *SAS Rogue Heroes* a *The Gold*, a gwelwyd niferoedd enfawr o bobl yn heidio i iPlayer ar gyfer cyfresi hirddisgwyliedig newydd o *Happy Valley* a *Waterloo Road* – gyda *Happy Valley* yn cael ei ffrydio 110 miliwn o weithiau yn ystod tri mis cyntaf 2023, sy'n ffigur anhygoel.

Bu hefyd yn flwyddyn lwyddiannus i BBC Sounds, gyda 1.64 biliwn o eitemau o radio, cerddoriaeth a phodlediadau yn cael eu chwarae – i fyny 7% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae Sounds yn ein galluogi i ymestyn ein hymrwymiad craidd i radio a sicrhau ei fod yn cyflawni hyd yn oed mwy ar gyfer cynulleidfaedd yn yr oes ddiigidol, gan estyn cyrhaeddiad a pherthnasedd yr hyn a wnawn.

Ein rhaglenni byw mwyaf poblogaidd yw ein rhaglenni ar alwad mwyaf poblogaidd hefyd, fel *The Archers* a *Desert Island Discs*. Mae ein podlediadau mwyaf poblogaidd yn cynrychioli traddodiadau gorau Radio'r BBC: *News* cast yw un o'n podlediadau mwyaf poblogaidd yn gyson. Mae *Ukraine* cast, *Putin* a *Disaster Trolls* wedi'u gwreiddio'n ddwfn yn newyddiadau ymchwiladol ragorol y BBC. Mae podlediad *Sliced Bread* yn boblogaidd o ran materion defnyddwyr fel *You and Yours*.

Roedd BBC News Online ar y trywydd cywir i gyflawni ei dargedau y flwyddyn hon, gan gyrraedd un o bob tri oedolyn yn y DU bob wythnos ar gyfartaledd. Mae llwyddiant tudalennau byw BBC News yn dangos pa mor gyflym y mae arferion pobl yn newid mewn perthynas â newyddion. Dyblodd nifer yr ymweliadau â thudalennau byw y flwyddyn ddiwethaf, gyda defnyddwyr yn chwilio am ddiweddariadau am straeon a oedd yn datblygu'n gyflym.



Sarah Lancashire yn *Happy Valley*

Ffilmio *Avoidance*

Ein pedwaredd flaenoriaeth yw hybu ein hincwm masnachol. Mae hyn yn ganolog i'n strategaeth ar gyfer y blynyddoedd i ddod wrth i ni geisio sicrhau'r buddsoddiad a'r partneriaid i greu'r rhaglenni gorau posibl mewn marchnad gystadleuol iawn, gan sicrhau'r enillion ariannol mwyaf posibl i dalwyr ffi'r drwydded.

Y flwyddyn hon, arweiniodd BBC Studios y ffordd unwaith eto (gweler tudalennau 75–83). Cyflawnodd y gwerthiannau a'r elw mwyaf erioed, gan ragori ar £2 biliwn mewn gwerthiannau am y tro cyntaf a chyflawni EBITDA o £240 miliwn – i fyny 6%. Studios yw allforiwr cynnwys teledu mwyaf y DU o hyd, gan allforio rhaglenni fel *Dancing with the Stars* a *Frozen Planet II* – rhaglen ffeithiol fwyaf poblogaidd y DU yn 2022 – yn ogystal â chreu cynnwys eiconig ar gyfer cynulleidfaoedd gartref fel *Happy Valley* a *Platinum Party at the Palace*.

Ym mis Hydref, pwysleisiodd Studios faint ei uchelgais drwy weithio mewn partneriaeth â Disney+ fel rhan o gyfundeb dosbarthu nodedig ar gyfer *Doctor Who*. Cyhoeddodd hefyd gynlluniau i ddyblu'r busnes erbyn 2027/28. Bydd y cyfleuster dyledion cynyddol sy'n rhan o setliad ariannu diweddaraf y BBC yn helpu i ysgogi'r twf hwn, gyda'r nod o sicrhau hyd yn oed mwy o werth hirdymor am ffi'r drwydded.

Yn sail i'r holl flaenoriaethau strategol hyn y mae ein hymrwymiad i drawsnewid y BBC yn y blynyddoedd i ddod (gweler tudalennau 4–6).

Ddwy flynedd yn ôl, gwnaethom gyhoeddi ein cynllun Across the UK er mwyn symud pobl, pŵer a grym gwneud penderfyniadau'r BBC yn ddramatig i wledydd a rhanbarthau'r DU. Heddiw, gallwn nodi cynnydd sylweddol iawn tuag at gyflawni'r cynlluniau hynny, sy'n dod â ni'n agosach at gynulleidfaoedd ac yn ein galluogi i gynrychioli eu bywydau beunyddiol, ac ymateb iddynt, yn well.

Rydym ar y trywydd cywir i gyrraedd ein targed i sicrhau bod o leiaf 60% o'n gwariant ar gomisiynu teledu rhwydwaith y tu allan i Lundain erbyn 2027. Rydym wedi symud timau allweddol ar draws y DU, fel symud *Newsbeat* y BBC i Birmingham, a symud Click i Glasgow sef cartref newydd ein newyddiaduraeth technoleg. Ar ben hyn, rydym wedi sicrhau bod ein hallbwn newyddion blaenllaw wedi cael ei gyflwyno o bob rhan o'r DU gan gynnwys darllediadau rheolaidd o *Newsnight*, *Today a PM* ar draws y DU.

Rydym yn cefnogi'r sector creadigol ar draws y DU drwy fentrau fel ein buddsoddiad o £25 miliwn yng Ngogledd-ddwyrain Lloegr dros gyfnod o bum mlynedd, a arweiniodd at chwe chomisiwn newydd yn ystod y 18 mis cyntaf, ac agor hyb technoleg newydd yn Newcastle. Yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr, gwnaethom gyhoeddi cynlluniau i adleoli ein pencadlys rhanbarthol i Digbeth, yn ogystal â symud *MasterChef* a *Silent Witness* i'r rhanbarth.

Y flwyddyn ddiwethaf, gwnaethom nodi ein cynllun chwe blynedd i ymateb i symudiadau ein cynulleidfaoedd ar-lein drwy drawsnewid y BBC yn sefydliad digidol yn gyntaf.

Ers hynny, rydym wedi cyhoeddi mwy o gyllid ar gyfer newyddion digidol lleol a newyddiaduraeth ymchwiladol ar draws y DU. Rydym wedi creu un sianel newyddion teledu 24 awr gyda'r nod o greu'r newyddion byw a'r newyddion sy'n digwydd ar y pryd gorau ar y teledu ac ar lwyfannau digidol, y bydd mwy a mwy o gynulleidfaoedd yn troi atynt am newyddion. Rydym wedi nodi cynlluniau i gyflymu trawsnewidiad digidol BBC World Service.

Yn olaf, mae gennym ymrwymiad parhaus i drawsnewid y BBC drwy wneud yn siŵr ei fod yn lle gwyb i weithio. Hynny yw, sefydliad sy'n adlewyrchu'r cymunedau amrywiol y mae'n eu gwasanaethu yn llawn, gyda diwylliant cwbl gynhwysol lle y mae pobl yn gweld eu hunain yn cael eu cynrychioli, yn teimlo y gallant wneud eu gwaith gorau, ac yn ffynnu.

Y flwyddyn hon, gwnaethom sicrhau cydbwysedd rhwng y rhywiau ar draws y BBC am y tro cyntaf, ac ysgogi cynnydd tuag at gyflawni gweddill ein huchelgeisiau 50:20:12:25 – gan ddatblygu sefydliad lle ceir cydbwysedd rhwng y rhywiau, gydag o leiaf 20% o staff du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol ac o leiaf 12% o staff anabl, yn ogystal ag o leiaf 25% o staff o gefndir economaidd-gymdeithasol is.

Gwnaethom benodi mwy na 100 o brentisiaid ychwanegol yn erbyn ein nod o gyrraedd 1,000 erbyn 2025, a gwnaethom gyflwyno pecyn cymorth cyflogi newydd gyda fframwaith cyfweiliadau sy'n canolbwyntio ar botensial yn ogystal â phrofiad.

Gall y BBC nodi hanes gwyb o arbedion ac effeithlonrwydd, a'r flwyddyn hon, rydym wedi cynnal ein cyfradd gorbenion o 5%, sef y gyfradd orau yn y diwydiant. Ac rydym yn parhau i wneud cynnydd tuag at gyrraedd ein nod o fod yn sefydliad sero net erbyn 2030/31, gyda thargedau sy'n seiliedig ar wyddoniaeth ar waith i leihau ein hallyriadau.

Mae'r adroddiad hwn yn dangos ein bod yn newid yn gyflym ac yn cyflawni'n gryf yn erbyn ein strategaeth i sicrhau gwerth i bawb. Mae'r cynnydd hwnnw wedi'i gefnogi a'i lywio dros y ddwy flynedd ddiwethaf gan Richard Sharp, sydd, yn ystod ei gyfnod fel Cadeirydd, wedi eirioli dros gynulleidfaoedd y BBC yn y DU a ledled y byd. Hoffwn ddiolch iddo am ei gefnogaeth a'i arweinyddiaeth ers 2021 ac edrychaf ymlaen at weithio gydag Elan Closs Stephens ar gam nesaf y gwaith rydym wedi'i ddechrau gyda'n gilydd.

Mae'r hyn rydym am ei gyflawni yn arbennig ac yn unigryw, ac yn rhywbeth nad yw erioed wedi'i wneud o'r blaen. Rydym yn ceisio creu sefydliad cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus digidol byd-eang cyntaf y byd, ac i sicrhau'r holl fuddiannau y gall hwnnw ei gynnig i bobl Prydain a'r DU yn gyffredinol dros y blynyddoedd i ddod.

Tim Davie CBE
Cyfarwyddwr Cyffredinol
27 Mehefin 2023

CYFLAWNI EIN CYLCH GWAITH CREADIGOL

Mae dibenion cyhoeddus y BBC wedi'u cynnwys yn y Siarter Frenhinol a'r Cytundeb. Maent wrth wraidd popeth a wnawn.

Cenhadaeth y BBC, a nodir yn ein Siarter Frenhinol, yw "gweithredu er budd y cyhoedd, gan wasanaethu pob cynulleidfa drwy ddarparu allbwn diduedd, nodedig o ansawdd uchel sy'n hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu." Mae pum diben cyhoeddus y BBC hefyd wedi'u cynnwys yn ein Siarter Frenhinol. Mae'r rhain yn amlinellu'r canlyniadau rydym am eu creu wrth geisio cyflawni ein cenhadaeth ac maent yn rhoi fframwaith clir ar gyfer ein dwyn i gyfrif.

Dros y tudalennau nesaf, rydym yn nodi ein perfformiad wrth gyflawni ein dibenion, a gellir dod o hyd i adroddiadau manylach ar ein hymrwymadau a'n cwotâu rheoleidiol o dudalen 130 ac yn bbc.co.uk/aboutthebbc/documents/domap-2022-23.pdf.

Y ffordd sicraf o wneud yn siŵr ein bod yn cyflawni'r genhadaeth a'r dibenion yw drwy ddarparu gwasanaeth gwerthfawr a nodedig y mae pobl yn y DU yn dewis ei ddefnyddio. Yn 2022/23, ar gyfartaledd, defnyddiodd 88% o oedolion a 76% o oedolion ifanc y BBC bob wythnos yn gyffredinol – mwy nag unrhyw

79%

% yr oedolion yn y DU sy'n dweud bod rhaglenni/cynnwys/gwasanaethau'r BBC yn bwysig i bobl yn y DU (ddim yn bwysig: 9%).

Ffynhonnell Ipsos UK 16+ oed

69%

^{21/22}
68%

% yr oedolion yn y DU sy'n dweud bod y BBC yn effeithiol wrth eu hysbysu, eu haddysgu a'u diddanu nhw eu hunain a phobl yn y DU (aneffeithiol: 13%. 21/22: 14%).

Ffynhonnell Ipsos UK 16+ oed

79%

% yr oedolion yn y DU sydd o'r farn bod y BBC yn darparu gwasanaeth cyhoeddus gwerthfawr i bobl yn y DU (ddim yn werthfawr: 18%).

Ffynhonnell Ipsos UK 16+ oed

frand arall ar gyfer y cyfryngau. Ymhlith pobl ifanc dan 16 oed – gyda chyrrhaeddiad wythnosol cyfartalog o 72% – y BBC yw'r unig ddarparwr o'r DU ymysg y pum brand a ddefnyddir fwyaf ar gyfer y cyfryngau.

Ceir cefnogaeth barhaus ymhlith y cyhoedd i'r BBC. Dywed wyth o bob deg oedolyn yn y DU ei bod yn bwysig bod y BBC yn darparu rhaglenni, cynnwys a gwasanaethau sy'n hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu (mae un o bob deg o'r farn nad yw'n bwysig), ac yn cyflawni'r dibenion.

Bob blwyddyn, mae Ipsos MORI yn cynnal arolwg o'r cyhoedd yn y DU er mwyn canfod a ydynt o'r farn ein bod yn cyflawni ein cenhadaeth a'r dibenion. Y flwyddyn hon, roedd 69% o oedolion yn y DU o'r farn bod y BBC yn effeithiol wrth gyflawni'r genhadaeth (mae 13% o'r farn ei fod yn aneffeithiol),* gan barhau'n gyson ar ffigur ar gyfer 2021/22, sef 68% (mae 14% o'r farn ei fod yn aneffeithiol). Mewn cartrefi sy'n talu ffi'r drwydded, dywedodd 70% fod y BBC yn cyflawni ei genhadaeth yn effeithiol (mae 12% o'r farn ei fod yn aneffeithiol).


Ym mhob grŵp cynulleidfa, ni waeth beth fo'i oedran, rhywedd, gradd gymdeithasol, tarddiad ethnig neu ddaeryddiaeth, mae'r nifer mwyaf o bobl yn parhau i deimlo ein bod wedi cyflawni'r genhadaeth a'r dibenion. Fel y gwelwyd mewn blynyddoedd blaenorol, mae'r sgorau uchaf yn rhai ar gyfer helpu pobl i ddeall beth sy'n digwydd yn y DU a'r byd, ac ar gyfer ansawdd cynnwys a gwasanaethau. Rydym yn parhau i geisio gwella rhai sgorau, yn enwedig o ran canfyddiadau o ddiueddrwydd, a'r gwahaniaethau rydym am eu lleihau, yn enwedig o ran pa mor dda rydym yn adlewyrchu pobl wahanol a rhannau gwahanol o'r DU.

Ein nod yw cynnig gwerth ardderchog i bawb. Mae ein cenhadaeth a'n dibenion cyhoeddus yn llywio ein gwaith, ac ar y tudalennau canlynol, rydym yn nodi'n fanwl yr hyn rydym wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i sicrhau'r gwerth hwnnw.


* Ipsos UK, 4,090 o oedolion 16+ oed yn y DU, Chwefror-Ebrill 2023 Sgôr gyfartalog ar gyfer eu hysbysu, eu haddysgu a'u diddanu nhw eu hunain a phobl yn y DU

Y pum brand a ddefnyddiwyd fwyaf ar gyfer y cyfryngau yn 2022/23. Cyrhaeddiad wythnosol cyfartalog


O dan 16 oed




16-34 oed



35-54 oed



55+ oed



Ffynhonnell Compass gan Ipsos UK, yn seiliedig ar gyrrhaeddiad wythnosol cyfartalog cronodig 15 munud (ar y llwyfan), Kids Cross-Media Insight gan Ipsos UK

1

Darparu newyddion a gwybodaeth ddiuedd er mwyn helpu pobl i ddeall ac ymgysylltu â'r byd o'u hamgylch



Darllenwch fwy ar **dudalennau 15-17**

2

Cynorthwyo pobl o bob oedran i ddysgu



Darllenwch fwy ar **dudalennau 19-21**

3

Dangos yr allbwn a'r gwasanaethau mwyaf creadigol a nodedig, o'r ansawdd gorau



Darllenwch fwy ar **dudalennau 23-27**

4

Adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol holl wledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig ac, wrth wneud hynny, gefnogi'r economi greadigol ledled y Deyrnas Unedig



Darllenwch fwy ar **dudalennau 29-37**

5

Adlewyrchu'r Deyrnas Unedig, ei diwylliant a'i gwerthoedd i'r byd



Darllenwch fwy ar **dudalennau 39-41**





DARPARU NEWYDDION A GWYBODAETH DDIDUEDD ER MWYN HELPU POBL I DDEALL AC YMGYSYLLTU Â'R BYD O'U HAMGYLCH

Mae'r tudalennau hyn yn dangos y ffyrdd y cyflawnodd y BBC ei rwymedigaeth i ddarparu newyddion a gwybodaeth ddiuedd dros y flwyddyn ddiwethaf.

95%

% yr oedolion (16+oed) yn y DU a ddefnyddiodd wasanaethau'r BBC yn ystod y cyfnod rhwng cyhoeddi marwolaeth EM y Frenhines EM a'i hangladd 11 diwrnod yn ddiweddarach

Ffynhonnell: Compass gan Ipsos UK 16+

Mae'r BBC yn darparu lefel heb ei hail o newyddion a materion cyfoes lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol. Ni yw'r ffynhonnell newyddion yr ymddiriedir ynddi fwyaf yn y DU o hyd, ac mae gennym ran bwysig i'w chwarae wrth helpu i drechu'r dwyllwbyodaeth sydd mor gyffredin erbyn hyn yn ein trafodaethau cenedlaethol a rhyngwladol.

Mae BBC News yn parhau i fod ymhell ar y blaen i unrhyw ddarparwr newyddion arall pan ofynnir i gynulleidfaoedd ddewis yr un ffynhonnell y maent fwyaf tebygol o droi ati am newyddion diduedd a chywir y gellir ymddiried ynddo (gweler tudalennau 16-17). Rydym yn parhau i geisio cynnal hyn yn y cyfnod mwy arwahanol hwn.

Tynnwyd sylw at bwysigrwydd yr hyn a wnawn i sicrhau bod pawb yn cael newyddion a gwybodaeth y gallant ymddiried ynddynt dro ar ôl tro y flwyddyn hon. Trodd cyfanswm o 95% o'r DU at y BBC yn ystod y cyfnod rhwng cyhoeddi marwolaeth Ei Mawrhydi y Frenhines Elizabeth II a'i hangladd. Mae cynulleidfaoedd yn eu miliynau, gartref a ledled y byd, wedi dibynnu ar ein darllediadau o ddigwyddiadau byd-eang pwysig fel yr ymosodiadau ar Wcráin a'r sefyllfa yn Iran. Ar y lefel leol, bwletin newyddion y BBC am 18:30 yw rhaglen newyddion teledu fwyaf poblogaidd y DU o hyd, sy'n rhoi sylw i'r digwyddiadau pwysicaf mewn cymunedau lleol ar draws y DU.

Darparu newyddion a gwybodaeth ddiuedd er mwyn helpu pobl i ddeall ac ymgysylltu â'r byd o'u hamgylch



Sunday with Laura Kuenssberg



Marwolaeth EM y Frenhines

Mae'r BBC yn dwyn y DU ynghyd ar adegau pwysig yn ein hanes, a gwelwyd hyn yn ystod y cyfnod o alaru am y Frenhines Elizabeth II. Cyflawnodd Huw Edwards dasg ddifrifol a phwysig wrth iddo dorri'r newyddion am farwolaeth Ei Mawrhydi i'r DU, ac i gynulleidfa oedd byd-eang y BBC. Roedd ffrwd byw BBC News o'r gorwedd diwydiannol yn Neuadd San Steffan yn fodd i bobl na allai fod yno'n bersonol rannu'r profiad, gan ddenu mwy na 25 miliwn o wylwyr, a gwelwyd mwy na 21,000 o bobl yn rhannu eu straeon ar y dudalen fyw ar-lein ar gyfer teyrngedau i'r Frenhines.

8/10 21/22
8/10

Cyrhaeddiad Newyddion y BBC
Nifer yr oedolion yn y DU sy'n defnyddio gwasanaethau BBC News bob wythnos ar gyfartaledd.

Ffynhonnell Compass gan Ipsos UK 16+


87%

% yr oedolion yn y DU sydd o'r farn ei bod yn bwysig bod y BBC yn darparu newyddion a gwybodaeth sy'n helpu pobl i ddeall yr hyn sy'n digwydd yn y DU a'r byd (mae 8% o'r farn nad yw'n bwysig).


Ffynhonnell Ipsos UK 16+

O blith yr holl ffynonellau newyddion (teledu, radio, papurau newydd, cylchgronau, gwefannau, apiau neu'r cyfryngau cymdeithasol) pa ffynhonnell rydych fwyaf tebygol o'i defnyddio...


...ar gyfer y newyddion rydych yn ymddiried ynddo fwyaf



...os ydych am gael newyddion diduedd




...os ydych am gael newyddion cywir



Ffynhonnell Ipsos UK, 953 o oedolion 18+ sy'n dilyn y newyddion, Mawrth 2023


Y ffynonellau newyddion yr ymddiriedir ynddynt fwyaf yn ôl eu defnyddwyr

I ba raddau ydych chi'n ymddiried yn ... fel ffynhonnell newyddion?
(Graddfa 1 = ddim yn ymddiried ynddi o gwbl; 10 = yn ymddiried ynddi'n fawr iawn) Nifer y defnyddwyr a roddodd sgôr o 6+/10 (miliynau)



Y ffynonellau newyddion mwyaf diduedd yn ôl eu defnyddwyr

Pa mor rhagfarnlyd neu ddiuedd yw'r ffynhonnell newyddion hon, yn eich barn chi?
(Graddfa 1 = rhagfarnlyd iawn; 10 = diduedd iawn) Nifer y defnyddwyr a roddodd sgôr o 6+/10 (miliynau)



Ffynhonnell Ipsos UK, defnyddwyr fesul darparwr o sampl cynrychioliadol cenedlaethol o 1,031 o oedolion 18+ oed yn y DU, Mawrth 2023 % y sgoriau 6+/10 wedi'u troi'n ffigur poblogaeth cyfatebol. Ffigurau poblogaeth gan ONS Cyfrifiadau'r BBC



Tryloywder

Mae Prif Swyddog Gweithredol newydd BBC News, Deborah Turness, wedi addo gwneud newyddiaduraeth y BBC yn fwy tryloyw i gynulleidfaoedd, gyda gohebwy'r esbonio'r prosesau ffrensig a ddefnyddir ar gyfer dod o hyd i ffeithiau, eu gwirio a'u cadarnhau. Rydym newydd lansio BBC Verify, sef tîm sydd wedi'i neilltuo'n benodol i'r dasg hon, ond hyd yn oed cyn hyn, roedd newyddiadurwyr yn codi'r llen ar eu gwaith. Ymhlith yr enghreifftiau nodedig mae'r golygydd gwleidyddol Chris Mason yn derbyn galwad o Downing Stryd ar yr awyr yn cadarnhau ymddiswyddiad y Prif Weinidog, staff BBC Persian yn esbonio sut y caiff fideos o brotestiadau yn Iran eu dilysu, a'r gyfres *Behind The Stories* ar iPlayer lle y gwelir newyddiadurwyr yn siarad am eu profiadau o adrodd ar rai o'u straeon pwysicaf.



Tudalennau byw

Mae'r ffordd y mae pobl yn cael newyddion yn newid, ac nid oes gwell enghraifft o hyn na llwyddiant tudalennau byw BBC News ar-lein. Mae nifer yr ymweliadau â'r tudalennau hyn, sy'n rhoi diweddariadau ar straeon sy'n datblygu'n gyflym, yn cynyddu'n gyflym, ac maent yn denu cynulleidfaoedd iau na'r cyfartaledd ar draws tudalennau cynnwys BBC News. Dyblodd nifer yr ymweliadau â thudalennau byw rhwng 2021 a 2022, gyda 5.7 miliwn o ymweliadau bob dydd yn 2022 ar gyfartaledd. Rydym yn adeiladu ar y llwyddiant hwn drwy gynyddu'r tîm newyddion byw a newyddion sy'n digwydd ar y pryd er mwyn cyflwyno mwy o ffrydiau byw un stori ar gyfer y wefan a sianel newyddion y BBC.



Newscast

Newscast, sy'n helpu pobl i ddeall y penawdau, oedd un o'r podlediadau mwyaf poblogaidd ar BBC Sounds o hyd, a chyfweliadau Radio Lleol y BBC â Liz Truss oedd y bennod y gwrandawyd arni fwyaf erioed.

61% ^{21/22} **63%**

% yr oedolion yn y DU sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol wrth ddarparu newyddion a materion cyfoes sy'n ddibynadwy (aneffeithiol: 19%. 21/22: 20%).
Ffynhonnell Ipsos UK 16+

50% ^{21/22} **51%**

% yr oedolion yn y DU sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol wrth ddarparu newyddion a materion cyfoes sy'n ddiuedd (aneffeithiol 26%. 21/22: 25%).
Ffynhonnell Ipsos UK 16+

62% ^{21/22} **63%**

% yr oedolion yn y DU sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol wrth ddarparu newyddion a materion cyfoes sy'n gywir (aneffeithiol 18%. 21/22: 18%).
Ffynhonnell Ipsos UK 16+ oed



Newyddion rhanbarthol y BBC

Mae ein rhaglenni newyddion teledu rhanbarthol yn parhau i fod yn rhan allweddol o arferion gwyllo dyddiol ein cynulleidfaoedd ledled Lloegr. Bwletin 6:30pm yw rhaglen newyddion fwyaf poblogaidd y DU o hyd, gyda chynulleidfya gyfartalog o 4 miliwn yn 2022, ac ers dechrau 2023, mae'r holl raglenni wedi bod ar gael ar BBC One HD. Symudodd rhai o wasanaethau a thimau stori mwyaf adnabyddus BBC News – gan gynnwys *Newsbeat* a *Click* – ar draws y DU i leoliadau gan gynnwys Birmingham, Caerdydd a Glasgow, ac mae rhaglenni fel *Newsnight*, *Today*, *News at Six* a *News at Ten* hefyd wedi cael eu cyflwyno o leoliadau gwahanol yn y DU yn ystod y flwyddyn.



Studio B / News At Ten

Y flwyddyn hon, cyflwynodd y BBC gartref newydd ei brif fwletinau newyddion gyda stiwdio wedi'i hwuchraddio, y prosiect ailwampio cyntaf o'i fath yng nghanol Llundain ers degawd. Mae Studio B yn cynnwys llwyfan grom enfawr, camerâu robotig, a llu o sgriniau rhyngweithiol, er mwyn galluogi cyflwynwyr a gohebwy'r i adrodd eu straeon mewn ffordd fwy creadigol. O'r stiwdio hon y darlledir *News at Six* a *News at Ten*, yn ogystal â bwletinau rhanbarthol Llundain, a gellir ei haddasu at ddibenion gwahanol i'w defnyddio ar gyfer digwyddiadau mawr fel etholiadau, gan arbed arian yn yr hirdymor. Enillodd *News at Ten* wobwr Rhaglen Newyddion Dyddiol Rhwydwaith y Flwyddyn RTS.



Newsbeat yn symud i Birmingham

t.141 Am y rhestr lawn o wybodaeth ystadegol ar Ddiben Cyhoeddus 1

Cyflawni ein cylch gwaith creadigol
Diben cyhoeddus 2





CYNORTHWYO POBL O BOB OEDRAN I DDYSGU

Mae'r tudalennau canlynol yn dangos ehangder y cynnwys y mae'r BBC yn ei ddarparu i gynorthwyo pobl o bob oedran i ddysgu.

Rhif 1

Mae'r cyhoedd yn y DU yn treulio mwy o amser yn gwyllo rhaglennu ffeithiol gan y BBC nag unrhyw ddarparwr arall.

Ffynhonnell BARB fel y'i gwylwyd Pob dyfais

Mae addysg wedi bod yn rhan o DNA y BBC erioed. Y flwyddyn hon, mae ein cenhadaeth addysg a dysgu wedi parhau i gefnogi myfyrwyr, athrawon a rhieni sy'n dal i wynebu heriau addysgol pandemig COVID-19.

Roedd ein casgliad BBC Bitesize Reception yn ymateb uniongyrchol i adborth ar ôl y pandemig a gafodd tîm Bitesize, wedi'i gynllunio i gynnig mwy o gymorth ar gyfer dysgu'r blynyddoedd cynnar. Ar y cyfan, y flwyddyn hon, defnyddiodd 65% o ddisgyblion ysgol gynradd wasanaeth addysgol BBC Bitesize, ynghyd â 77% o ddisgyblion ysgol uwchradd. Dywed 85% o blant dan 16 oed sy'n defnyddio Bitesize ei fod yn eu helpu i ddeall eu hastudiaethau'n well, a dywed 64% o ddefnyddwyr ysgol uwchradd ei fod yn eu helpu i ennill graddau gwell (gweler tudalen 21).

Yn y cyfamser, mae ein cynllun Gohebydd Ifanc y BBC yn parhau i gefnogi pobl ifanc 11-18 oed ar draws y DU drwy hyrwyddo sgiliau llythrennedd newyddion a'r cyfryngau.

Mae arlwy addysg a dysgu'r BBC yn parhau i gyrraedd ymhell y tu hwnt i Bitesize a'n ffocws ar y rheini yn yr ysgol. Nid oes gan yr un darlledwr arall gynnwys ffeithiol mor eithriadol o eang, gyda saith o'r deg rhaglen ffeithiol fwyaf poblogaidd y flwyddyn ddiwethaf gan y BBC. Ein nod yw helpu pobl, ni waeth eu hoedran, i gyflawni eu potensial llawn drwy gynnwys a gwasanaethau addysgol, a chyfleoedd i gymryd rhan, a roddir iddynt gan y BBC, partneriaid a'i gilydd.

Cynorthwyo pobl o bob oedran i ddysgu



Tîm o hysgwn yn gorffwys yn *Frozen Planet II*

Mae arlwy addysg a dysgu'r BBC yn parhau i gyrraedd ymhell y tu hwnt i Bitesize a'n ffocws ar y rheini sydd yn ysgol. Nid oes gan unrhyw ddarlledwr arall gynnwys ffeithiol mor eithriadol o eang, gyda saith o'r deg rhaglen ffeithiol fwyaf poblogaidd y flwyddyn ddiwethaf gan y BBC.



Frozen Planet II

Roedd *Frozen Planet II* – a gyflwynwyd gan Syr David Attenborough ac a gynhyrchwyd gan Uned Hanes Naturiol BBC Studios – yn archwilio bywyd yn rhanbarthau oeraf y byd. Roedd y gyfres chwe rhan hon yn defnyddio'r dechnoleg camera ddiweddaraf, a gan dynnu sylw at ymddygiadau newydd anifeiliaid a golygfeydd naturiol godidog, datgelodd wir effaith tymereddau sy'n codi ar fywyd gwyllt a phobl. Cafodd ganmoliaeth fawr, a dywedodd yr Observer, "to watch this astounding, harrowing, crisply beautiful documentary is to appreciate all there is to lose." Gwyliwyd y bennod gyntaf gan gynulleidfa gyfartalog o 9 miliwn o bobl, sy'n golygu mai hon oedd rhaglen Ffeithiol fwyaf poblogaidd 2022.



CBeebies Prom

Cydweithiodd CBeebies a Phroms y BBC i gynnig profiad morol hudolus i blant ifanc gan gynnwys caneuon thema CBeebies, cerddoriaeth gerddorfaol, ffilmiau ac animeiddiadau. Mewn perfformiad arbennig gan Gerddorfeydd y BBC a Cherddorfa Ulster, crëwyd *CBeebies: Ocean Adventure Prom* ar gyfer tymor Proms y BBC 2022 yn y Royal Albert Hall cyn teithio i leoliadau gan gynnwys Northampton, Glasgow, Saffron Walden, Belfast, Derry/Londonderry, Blackburn a Sheffield, gan roi cyfle i blant ar draws y DU brofi cerddoriaeth glasurol fyw gyda cherddorfeydd o'r radd flaenaf.



Other Side of the Story

Partneriaeth ymgyrch llythrennedd y cyfryngau rhwng BBC Bitesize a BBC News yw OSOTS, a'i nod yw cyflwyno'r newyddion i bobl ifanc yn eu harddegau drwy gymysgedd o dalent y gellir uniaethu ag ef a straeon sy'n ennyn eu diddordeb – popeth o AI, i Wcráin a *Strictly*.

Mae'r ymgyrch yn mynd i'r afael yn uniongyrchol â chamwybodaeth a thwyllwybodaeth ar lwyfannau cymdeithasol, drwy gynnwys 'Gwir neu Anwir' sy'n chwalu mythau a thrwy esbonio'r prif faterion – o 'newyddion ffug' i 'siambrau adlais'. Mae cynnwys hefyd i helpu pobl ifanc yn eu harddegau ar eu taith greu – o gasglu newyddion i greu eu podlediad eu hunain.

Yn 2023/24, bydd y bartneriaeth yn cryfhau, gyda thîm Bitesize yn gweithio gyda BBC News i gynnwys yr hyn a ddysgwyd o'r ymgyrch i ennyn diddordeb cynulleidfaoedd ifanc gyda newyddion, a bydd y tîm Newyddion yn cefnogi ymdrechion i gyflwyno hyn yn yr ystafell ddosbarth.



CBeebies: Ocean Adventure Prom a deithiodd o amgylch y DU

72% ^{21/22} **73%**

Cyrhaeddiad ar draws y BBC ar gyfer y rhai dan 16 oed

% y rhai o dan 16 oed sy'n defnyddio teledu/iPlayer, Radio neu Wasanaethau Ar-lein y BBC bob wythnos ar gyfartaledd.

Ffynhonnell Kids Cross-Media Insight gan Ipsos UK

04:06 ^{21/22} **04:33**

Y cyfnod o amser y mae'r rhai o dan 16 oed yn ei dreulio gyda'r BBC y pen bob wythnos ar gyfartaledd (oriau:munudau).

Ffynhonnell Kids Cross-Media Insight gan Ipsos UK

59% ^{21/22} **60%**

% y rhieni sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran helpu plant a phobl ifanc yn eu harddegau gyda'u dysgu (aneffeithiol 11%. 21/22: 17%).

Ffynhonnell Ipsos UK 16+

60% ^{21/22} **61%**

% yr oedolion yn y DU sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran eu helpu i ddysgu pethau newydd (aneffeithiol 18%. 21/22: 18%).

Ffynhonnell Ipsos UK 16+

60% ^{21/22} **62%**

% yr oedolion yn y DU sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran archwilio pynciau y byddent yn gwybod llai amdanynt fel arall (aneffeithiol 16%. 21/22: 17%).

Ffynhonnell Ipsos UK 16+



BBC Bitesize Reception

Roedd y casgliad newydd hwn yn ymateb uniongyrchol i adborth ar ôl y pandemig a gafodd tîm Bitesize. Yn 2022/23, gwnaethom lansio cynnwys Mathemateg a Saesneg newydd sy'n cynnwys agweddau mwy cysniadol a ffurfiannol ar ddysgu, sy'n rhan o Fframwaith Dysgu'r Blynyddoedd Cynnar yn Lloegr. Gwnaethom fanteisio ar bŵer arbennig archarwyr CBeebies y *Numberblocks* i greu cynnwys newydd, gan gynnwys gêm newydd a gomisyndwyd *See The Amount*, a buom yn gweithio gyda ffefrynau ystafelloedd dosbarth, y *NumBots*, mewn partneriaeth arloesol â'r darparwyr cwricwlwm masnachol arloesol *Maths Circle*. Mae'r casgliadau wedi ehangu'r sylw a roddwn i'r cwricwlwm, wedi cyflwyno cynulleidfa newydd i Bitesize, ac wedi ennill y Wobr am yr Adnodd Cynradd Am Ddim Gorau yng Ngwobrau BETT 2023.



Proffiliau iPlayer plant

Gwnaethom gwblhau'r newid i alluogi plant i gael eu proffiliau eu hunain ar iPlayer, gan wneud rhagor o welliannau i ddeunydd hyrwyddo sy'n briodol i'r oedran dan sylw sy'n newid iddynt wrth iddynt dyfu. O ganlyniad, gwnaethom ddirwyn yr ap ar wahân iPlayer Kids i ben.



Rhanna dy Stori

Ymwelodd staff y BBC ac enwau mawr Teledu, Radio, Chwaraeon a Newyddion â 435,180 o fyfyrwyr mewn 742 o ysgolion ledled Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon rhwng Chwefror 2022 a Chwefror 2023 fel rhan o brosiect addysg nodedig y BBC i ddatlu ei ganmlwyddiant, BBC 100 Rhanna dy Stori. Chwalodd y daith y targed o gyrraedd 400,000 o fyfyrwyr ac roedd wedi'i chynllunio i ysbrydoli pobl ifanc ynghylch gyrfaedd yn y diwydiannau creadigol, i gyflawni eu nodau a helpu i wireddu eu huchelgeisiau.



BBC Reith Lectures 2022: The Four Freedoms

Ym mlwyddyn canmlwyddiant y BBC, cyflwynwyd *Reith Lectures* Radio 4 gan bedwar meddyliwr arobryn: Chimamanda Ngozi Adichie, Yr Arglwydd Rowan Williams, Darren McGarvey a Dr Fiona Hill. Aeth pob un ohonynt ati i archwilio un o'r themâu o arith enwog Frankin D Roosevelt yn 1941 ar y Pedawr Rhyddid: rhyddid barn, rhyddid i addoli, rhyddid rhag eisiau a rhyddid rhag ofn. Cadeiriwyd y darlithoedd gan Anita Anand o flaen cynulleidfaoedd byw yn Llundain, Glasgow, Cymru a Washington DC.



t.142 Amy rhestr lawn o wybodaeth ystadegol ar Ddiben Cyhoeddus 2

BBC Bitesize

65% ^{21/22} **64%**

Disgyblion cynradd

% y disgyblion ysgol gynradd sy'n defnyddio Bitesize.

Ffynhonnell DJS

77% ^{21/22} **75%**

Disgyblion uwchradd

% y disgyblion ysgol uwchradd sy'n defnyddio Bitesize.

Ffynhonnell DJS

85% ^{21/22} **82%**

% y defnyddwyr o dan 16 oed sy'n dweud bod Bitesize yn eu helpu i ddeall eu hastudiaethau/dysgu yn well.

Ffynhonnell DJS

64% ^{21/22} **65%**

% y defnyddwyr ysgol uwchradd sy'n dweud bod Bitesize yn eu helpu i gael graddau gwell.

Ffynhonnell DJS

1.5m ^{21/22} **1.8m**

Porwyr unigryw

Nifer y porwyr unigryw yn y DU ar gyfartaledd sy'n defnyddio Bitesize bob wythnos ar gyfartaledd.

Ffynhonnell Piano Analytics

Am y tro cyntaf i CBeebies, defnyddiodd Rose Ayling-Ellis iaith arwyddion wrth roi *Bedtime Story*



Cyflawni ein cylch gwaith creadigol
Diben cyhoeddus 3





DANGOS YR ALLBWN A'R GWASANAETHAU MWYAF CREADIGOL A NODEDIG, O'R ANSAWDD GORAU

Mae'r tudalennau hyn yn rhoi enghreifftiau o'r amrywiaeth o gynnwys creadigol a nodedig, o'r ansawdd gorau a gynhyrchwyd ar draws y BBC y flwyddyn ddiwethaf.

150+

nifer y gwobrau a enillwyd gan y BBC yn 2022/23 ar draws pob genre mewn teledu a radio

Rôl y BBC yw cynnig gwerth gwyh i bawb drwy gynnal y safonau cynhyrchu a golygu uchaf ar draws yr amrywiaeth ehangaf o allbwn. Dyna pam y mae cynulleidfaoedd yn troi atom ac yn ein gwerthfawrogi (gweler tudalennau 42–45).

Mae mwy nag wyth o bob deg oedolyn yn y DU yn credu ei bod yn bwysig i'r BBC ddarparu amrywiaeth o gynnwys creadigol o ansawdd uchel. Rydym wedi cyflawni ar draws pob genre y flwyddyn hon, gyda chynulleidfaoedd enfawr ar gyfer rhaglenni fel *Happy Valley*, *Wild Isles*, *Blue Lights* a *Strictly Come Dancing* a gwobrau mawr ar gyfer rhaglenni fel *Sherwood*, *The Real Mo Farah*, *The Responder*, *The Traitors*, *Am I Being*

Unreasonable?, *This is Going to Hurt*, *Room 5* ar Radio 4 a *Dear Harry Kane*, a rhaglenni brecwast ar 5 Live a 1Xtra. Yn y cyfamser gwnaethom uno'r DU â'n darllediadau o'r digwyddiadau cenedlaethol mwyaf cofiadwy o Ewros y Menywod a Glastonbury i'r Jiwbilî Blatinwm ac angladd Ei Mawrhydi Brenhines Elizabeth II.

Dyma'r hyn sy'n parhau i wneud y BBC yn unigryw yn nhirwedd y cyfryngau heddiw: allbwn o ansawdd uchel ar deledu a radio sy'n unigryw am ei natur nodedig a'i ffocws ar gynnwys Prydeinig o bob cwr o'r DU.

Cyflawni ein cylch gwaith creadigol
Diben cyhoeddus 3 – parhad

Dangos yr allbwn a'r gwasanaethau mwyaf creadigol a nodedig, o'r ansawdd gorau



Mary Berry gyda cheisiadau ar gyfer y gystadleuaeth yn *The Jubilee Pudding*



Happy Valley

Dychwelodd *Happy Valley*, drama boblogaidd Sally Wainwright a enillodd sawl gwobr BAFTA, a ffilmwyd ac a leolwyd yng Ngorllewin Swydd Efrog, ar gyfer ei thrydedd gyfres hirddisgwyliedig, a'r olaf. Fe'i darlledwyd yn wythnosol ar BBC One ac iPlayer i adolygiadau pum-seren, a gwylwyd y bennod olaf gyffrous gan gynulleidfa gyfartalog o 13 miliwn o wylwyr, sy'n golygu mai *Happy Valley* oedd y ddrama a wylwyd fwyaf yn y DU ers dros flwyddyn. Cafodd y rhaglen ei ffrydio 110 miliwn o weithiau, sy'n nifer anhygoel, yn ystod tri mis cyntaf 2023 – bocs-set iPlayer mwyaf llwyddiannus y flwyddyn o bell ffordd hyd yma, gyda phennod gyntaf y gyfres newydd yn cael ei ffrydio 9.7 miliwn o weithiau. Aeth miliynau hefyd yn ôl i'r dechrau, a ffrydiwyd pennod gyntaf y gyfres gyntaf 8.2 miliwn o weithiau rhwng Ionawr a Mawrth 2023.



Ewros y Menywod

Roedd 2022 yn flwyddyn hynod o lwyddiannus i Lewesau Lloegr yn Ewros UEFA i Fenywod. Mewn trwmamaint cofiadwy lle gwelwyd Gogledd Iwerddon yn cyrraedd rowndiau terfynol prif gystadleuaeth menywod am y tro cyntaf erioed a gwelwyd Lloegr yn ennill eu prif gwpan gyntaf ers 1966, darlledodd y BBC bob un o'r 31 o gemau. Gwylodd cynulleidfa frig o fwy na 17 miliwn o bobl y menywod yn ennill yn Wembley sy'n golygu mai'r gêm derfynol oedd y gêm bêl-droed i fenywod a wylwyd fwyaf erioed ar y teledu yn y DU.



Cyfweliad olaf Deborah James, cyflwynydd *You, Me and the Big Car* BBC Radio 5 live

Deborah James oedd un o'r cyflwynwyr ar bodlediad 5 live *You, Me and the Big C*. Yn anffodus, bu farw ym mis Mehefin 2022. Roedd ei chyfweliad olaf gyda 5 live yn eitem radio emosynol ac ingol. Roedd yn llawn gonestrwydd, didwylledd a gobaiith hyd yn oed wrth sôn am y neges a'r gwaddol yr oedd Deborah yn eu gadael ar ôl. Roedd yn nodweddiadol o'r hyn roeddem wedi arfer ei glywed ar y podlediad lle na fyddai'n osgoi siarad yn agored ac yn onest am ei salwch. Dewiswyd yr eitem radio gan wrandawyr fel Ennyd y Flwyddyn yng Ngwobrau'r Diwydiant Sain a Radio 2023.

88% ^{21/22}
90%

Cyrhaeddiad ar draws y BBC

% yr oedolion yn y DU sy'n defnyddio Teledu/iPlayer, Radio neu Wasanaethau Ar-lein y BBC bob wythnos ar gyfartaledd.

Ffynhonnell Compass gan Ipsos UK 16+



The Real Mo Farah



Gemau'r Gymanwlad Birmingham

Rhoddodd Gemau'r Gymanwlad Birmingham y sbotolau ar Birmingham a chyflawnodd y ffigurau cynulleidfaoedd uchaf erioed ar gyfer BBC Sport gyda darllediadau o'r digwyddiad 11-diwrnod yn cael eu ffrydio fwy na 57 miliwn o weithiau, chwe gwaith yn fwy na'r niferoedd ffrydio a welwyd mewn blynyddoedd blaenorol. Gwelwyd cefnogaeth i'r Gemau o bob rhan o'r BBC gyda chynulleidfaoedd yn ymuno i weld y darllediadau byw a'r medalau'n cael eu cyflwyno yn ystod haf bythgofiadwy o chwaraeon.



Allforiwr cynnwys teledu mwyaf y DU

Gwneir 36% o holl gynrychiadau BBC Studios bellach ar gyfer trydydd partion a dyma allforiwr cynnwys teledu mwyaf y DU o hyd. Ymysg yr uchafbwyntiau o'i Stiwdio Cynnwys roedd trydedd gyfres hirddisgwyliedig *Happy Valley* gan Lookout Point, label cynhyrchu BBC Studios, a ddenodd gynulleidfa gyfunol o 13 miliwn i'r BBC; y gyfres nodedig arloesol am ddeinosoriaid *Prehistoric Planet* ar gyfer AppleTV+; ac ehangodd fersiwn boblogaidd yr UD o *Strictly Come Dancing* sef *Dancing with the Stars* i 61 o diriogaethau ledled y byd.



Jiwbilî Blatinwm y Frenhines ac Angladd Brenhines Elizabeth II

Unodd y BBC y DU i nodi dau ddigwyddiad arwyddocaol yn 2022 – Jiwbilî Blatinwm y Frenhines a'i Hangladd Gwladol. Rhoddodd cynrychiadau BBC Studios sylw sylweddol i'r dathliadau i nodi 70 o flynyddoedd Brenhines Elizabeth II ar yr orsedd, gan gyrraedd 32 miliwn o bobl dros benwythnos y Jiwbilî, a chynhaliodd y Platinum Party at the Palace, a wylwyd gan gynulleidfa o fwy na 13 miliwn ar gyfartaledd. Yn ddiweddarach yn y flwyddyn, wrth i'r DU dalu ei theyrngedau olaf, gwylodd cynulleidfa o 19.9 miliwn ar gyfartaledd wasanaeth Angladd Gwladol y Frenhines, gyda chyfanswm cyrhaeddiad o 33 miliwn ar gyfer yr Angladd Gwladol.



The Real Mo Farah

Yn The Real Mo Farah a enillodd wobwr BAFTA, gwelwyd un o athletwyr mwyaf llwyddiannus ein hanes yn datgelu'r gwirionedd dychrynlyd am ei blentyndod. Enillodd y rhaglen ddogfen wobrau yn y Rose D'or a'r Gwobrau Darlledu a gwelwyd cynnydd o 20% yn nifer y galwadau i'r elusen masnachu pobl Unseen UK ar ôl iddi gael ei darlledu. Fe'i gwylwyd gan 5.7 miliwn o bobl, a hon oedd rhaglen ddogfen fwyaf poblogaidd y BBC ond un yn 2022. Nid oes gan unrhyw ddarlledwr arall gynnwys ffeithiol mor eithriadol o eang, gyda saith o ddeg rhaglen ffeithiol uchaf y flwyddyn ddiwethaf gan y BBC.

66% ^{21/22}
67%

% yr oedolion yn y DU sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran darparu cynnwys/gwasanaethau sy'n gosod safon uchel o ran ansawdd (aneffeithiol 14%. 21/22: 14%).

Ffynhonnell Ipsos UK 16+

61% ^{21/22}
61%

% yr oedolion yn y DU sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran darparu cynnwys/gwasanaethau sy'n gosod safon uchel o ran creadigrwydd (aneffeithiol 15%. 21/22: 17%).

Ffynhonnell Ipsos UK 16+

59% ^{21/22}
61%

% yr oedolion yn y DU sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran darparu cynnwys/gwasanaethau sy'n nodedig (aneffeithiol 15%. 21/22: 15%).

Ffynhonnell Ipsos UK 16+



Phoenix Rise

Drama deg rhan am dyfu i fyny a gynhyrchwyd gan BBC Studios yw *Phoenix Rise*. Fe'i lleolwyd yng Nghofentri ac mae'n dilyn straeon chwe myfyriwr sy'n dod yn ffrindiau mynwesol wrth iddynt ddychwelyd i addysg prif ffrwd ar ôl cael eu gwahardd. Rhoddodd y gyfres eofn newydd hon gyfleoedd i actorion newydd o ardal Gorllewin Canolbarth Lloegr yn bennaf, a chlywyd y cerddorion lleol diweddaraf ar y trac sain. Roedd y digwyddiad lansio'n cynnwys sesiynau allgymorth gyda gweithdai ysgrifennu i fyfyrwyr yn yr ardal.

Sports Relief All Stars yng Ngemau'r Gymanwlad 2022



16:41 ^{21/22}
17:30

Amser ar draws y BBC

Y cyfnod o amser a dreuliodd oedolion yn y DU gyda'r BBC y pen bob wythnos ar gyfartaledd (oriau:munudau).

Ffynhonnell Amcangyfrifwyd o BARB fel y'u gwylwyd (pob dyfais), RAJAR, Piano Analytics, SYG 16+

Cyflawni ein cylch gwaith creadigol Diben cyhoeddus 3 – parhad

Dangos yr allbwn a'r gwasanaethau mwyaf creadigol a nodedig, o'r ansawdd gorau



Amit Shah yn *Happy Valley*



The Traitors

The Traitors a enillodd wobrau BAFTA ac RTS oedd y gyfres newydd fwyaf poblogaidd i gynulleidfa oedd ifanc o blith holl raglenni'r BBC y flwyddyn ddiwethaf, a'r gyfres adloniant newydd a gafodd y sgôr uchaf ar y BBC ers 2019 o leiaf ar gyfer cynulleidfa oedd ifanc. Cyflwynydd *The Traitors* oedd Claudia Winkelman, ac roedd 22 o ddiethriaid yn wynebu ei gilydd i chwarae gêm o ddatrys, twyllo ac ymddiried. Bydd y gwaith ffilmio yn cychwyn ar yr ail gyfres yn ddiweddarach eleni.



The Traitors



Am I Being Unreasonable?

Mae'r ddrama gomedi antur arloesol hon am gyfeillgarwch obsesiynol, paranoia mamol – a chath farw – gan Lookout Point, label cynhyrchu BBC Studios a Boffola Pictures, yn cynnwys ac wedi'i hysgrifennu gan Daisy-May Cooper a Selin Hizli, sy'n ffrindiau gorau mewn bywyd go iawn, a'r cynhyrchydd gweithredol oedd un o dalentau mwyaf cyffrous y teledu, Jack Thorne. Ffilmwyd y comedi gwych o droedig hwn am pa mor gyflym y gall bywyd newid a dirywio ym Mryste ac o gwmpas ardal De-orllewin Lloegr. Enwebwyd y gyfres gyntaf am bedair gwobr BAFTA, gyda'r seren newydd Lenny Rush yn ennill y wobwr am y Perfformiad Gwrywaidd Gorau mewn Rhaglen Gomedi a Gwobr RTS.



Bocs-setiau iPlayer

Roedd dramâu Prydeinig safonol yn boblogaidd iawn ar iPlayer y flwyddyn hon gyda llawer o straeon llwyddiant newydd sbon gan gynnwys *SAS Rogue Heroes*, *The Gold* a *Sherwood*, a mwynhaodd miliynau ddychweliad hirddisgwyliedig *Waterloo Road*. Yn ogystal â theitlau newydd, yn ystod y flwyddyn hefyd daeth iPlayer i gytundeb ag Ofcom i ehangu dyfnder ac ehangder iPlayer drwy ryddhau mwy o deitlau i'w gwyllo o archif y BBC. Bydd gwylwyr yn gallu mwynhau'r gorau o'r BBC, gan gynnwys comediau clasurol, rhaglenni fformat adloniant, dramâu cofiadwy a rhaglenni dogfen arloesol.



Minute Of Me ar Radio 1

Ym mis Hydref 2022, agorodd Radio 1 y tonfeddi i 100 o bobl ifanc ar draws y DU, gan gynnig munud iddynt rannu'r hyn sy'n eu gwneud nhw'n unigryw. Dros ddeg diwrnod, rhoddodd *Minute Of Me* ar BBC Radio 1 y cyfle i wrandawyr 16–24 oed siarad am orbryder, pryderon ariannol, anabledau, profedigaeth, anhwylderau bwyta, pwysau nodau mewn bywyd, effaith y cyfryngau cymdeithasol a phrofiad menywod mewn manau sydd wedi cael eu rheoli gan ddynion yn draddodiadol. Cafwyd myfyrdodau hefyd ar obaith, llawenydd ac optimistaeth y genhedlaeth hon.



The Dream Prom gyda BBC Open Music

Mae cynllun datblygu BBC Open Music yn dwyn ynghyd amrywiaeth eang o bobl greadigol o gefndiroedd gwahanol ar draws y DU, ac mae wedi'i gynllunio i gynnig hyfforddiant a mentora ar draws Radio a Cherddoriaeth. Uchafbwynt y cynllun oedd prosiect ar y cyd ym mis Medi 2022 gyda *The Dream Prom*, a gafodd ei greu a'i gyflwyno'n gyfan gwbl gan 30 o bobl greadigol Open Music a gafodd eu hysbrydoli gan eu bywydau eu hunain i sôn am freuddwydion, hunaniaeth a lles meddyliol. Fel pob Prom, fe'i darlledwyd yn fyw ar Radio 3. Ers hynny, mae hyfforddeion wedi manteisio ar gyfleoedd yn y BBC ac yn y sector cerddoriaeth ehangach.

Rhaglennu cynaliadwy

Mae'r BBC wedi adeiladu ar ei ymrwymiad i'r Adnewid Cynnwys Hinsawdd, gan gyflawni cynnwys Hanes Naturiol eithriadol sy'n adnabyddus ledled y byd, a defnyddio ffyrdd arloesol o gyrraedd cynulleidfaoedd newydd drwy fformatau a llwyfannau gwahanol. Yn 2022/23, cyrhaeddodd ein cynnwys Teledu a Radio sy'n cynnwys themâu amgylcheddol penodol – y tu hwnt i fwletinau Newyddion a rhaglenni dilyniannol – tua 67% o'r boblogaeth 16+ yn y DU.

Cafwyd cydweithrediad rhwng *Frozen Planet II*, o Uned Hanes Naturiol nodedig BBC Studios, ac *EastEnders*, lle gwelwyd llifogydd ar y map eiconig o Lundain ar ddechrau'r rhaglen, gan ddangos effeithiau posibl cynnydd yn lefel y môr. Ac arweiniodd partneriaeth rhwng BBC Studios a Minecraft Education at *Frozen Planet II* Minecraft Experience yn torri'r record am y nifer mwyaf o lawrlwythiadau o fyd Minecraft addysgol mewn un diwrnod.

Yn agosach at adref, dangosodd *Wild Isles* fywyd gwylt a thirweddau eithriadol y DU (gwyliwyd y bennod gyntaf gan gynulleidfa gyfartalog o 10.5 miliwn), a pharhaodd cynnwys y BBC i draffod hyn ac ysbrydoli pobl i gefnogi byd natur. O *Let it Grow* ar Radio 2, gyda'r gwasanaethau Plant ac Addysg, i allbwn crefyddol y BBC sy'n ennyn diddordeb cymunedau ffydd; o archwiliadau Radio 3 o gelf a natur i #OurWildIsles yn gweithio gyda grwpiau amrywiol ar y cyfryngau cymdeithasol. Mae'r ffocws yn parhau drwy 2023.

Mewn manau eraill, roedd *Rethink Climate* ar Radio 4 yn chwilio am yr atebion mawr sydd eu hangen i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd. Defnyddiodd *Buried a Burn Wild* y fformat podlediadau troseddau ar gyfer straeon amgylcheddol. Denodd *Earth Prom* gefnogwyr cerddoriaeth ac roedd Gwobrau Chwaraeon Gwyrdd BBC Sport yn apelio i gefnogwyr chwaraeon. A chyfunodd un o raglenni mwyaf poblogaidd 2022, *Platinum Party at the Palace* (gyda chynulleidfa gyfartalog o fwy na 13 miliwn), frenhiniaeth, enwogion a thafuniadau anhygoel i ddathlu ein 'byd anhygoel' a'r angen i'w adfer.

Y tu hwnt i gynnwys amgylcheddol nodedig, parhaodd ein hymrwymiad i ffyrdd ysgafn a dyls o ymgorffori cynaliadwyedd yn ein teitlau mwyaf poblogaidd, o ddillad wedi'u hailwrpasu yn *The Great British Sewing Bee* i sgwrs am fethan yn *Happy Valley*.

Yn y cyfamser, ym mis Rhagfyr 2022, arweiniodd cydweithrediad rhwng darlledwyr at awgrymiadau cyson i arbed ynni ar draws ein hallbwn ar y cyd. Yn ystod yr wythnos gyntaf, helpodd un awgrym tua 4.2 miliwn o bobl gan arbed amcangyfrif o ≈1.1 miliwn tunnell o garbon.

Mae BBC News yn parhau i fod yn lle hanfodol i ddod o hyd i'r wybodaeth ddiweddedd ddiweddaraf, i alluogi trafodaeth, i gwestiynu cynigion polisi ac i ddwyn busnesau a llywodraethau i gyfrif.

t.66 Am ragor o wybodaeth am gynaliadwyedd

67% ^{21/22} **70%**

Gwnaeth dwy ran o dair o boblogaeth 16+ oed y DU fwyngau o leiaf 15 munud o gynnwys Teledu a Radio'r BBC sy'n cynnwys themâu amgylcheddol penodol y tu hwnt i fwletinau Newyddion a rhaglenni dilyniannol.

Ffynhonnell Compass gan Ipsos UK 16+



Owain Wyn Evans



Owain Wyn Evans yn ymuno â BBC Radio 2 o Gaerdydd

Ym mis Chwefror, lansiodd BBC Radio 2 ei *Early Breakfast Show* newydd sbon gyda'r cyflwynydd Owain Wyn Evans yn darlledu'n fyw o'r Sgwâr Canolog yng nghanol prifddinas Cymru. Caiff ei chynhyrchu gan y cwmni cynhyrchu, Bengo Media, a hon oedd y rhaglen gyntaf a ddarlledir yn ystod dyddiau'r wythnos ar y rhwydwaith i symud allan o Lundain ac mae'n rhan o gynlluniau Across the UK uchelgeisiol y BBC i'n galluogi i adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu pob rhan o'r DU yn well.



Back To Back Sounds


Dros y 12 mis diwethaf, mae BBC Sounds wedi trawsnewid y ffordd y gall gwrandawyr ddarganfod cynnwys gan y BBC gyda Back To Back Sounds. Mae Back To Back Sounds wedi'i drefnu yn ôl genre, thema neu achlysur ac mae'n cynnig oriau o raglenni di-dor o'n holl orsafoedd radio. Mae'n helpu i gysylltu cynulleidfaoedd â'u hoff gerddoriaeth, radio a phodlediadau gan y BBC. Cyflwynwyd rhaglenni cerddoriaeth ar alw a lansiwyd gyda Back To Back gan rai o enwau mwyaf y byd cerddoriaeth a thu hwnt, gan gynnwys Hayley Williams o *Everything Is Emo* gan Paramore, *Dream Fuel* gydag Arlo Parks ac *Alternative Sounds of the 90s* gyda Dermot O'Leary.

t.143 Am y rhestr lawn o wybodaeth ystadegol ar Ddiben Cyhoeddus 3


Gwyllo Teledu'r BBC drwy iPlayer

Mae'r siartiau'n dangos canran holl lefelau gwyllo'r BBC fesul genre sydd bellach yn digwydd drwy iPlayer. Er enghraifft, mae 46% o holl lefelau gwyllo dramâu'r BBC yn digwydd ar iPlayer. I'r gwrthwyneb, profiad darlledu byw yw gwyllo newyddion yn bennaf.

% gwyllo teledu'r BBC ym mhob genre drwy iPlayer 4+



% gwyllo teledu'r BBC ym mhob genre drwy iPlayer 16-34



Cyflawni ein cylch gwaith creadigol
Diben cyhoeddus 4



4

ADLEWYRCHU, CYNRYCHIOLI A GWASANAETHU CYMUNEDAU AMRYWIOL HOLL WLEDYDD A RHANBARTHAU'R DEYRNAS UNEDIG A CHEFNOGI'R ECONOMI GREADIGOL

Mae'r tudalennau canlynol yn dangos ymrwymiad y BBC i wasanaethu pob cynulleidfa ar draws y DU.

62%

% yr oedolion yn y DU sydd o'r farn bod gan y BBC raglenni, cynnwys a gwasanaethau sy'n codi ymwybyddiaeth o'r ffyrdd o fyw a'r safbwyntiau gwahanol yng nghymdeithas y DU (aneffeithiol 15%, 21/22: 19%).

Ffynhonnell Ipsos UK 16+

50%

Caiff tua 50% o holl gyfraniad economaidd y BBC ei greu y tu allan i Lundain.

Mae gan y BBC ddyletswydd sylfaenol i gynrychioli'r DU gyfan a sicrhau bod ei holl safbwyntiau a lleisiau yn cael eu clywed. Er mwyn sicrhau gwerth i bob cynulleidfa, mae'n hanfodol ein bod yn adlewyrchu'r cyhoedd a wasanaethir gennym yn llawn ac yn sicrhau bod buddiannau economaidd y BBC yn cael eu teimlo ym mhob rhan o'r DU.

Heddiw, caiff dros hanner allbwn teledu rhwydwaith y BBC ei gynhyrchu yn y gwledydd a'r rhanbarthau, ac mae gennym ganolfannau cynhyrchu mawr yng Nghaerdydd, Glasgow, Belfast, Salford, Bryste, Birmingham a Llundain. Rydym yn cefnogi 50,000 o swyddi ar draws y DU ac yn gweithio gyda thua 14,000 o gyflenwyr gwahanol – y mae tri chwarter ohonynt yn fusnesau bach a chanolig yn y DU. Caiff tua 50% o gyfraniad economaidd y BBC ei greu y tu allan i Lundain, yn erbyn cyfartaledd sector o 20%.

A disgwylir i effaith y BBC ar dwf clystyrau creadigol greu tua 45,000 o swyddi ychwanegol yn y diwydiant y tu allan i Lundain erbyn 2027/28.

Mae'r adroddiad hwn yn dangos pr mor gryf rydym yn cyflawni ein cynlluniau Across the UK uchelgeisiol i symud pobl, pŵer a'r gallu i wneud penderfyniadau i'r gwledydd a'r rhanbarthau. Mae hefyd yn dangos pa mor benderfynol yr ydym i sicrhau bod y BBC yn adlewyrchu ac yn gwasanaethu amrywiaeth lawn y DU ym mhopeth a wnawn.

Cyflawni ein cylch gwaith creadigol Diben cyhoeddus 4 – parhad

Adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol holl wledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig a chefnogi'r economi greadigol



Y BBC yng Nghymru

Wrth i'r BBC ddathlu can mlynedd o ddarlledu yng Nghymru, roedd cynnwys nodedig, unigryw yn parhau i fod yn rhan o'n stori.

Cyrhaeddodd Cymru Gwpan y Byd FIFA am y tro cyntaf ers 1958 ac roedd BBC Cymru Wales yno bob cam o'r ffordd, gan weithio mewn partneriaeth â sefydliadau ledled Cymru yn y cyfnod cyn ac yn ystod y twrnamaint. Roedd hyn yn cynnwys sylwebaeth, allbwn digidol, rhaglenni dogfen a chyngherddau. Creodd BBC Cymru hefyd adnoddau addysgol i athrawon gan roi cyflwyniad i blant ysgol gynradd i rai o'r gwledydd eraill a oedd yn cystadlu yng Nghwpan y Byd. Ymysg rhai o'r uchafbwyntiau eraill roedd: y gyfres glodwiw *Together Stronger* gan y gwneuthurwr ffilmiau Johnny Owen ar BBC One Wales a oedd yn edrych ar ddatblygiad tîm pêl-droed Cymru dros y deg mlynedd diwethaf; cyfres *Legends of Welsh Sport* a oedd yn cynnwys portreadau o Neville Southall a John Toshack; ymwelodd BBC Radio Wales a Radio Cymru â chymunedau ledled Cymru wrth iddynt baratoi a gwyllo'r gemau mawr a bu het fwced enfawr llawn aer yn teithio ar hyd a lled Cymru. Ni fu tîm cenedlaethol y menywod yn llwyddiannus yn y gemau cymhwys y tro hwn, ond gwelwyd

91%

^{21/22}
90%

Cyrhaeddiad y BBC cyfan

% yr oedolion yng Nghymru sy'n defnyddio Teledu/iPlayer, Radio neu wasanaethau Ar-lein y BBC bob wythnos ar gyfartaledd.

Ffynhonnell Compass gan Ipsos UK 16+

52%

% yr oedolion yng Nghymru sy'n defnyddio cynnwys BBC Cymru bob wythnos ar gyfartaledd.

Ffynhonnell Compass gan Ipsos UK 16+

64%

^{21/22}
71%

% yr oedolion yng Nghymru sydd o'r farn bod y BBC yn hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu pobl yn y DU/nhw (aneffeithiol 18%. 21/22: 14%).

Ffynhonnell Ipsos UK 16+

50%

^{21/22}
50%

% yr oedolion yng Nghymru sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran adlewyrchu pobl fel nhw (aneffeithiol 29%. 21/22: 26%).

Ffynhonnell Ipsos UK 16+

cynnydd sylweddol yn y nifer a wylodd y gemau ar BBC Wales yn ystod y twrnamaint, gan godi proffil a gwelededd y gêm i fenywod yng Nghymru.

Roedd y darllediadau newyddion a materion cyfoes mor bwysig ag erioed a bu cynulleidfaoedd yn gwyllo ac yn mynd ar-lein i gael darllediadau cynhwysfawr a gwybodaeth hanfodol ar draws ein gwasanaethau newyddion. Bu'r tîm yn adrodd ar gyfer gwasanaethau'r BBC ac S4C ar farwolaeth Ei Mawrhydi y Frenhines gan gyfleu ysbryd y genedl a'r drafodaeth ynghylch darpar Dywysog Cymru. Ymdrinnodd tîm *BBC Wales Investigates* â honiadau o rywiaeth, bwlio ac aflonyddu rhywiol yn Undeb Rygbi Cymru, gan annog rhagor o gwestiynau a chraffu. Rhannwyd stori drasig Emiliano Sala, y pêl-droediwr a oedd ar ei ffordd i Glwb Dinas Caerdydd yn *Transfer*, podlediad naw pennod a rhaglen ddogfen ar BBC iPlayer. Rhannwyd stori Mahmood Mattan, a gafodd ei grogi ar gam am lofruddiaeth na wnaeth ei chyflawni, mewn podlediad pwerus ar gyfer BBC Sounds.

Lansiwyd Siarad Anabledd | Talk Disability ym mis Ionawr, dechrau ymrwymiad newydd BBC Cymru i anabledd ar y sgrin ac oddi ar y sgrin dros y 12 mis nesaf. Mae'n cynnwys rhaglenni, mentrau a chynnwys sydd â'r nod o ysbrydoli sgysiaid am anabledd. Yn ganolog i'r ymrwymiad roedd y cyhoeddiad ynghylch hyfforddeiaethau newydd BBC Cymru yn benodol ar gyfer pobl ag anableddau, a luniwyd mewn partneriaeth ag Anabledd Cymru a oedd yn cynnwys lleoliadau wyth wythnos mewn adrannau radio, newyddion neu fusnes a gweithrediadau.

Ym mis Chwefror, dechreuodd Owain Wyn Evans gyflwyno rhaglen gyntaf BBC Radio 2 yn ystod yr wythnos y tu allan i Lundain, fel rhan o ymrwymiad creadigol y BBC i wasanaethu'r DU gyfan. Yn sgil y fenter hon, sefydlwyd amrywiaeth o dimau newydd yng Nghaerdydd. Darparodd Hwb Sain y BBC bennod arbennig o *Life Scientific* i BBC Radio 4 gyda Jim Al-Khalili o Wyl Gwyddoniaeth Caerdydd a chyflwynodd y ddrama gyffro sain wedi'i lleoli yn y dyfodol *Galapaos*, gyda Hannah Daniel.

Y flwyddyn hon hefyd, agorodd Sgwâr Canolog BBC Cymru yng Nghaerdydd ei ddrysau i gynulleidfaoedd weld swyn y byd darlledu â'u llygaid eu hunain. Mae'r daith boblogaidd y tu ôl i'r llenni yn rhoi'r cyfle i gynulleidfaoedd weld sut y caiff rhaglenni eu creu a'u rhoi ar yr awyr a chafodd wobwr safon Aur gan Croeso Cymru.



£.154 Am y rhestr lawn o wybodaeth ystadegol am Gymru



£.125 I ddarllen mwy am yffordd y mae Bwrdd y BBC wedi monitro ac adolygu perfformiad yng Nghymru





Team Scotland yn gorymdeithio yn agoriad Gemau'r Gymanwlad 2022



Y BBC yn yr Alban

Roedd llygaid y byd ar yr Alban yn dilyn marwolaeth Ei Mawrhydi y Frenhines yn Balmoral, ac roedd timau BBC Scotland yn rhan ganolog o'r gwaith o gyflwyno digwyddiadau hanesyddol i gynulleidfa fyd-eang.

Cafodd ein hymrwymiad i gyflwyno adroddiadau ymchwiliadol diduedd ei gydnabod pan enillodd *Disclosure: The Great Ferries Scandal* gan BBC Scotland wobwr Ffeithiol Newyddiaduraeth Teledu'r Gwledydd a'r Rhanbarthau RTS. Yn y cyfamser, denodd darllediadau byw gan News Scotland Online gynulleidfaoedd i ddilyn stori ymddiswyddiad Nicola Sturgeon wrth iddi ddigwydd, gan arwain at fwy na phum miliwn o ymweliadau â thudalennau yn y DU yn unig.

Ymysg y rhaglenni ffeithiol sy'n cynnig cynnwys nodedig, o bwys i gynulleidfaoedd yn Saesneg a Gaeleg roedd: *The Ice Cream Wars* – brwydr 20 mlynedd o hyd dros gyfiawnder; *Martin Compston's Scottish Fling* a ddangosodd yr Alban fodern drwy ei phobl a'i lleoedd a *Greenland: Sgeul Isobel Wylie Hutchinson* un o anturiaethwyr gorau a lleiaf adnabyddus yr Alban.

Fel rhan o'n strategaeth Across the UK, daeth yr Alban yn ganolfan ragoriaeth i'r BBC ar gyfer newyddiaduraeth technoleg, gan ddarlluedu'r rhaglenni *Click a Tech Tent*. Arweiniodd y strategaeth hefyd at gynnydd yn nifer y dramâu a gomisiynwyd ar y cyd rhwng y rhwydwaith a BBC Scotland gan gynnwys *Granite Harbour* a *Mayflies* a oedd yn cynrychioli cymunedau o Aberdeen i Ayrshire.

Dangoswyd ein hymgyrch i ddod o hyd i dalent eithriadol yn y gystadleuaeth o bwys ar sawl llwyfan BBC Radio Scotland Young Traditional Musician of the Year a lansiad BBC Introducing in Scotland – Scottish Act of the Year.

Mae comisiynu ar draws sawl llwyfan yn enghraifft allweddol o greu BBC modern sy'n hynod effeithlon ac ymysg yr enghreifftiau mae: *The Big Birthday Bash* ym maes sain a fideo a nododd ganmlwyddiant y BBC yn yr Alban; cynnwys ar y Royal National Môd ar gyfer teledu, radio a phrosesau delweddu ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol; a chynnwys ar draws llwyfannau gan gyflenwad o dalent yn *The Social*.

Dangosodd podlediadau Radio Scotland ddull digidol yn gyntaf cryf gyda theitlau ymchwiliadol *The Cruelty – A Child Unclaimed*, *Good Ship BrewDog*, *Bible John: Creation of a Serial Killer* a'r podlediad chwaraeon *Sacked in the Morning* yn cael eu chwarae bron i dair miliwn o weithiau rhyngddynt, gan gael mwy o werth ar-lein. Rhoddwyd cryn sylw i chwaraeon ar draws ein holl lwyfannau o gemau cymhwyso Tîm Pêl-droed Cenedlaethol Menywod yr Alban ar gyfer Cwpan y Byd i ddarllediadau helaeth o Team Scotland yng Ngemau'r Gymanwlad.

Cyflwynodd BBC ALBA gynnwys unigryw o bwys gan gynnwys cydweithrediad nodedig Cerddorfa Symffoni BBC Scotland gyda Niteworks, y band o Ynys Skye; *An Clò Mòr* yn dilyn hanes llinach cwmni tecstilïau o Ynsoedd Heledd a'r ffugraglen ddogfen i blant *An Sgoil*. Adnewyddodd BBC Radio nan Gàidheal ei hamserlen gyda mwy o raglenni ar gyfer pobl ifanc, gan gyflwyno ethos ar draws llwyfannau a chyfuno adnoddau i ddysgwyr.

Cyflwynodd BBC Scotland Learning a Bitesize ddull digidol yn gyntaf sy'n adlewyrchu amrywiaeth cymunedau yr Alban gyda chynnwys ar-lein ar Saesneg fel iaith ychwanegol wedi'i gyflwyno mewn Arabeg, Wcreineg, Wrdrw ac ieithoedd eraill, a straeon i blant mewn Sgoteg, Doreg, Orcadeg ac yn nhafodiaith Ynsoedd Shetland.

87%

^{21/22}
88%

Cyrhaeddiad y BBC cyfan

% yr oedolion yn yr Alban sy'n defnyddio Teledu/iPlayer, Radio neu wasanaethau Ar-lein y BBC bob wythnos ar gyfartaledd.

Ffynhonnell Compass gan Ipsos UK 16+

58%

% yr oedolion yn yr Alban sy'n defnyddio cynnwys BBC Scotland bob wythnos ar gyfartaledd.

Ffynhonnell Compass gan Ipsos UK 16+

64%

^{21/22}
66%

% yr oedolion yn yr Alban sydd o'r farn bod y BBC yn hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu pobl yn y DU/nhw (aneffeithiol 17%. 21/22: 10%).


Ffynhonnell Ipsos UK 16+


50%

^{21/22}
55%

% yr oedolion yn yr Alban sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran adlewyrchu pobl fel nhw (aneffeithiol 24%. 21/22: 25%).

Ffynhonnell Ipsos UK 16+

 **t.158** Am y rhestr lawn o wybodaeth ystadegol am yr Alban

 **t.125** I ddarllen mwy am y ffordd y mae Bwrdd y BBC wedi monitro ac adolygu perfformiad yn yr Alban

Mayflies, drama a leolwyd yn Ayrshire



Cyflawni ein cylch gwaith creadigol Diben cyhoeddus 4 – parhad

Adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol holl wledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig a chefnogi'r economi greadigol



Y BBC yng Ngogledd Iwerddon

Drwy gydol y flwyddyn, bu'r BBC yng Ngogledd Iwerddon yn adlewyrchu agweddau gwahanol ar fywyd a phrofiad cymunedol. Cyflwynodd dalent ac adroddodd straeon, safbwyntiau a lleisiau amrywiol dros donfeddi'r BBC – gan gysylltu pobl a lleoedd a chynnig profiadau a rennir.

Cyflwynodd timau newyddion y BBC ddarllediadau manwl o etholiad y Cynulliad a materion yn ymwneud â sefydlu Gweithrediaeth. Gwnaethant roi dadansoddiadau arbenigol o ddatblygiadau mewn sectorau gwahanol gan roi sylw i ddigwyddiadau ledled y rhanbarth. Nodwyd 25 mlynedd ers Cytundeb Belfast/Dydd Gwener y Groglith mewn cyfres o adroddiadau ar *BBC Newline* ac yn *Year '98* ar BBC Sounds. A chafwyd newyddion a rhaglennu cysylltiedig helaeth ar ddigwyddiadau dinesig yn dilyn marwolaeth y Frenhines.

Roedd comisiynau teledu rhwydwaith y BBC yn cynnwys dramâu, rhaglenni dogfen ac adloniant ffeithiol. Roedd y rhaglenni hyn yn cyflwyno mathau newydd a mwy amrywiol o bortreadau gan ddenu cynulleidfaoedd amrywiol ar draws y DU. Dychwelodd *Hope Street*, *Bloodlands* a *Mountain Vets* am gyfresi newydd a rhoddodd *Blue Lights* gyflwyniad ffuglennol cymhellol o blismona yng Ngogledd Iwerddon heddiw. Adlewyrchwyd bywydau cynulleidfaoedd iau mewn comisiynau ar gyfer

BBC Three, gan gynnwys *Beauty Queen and Single*, a dathlodd *Mastermind* hanner can mlwyddiant ers ei sefydlu yn ei leoliad cynhyrchu newydd yn Blackstaff Studio y BBC yn Belfast.

Rhoddodd *The Belfast Mixtape*, gyda Cherddorfa Ulster a gwsteion, fyfyrdd cerddorol soniarus ar y colledion a'r dadleoli a gafwyd yn sgil COVID-19, gan gyfuno â'r broses o roi Rhyddfraint y Ddinas i weithwyr llinell flaen. Aeth *The Secret Artists* â chynulleidfaoedd y BBC y tu ôl i'r llenni yn arddangosfa flynyddol Academi Brenhinol Ulster fel rhan o Dymor Celfyddydau uchelgeisiol ar deledu lleol ac ar BBC iPlayer. Rhoddodd *True North* sylw i gyflawniadau Rhys McClenaghan a Leah McCourt yn y byd chwaraeon. A chynigiodd *The Blame Game* a *Give My Head Peace* gyfle derbyniol i chwerthin yn wyneb pryderon mwy difrifol. Cafwyd cipolwg difyr hefyd i'f wydd pob dydd yn *Ulster By The Sea*, *Black*, *Northern Irish and Proud* a *Chronicles of Belfast*.

Parhaodd presenoldeb ac apêl nodedig BBC Radio Ulster/Foyle, gan gynnwys drwy ddarllediadau allanol a rhaglenni rhyngweithio â'r gynulleidfa fel *The Stephen Nolan Show*. Cyrhaeddodd nifer mwy o wrandawyr ar BBC Sounds a chwaraeodd rôl allweddol yn cyflwyno *Book Week 2022*, menter ar y cyd â Libraries NI, ac yn cyflwyno gwyliau a digwyddiadau cymunedol i bawb eu mwynhau. Anogodd *The Big Walk* gynulleidfaoedd i fynd allan i arsylwi ar gefn gwlad lleol ac adlewyrchwyd traddodiadau ieithyddol, ffydd a diwylliannol amrywiol y rhanbarth mewn rhaglenni gan gynnwys *Blas*, *Kintra*, *The Long and the Short of It* a *Morning Service*.



Cafodd *Blue Lights* ei ffilmio mewn lleoliadau ledled Gogledd Iwerddon

84%

21/22
91%

Cyrhaeddiad ar draws y BBC

% yr oedolion yng Ngogledd Iwerddon sy'n defnyddio Teledu/iPlayer, Radio neu wasanaethau Ar-lein y BBC bob wythnos ar gyfartaledd.

Ffynhonnell Compass gan Ipsos UK 16+

60%

% yr oedolion yng Ngogledd Iwerddon sy'n defnyddio cynnwys BBC Northern Ireland bob wythnos ar gyfartaledd.

Ffynhonnell Compass gan Ipsos UK 16+

64%

21/22
67%

% yr oedolion yng Ngogledd Iwerddon sydd o'r farn bod y BBC yn hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu pobl yn y DU/nhw (aneffeithiol 14%. 21/22: 8%).

Ffynhonnell Ipsos UK 16+

53%

21/22
57%

% yr oedolion yng Ngogledd Iwerddon sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran adlewyrchu pobl fel nhw (aneffeithiol 20%. 21/22: 16%).

Ffynhonnell Ipsos UK 16+

Cytunodd y BBC ar contract nodedig newydd â'r GAA a pharhaodd i weithio i ddatblygu ei ddarllediadau o chwaraeon eraill gan gynnwys rygbi, pêl-droed i fenywod, pêl-droed i ddynion a rasio beiciau modur ar y ffyrdd. Mae arloesedd digidol, cyfleoedd a gwaith adnewyddu wedi llywio llawer o'r gweithgarwch hwn – sy'n rhywbeth a oedd wrth wraidd cynlluniau datblygu ar gyfer BBC Radio Ulster/Foyle a gwasanaethau newyddion lleol dros y cyfnod i ddoed, ac yn dilyn llwyddiant diweddar cyfresi a gynhyrchwyd yn lleol fel *Assume Nothing* a *GAA Social* ar BBC Sounds.

Cyfoethogodd partneriaethau strategol y BBC ag NI Screen, Cerddorfa Ulster a Libraries NI amrywiaeth ac effaith ei waith ar gyfer cynulleidfaoedd yng Ngogledd Iwerddon. A chafwyd enghreffftiau pwysig o gydweithio hefyd gyda mentrau fel Uwchgynhadledd Anabledd Rwyngwladol Harkin a CINE, cynllun hyfforddiant gan yr Adran dros Gymunedau sydd â'r nod o ehangu mynediad i'r diwydiannau sgrin a'r diwydiannau creadigol.



t.162 Am y rhestr lawn o wybodaeth ystadegol am Ogledd Iwerddon



t.126 I ddarllen mwy am y fforddy mae Bwrdd y BBC wedi monitro ac adolygu perfformiad yng Ngogledd Iwerddon



Minute Of Me ar BBC Radio 1



Y BBC yn Lloegr

Mae gwasanaethau Lleol y BBC yn Lloegr wedi bod wrth wraidd sawl moment cofiadwy dros y 12 mis diwethaf.

Fis Medi y llynedd, cyfwelodd cyflwynwyr Radio Lleol y BBC o Leeds, Stoke, Swydd Gaerhirfryn, Norfolk, Nottingham, Tees, Bryste a Chaint y Prif Weinidog ar y pryd, Liz Truss. Gan gyfleu pryderon eu cynulleidfaoedd lleol, gwnaethant ofyn am doriadau treth, prisiau ynni, pensiynau a ffracio.

Cyfunwyd y cyfweiliadau eiconig mewn pennod o *Newscast* ar gyfer BBC Sounds ac yn gyflym iawn, hon oedd y bennod fwyaf poblogaidd o'r podlediadau erioed.

Pan fu farw Ei Mawrhydi y Frenhines, llwyddodd cerdd a ddarllenwyd gan Lincoln, saith oed, o Gaerliwelydd i gyfleu galar y genedl. Cafodd ei darlledu ar draws y 39 o orsafoedd lleol a'i gwyllo ar dudalen Radio Cumbria ar y cyfryngau cymdeithasol 2.7 miliwn o weithiau.

Yr haf diwethaf, roedd BBC Midlands Today a BBC Radio WM yn rhan ganolog o Gemau'r Gymanwlad gyda stiwdios dros dro yn Centenary Square yn Birmingham yn dwyn cynulleidfaoedd ac arbenigwyr ynghyd i roi sylw i'r digwyddiad rhyngwladol.

Mae ein rhaglenni newyddion teledu rhanbarthol yn parhau i fod yn rhan yr ymddiriedir ynddi o arferion gwyllo dyddiol cynulleidfaoedd yn y DU. Y rhaglen am 6:30pm ar BBC One yw'r rhaglen newyddion fwyaf poblogaidd yn y DU o hyd gyda chynulleidfau gyfartalog o 4 miliwn o oedolion yn 2022 – 3.3 miliwn yn Lloegr.

Ers dechrau 2023, mae ein rhaglenni newyddion teledu rhanbarthol hefyd wedi bod ar gael ar BBC One HD am y tro cyntaf, gan ein galluogi i ddangos ein setiau stiwdio modern, gyda sgriniau fideo enfawr a delweddau graffigol o'r radd flaenaf er mwyn gwella ein dulliau o adrodd straeon.

Ledled ein hardaloedd Lleol, rydym wedi bod yn atgyfnerthu ein cynnwys ar-lein a'n cynnwys amlgyfryngol. Mae hyn yn cynnwys cynhyrchu straeon fideo rheolaidd ar gyfer categori newyddion BBC iPlayer – gan gynnwys adroddiadau arbennig ar niwroamrywiaeth ac erydiad arfordirol – a sicrhau bod y straeon mwyaf ar gael ar yr un pryd ar draws llwyfannau a gwasanaethau'r BBC.

Cafodd cyfweiliad treiddiol Eddie Nestor gyda Chomisiynydd yr Heddlu Metropolitaidd ym mis Mawrth ei ffrydio'n fyw ar BBC News Online, ar sianel BBC News, ar Facebook ac ar Tik Tok.

Mae ein cynlluniau digidol hefyd yn cynnwys gwaith sylweddol i ehangu podlediadau. Mae podlediadau straeon gwir gafaelfgar wedi bod yn boblogaidd. Perfformiodd *Love Bombed* a leisiwyd gan Vicky Pattinson am dwyllwr o Ogledd-ddwyrain Lloegr a *The Kidnapping of Stephanie Slater* yn dda ar BBC Sounds.

Er mwyn parhau i atgyfnerthu ein gwasanaethau ar-lein lleol – ac adeiladu rhwydwaith newyddiaduraeth ymchwiladol newydd o fwy na 70 o newyddiadurwyr ledled Lloegr – gwnaethom nifer o newidiadau darlledu i'n hallbwn dros y flwyddyn ddiwethaf. Daeth y gyfres deledu *We Are England* i ben a daeth ein rhaglenni newyddion teledu rhanbarthol wedi'u lleoli yn Rhydychen a Chaergrawnt i ben ym mis Rhagfyr (gyda darllediadau o'r ardaloedd hyn bellach yn cael eu darparu gan BBC *South Today* a *Look East*).

Cafodd ein cynlluniau i rannu mwy o raglenni radio lleol ar draws gorsafoedd cyfagos y tu allan i oriau gwrando brig y flwyddyn nesaf eu beirniadu gan nifer o wrandawyr a grwpiau cynulleidfaoedd. Mewn ymateb, mae'r cynlluniau wedi cael eu mabwysiadu dros y misoedd diwethaf i leihau'r nifer arfaethedig o raglenni a rennir yn y prynhawn ac ar benwythnosau.

Bydd yr holl newidiadau hyn yn cefnogi'r gwaith i ehangu gwasanaethau newyddion ar-lein a darpariaeth sain lleol y BBC – gan gynnwys gwasanaethau newydd yn Bradford, Wolverhampton, Sunderland a Peterborough – a fydd yn lansio yn ddiweddarach y flwyddyn hon.

88% ^{21/22} **90%**

Cyrhaeddiad ar draws y BBC
% yr oedolion yn Lloegr sy'n defnyddio Teledu/iPlayer, Radio neu wasanaethau Ar-lein y BBC bob wythnos ar gyfartaledd.
Ffynhonnell Compass gan Ipsos UK 16+

50%

% yr oedolion yn Lloegr sy'n defnyddio cynnwys BBC England bob wythnos ar gyfartaledd.
Ffynhonnell Compass gan Ipsos UK 16+

69% ^{21/22} **68%**

% yr oedolion yn Lloegr sydd o'r farn bod y BBC yn hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu pobl yn y DU/nhw (aneffeithiol 12%. 21/22: 14%).
Ffynhonnell Ipsos UK 16+

55% ^{21/22} **54%**

% yr oedolion yn Lloegr sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran adlewyrchu pobl fel nhw (aneffeithiol 21%. 21/22: 24%).
Ffynhonnell Ipsos UK 16+

	t.165 Am y rhestr lawn o wybodaeth ystadegol am Loegr
	t.126 I ddarllen mwy am y ffordd y mae Bwrdd y BBC wedi monitro ac adolygu perfformiad yn Lloegr

The Kidnapping of Stephanie Slater, podlediadau am stori wir



Adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol holl wledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig a chefnogi'r economi greadigol



Yr enillydd gwobrau BAFTA ac RTS Adeel Akhtar yn y ddrama *Sherwood*

58% ^{21/22}
58%

% yr oedolion yn y DU sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran darparu cynnwys/gwasanaethau sy'n berthnasol iddynt (20% o'r farn ei fod yn aneffeithiol. 21/22: 21%).

Ffynhonnell Ipsos UK 16+

54% ^{21/22}
54%

% yr oedolion yn y DU sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran adlewyrchu pobl fel nhw (22% o'r farn ei fod yn aneffeithiol. 21/22: 24%).

Ffynhonnell Ipsos UK 16+

Ein hól-troed ar draws y DU

Gwasanaethau penodedig

Mae'r BBC yn darparu amrywiaeth o allbwn penodedig, traws-genre yn benodol ar gyfer Cymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Rhanbarthau Lloegr ar deledu, radio ac ar-lein. Mae pob ardal yn creu rhaglenni teledu a radio a chynnwys ar-lein ar gyfer ei chynulleidfa leol ac ar gyfer y rhwydwaith.

Mae gennym ganolfannau cynhyrchu mawr yng Nghaerdydd, Glasgow, Belfast, Salford, Bryste, Birmingham a Llundain.

Cyflenwi'r rhwydwaith

Caiff dros hanner teledu rhwydwaith ei gynhyrchu yn y gwledydd a'r rhanbarthau, gyda 57.7% o'r tu allan i Lundain a 17.8% o Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Y gwariant ar raglenni teledu rhwydwaith yn ôl rhanbarth fel canran o wariant cymwys

	2023	2022
Llundain	42.3%	46.4%
Yr Alban	8.4%	8.6%
Cymru	5.4%	7.2%
Gogledd Iwerddon	3.9%	3.9%
Cyfanswm y gwledydd	17.8%	19.7%
Canolbarth Lloegr	2.7%	2.0%
Gogledd Lloegr	20.6%	17.4%
De Lloegr	10.9%	10.2%
Aml-ranbarth Lloegr*	3.8%	1.9%
Cyfanswm rhanbarthau Lloegr	38%	31.5%
Aml-ranbarth arall*	1.9%	2.4%
Cyfanswm y rhanbarthau heb gynnwys Llundain	39.9%	33.9%
Cyfanswm y gwledydd a'r rhanbarthau	57.7%	53.6%
Cyfanswm cyfan	100%	100%

Oriau o allbwn Radio Lleol a radio'r gwledydd y BBC

	2023	2022
Lloegr (ac eithrio Llundain)	242,468	243,251
Llundain	6,956	7,283
Yr Alban	11,869	12,036
Cymru	15,602	14,771
Gogledd Iwerddon	8,019	8,041

Gwariant ar deledu rhwydwaith yn seiliedig ar ddiffiniadau Ofcom yn ôl blwyddyn galendr

* Mae aml-ranbarth yn cwmpasu rhaglenni a wnaed y tu allan i Lundain ond na ellir eu priodoli i unrhyw un rhanbarth na gwlad

** Dim ond rhaglenni gwreiddiol gan y BBC y mae oriau allbwn Radio Lleol a radio'r gwledydd y BBC yn eu cynnwys ac nid yw'n cynnwys unrhyw raglenni a gaiff eu hailddarlledu



£146 Ar gyfer y rhestr lawn o wybodaeth ystadegol am Ddiben Cyhoeddus 4



Pencadlys BBC Cymru Wales yn Sgwâr Canolog, Caerdydd

Gyda chanolfannau cynhyrchu mawr yng Nghaerdydd, Salford, Belfast, Bryste, Birmingham a Glasgow, mae bron i 60% o'r holl waith cynhyrchu teledu bellach y tu allan i'r M25.

36%

Gwariant ar raglennu radio rhwydwaith y tu allan i'r M25

Ffynhonnell
Gwariant ar radio rhwydwaith yn seiliedig ar ddiffiniadau Ofcom yn ôl blwyddyn ariannol

41%

Gwariant ar raglennu radio rhwydwaith a cherddoriaeth y tu allan i'r M25

Ffynhonnell
Gwariant ar radio a cherddoriaeth yn seiliedig ar ddiffiniadau yn y Cytundeb yn ôl blwyddyn ariannol

Staff darlledu cyhoeddus y DU yn ôl gwlad
Rydym hefyd yn ymrwymedig o hyd i leoli o leiaf 50% o'n cyflogeion y tu allan i Lundain ac mae tua 53% wedi'u lleoli y tu allan i'r M25 ar hyn o bryd.

% staff darlledu cyhoeddus y DU yn ôl gwlad (cyfwerth ag amser llawn) (ac eithrio BBC Studios yn 2022)

Gwlad	31 Mawrth 2023	31 Mawrth 2022
Lloegr (ac eithrio Llundain)	34%	34%
Llundain	47%	47%
Yr Alban	8%	8%
Cymru	7%	7%
Gogledd Iwerddon	4%	4%

53% ^{21/22} **54%**

% yr oedolion yn y DU sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran adlewyrchu'r rhan o'r DU lle maent yn byw (aneffeithiol 21%. 21/22: 22%).

Ffynhonnell Ipsos UK 16+

54% ^{21/22} **55%**

% yr oedolion yn y DU sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran gwasanaethu'r rhan o'r DU lle maent yn byw (aneffeithiol 20%. 21/22: 21%).

Ffynhonnell Ipsos UK 16+



Better, y gyfres ddrama a leolwyd yn Swydd Efrog

Adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol holl wledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig a chefnogi'r economi greadigol



Ffilmio *Waterloo Road* ym Manceinion Fwyaf



Cynrychioli a phortreadu

Mae'r BBC am i bob cynulleidfa, ar draws y DU, deimlo eu bod yn cael eu cynrychioli'n ddilys ar y sgrin, ar-lein ac ar yr awyr. Mae timau cynnwys a chomisiynu yn ymrwymedig i sicrhau bod amrywiaeth y sawl sy'n gwyllo ac yn gwrandao ar gynnwys y BBC yn ddilys, ac y rhoddir portreadau grymus, diduedd a chywir o'u profiadau uniongyrchol.

Dylai'r BBC sicrhau gwerth o ran cynhyrchu cynnwys a fydd at ddant pob cymuned a thrwy roi ffenestr i fydoedd pobl eraill. P'un a yw'r BBC yn hysbysu, yn addysgu neu'n diddanu, dylai'r bobl sydd ar y sgrin ac oddi ar y sgrin, ar-lein ac ar yr awyr ac oddi ar yr awyr adlewyrchu amrywiaeth poblogaeth y DU.

Cynrychioli ar y sgrin ac ar yr awyr

Yn ganolog i ysgogi a mesur cynrychiolaeth y BBC o gymunedau amrywiol y DU mae ei God Ymarfer Comisiynu Amrywiaeth sy'n nodi ymrwymadau i'r BBC a'i gyflenwyr. Mae'r BBC yn cyhoeddi adroddiad blynyddol o gynnydd sy'n gwerthuso cynnydd yn erbyn yr ymrwymadau hyn.

Mae cynrychiolaeth a phortread yn hanfodol i raglenni o ansawdd uchel – ar draws rhaglenni drama a chomedi, adloniant a ffeithiol ar y teledu, radio ac ar-lein, disgwylir i gomisiynywyr

a chynhyrchwyr ystyried amrywiaeth ym mhopeth a wnânt. Mewn digwyddiadau Chwaraeon ac Adloniant byw, ystyrir amrywiaeth wrth gastio.

Ymrwymiad Amrywiaeth Creadigol y BBC yw sicrhau bod o leiaf £112 miliwn o gyllidebau comisiynu presennol yn cael ei wario ar gynnwys amrywiol a chynhwysol sy'n canolbwyntio ar sicrhau bod allbwn y BBC yn adlewyrchu bywydau cynulleidfaoedd nas gwasanaethir yn ddigonol gan gynnwys y rheini o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol amrywiol, y rheini sy'n Fyddar, yn anabl ac yn niwroamrywiol a'r rheini sydd o gefndiroedd du, Asiaidd ac ethnig amrywiol. Mae'r ymrwymiad hwn yn rhoi ffocws comisiynu clir ar draws y Teledu a'r Radio a'i nod yw cyflymu newid ar draws y sector cynhyrchu.

Mae'r canlyniadau diweddaraf gan Diamond, system ar-lein a ddefnyddir gan ddarlledwyr i gael data ar amrywiaeth, yn dweud wrthym fod 8.8% o dalent ar y sgrin yn anabl. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r BBC wedi cynyddu ei ymrwymiad i gynrychioli pobl anabl ar y sgrin ac oddi ar y sgrin. Roedd hyn yn cynnwys lansio cyfres newydd o ymrwymadau sy'n golygu y bydd pob rhaglen newydd wedi'i sriptio yn ceisio cynnwys rolau anabl a/neu'n chwilio am actorion anabl ar gyfer rolau nad ydynt wedi'u hysgrifennu'n benodol i fod yn anabl. Mewn rhaglenni heb eu sriptio, bydd y BBC yn ceisio cynnwys o leiaf un cyfrannwr, cyflwynydd neu berfformiwr sydd ag anabledd ym mhob cyfres a rhaglen unigol.

Mae'r ffocws hwnnw wedi ymestyn i sain. Bu *Life Hacks* ar Radio 1 yn trafod anabledau nad ydynt yn amlwg a hygyrchedd cymdeithasu. Clywodd y podlediad *Adapt the World* gan bobl anabl sy'n creu cynnwys ar sut y byddent yn newid y byd i fod yn fwy hygyrch.

Mae Prosiect Cydraddoldeb 50:50 yn gweithio ar draws timau Newyddion, y Gwledydd a Chynnwys, mewn fideo a sain, a'i nod yw olrhain a gwella cynrychiolaeth yng nghynnwys y BBC, gyda 56% o dimau sy'n cymryd rhan yn cyrraedd y targed o gael 50% o fenywod yn eu cynnwys ym mis Mawrth 2023. Mae tua 290 o dimau hefyd yn mesur cynrychiolaeth o ran ethnigrwydd ac anabledd.

Mae'r BBC falch o raglenni poblogaidd sydd wedi cynrychioli amrywiaeth o gymunedau dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r rhain yn cynnwys ailymdangosiad y ddrama *Waterloo Road*, sydd wedi'i lleoli mewn ysgol gyfun yn Salford. Mae'n cynnwys cast ensemble amrywiol, y mae llawer ohonynt wedi'u canfod o'r ardal leol, ac mae'n canolbwyntio ar straeon sy'n adlewyrchu amrywiaeth eang o nodweddion a chefnidiroedd. Yn yr adran Ffeithiol, yn y rhaglen ddogfen *Inside Our Autistic Minds* bu Chris Packam yn myfyrio ar ei brofiadau ei hun o fod yn awtistig ac ar safbwyntiau cyfranwyr awtistig.

Dilynodd *The Wedding* ar BBC Scotland briodferch oedd â gwreiddiau Albanaidd a phriodfab oedd â gwreiddiau o Kenya ac Uganda, a ysgrifennwyd gan Stewart Kyasimire ac a ysbrydolwyd gan ei fywyd ei hun. Ac ar *Blood, Sweat and Cheer* ar BBC Three, dilynwyd athletwyr anabl ac athletwyr nad ydynt yn anabl o Dîm Cymru ar gyfer Dawnsio Cheer a Addaswyd i Bob Gallu wrth iddynt baratoi ar gyfer Pencampwriaethau'r Byd. Yn *B&B by the Sea* gwelwyd enwogion fel Ugo Monye, Nina Wadia a Linford Christie yn myfyrio ar eu straeon cefndir, gan roi cipolwg gwerthfawr i'r cynulleidfa ar eu cefndiroedd amrywiol.

Mae'r rhaglen Plant *A Kind of Spark* yn gyfres bwerus sy'n canolbwyntio ar Addie, merch awtistig. Mae'r rhaglen wedi bod yn arloesol yn ei phortread o niwroamrywiaeth ar y sgrin gyda chast niwroamrywiol, ynghyd ag oddi ar y sgrin gydag awdur ac arweinwyr cynhyrchu niwroamrywiol. Cafodd y cynhyrchiad ganmoliaeth gan gynulleidfaoedd am ddilysrwydd ei gynrychiolaeth o awtistiaeth, ac am arawin y ffordd i setsiau cynhyrchu fod yn gwbl gynhwysol a hygyrch.

Cynrychiolaeth o gymunedau amrywiol y DU

Caiff cynnwys sydd o bwys ac sy'n teimlo'n ddilys yn ei bortread ei greu gan dimau cynhyrchu amrywiol ag amrywiaeth o brofiadau a safbwyntiau. Ynghyd ag atgyfnerthu cynrychiolaeth amrywiol, nod ein Hymrwymiad Amrywiaeth Creadigol yw cynyddu nifer y cyflenwyr a chwmnïau cynhyrchu annibynnol a thimau cynhyrchu a gaiff eu harwain a'u staffio gan dalent amrywiol. Mae'r BBC yn gofyn i o leiaf 20% o dalent oddi ar y sgrin fod o gefndiroedd

economaidd-gymdeithasol amrywiol, o gefndiroedd ethnig amrywiol neu'n anabl, yn fyddar neu'n niwroamrywiol. Yn y 12 mis diwethaf mae'r BBC wedi sefydlu systemau adrodd cliriach o amgylch y targedau hyn, gan roi barn fanylach ar y cwmnïau cynhyrchu annibynnol a gaiff eu comisiynu ac sy'n gweithio ar gynrychiadau.

Mae'r BBC yn arwain y ffordd o ran cynrychiolaeth o bobl anabl oddi ar y sgrin, yn ôl data Diamond sy'n dangos cynnydd o 7.4% yn 2021/22 i 8.9% yn 2022/23. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r BBC wedi sefydlu a chefnogi'r TV Access Project – menter ar draws y diwydiant i wella mynediad ar bob cynhyrchiad ac mewn stiwdios. Mae hyn wedi arwain at gyflwyno canllawiau cynhyrchu newydd ac mae'r Tîm Amrywiaeth Creadigol wedi sicrhau bod pob comisiynydd yn ein tîm cynnwys wedi cael hyfforddiant ar y broses o gyflawni a gweithredu'r canllawiau hyn. Rydym hefyd wedi lansio rôl Cydlynwyr Mynediad sy'n gyfrifol am oruchwylio gofynion mynediad i bob aelod o gast a chriw sy'n gweithio ar ein rhaglenni Access First fel *Silent Witness* a *The Apprentice*.

Yn y cyfamser, cymerodd *Waterloo Road* ran mewn cynlluniau hyfforddeiaeth i amrywio'r gweithlu cynhyrchu. Cynigiodd y rhaglen leoliadau gwaith mewn rolau gwisgoedd, lleoliadau a rhedwr llawr i'r rheini o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol amrywiol nad oes ganddynt lawer o brofiad o waith os o gwbl.

Mae'r BBC yn parhau i ddefnyddio'r Gronfa Datblygu Talent Amrywiol gwith £2 filiwn i helpu i gefnogi cwmnïau cynhyrchu i ddatblygu talent amrywiol ar y sgrin ac oddi ar y sgrin, gan gynnwys awduron, actorion, cyflwynwyr a chyfranwyr, drwy fentrau wedi'u targedu.

Mae ein Cronfa i Gwmnïau Annibynnol Bach yn clustnodi £1 filiwn y flwyddyn i gefnogi cwmnïau annibynnol bach talentog. Mae'r gronfa yn cefnogi 48 o gwmnïau bach y flwyddyn hon. Mae gan fwy na hanner y rhain arweinyddiaeth amrywiol ac mae 79% yn seiliedig yn y Gwledydd a rhanbarthau Lloegr.

Amrywiaeth wirioneddol ar y sgrin ac oddi ar y sgrin

Data a ddarparwyd o gyfraniadau gan unigolion sydd â rôl mewn rhaglenni cymwys.

	Gwirioneddol oddi ar y sgrin 2022/23	Gwirioneddol ar y sgrin 2022/23	Gwirioneddol oddi ar y sgrin 2021/22	Gwirioneddol ar y sgrin 2021/22
Benywaidd	54.1%	52.2%	54.5%	53.6%
Pobl ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol	12.9%	27.9%	10.5%	27.9%
Anabl	8.9%	8.8%	7.4%	8.9%
Lesbiaidd, hoyw neu ddeurywiol	15.4%	15.0%	12.6%	12.9%
Trawsryweddol	0.6%	1.1%	0.2%	0.5%
Nifer y cyfraniadau*	362,432	99,137	260,254	78,493

* Gall unigolyn wneud sawl cyfraniad i raglen neu raglenni

Amrywiaeth ganfyddedig ar y sgrin

Mewnbwn data gan gwmnïau cynhyrchu sy'n ystyried safbwynt gwylwyr o beth maent yn ei weld a'i glywed.

	Canfyddedig ar y sgrin 2022/23	Canfyddedig ar y sgrin 2021/22
Benywaidd	47.3%	47.0%
Pobl ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol	27.2%	26.5%
Anabl	5.1%	5.4%
Lesbiaidd, hoyw neu ddeurywiol	11.0%	7.8%
Trawsryweddol	0.2%	0.1%
Nifer y cyfraniadau*	487,661	424,393
% y pennwyd nodweddion amrywiaeth ar eu cyfer	90.4%	91.2%

* Gall unigolyn wneud sawl cyfraniad i raglen neu raglenni

Cyrhaeddiad y BBC cyfan

% pob grŵp cynulleidfa sy'n defnyddio Teledu/iPlayer, Radio neu wasanaethau Ar-lein y BBC bob wythnos ar gyfartaledd

	Dynion 16+	Menywod 16+	ABC1 16+	C2DE 16+	16-34	35-54	55+	Gwyn 16+	Pobl ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol 16+	Anabl 16+	Ddim yn Anabl 16+
2022/23	88%	88%	89%	86%	76%	88%	97%	90%	73%	90%	87%
2021/22	90%	90%	92%	88%	81%	89%	98%	92%	77%	91%	90%

% pob grŵp cynulleidfa sydd o'r farn bod y BBC yn hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu pobl yn y DU/nhw

	Dynion 16+	Menywod 16+	ABC1 16+	C2DE 16+	16-34	35-54	55+	Gwyn 16+	Pobl ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol 16+	Anabl 16+	Ddim yn Anabl 16+
2022/23 Effeithiol	66%	70%	73%	63%	66%	70%	69%	69%	61%	62%	69%
2022/23 Aneffeithiol	15%	11%	12%	15%	13%	13%	12%	13%	16%	17%	13%
2021/22 Effeithiol	66%	70%	75%	59%	64%	67%	72%	69%	62%	64%	69%
2021/22 Aneffeithiol	16%	12%	12%	16%	13%	16%	13%	14%	17%	17%	14%

% pob grŵp cynulleidfa sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran adlewyrchu pobl fel nhw

	Dynion 16+	Menywod 16+	ABC1 16+	C2DE 16+	16-34	35-54	55+	Gwyn 16+	Pobl ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol 16+	Anabl 16+	Ddim yn Anabl 16+
2022/23 Effeithiol	53%	56%	58%	50%	53%	56%	54%	55%	49%	45%	56%
2022/23 Aneffeithiol	24%	19%	20%	23%	22%	21%	22%	21%	25%	32%	20%
2021/22 Effeithiol	51%	57%	58%	48%	50%	51%	59%	54%	47%	46%	55%
2021/22 Aneffeithiol	26%	22%	23%	25%	24%	26%	22%	24%	27%	28%	24%



5

ADLEWYRCHU'R DEYRNAS UNEDIG, EI DIWYLLIANT A'I GWERTHOEDD I'R BYD

Mae'r tudalennau canlynol yn dangos y ffordd y mae'r BBC yn gweithio i hysbysu, addysgu a diddanu pobl ledled y byd.

76%

allforyn diwylliannol mwyaf adnabyddus y DU, gyda 76% o ymwybyddiaeth ymysg dylanwadwyr ledled y byd.

Ffynhonnell Tapestry Research

60%

o ddefnyddwyr byd-eang dylanwadol yn dweud bod defnyddio'r BBC yn gwneud iddynt ystyried y DU mewn ffordd fwy cadarnhaol.

Ffynhonnell Tapestry Research

Mae gwasanaethau byd-eang y BBC yn ased gwerthfawr i'r DU. Bob wythnos maent yn cyflwyno diwylliant, llais a gwerthoedd nodedig y DU i gynulleidfa wythnosol o 447 miliwn o bobl ledled y byd. Ni yw allforyn diwylliannol mwyaf adnabyddus y DU o hyd, gyda 76% o ymwybyddiaeth ymysg dylanwadwyr ledled y byd.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi gweld droeon y perygl cynyddol sy'n wynebu cymdeithasau a democratiaethau ledled y byd yn sgil twyllwbyodaeth a chyfyngiadau ar ryddid y wasg. Mae'r fersiwn ddiweddaraf o Fyngai Rhyddid y Wasg Byd-eang yn dangos bod newyddiaduraeth wedi'i hatal yn llwyr neu'n rhannol yn 70% o'r 180 o wledydd a gaiff eu sgorio, ac ystyrir bod y sefyllfa yn "ddifrifol iawn" mewn 31 o wledydd. Yn erbyn y cefndir hwn, mae BBC World Service yn unigryw: ymddiriedir ynddo ledled y byd i adrodd heb ofn na ffafriaeth o'r ardaloedd daearyddol caletaf a'r sefyllfaoedd gwleidyddol anoddaf.

Y flwyddyn hon, rydym wedi dechrau rhoi ein cynllun ar waith i flaenoriaethu cyflwyno cynulleidfaoedd i wasanaethau rhyngwladol y BBC, a'n gwasanaethau digidol yn benodol, yn hytrach na chyflawni cyrhaeddiad drwy lwyfannau sydd â lefelau is o ymddiriedaeth a lefelau is o briodoli brand yn ôl i'r BBC, ac felly sy'n llai effeithiol wrth fynd i'r afael â thwyllwbyodaeth. Ar yr un pryd, nid yw'r World Service wedi osgoi pwysau rhyngwladol heriol ar y farchnad newyddion a'r angen i sicrhau cynilion o ganlyniad i setliad ffi'r drwydded, ac mae'n debygol y bydd angen rhagor o benderfyniadau anodd yn y dyfodol.

Cyflawni ein cylch gwaith creadigol
Diben cyhoeddus 5 – parhad

Adlewyrchu'r Deyrnas Unedig, ei diwylliant a'i gwerthoedd i'r byd



90 Mlynedd ers Sefydlu BBC World Service

2022 oedd canmlwyddiant y BBC ond hefyd, ym mis Rhagfyr, nodwyd 90 mlynedd ers sefydlu BBC World Service. O'i wreiddiau fel BBC Empire Service, gan ddarparu dros radio tonfedd fer cleciog, i heddiw gyda chynulleidfaoedd yn defnyddio mwy a mwy o gynnwys yn ddigidol, mae'r gwasanaeth wedi darparu mewn dwsinau o ieithoedd i gannoedd o filiynau ledled y byd dros y naw degawd diwethaf. Ymwelodd Tywysog Cymru a Duges Cernyw ar y pryd â BBC World Service ar gyfer y dathliad, gan siarad â newyddiadurwyr a oedd yn gohebu ar Affganistan, Wcráin a Rwsia. Mynegodd y tywysog ei edmygedd o newyddiadurwyr sy'n gohebu "in the most difficult of circumstances" er mwyn sicrhau bod gan bobl fynediad i wirionedd diduedd, yn arbennig mewn ardaloedd lle ceir gwrthdaro.



Dars

Mae merched dros 11 oed wedi'u gwahardd rhag cael addysg ffurfiol yn Affganistan. Mae BBC World Service wedi lansio rhaglen addysgol yn Pashto a Dari ar gyfer merched 11-16 oed, er mwyn targedu'r merched hyn a phlant eraill yn Affganistan nad ydynt yn mynd i'r ysgol. Mae *Dars* – sy'n golygu 'gwers' – ar gael ar radio, teledu ac ar-lein ac mae'n defnyddio cynnwys addysgol o'r radd flaenaf y BBC. Llwyddodd pedair cyflwynydd benywaidd *Dars* i ffoi o Affganistan ar ôl i'r Taliban gymryd drosodd y wlad.



Tim cyflwyno *Dars*

**Gwasanaethau byd-eang y
BBC yw allforyn diwylliannol
mwyaf adnabyddus y DU, gyda
76% o ymwybyddiaeth ymysg
dylanwadwyr ledled y byd,
ac maent yn ased gwerthfawr
i'r DU.**

447m ^{llawr} **9%**

Cyrhaeddiad wythnosol byd-eang
Yn cynnwys BBC News a BBC Studios.
Ffynhonnell Mesur Cynulleidfa Fyd-eang
y BBC

411m ^{llawr} **10%**

**Cynulleidfa wythnosol ryngwladol
BBC News**
Ffynhonnell Mesur Cynulleidfa Fyd-eang
y BBC



Protest a gafodd sylw yn *Reporting Iran*



Buddsoddiad BBC Studios

Mae BBC Studios yn buddsoddi yn ei wasanaethau newyddion digidol a chynnwys ffeithiol, i'w wneud hyd yn oed yn fwy deniadol i gynulleidfaoedd a hysbysebwyd. Yn y flwyddyn ddiwethaf, mae BBC Studios wedi cefnogi twf y tîm newyddiaduraeth ddigidol yng Ngogledd America i roi hwb i'n gwasanaethau gohebu o'r rhanbarth ar gyfer y DU a chynulleidfaoedd byd-eang. Bydd rolau newydd yn y tîm newyddiaduraeth ddigidol yn gwella ein gallu i gyflwyno newyddion byw a newyddion sy'n digwydd ar y pryd, saith diwrnod yr wythnos, ac i weithio gyda thimau Cynnwys a Sianel Newyddion BBC News yn yr UD i gael y gorau o newyddiaduraeth BBC News o'r rhanbarth i gynulleidfaoedd cynyddol ddigidol.

Rhif .1

Y gorau am Ymddiriedaeth a
Dibynadwyedd ymysg darparwyr
newyddion rhyngwladol.

Ffynhonnell BBC Brand Tracker 2022/23
(y DU yn flaenorol)

63% ^{21/22} **63%**

% yr oedolion yn y DU sydd o'r farn bod
y BBC yn effeithiol yn adlewyrchu'r DU
i'r byd (anefeithiol 14%. 21/22: 14%).

Ffynhonnell Ipsos UK 16+

Cyrhaeddiad BBC World Service bob wythnos ar bob llwyfan fesul gwasanaeth

	2022/23 Miliynau	Newid o un flwyddyn i'r llall %*
Afaan Oromoo	1.6	-5%
Afriqe	16.4	-21%
Amhareg	1.9	-1%
Arabeg	32.2	-18%
Azeri	0.5	33%
Bengaleg	9.4	-26%
Brasil	7.5	-19%
Byrmaneg	3.9	-45%
Coreaidd	0.9	33%
Dari	1.7	-64%
Dysgu Saesneg**	2.1	6%
Fietnameg	0.8	-47%
Gahuza	2.1	0%
Gujarati	3.3	-10%
Hawsa	15.2	-10%
Hindi	41.0	27%
Igbo	1.7	-7%
Indoneseg	1.5	-73%
Kyrgyz	3.1	1%
Marathi	5.8	6%
Mundo	9.5	-25%
Nepali	4.9	-1%
Pashto	4.6	-57%
Perseg	19.2	2%
Pidgin	2.3	-71%
Punjabi	1.7	5%
Rwsieg	5.6	19%
Serbaidd	0.7	-28%
Sinhala	0.4	21%
Somali	5.0	-14%
Swahili	25.5	-7%
Tamil	11.4	-13%
Telugu	7.0	-26%
Tigrinya	0.4	0%
Thai	1.0	-26%
Tsieina y DU	0.1	-25%
Tsieinëeg	2.7	26%
Twrceg	2.1	-30%
Wcreineg	4.7	11%
World Service Saesneg	81.4	-12%
Wrdw	2.9	-46%
Wsbeg	2.0	-43%
Yoruba	1.5	-77%

Mae'r Mesur Cynulleidfa Fyd-eang yn mesur faint o bobl sy'n defnyddio'r BBC bob wythnos ar gyfer pob gwasanaeth ym mhob gwlad ar bob llwyfan (teledu, radio, gwefan a chyfryngau cymdeithaso) Mae dad-ddyblygu yn allweddol i hyn h y sicrhau na chaiff person sy'n defnyddio sawl gwasanaeth neu lwyfan gan y BBC neu ar ddyfeisiau lluosog ei gyfrif fwy nag unwaith yn y cyfanswmiau lefel uchaf Er enghraifft, mae'r gynulleidfa teledu, radio ac ar-lein ar gyfer BBC World Service yn llai na chyfanswm ei rhannau er mwyn sicrhau nad ydym yn cyfrif pobl fwy nag unwaith wrth edrych ar gyfanswm cynulleidfa World Service

* Mae ffigurau cyrhaeddiad yn adlewyrchu perfformiad y farchnad ynghyd â gostyngiadau yn y defnydd o newyddion yn fyd-eang ers COVID-19 ac ers dechrau'r rhyfel yn Wcráin Mae pwysau ariannol hefyd wedi cael effaith sylweddol ar allbwn

** Dysgu Saesneg nodwyd 2.4m yn 2022, 2022 addaswyd 2.0m Nid yw radio Dysgu Saesneg ar gael mwyach



Reporting Iran

Mae staff BBC Persian a'u teuluoedd wedi dioddef camdriniaeth ac aflonyddwch ers blynyddoedd – gan awdurdodau Iran ac, yn fwy diweddar, gan gefnogwyr yr wrthblaid yn Iran. Maent hefyd yn wynebu anawsterau wrth adrodd ar ddigwyddiadau yn Iran gan fod y BBC wedi'i wahardd o'r wlad. Tynnwyd sylw at yr anawsterau hyn yn *Reporting Iran: Inside BBC Persian*, ffilm a gynhyrchwyd ar gyfer sianelau newyddion y BBC a aeth y tu ôl i'r llenni i ddangos sut mae'r gwasanaeth yn gweithredu, y straen y mae'r swydd yn ei rhoi ar ei newyddiadurwyr, a'r graddau y maent yn ymdrechu i ddatgelu'r gwirionedd am ddigwyddiadau yn Iran.



Dark is Rising

Casglodd BBC World Service rywfaint o dalent artistig gorau Prydain i gynhyrchu drama hudolus a gafodd gryn ganmoliaeth o glasu Susan Cooper i blant, *The Dark is Rising*. Addaswyd y gyfres 12 rhan gyda Toby Jones a Harriet Walter ar gyfer y radio a'r podlediad gan yr awdur Robert Macfarlane a Simon McBryne o *Complicité*. Cafodd ei recordio'n rhannol yn ddeuseinol, er mwyn rhoi profiad trochol i wrandawyr sy'n defnyddio clustffonau, ac fe'i darlledwyd i gyd-fynd â chyfnod gaeafol y nofel.



t.147 Am y rhestr lawn o wybodaeth ystadegol ar Ddiben Cyhoeddus 5

318m I lawr 12%

Cynulleidfa wythnosol BBC World Service

Ffynhonnell Mesur Cynulleidfa Fyd-eang y BBC

141m I lawr 5%

Cynulleidfa ddigidol wythnosol BBC World Service (gwefan a'r cyfryngau cymdeithasol).

Ffynhonnell Mesur Cynulleidfa Fyd-eang y BBC

105m I lawr 19%

Cynulleidfa deledu wythnosol BBC World Service

Ffynhonnell Mesur Cynulleidfa Fyd-eang y BBC

121m I lawr 24%

Cynulleidfa radio wythnosol BBC World Service

Ffynhonnell Mesur Cynulleidfa Fyd-eang y BBC

36m Ifyny 3%

Cyrhaeddiad wythnosol byd-eang cynyddraddol BBC Studios (cyfanswm cyrhaeddiad o 63m)

Ffynhonnell Mesur Cynulleidfa Fyd-eang y BBC



Tywysog Cymru a Duges Cernyw ar y pryd yn ymweld â'r World Service

Adroddiad ar werth i gynulleidfaeodd

Mae pobl o'r DU yn parhau i droi at y BBC fel rhan o'u bywydau pob dydd ac hefyd ar adegau allweddol o newid, dathlu a choffâu.

Fel y mae'r data ar ein perfformiad yn erbyn targedau cynulleidfaeodd ar y dudalen drosodd yn ei ddangos, yn yr wythnos gyfartalog yn 2022/23, defnyddiodd 88% o oedolion yn y DU wasanaethau'r BBC. Mae hyn yn golygu mai'r BBC yw brand mwyaf poblogaidd y DU ar gyfer y cyfryngau ar y cyfan sy'n golygu ei fod yn rhan annatod o arferion cyfryngau mwyaf amlwg o oedolion yn y DU. Gan adeiladu ar y gydberthynas hon, mae ein cyrhaeddiad wythnosol yn dal i fod yn uwch pan ddaw pobl y DU at ei gilydd ar gyfer adegau cenedlaethol arwyddocaol, boed yn dwrnameintiau chwaraeon mawr neu'n gystadlaethau cerddorol, newid Prif Weinidog neu Brif Weinidog, dathlu teyrnasiad neu nodi marwolaeth teyrn.

Mae cael lle y gallwn ddod at ein gilydd yn rhoi cyfle cynyddol bwysig ar adeg lle gall tueddiadau cymdeithasol a marchnata fynd yn groes i hyn. Mae arolygon a gynhaliwyd y flwyddyn hon yn dangos bod oedolion yn y DU yn dweud bod cymdeithas yn y DU yn teimlo'n rhanedig y dyddiau hyn. Ym marchnad y cyfryngau, mae'r cymysgedd bywiog o ddarparwyr domestig a byd-eang yn golygu mwy o ddewis ond hefyd rhaniadau cynyddol yn ein hymddygiad o ran y cyfryngau.

Mae'r cyhoedd yn ystyried y BBC fel y darparwr cyfryngau sy'n gwneud y mwyaf dros fywyd cenedlaethol yn y DU.

Yn 2022/23 mae wyth o bob deg oedolyn (79%) yn y DU o'r farn bod y BBC yn darparu rhaglenni, cynnwys a gwasanaethau sy'n bwysig i bobl y DU (9% yn dweud nad ydynt yn bwysig) Mae saith o bob deg oedolyn yn y DU o'r farn y dylai'r DU barhau i fod yn sefydliad cyhoeddus sy'n creu rhaglenni, cynnwys a gwasanaethau i bawb yn y DU.

Ond mae gennym fwy i'w wneud. Mae gormod o amrywiaeth o hyd o ran pa mor dda rydym yn gwasanaethu ac yn cynrychioli rhannau gwahanol o'r DU ynghyd â phobl wahanol, yn enwedig y rheini o gefndiroedd llai cefnog, pobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig a phobl anabl. Mae ein cynlluniau Across the UK, ein hymrwymiaadau amrywiaeth creadigol, ein cynllun gweithredu didueddrwydd a'n hadolygiad cyfryngau cymdeithasol i gyd yn rhan o'n ffocws ar y meysydd hyn.

Mae cyfanswm o 86% o oedolion o gefndiroedd llai cefnog yn defnyddio'r BBC bob wythnos ar gyfartaledd, sy'n agos at gyfartaledd y DU o 88%, ond gwyddom eu bod yn llai bodlon na grwpiau mwy cefnog. Rydym yn parhau i ymchwilio'n fanwl i sut y gallai ein cynnwys a'n gwasanaethau apelio mwy i'r cynulleidfaeodd hyn.


Mae'r BBC yn arwain y farchnad mewn fideo, sain a newyddion yn y DU ond mae'r gystadleuaeth yn parhau i fod yn ffyrnig.

Yn y farchnad fideo, mae'r niferoedd sy'n gwyllo teledu a ddarledir wedi bod yn lleihau yn gyffredinol ers 2013/14, ac eithrio 2020/21 lle cafwyd cynnydd oherwydd y cyfyngiadau symud. Mae'r tueddiadau a ddechreuodd gyda chynulleidfaeodd ifanc bellach yn cael eu gweld fwyfwy ymysg cynulleidfaeodd hyn. Fodd bynnag, mae lefelau'r BBC wedi gostwng yn llai na gweddill y farchnad teledu a ddarledir o un flwyddyn i'r llall yn 2022/23.

Mae datblygiadau mewn mesuriadau BARB yn golygu y gallwn olrhain lefelau gwyllo darlledwyr, niferoedd sy'n tanysgrifio, a gwasanaethau fideo ar alw i hysbysebu (SVOD ac AVOD) a llwyfannau rhannu fideos (e.e. YouTube a TikTok) ar sail fwy cystadleuol nag erioed o'r blaen.

Mae hyn yn dangos, ar lefel gyffredinol, er gwaethaf y gostyngiadau, mai darlledwyr sydd â'r gyfran uchaf o amser gwyllo y DU o bell ffordd. Ac, yn benodol, mae'r cyhoedd yn y DU

Mae'r BBC yn hanfodol i fywyd yn y DU: yr wythnosau mwyaf i'r DU yw'r wythnosau mwyaf i'r BBC Cyrhaeddiad y BBC ymysg oedolion o wythnos i wythnos yn 2022/23



■ Cyrhaeddiad wythnosol oedolion 16+

— Cyrhaeddiad wythnosol cyfartalog oedolion 16+ yn ystod 2022/23

Ffynhonnell: Compass gan Ipsos UK yn seiliedig ar gyrrhaeddiad wythnosol croniedig 15 munud (ar lwyfan)



Comic Relief 2023

yn parhau i ddefnyddio mwy o oriau o gynnwys teledu y BBC nac unrhyw ddarparwr arall, gan gynnwys mwy na Netflix, Disney+ ac Amazon Prime gyda'i gilydd.

Fodd bynnag, mae gwahaniaeth clir o ran oedran. Ar gyfer pobl dan 25 oed, rhannu fideos sy'n cyfrif am y gyfran uchaf o'u hamser fideo (c.50%) ac o fewn hyn, YouTube yn benodol. O ran cyrhaeddiad, mae mwy o bobl ifanc dan 25 oed yn gwyllo SVOD a gyfartaledd bob wythnos (62%) na theledu a ddarledir (58%).

Yn y farchnad sain, mae BBC Sounds yn tyfu yn enwedig ar gyfer pobl 35+ oed. Ond nid yw hyn yn gwneud i fyny am ostyngiadau yn y niferoedd sy'n gwrando ar radio'r BBC, sydd i lawr o un flwyddyn i'r llall ac sy'n cael ei wasgu oherwydd arferion ffrydio cerddoriaeth a Radio Masnachol.

Gwelwyd cynnydd yn y lefelau ffrydio cerddoriaeth ar gyfer pobl 35+ oed. Gwelwyd cynnydd yn yr amser gwrando ar Radio Masnachol i bob grŵp oedran, a gynorthwywyd gan lwyddiant y cynnydd yn y nifer o wasanaethau a rhwydweithio i frandiau mawr ar draws y DU.

Yn y farchnad newyddion, mae nifer y bobl sy'n defnyddio BBC News Online bob wythnos ychydig yn is o gymharu â 2020-22 pan roedd ffocws mawr ar newyddion oherwydd COVID-19 ond yn uwch o gymharu â'r cyfnod cyn y pandemig.

Cyrhaeddwyd yr holl dargedau perfformiad a osodwyd gan y BBC ar gyfer 2022/23.

Gwnaethom gyflawni ein nod cyrhaeddiad gyda 88% o oedolion yn y DU yn defnyddio'r BBC bob wythnos ar gyfartaledd yn ystod 2022/23. Mae hyn yn codi i 96% ar gyfartaledd bob mis.

Gwnaethom hefyd gyrraedd ein targedau o ran sicrhau bod y BBC yn rhan werthfawr o fywydau cyfryngau pobl: pa mor rheolaidd yw'r rhyngweithio, faint o amser a gaiff ei dreulio a

faint o foddau'r BBC a ddefnyddir gan bobl yn ystod wythnos gyffredin. Cynnal dwyster y gydberthynas hon yw ein her allweddol mewn marchnad cyfryngau lle mae nifer y bobl sy'n mabwysiadu SVOD a gwasanaethau sain ar alw wedi dyblu ers 2017.

Ymysg pobl 16-34 oed, cyrhaeddwyd y targed o sicrhau bod 76% yn defnyddio'r y BBC bob wythnos ar gyfartaledd yn 2022/23. Ar ôl blynyddoedd o gyrhaeddiad cyson ymysg y grŵp oedran hwn – er gwaethaf y gystadleuaeth ffyrnig – gwelwyd gostyngiad o gymharu â 2021/22. Mae pobl 16-34 oed yn parhau i fod yn gadarnhaol iawn ynghylch y ffaith ein bod yn cyflawni'r genhadaeth – gyda sgorau yr un fath â 2021/22 er gwaethaf y gostyngiad mewn cyrhaeddiad. Mae eu sgôr o berthnasedd personol y BBC hefyd yn cyrraedd y targed, er y byddem yn hoffi rhagori ar hyn.

Ymhlith pobl ifanc o dan 16 oed, defnyddiodd 72% y BBC yn gyffredinol a defnyddiodd hanner ein gwasanaethau plant ac addysg bob wythnos ar gyfartaledd yn 2022/23 – ac mae'r ddau ffigur yn unol â'n targedau. Sefydlodd cyrhaeddiad wythnosol y BBC ar gyfartaledd ymysg pobl ifanc dan 16 oed o gymharu â'r flwyddyn flaenorol am y tro cyntaf ers 2019/20. Ond dros y tymor hwy, gwelwyd gostyngiad yn ein perfformiad, yn enwedig ymysg plant 7-12 oed, ac yn arbennig o ran y defnydd o wasanaethau plant ac addysg, wrth i wasanaethau darlledu'r DU deimlo pwysau apêl cwmnïau byd-eang i bobl ifanc dan 16 oed.

Y BBC yw'r unig arlwy yn y DU sy'n cystadlu ag YouTube, Netflix a TikTok ymysg pobl ifanc, ac rydym am sicrhau rôl gwasanaethau darlledu'r DU yn eu bywydau o ran y cyfryngau. Gyda 37% o bobl dan 35 oed bellach yn gwyllo teledu'r BBC drwy iPlayer, ein ffocws digidol yn gyntaf yw buddsoddi mwy mewn rhaglenni newydd ar gyfer iPlayer wrth i ni geisio cynnal effaith cynnwys y DU i bobl o bob oedran.

Ymysg ein cynhyrchion ar-lein, Sounds ac iPlayer yn enwedig, gwelwyd cynnydd o un flwyddyn i'r llall, gan ragori ar eu targedau ar

gyfer nifer y cyfrifon yn gyffredinol sy'n manteisio ar y gwasanaethau hyn bob wythnos ar gyfartaledd a chyflawni'r dyheadau a nodwyd ar gyfer cyfrifon sy'n perthyn i gynulleidfaoedd ifanc (ceir rhagor o fanylion yn y data ar y dudalen nesaf ar berfformiad iPlayer a Sounds yn ystod y flwyddyn). Cyrhaeddodd News Online ei dargedau hefyd, ond ni welwyd cynnydd o un flwyddyn i'r llall, gan adlewyrchu'r farchnad ar-lein ar gyfer newyddion. Rydym yn weld cynnydd cyflymach yn ein harlwy ar-lein ymysg cynulleidfaoedd 35+ oed; sy'n egluro ein ffocws digidol yn gyntaf i wella hyn ymysg pobl o bob oedran.

Roedd argraff gyffredinol y cyhoedd yn y DU ohonom yn sefydlog ymysg saith o bob deg person yn 2022/23, ac maent yn parhau i fod yn gadarnhaol iawn ynghylch yr hyn y mae'r BBC yn ei gyflawni iddynt, fel dinasyddion a chwsmeriaid, er gwaethaf y gystadleuaeth.

Fel nwydd cyhoeddus, roedd wyth o bob deg oedolyn yn y DU o'r farn bod y BBC yn darparu gwasanaeth cyhoeddus gwerthfawr i bobl y DU yn 2022/23.

Fel nwydd traul, dewisodd y cyhoedd yn y DU y BBC bron i 250 miliwn o weithiau bob dydd.

Treuliodd oedolion 16 awr 41 munud gyda ni ar gyfartaledd bob wythnos yn 2022/23 – mwy na gydag unrhyw frand cyfryngau arall. Hyd yn oed gyda'r amrywiaeth eang o opsiynau eraill sydd ar gael heddiw, mae hyn yn cymharu â 18 awr yn 2020/21 a oedd yn uwch oherwydd y cyfyngiadau symud a 17 1/2 awr y flwyddyn ddiwethaf. Mae hefyd yn golygu ein bod wedi cadw 94% o'n defnydd cyn y pandemig o 17 3/4 awr yr wythnos yn 2019/20. Parhaodd sgôr gyfartalog oedolion ar gyfer gwerth am arian i fod yn bump allan o ddeg. Ac o ran gwerth a gyflawnwyd, costiodd pob awr o ddefnydd o'r BBC 7.5c ar gyfartaledd – yr un faint mewn prisiau 2022/23 o gymharu â deg mlynedd yn ôl.

Gyda chryfder y dewis sydd ar gael i bawb, mae'n rhaid i ni barhau i ymdrechu'n galetach nag erioed i sefyll allan gyda chynnwys sy'n unigryw Brydeinig sy'n sicrhau gwerth i bawb.

Cyflawni ein cylch gwaith creadigol

Adroddiad ar werth i gynulleidfaoedd – parhad

Sicrhau gwerth i gynulleidfaoedd

Perfformiad yn erbyn targedau cynulleidfaoedd ar gyfer 2022/23

Sicrhau gwerth i gynulleidfaoedd yn gyffredinol

Cyrhaeddiad y BBC

% yr oedolion 16+ yn y DU sy'n defnyddio Teledu/iPlayer, Radio neu wasanaethau Ar-lein y BBC bob wythnos ar gyfartaledd

Ffynhonnell Compass gan Ipsos UK

88%

Targed 85-90%

Arfer a werthfawrogir gyda'r BBC

% yr oedolion 16+ yn y DU sy'n defnyddio'r BBC 5+ diwrnod bob wythnos ar gyfartaledd

Ffynhonnell Compass gan Ipsos UK

68%

Targed 65-70%

% yr oedolion 16+ yn y DU sy'n defnyddio'r BBC 5+ diwrnod bob wythnos ar gyfartaledd

Ffynhonnell Compass gan Ipsos UK

58%

Targed 55-60%

% yr oedolion 16+ yn y DU sy'n defnyddio dau neu fwy o foddau'r BBC bob wythnos ar gyfartaledd

Ffynhonnell Compass gan Ipsos UK

66%

Targed 65-70%

Parhau i ganolbwyntio ar heriau allweddol o ran cynulleidfaoedd

Oedolion ifanc

Cyrhaeddiad y BBC

% y bobl 16-34 oed yn y DU sy'n defnyddio Teledu/iPlayer, Radio neu wasanaethau Ar-lein y BBC bob wythnos ar gyfartaledd

Ffynhonnell Compass gan Ipsos UK

76%

Targed 75-80%

Perthnasedd personol

Sgôr pobl 16-34 oed yn y DU ar gyfer 'mae'r BBC ar fy nghyfer i' (sgôr gymedrig allan o 10)

Ffynhonnell Kantar Media

6 o bob 10

Targed 6 o bob 10

O dan 16 oed

Cyrhaeddiad y BBC

% y rhai o dan 16 oed yn y DU sy'n defnyddio Teledu/iPlayer, Radio neu wasanaethau Ar-lein y BBC bob wythnos ar gyfartaledd

Ffynhonnell Kids Cross-Media Insight gan Ipsos UK

72%

Targed tua 70%

Cyrhaeddiad gwasanaethau Plant/Addysg y BBC

% y rhai o dan 16 oed yn y DU sy'n defnyddio gwasanaethau Plant/Addysg y BBC bob wythnos ar gyfartaledd

Ffynhonnell Kids Cross-Media Insight gan Ipsos UK

51%

Targed tua 50%

Cyflymu gweithgarwch sy'n ganolog i ymdrechion parhaus ac ymdrechion yn y dyfodol i sicrhau gwerth i gynulleidfaoedd

Cyrhaeddiad BBC iPlayer o ran defnyddwyr sydd â chyfrifon

Cyfrifon gweithredol wythnosol cyfartalog sy'n defnyddio BBC iPlayer

Cyfrifon yn gyffredinol

Ffynhonnell Piano Analytics

13.4m

Targed 12.2-12.5m

Cyfrifon y rhai o dan 35 oed

Ffynhonnell Piano Analytics

4.0m

Targed 3.8-4.0m

Amser a dreulir ar BBC iPlayer y pen bob wythnos

Amser cyfartalog a dreulir y pen bob wythnos

Ffynhonnell BARB fel y'i gwylwyd (pob dyfais)~

56 munud

Targed 50 munud+*

Sgôr BBC iPlayer

Sgôr defnyddwyr wythnosol ar gyfer BBC iPlayer (sgôr gymedrig allan o 10)

Defnyddwyr wythnosol 16+ yn y DU

Ffynhonnell YouGov

8 o bob 10

Targed 8 o bob 10

Defnyddwyr wythnosol 16-34 oed yn y DU

Ffynhonnell YouGov

8 o bob 10

Targed 8 o bob 10

Cyrhaeddiad BBC Sounds ar gyfer defnyddwyr sydd â chyfrifon

Cyfrifon gweithredol wythnosol cyfartalog sy'n defnyddio BBC Sounds

Cyfrifon yn gyffredinol

Ffynhonnell Piano Analytics

4.4m

Targed 4.0m+

Cyfrifon pobl 16-34 oed

Ffynhonnell Piano Analytics

0.59m

Targed 0.57-0.60m

Cyrhaeddiad BBC News Online

% sy'n defnyddio BBC News Online bob wythnos ar gyfartaledd

Oedolion yn y DU 16+

Ffynhonnell Compass gan Ipsos UK

33%

Targed 32%+

16-34 oed yn y DU

Ffynhonnell Compass gan Ipsos UK

32%

Targed 32%+

~ Mae'r data BARB hyn yn newydd ar gyfer 2022/23 ac ni ellir eu cymharu â ffigurau'r flwyddyn flaenorol

* Pennwyd targed o 1awr+ ar gyfer 2022/23 yn wreiddiol gan ddefnyddio data All-Screens y BBC ei hun (modelwyd gan BARB/Piano Analytics) Mae ffynhonnell data amser iPlayer y pen bellach wedi symud i ddata newydd BARB fel y'i gwylwyd (pob dyfais) Felly, mae'r targed wedi'i ailnodi gan fod BARB yn mesur amser iPlayer mewn ffordd wahanol i All-Screens (Yr amser wythnosol cyfartalog y pen ar gyfer iPlayer fel y'i mesurwyd gan All Screens ar gyfer 2022/23 oedd 66 munud felly mae'n rhagori ar y targed o 1awr+ a bennwyd yn wreiddiol o ddata All Screens

BBC iPLAYER



Cyrhaeddiad BBC iPlayer o ran defnyddwyr sydd â chyfrifon

Cyfrifon gweithredol wythnosol cyfartalog sy'n defnyddio BBC iPlayer

Cyfrifon yn gyffredinol

13.4m

Cyfrifon pobl dan 35 oed

4.0m

(2021/22: 12.1 miliwn yn gyffredinol; 3.8 miliwn dan 35 oed).

Ffynhonnell Piano Analytics

Amser yn ffrydio BBC iPlayer

50.4m

Oriau wythnosol cyfartalog a chwaraewyd drwy iPlayer (2021/22: 44.5 miliwn).

Ffynhonnell Data dal i fyny Piano Analytics/Sky

16+ oed

8/10 ^{21/22} **8/10**

16-34 oed

8/10 ^{21/22} **8/10**

Sgôr defnyddwyr wythnosol ar gyfer BBC iPlayer (sgôr gymedrig/10).

Ffynhonnell YouGov 16+

16+ oed

85% ^{21/22} **81%**

16-34 oed

78% ^{21/22} **77%**

% y defnyddwyr wythnosol sydd o'r farn bod iPlayer yn effeithiol o ran helpu'r BBC i gyflawni'r genhadaeth yn gyffredinol (mae 8% o ddefnyddwyr 16+ a 13% o ddefnyddwyr 16-34 oed o'r farn ei fod yn aneffeithiol).

Ffynhonnell Ipsos UK 16+

16+ oed

86% ^{21/22} **83%**

16-34 oed

83% ^{21/22} **79%**

% y defnyddwyr wythnosol sydd o'r farn bod iPlayer yn effeithiol o ran helpu'r BBC i gyflawni'r dibenion cyhoeddus yn gyffredinol (6% o ddefnyddwyr 16+ ac 8% o ddefnyddwyr 16-34 oed o'r farn ei fod yn aneffeithiol).

Ffynhonnell Ipsos UK 16+

BBC SOUNDS



Pawb

4.4m ^{21/22} **3.8m**

16-34 oed

587k ^{21/22} **570k**

Cyfrifon gweithredol wythnosol cyfartalog sy'n defnyddio BBC Sounds.

Ffynhonnell Piano Analytics

15.3m ^{21/22} **13.3m**

Amser yn ffrydio BBC Sounds

Oriau a chwaraewyd drwy Sounds bob wythnos ar gyfartaledd.

Ffynhonnell Piano Analytics

8/10 ^{21/22} **8/10**

Sgôr defnyddwyr wythnosol ar gyfer BBC Sounds (sgôr gymedrig/10).

Ffynhonnell YouGov 16+

- t.140** Am restr lawn o wybodaeth ystadegol am BBC iPlayer
- t.140** Am restr lawn o wybodaeth ystadegol am BBC Sounds



Sut y defnyddiodd cynulleidfaoedd BBC iPlayer a BBC Sounds yn 2022/23

Ceisiadau i BBC iPlayer yn ôl dyfais a math
Allan o 7.3 biliwn o geisiadau:

Yn fyw	21%
Ar alw	79%
Dyfais deledu	70%
Llechen	11%
Cyfrifiadur	9%
Ffôn symudol	10%

Cyfrifon gweithredol BBC iPlayer bob wythnos ar gyfartaledd

miliynau/% y proffil oedran

Dan 35 oed	4.0m	30%
35-54 oed	4.2m	31%
55+ oed	4.0m	30%
Oedran yn anhysbys	1.2m	9%

Eitemau a chwaraewyd ar BBC Sounds yn ôl math

Allan o 1.64 biliwn o eitemau a chwaraewyd:

Yn fyw	53%
Ar alw	47%
Llafar byw	30%
Cerddoriaeth fyw	23%
Llafar ar alw	40%
Cerddoriaeth ar alw	7%

Cyfrifon gweithredol BBC Sounds bob wythnos ar gyfartaledd

miliynau/% y proffil oedran

Dan 35 oed	0.6m	14%
35-54 oed	1.5m	33%
55+ oed	1.7m	39%
Oedran yn anhysbys	0.6m	15%

Oherwydd talgrynnu, efallai na fydd y ffigurau'n creu cyfanswm o 100%
Ffynhonnell Piano Analytics



Ymgysylltu â chynulleidfaoedd



Caiff ein strategaeth Gwerth i Bawb ei hategu gan ddealltwriaeth ddofn o gynulleidfaoedd ar draws y DU.

Mae'r BBC yn manteisio ar amrywiaeth eang o adborth a data gan gynulleidfaoedd – ac mae'n defnyddio'r wybodaeth hon er mwyn helpu i wneud penderfyniadau ym mhob rhan o'r sefydliad; drwy gomisiynu cynnwys, newyddiaduraeth, datblygu cynhyrchion digidol, marchnata a thu hwnt.

Mae'r ffynonellau a ddefnyddiwn yn amrywio o rai arsylwadol – drwy adnoddau mesur y cyfryngau ac adnoddau dadansoddi digidol, i rai mwy myfyriol lle rydym yn gofyn i bobl y DU am eu barn ystyrlon ar yr hyn y maent yn ei werthfawrogi gan y BBC.

Mae'r ffynonellau hyn yn cynnwys:

- un o ymarferion mwyaf blaenllaw'r diwydiant i fesur dewisiadau o ran y cyfryngau yn y DU ar bob llwyfan (Teledu, Radio, Ar-lein)
- buddsoddiad parhaus yng ngwerthoedd mesur y cyfryngau yn y DU
- adnoddau dadansoddi digidol dwfn: gyda set ddata ddigidol gynhwysfawr i'n helpu i ddeall sut mae pobl yn defnyddio ein cynhyrchion digidol (gan gynnwys ein sylfaen o ddefnyddwyr sy'n mewngofnodi – sydd bellach yn rhagori ar 50 miliwn o gyfrifon cofrestredig)
- arolygon a pholau piniwn rheolaidd i ddeall agweddau ac ymatebion y DU i'n harlwy
- cysylltiadau dyddiol gan ein cynulleidfa gyda mwy na 300,000 o ffurflenni gwe, negeseuon e-bost, llythyrau a galwadau i'n canolfannau cyswllt bob blwyddyn

Ar y cyd, mae'r data hyn yn ein helpu i feithrin dealltwriaeth gyfoethog o fywyd ar draws y DU; ond gwyddom nad oes dim yn well na chwrdd â'n cynulleidfa yn y cnawd ac am y rheswm hwn, rydym wedi datblygu rhaglen ymgysylltu â chynulleidfaoedd dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf ar gyfer y sefydliad cyfan ('BBC Virtual In Person') – sy'n ein galluogi i gysylltu ein staff ag aelodau o'r cyhoedd yn rheolaidd – drwy sgysiaua a gaiff eu hwyluso drwy fideo.



Stiwdio B BBC News

Mae Virtual in Person (VIP) wedi parhau i ddatblygu dros y 12 mis diwethaf – a'r flwyddyn hon mae'r tîm wedi cynnal 105 o sesiynau, gyda 620 o aelodau o'r gynulleidfa a bron i 2,000 o'r BBC. Caiff aelodau'r gynulleidfa eu recriwtio'n allanol ac yn aml gofynnir iddynt wyllo rhywfaint o gynnwys y BBC, gwrando arno neu ei ddarllen ymlaen llaw fel rhan o dasg ragarweiniol. Yna, gofynnir iddynt rannu eu barn 'yn fyw' yn ystod y sesiwn. Mae'r grwpiau rydym wedi clywed ganddynt y flwyddyn hon wedi cynrychioli ystod eang o oeddrannau a demograffeg ac maent wedi dod o leoliadau o bob cwr o bedair gwlad y DU. Mae Pwyllgorau Gwledydd y Bwrdd yn cynnal sesiynau rheolaidd â chynulleidfaoedd ac mae fformat y sesiynau yn ein galluogi i dargedu grwpiau, rhanbarthau neu ardaloedd demograffig penodol ac i ystyried pynciau pwysig rydym am glywed safbwyntiau uniongyrchol arnynt.

Ymysg y pynciau a drafodwyd mae arferion gwyllo a gwrando, cynhyrchion a gwasanaethau'r BBC (gan gynnwys BBC iPlayer a BBC Sounds), newyddion cenedlaethol a lleol, chwaraeon, cynnwys plant, cynrychiolaeth ar y sgrin, gwerth i ffi'r drwydded a didueddrwydd. Ceir crynodeb o'r is-adrannau a gwmpesir yn y sesiynau isod.

Mae clywed yn uniongyrchol gan amrywiaeth eang o bobl yn ffordd bwerus o sicrhau bod cynulleidfaoedd wirioneddol wrth wraidd popeth a wnawn. Mae'n sicrhau bod pobl go iawn – eu bywydau a'r pethau sy'n bwysig iddynt – yn cael blaenoriaeth gan wneuthurwyr cynnwys, newyddiadurwyr ac arweinwyr y BBC. Mae deall ein cynulleidfaoedd yn well drwy ymgysylltu'n uniongyrchol â nhw yn chwarae rôl bwysig yn helpu'r BBC i gyflawni ei nod o sicrhau gwerth i bawb.

Cyfanswm y sesiynau yn ôl is-adran a maes

Is-adran a maes	Sesiynau
Cynnwys a Chwaraeon	16
Marchnata	7
Y Gwledydd a'r Rhanbarthau	15
Newyddion a didueddrwydd	33
Radio	13
Plant ac Addysg	17
Studios	4
Cyfanswm	105

ADRODDIAD GWEITHREDOL



t.48

Adolygiad y Prif
Swyddog Gweithredu

t.54

Ein pobl

t.58

Adroddiad gwybodaeth am
amrywiaeth a chynhwysiant a
chydaddoldeb yn y gweithlu

t.61

Adroddiad ar y
Bwlch Cyflog

t.65

Ymgynghoriadau

t.66

Cynaliadwyedd

t.71

Gwaith elusennol

t.72

Partneriaethau a
mentrau cydweithredol

ADOLYGIAD Y PRIF SWYDDOG GWEITHREDU



Prif benawdau ar gyfer 2022/23

£3,740m 2021/22
£3,800m

Incwm o ffi'r drwydded

£2,115m 2021/22
£1,718m

Incwm masnachol

5%

Gorbenion ymysg y gorau yn y diwydiant gwasanaeth cyhoeddus o hyd

Mae cynnig gwerth i bob cynulleidfa wrth wraidd ein gweithrediadau. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu ein perfformiad gweithredol yn ystod y 12 mis diwethaf a'r rhagolygon ar gyfer y flwyddyn i ddod wrth i ni drawsnewid i BBC modern a digidol.

O ganlyniad i ymdrechion gofalus i reoli ein cyllid a'n gweithrediadau a mentrau arbedion hanesyddol parhaus, rydym mewn sefyllfa ariannol gadarn ar ddiwedd y flwyddyn, gydag arian parod a buddsoddiadau Grŵp y BBC yn dod i gyfanswm o £600 miliwn. Ffi'r drwydded yw prif ffynhonnell incwm unigol y BBC o hyd. Rydym yn ddiolchgar bod cynulleidfaedd yn parhau'n ymrwymedig i dalu ffi'r drwydded ac roedd 24.4 miliwn o drwyddedau gweithredol ar 31 Mawrth 2023. Yn ystod blwyddyn ein canmlwyddiant, gwnaethom fuddsoddi dros £3 biliwn mewn cynnwys a gwasanaethau digidol gwasanaeth cyhoeddus, gan ddarparu rhaglennu a gwasanaethau o ansawdd uchel i gynulleidfaedd. Llwyddwyd i gynnal ein cyfraddau gorbenion, a oedd ymysg y gorau yn y diwydiant gwasanaeth cyhoeddus, ar ddim ond 5% o'r sail costau.

Cafodd ein cangen fasnachol flwyddyn arall lle roedd ei pherfformiad yn well nag erioed. Tyfodd referniw'r Grŵp Masnachol 23% o un flwyddyn i'r llall gan gyrraedd lefel yn uwch na £2 biliwn am y tro cyntaf. O ganlyniad, cafwyd EBITDA o £240 miliwn a difidend wedi'i ddatgan o £198 miliwn. Cyfanswm enillion ein his-gwmniau masnachol i'r BBC oedd £368 miliwn yn 2022/23. Gan adeiladu ar strategaeth Gwerth i Bawb y BBC i dyfu incwm masnachol, mae BBC Studios wedi llunio cynlluniau twf uchelgeisiol i ddyblu'r busnes erbyn 2027/28. Er mwyn gwneud hyn, gwneir buddsoddiad uwch mewn cynnwys a gwasanaethau digidol newydd ac i gynyddu twf masnachol i'r eithaf er mwyn sicrhau gwerth hirdymor cynaliadwy i dalwyr ffi'r drwydded y BBC.

Mae anwadalrwydd economaidd y flwyddyn ddiwethaf wedi cyflwyno sawl her, gan gynnwys ein gallu i ymdopi â lefelau chwyddiant eithriadol. Mae'r effaith i'w themlo ym mhob rhan o'r busnes ac mae timau yn ymrwymedig i nodi camau lliniaru ac arbedion i wrthbwyso'r cynnydd mewn costau. Ynghyd â chodiadau chwyddiant cyffredinol, mae cystadleuaeth yn niwydiant y cyfryngau yn cynyddu cost cynnwys a thalent, gan roi pwysau dwys ar gyllidebau cynhyrchu. Rydym yn parhau i drechu prisiau uwch drwy froceru telerau talu ffafril, sicrhau buddsoddiadau gan drydydd partion a gwneud dewisiadau buddsoddi gwybodus er mwyn cyfeirio adnoddau tuag at gynnwys perfformiad uchel er mwyn cynnig y gwerth uchaf posibl i'n cynulleidfaedd.

Bydd y pwysau economaidd hwn yn uwch byth wrth i ni symud i mewn i'r ail flwyddyn yn olynol o brisiau gwastad ar gyfer ffi'r drwydded, fel y pennwyd gan setliad ffi'r drwydded yn 2022. Cafodd pris ffi'r drwydded ei rewi ar £159 am y ddwy flwyddyn hyd at fis Ebrill 2024, gan gynyddu wedyn yn unol â chwyddiant y Mynegai Pris Defnyddwyr dros y pedair blynedd ddilynol. O ganlyniad, amcangyfrifir ein bod wedi colli gwerth £400 miliwn o incwm dros weddill y Siarter. Fodd bynnag, mae'r setliad yn darparu sicrwydd y bydd ffi'r drwydded yn parhau tan 2027/28, sy'n ein galluogi i wneud dewisiadau buddsoddi yn unol â'n uchelgeisiau strategol.

Er gwaethaf awadalrwydd yr economi a'r farchnad, cawn ein hysgogi gan yr angen i drawsnewid y BBC er mwyn rhoi ein strategaeth Gwerth i Bawb ar waith. Rydym wedi profi ein gallu i gyflawni arbedion yn y gorffennol, fel y gwelwyd gan yr arbedion parhaus o £1 biliwn a gyflawnwyd yn ystod ein Cynllun Arbedion Strategol pum mlynedd a ddaeth i ben yn 2021/22. Rydym wedi datblygu mentrau arbedion newydd er mwyn cyflawni ein uchelgais buddsoddi digidol yn gyntaf ac er mwyn ymdopi â phwysau chwyddiannol ac effaith setliad diweddar ffi'r drwydded ar ein harian parod. Mae ein cynlluniau ar gyfer arbed £500 miliwn yn canolbwyntio ar arbedion cost, defnyddio a dyrannu adnoddau, ac ar dyfu ein hincwm masnachol. Gan ddangos ein hymrwymiad i'n cynulleidfaoedd, bydd yr arbedion yn helpu i roi ein cynllun ailfuddsoddi uchelgeisiol ar waith yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod gan gyfeirio cyllid tuag at gynnwys fideo premiwm, cynyddu ein hymdrechion i bortredu'r gwledydd, cynyddu ein harlwy newyddion digidol a buddsoddi yn ein cynhyrchion digidol.

Rydym yn parhau i drawsnewid y ffordd y mae'r BBC yn gweithio, ac yn parhau'n ymrwymedig i BBC mwy darbodus ac effeithlon, a gafodd ei adlewyrchu yn y gostyngiad a fu yn nifer y swyddi gwasanaeth cyhoeddus cyfwerth ag amser llawn ar 31 Mawrth 2023 i 17,685 (2021/22: 17,781). Y flwyddyn hon, rydym wedi ymgymryd â gweithgarwch ail-lunio sylweddol ym mhob is-adran ac wedi ailddylunio rhai o swyddogaethau Grŵp y BBC er mwyn cysoni timau a chyfuno arbenigwyr, gan greu sefydliad symlach, mwy effeithiol. Mae'r broses o ail-lunio strwythur ein sefydliad yn gofyn am newidiadau a thrawsnewidiadau sylweddol. Rydym yn parhau i ymgysylltu'n rhagweithiol â'n hundebau llafur mewn tirlun cysylltiadau diwydiannol mwy heriol.

Mae gwobrwyo ein pobl mewn ffordd deg a chystadleuol yn sail i'n cynlluniau i sicrhau bod y BBC yn lle gwych i weithio ac er gwaethaf yr heriau ariannol sylweddol a ffi'r drwydded wastad, gwnaethom ymateb i'r pwysau costau byw drwy gyflwyno cynnig cyflog uwch i'n cyflogeion, gan gynnwys dull newydd o ystyried codiadau cyflog. Y flwyddyn hon, ac am y tro cyntaf yn hanes y BBC, llwyddwyd i gyflawni lefel gynrychiolaeth o 50% ar gyfer menywod yn y gweithlu a gwnaethom barhau â'n cynnydd tuag at gyrraedd ein targedau amrywiaeth a chynhwysiant mewn meysydd eraill: mae 17% o'n staff yn unigolion Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol ac mae 9% o'n staff yn anabl. Mae ein targed anabled yn parhau'n ffocws allweddol ac yn ystod y flwyddyn hon, gwnaethom ail-lansio ein rhaglen Extend i ddenu pobl anabl i ddatblygu eu gyrfaedd yn y BBC, yn ogystal â lansio pecyn cymorth newydd i reolwyr sy'n penodi staff. Rydym yn parhau'n ymrwymedig i wella cynrychiolaeth ym mhob rhan o'r sefydliad ac rydym wedi pennu targed o 25% ar gyfer cyflogeion o gefndir economaidd-gymdeithasol is i ategu ein targedau 50:20:12. Y ganran bresennol yw

21.1%. Ers i ni ddechrau adrodd ar ein bwlch cyflog yn 2017, rydym wedi canolbwyntio ar leihau'r bylchau cyflog drwy gynyddu cynrychiolaeth ym mhob rhan o'r sefydliad. Mae ein bwlch cyflog cymedr bellach yn 4.7% ac mae wedi mwy na haneru ers y ffigur cyntaf a adroddwyd yn 2017, sef 10.7%. Y flwyddyn hon mae ein bwlch cyflog canolrif rhwng y rhywiau wedi cynyddu ac mae bellach yn 7.3%. Rydym yn digwyl gweld rhywfaint o newidiadau yn y bylchau cyflog canolrif a chymedr bob blwyddyn yn seiliedig ar ein tueddiadau o ran cyflogi a gadael. Er enghraifft, rydym yn rhagweld cynnydd byrdymor i rai o'n bylchau cyflog wrth i ni wella amrywiaeth cydweithwyr ar lefel mynediad er mwyn creu cyflenwad talent ar gyfer y dyfodol. Fel rhan o gynlluniau'r BBC i gefnogi ffyniant bro ar draws y DU, rydym wedi pennu targed i gynyddu nifer y prentisiaid i 1,000 erbyn 2025. Roedd cyfanswm o 629 o brentisiaid y BBC ar leoliadau ym mis Mawrth 2023 mewn amrywiaeth eang o rolau creadigol, digidol a gweithredol ar draws y DU.

Ein nod o hyd yw creu amgylcheddau gweithio modern a bywiog i'n staff. Mae lleihau ein hystad eiddo yn agwedd bwysig ar ein strategaeth fusnes ac mae sawl eiddo ar werth ar hyn o bryd, gan gynnwys Caversham, Elstree a Maida Vale. Yn ogystal, rydym yn cyfuno safleoedd sy'n bodoli eisoes yn Llundain gan leihau ein hól troed yn y Ganolfan Ddarlledu ac yn Wogan House drwy symud allan neu drwy is-brydlesu. Mae lleihau ein hystad yn lleihau costau ac yn ein helpu i gyflawni ein hymrwymadau sero net. Rydym yn parhau i wneud cynnydd da yn erbyn ein strategaeth cynaliadwyedd ac mae allyriadau Cwmpas 1 a Chwmpas 2 ar y trywydd cywir i gyrraedd y targed. Gan adeiladu ar ein gwaith yn ystod y flwyddyn hon i bennu targedau gwyddoniaeth i'r BBC, rydym wedi gweithio gyda nifer o bartneriaid allanol, gan gynnwys Microsoft i ddatblygu llwyfan ar-lein i goladu data amgylcheddol y BBC.

Roedd heriau sylweddol yn gysylltiedig ag argyfyngau geo-wleidyddol o hyd, yn ogystal â risgiau i ddiogelwch ein pobl. Mewn ymateb, canolbwyntiodd y BBC ar ddiogelwch staff a pharhad gweithrediadau ac allbwn sy'n darparu gwasanaethau hanfodol i gynulleidfaoedd.

Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom wynebu heriau yn ein gweithrediadau rhyngwladol – o'r tarfu a fu ar dimau iaith Rwsieg ac Wcreineg y World Service yn sgil y gwrthdaro parhaus, i adolygiadau treth, problemau cyfreithiol a phroblemau cydymffurfiaeth reoleiddiol yn India yn dilyn arolwg treth ar weithrediadau'r BBC ym Mumbai a Delhi.

Yn y DU, rhoddwyd y gorau i gynhyrchu Cyfres 34 o Top Gear ar ôl damwain ar drac prawf Maes Glanio Dunsfold Park ym mis Rhagfyr 2022 ac mae ein prif ffocws ar lesiant pawb yr effeithiwyd arnynt. Mae trydydd parti annibynnol wrthi'n cynnal adolygiad iechyd a diogelwch llawn o'r rhaglen. Ym mis Awst y

Mae ein cynllun Gwerth i Bawb yn blaenoriaethu gwariant ar ein cynnwys a'n gwasanaethau o'r radd flaenaf – gan sicrhau bod ffi'r drwydded yn rhoi gwerth i gynulleidfaoedd am ddim ond 44c y dydd.

llynedd, rhoddodd y BBC gyfarwyddyd i adolygydd annibynnol, Gemma White CB gynnal a chyflwyno i Fwrdd y BBC yr adolygiad o ymateb y BBC i honiadau a wnaed mewn perthynas ag ymddygiad y cyn-DJ Tim Westwood.

Gwnaethom barhau i sicrhau uniondeb gweithredol a gwydnwch ein systemau darlledu a'n systemau ar-lein craidd, gan ein galluogi i gyflwyno blwyddyn arall o ddigwyddiadau darlledu byd-eang o bwys, gan gynnwys darllediadau o Angladd Gwladol Ei Mawrhydi'r Frenhines Elizabeth II, yn ogystal â digwyddiadau chwaraeon allweddol fel Cwpan y Byd FIFA mewn Manlyder Uchel lawn. Rydym yn parhau i berfformio'n gyson yn erbyn amrywiaeth o fetrigau perfformiad gweithredol a dangosyddion perfformiad allweddol er mwyn sicrhau argaeledd, cywirdeb ac ansawdd ein cynnwys ar yr awyr ac ar-lein. Mae risg seiberddiogelwch yn dal i fod yn ffocws allweddol. Ym mis Mehefin 2023, wynebodd Zellis, ein darparar gwasanaethau cyflogres ddigwyddiad seiberddiogelwch byd-eang a arweiniodd at achos o dorri rheolau data, ac rydym wrthi'n gweithredu mesurau lliniaru priodol ar gyfer hyn.

Mae'r adroddiadau dros y tudalennau canlynol yn rhoi manylion am berfformiad Grŵp y BBC dros y flwyddyn ddiwethaf a materion penodol fel cyfraniadau pensiwn a threth. Rydym yn nodi'r cymorth rydym yn ei roi i'n cyflogeion, metrigau staffio craidd, gwybodaeth am gydraddoldeb ac adroddiadau ar y bwlch cyflog. Ceir gwybodaeth am ein rhoddion elusennol a sut rydym yn ymgysylltu â chynulleidfaoedd a phartneriaid. Rydym hefyd yn adrodd ar ein cynnydd yn erbyn targedau cynaliadwyedd amgylcheddol wrth i ni anelu at ein uchelgais sero net.

Ar ran y Pwyllgor Gweithredol cyfan, hoffwn ddiolch i bob aelod o'n staff am eu hymdrechion a'u hymrwymiad parhaus yn ystod y 12 mis diwethaf. Rwy'n hynod falch o'r cynnwys, y creadigrwydd, y cyflawniad a'r arloesedd eithriadol y mae ein timau yn eu darparu ac yn eu cefnogi bob dydd.



Leigh Tavaziva
Prif Swyddog Gweithredu
27 Mehefin 2023

Adroddiad gweithredol Ein sefyllfa ariannol

Mae'r adran hon yn rhoi manylion am ein perfformiad yn y flwyddyn ddiwethaf wrth i ni ddefnyddio ein cronfeydd arian parod wrth gefn i ymdopi â phrisiau gwastad ffi'r drwydded ac anwladrwydd economaidd, gan sicrhau ein bod yn parhau i fuddsoddi mewn cynnwys a gwasanaethau i'n cynulleidfaoedd ar yr un pryd.

Incwm

Nododd setliad ffi'r drwydded a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ym mis Ionawr 2022 y byddai ffi flynyddol y drwydded yn cael ei rhewi ar £159 tan fis Mawrth 2024. Casglwyd incwm ffi'r drwydded o £3,740 miliwn gennym yn 2022/23, gostyngiad o ddim ond 1.6% o ganlyniad i'r ffaith bod 437,000 yn llai o drwyddedau gweithredol y talwyd amdanynt. Mae cyfanswm y trwyddedau gweithredol, sef 24.4 miliwn, yn dangos yr ymrwymiad cryf gan gynulleidfaoedd i barhau i dalu ffi'r drwydded, ac mae tua 9 naw o bob deg cyfeiriad yn meddu ar drwydded briodol. Ceir rhagor o fanylion ar incwm ffi'r drwydded yn nodyn B2 o'r datganiadau ariannol.

Fel un o'n pedair blaenoriaeth strategol, rydym yn parhau i ganolbwyntio ar gynyddu ein ffrydiau incwm masnachol. Cynyddodd incwm arall, sy'n cynnwys cyfraniadau gan gwmnïau masnachol ac incwm gwerthiannau trydydd parti, £455 miliwn o un flwyddyn i'r llall, wedi'i lywio'n bennaf gan flwyddyn arall o werthiannau uchel gan BBC Studios.

Mae'r Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu yn parhau i fuddsoddi yn y BBC World Service a chadarnhawyd cyllid cymorth grant o £283 miliwn ar gyfer y cyfnod tair blynedd hyd at fis Mawrth 2025, sy'n cyfateb i £94.4 miliwn y flwyddyn. Rhoddwyd £4 miliwn arall ym mis Mawrth 2022 er mwyn atal twyllwbyodaeth a chynnal darllediadau newyddion diduedd a chywir yn Wcráin a Rwsia. Ym mis Mawrth 2023, rhoddwyd grant untro o £20 miliwn i'r BBC World Service er mwyn diogelu gwasanaethau ieithoedd y World Service dros y ddwy flynedd nesaf a chefnogi darlledu Saesneg ac ymdrechion i atal twyllwbyodaeth.

Gostyngiad o 1.6% yn incwm ffi'r drwydded

Yr incwm masnachol uchaf erioed, a oedd dros £2 biliwn

EBITDA masnachol o £240 miliwn

Buddsoddiad o £3 biliwn mewn gwariant ar gynnwys gwasanaeth cyhoeddus

Mwy na 95% o wariant gwasanaeth cyhoeddus wedi'i neilltuo ar gyfer cynnwys a'i ddarparu

Datganiad Incwm Grŵp y BBC

Datganiad incwm	Beth ydyw?	2022/23 £m	2021/22 £m	Beth ddigwyddodd?
Incwm o ffi'r drwydded	Cyfanswm y ffioedd trwyddedau a gasglwyd	3,740	3,800	Gostyngiad wedi'i lywio gan brisiau gwastad ffi'r drwydded a gostyngiad yn nifer y trwyddedau y talwyd amdanynt
Incwm arall	Incwm masnachol ac incwm grant	1,985	1,530	Mae'r perfformiad masnachol gorau erioed wedi cyfrannu at dwf referniw o 30%
Cyfanswm incwm		5,725	5,330	
Costau gweithredu	Cost cynhyrchu'r holl gynnwys a rhedeg y BBC	(5,957)	(5,231)	Gwariant i ysgogi twf masnachol a buddsoddiad parhaus mewn cynnwys i gynulleidfaoedd
Cyfran o ganlyniadau partneriaethau cyswllt a chyd-fentrau	Ein cyfran o elw'r busnesau lle rydym yn rheoli 50% neu lai	12	25	Mae'r canlyniadau yn cynnwys BritBox International a BBC America
(Diffyg)/gwarged gweithredu		(220)	124	
Enillion ar waredu	Elw o waredu gweithrediadau ac asedau sefydlog	11	28	Yn cynnwys enillion ar waredu ymgymeriadau cyswllt ac enillion o werthu eiddo yn 2021/22
Colledion eraill	Colled net ar symudiadau mewn offerynnau ariannol	(21)	(13)	Yn adlewyrchu newidiadau gwerth teg mewn deilliadau a lleihad mewn buddsoddiadau cyswllt
Incwm ariannu net	Y llog net ar asedau a rhwymedigaethau pensiwn y BBC, llog ar fenthyciadau a symudiadau gwerth teg ar ddeilliadau	91	47	Enillion net ar offerynnau ariannol o ganlyniad i gyfraddau llog ffafriol yn y farchnad
Trethiant	Y credyd treth net ar gyfer y flwyddyn	19	20	Yn cynnwys credydau treth teledu o'r radd flaenaf, a gaiff eu gwrthbwysu'n rhannol gan daliadau treth gorfforaeth
(Diffyg)/gwarged y Grŵp ar gyfer y flwyddyn		(120)	206	

Casglu ffi'r drwydded

Mae systemau rheoli ariannol effeithiol yn rhan allweddol o gydberthynas unigryw'r BBC â'n cynulleidfaoedd. Mae hyn yn cynnwys gwario ffi'r drwydded yn effeithlon a chasglu ffi'r drwydded deledu gan bawb y mae'n ofynnol iddynt brynu un. Caiff y broses o gasglu ffi'r drwydded ei hategu gan ofyniad cyfreithiol i brynu trwydded os byddwch yn gwylio neu'n recordio rhaglenni sy'n cael eu dangos ar y teledu; yn gwylio ffrydiau byw drwy wasanaeth teledu ar-lein; neu'n lawrlwytho neu'n gwylio rhaglenni'r BBC ar iPlayer (yn fyw, drwy'r gwasanaeth dal i fyny neu ar alw).

Mae gan y BBC nifer o drefniadau cytundebol sy'n cwmpasu'r gwaith o gasglu, gweinyddu a gorfodi ffi'r drwydded, marchnata, rheoli sianelau talu a rhwydweithiau manwerthu. Mae'r mwyafrif o'r gwaith gweinyddol yn cael ei gynnal gan Capita Business Services Ltd ac mae contractau ar waith tan 2027.

Y flwyddyn ddiwethaf, cwblhaodd y BBC hefyd adolygiad ffrensieg er mwyn deall pam y mae mwy o fenywod na dynion yn cael eu herlyn am beidio â thalu ffi'r drwydded. Daeth yr adolygiad i'r casgliad (yn unol ag adolygiadau blaenorol) nad oes unrhyw dystiolaeth y gwahaniaethir yn erbyn unrhyw grŵp yn fwriadol yn hyn o beth a bod y gwahaniaeth yn cael ei achosi'n bennaf gan ffactorau cymdeithasegol sydd y tu hwnt i reolaeth y BBC. Er hyn, buom yn gweithio gyda rhanddeiliaid i lunio cynllun gweithredu 10 pwynt a'i roi ar waith o ganlyniad i'r canfyddiadau.

Mae'r dull casglu presennol yn parhau i fod yn deg ac yn effeithiol gan sicrhau gwerth da am arian. Rydym yn cynnig amrywiaeth o ddulliau

talw yn cynnwys mewn siopau, dros y ffôn ac ar-lein. Rydym yn parhau i gefnogi'r sawl sy'n cael anawsterau ariannol drwy gynnig y Cynllun Talu Symbl, cynllun talu hyblyg sy'n lledaenu cost ffi'r drwydded dros 12 mis. Mae trwyddedau teledu am ddim, a ariennir gan y BBC, ar gael i unrhyw un dros 75 oed sy'n cael Credyd Pensiwn*.

Datganiad ffi'r drwydded

Rydym yn paratoi datganiad blynyddol o refeniw ffi'r drwydded a gaiff ei archwilio gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol. Mae'r datganiad hwn yn nodi'r symiau a gasglwyd gennym ac a dalwyd i Lywodraeth EF yn ystod y flwyddyn. Ynghyd â'i gwaith archwilio, mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn edrych ar ein trefniadau casglu ac yn adrodd arnynt i Senedd y DU. Ceir rhagor o wybodaeth am ddatganiad refeniw ffi'r drwydded yn: www.tvlicensing.co.uk/about/bbc-trust-statement-AB21.

Gwariant ar gynnwys

Mae ein strategaeth Gwerth i Bawb yn blaenoriaethu buddsoddiadau tuag at gynnwys o bwys ac ymdrechion i ehangu ein gwasanaethau digidol wrth i ni anelu at ein huchelgais mai ni fydd y sefydliad cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus digidol byd-eang cyntaf yn y byd.

Cynyddodd gwariant ar gynnwys gwasanaeth cyhoeddus 4% yn ystod blwyddyn ein canmlwyddiant, sef cyfanswm o £3,078 miliwn. Caiff y buddsoddiad hwn ei ariannu'n rhannol gan arian parod a arbedwyd yn ystod blynyddoedd cynnar setliad ffi'r drwydded ac arbedion hanesyddol. Cyflwynwyd blwyddyn eithriadol arall o gynnwys gennym gan sicrhau bod ein cynulleidfaoedd yn cael eu hysbysu, eu haddysgu a'u diddanu – gan amrywio o ddarllediadau o ddigwyddiadau seremonïol ar gyfer Jiwbilî Blatinwm ac Angladd Gwladol EM Brenhines Elizabeth; digwyddiadau chwaraeon gan gynnwys Cwpan y Byd FIFA a Phencampwriaethau Pêl-droed Ewrop; darllediadau newyddion o'r rhyfel yn Wcráin; a chynrychiadau drama, adloniant a ffeithiol clodwïw.

O ganlyniad i gystadleuaeth yn niwydiant y cyfryngau, ynghyd â'r galw am gynnwys o ansawdd uchel, mae cost talent a chynnwys yn codi'n gyflymach na chwyddiant, gan roi pwysau eithriadol ar gyllidebau comisiynu. Er mwyn ymdrin â'r cynnydd mewn costau, rydym yn asesu pob cyfle i fuddsoddi – gan anelu at leihau costau, annog buddsoddiad gan drydydd partion a sicrhau telerau llif arian parod ffafriol â chynhyrchwyr. Rydym yn adolygu ein llechi cynhyrchu yn barhaus, er mwyn rhoi'r gorau i wario ar raglenni perfformiad isel a rhoi blaenoriaeth i gynnig rhaglenni newydd cyffrous i'r gynulleidfau.

Er gwaethaf pwysau chwyddiant allanol, llwyddwyd i gynnal ein cyfradd gorbenion o fewn 5% i'r sail costau gwasanaeth cyhoeddus. Llwyddodd penderfyniadau gwario gofalus i sicrhau bod adnoddau a chyllid yn cael eu

cyfeirio at ein cynnwys a'n gwasanaethau o'r radd flaenaf, a chafodd dros 95% o'n gwariant ei gyfeirio at gynnwys a'r trefniadau ar gyfer cyflwyno'r cynnwys hwnnw i gynulleidfaoedd a defnyddwyr a seilwaith hanfodol i gefnogi prosesau cynhyrchu.

Ceir manylion ar ein gwariant darlledu cyhoeddus ar dudalen 53.

Arian parod a dyled net

Ar ddiwedd y flwyddyn, mae gennym falans arian parod a buddsoddiadau gwasanaeth cyhoeddus o £338 miliwn, sy'n cynnig all-lif arian parod cynlluniedig i ni wrth i ni drawsnewid i'r rhaglen arbedion newydd er mwyn ymdopi â'r incwm a gollwyd o ganlyniad i briesiau gwastad ffi'r drwydded a bennwyd gan setliad ffi'r drwydded. Gostyngodd arian parod a buddsoddiadau gwasanaeth cyhoeddus £235 miliwn o un flwyddyn i'r llall, ond rydym mewn sefyllfa ariannol gref o hyd i ymdrin â phwysau chwyddiant parhaus yn y sail costau. Mae gwaith cynllunio darbodus mewn perthynas ag arian parod wedi blaenoriaethu cyllid tuag at gynnwys o bwys i gynulleidfaoedd, buddsoddiadau mewn adneuo byrdymor, yn ogystal â sicrhau cronfeydd digonol wrth gefn i reoli amseriad llif arian parod ar gyfer gweithrediadau o ddydd i ddydd.

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn pennu terfynau benthycu ar gyfer Grŵp y BBC yn unol â'r cytundeb rhwng y BBC a'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS). Ar 31 Mawrth 2023, dyled net Grŵp y BBC oedd £1,294 miliwn, a oedd ymhell o fewn ein terfynau benthycu o £3,000 miliwn, sy'n cynnwys £2,200 miliwn yn benodol ar gyfer prydlesau.

Yn ystod y flwyddyn, cafodd terfyn benthycu (heb gynnwys prydlesau) angen fasnachol y BBC ei gynyddu i £600 miliwn (2021/22: £350 miliwn). Bydd cynnydd pellach hyd at £650 miliwn o fis Ebrill 2025, a chynnydd terfynol hyd at £750 miliwn ym mis Ebrill 2026. Bydd y codiad yn y terfyn benthycu yn galluogi buddsoddiadau strategol mewn mentrau newydd er mwyn cyflawni refeniw uchelgeisiol a chynlluniau twf EBITDA yn BBC Studios, a fydd yn eu tro o fudd i economi greadigol ehangach y DU.

Ceir rhagor o fanylion ar ein benthyciadau yn nodiadau G3 a G4 o'r datganiadau ariannol.

Is-gwmnïau masnachol

Fel un o'n pedair blaenoriaeth strategol, mae tyfu gweithgaredd masnachol yn gynyddol bwysig i ddyfodol y BBC er mwyn cynyddu gwerth ariannol i dalwyr ffi'r drwydded ar ffurf enillion ariannol i'r BBC a chynnwys gwasanaeth cyhoeddus o'r radd flaenaf. Mesurau perfformiad allweddol Grŵp Masnachol y BBC yw refeniw ac EBITDA (enillion cyn llog, treth, dibrisiant ac amorteiddio). Y flwyddyn hon, cyflawnodd y grŵp refeniw o £2,115 miliwn ac EBITDA o £240 miliwn. Cafwyd cyfanswm o £368 miliwn o enillion masnachol i'r BBC, sef cynnydd o

Sut rydym yn casglu ac yn defnyddio ffi'r drwydded

Mae'r ffordd y caiff y BBC ei ariannu yn gosod cyfrifoldebau sylweddol ar y sefydliad i wneud y canlynol:

- sicrhau trefniadau effeithiol ac effeithlon ar gyfer casglu ffi'r drwydded;
- sicrhau'r cyllid mwyaf o ffynonellau eraill, mewn ffordd sy'n gyson â thelerau ei Siarter a rhwymedigaethau eraill;
- sicrhau gwerth am arian drwy ganolbwyntio gwariant ar y rhaglenni a'r gwasanaethau y mae'r cyhoedd am eu cael fwyaf gan y BBC;
- sicrhau bod yr allbwn wedyn yn cael ei gyflwyno mewn ffordd mor gosteffeithlon â phosibl.

* Mae deiliaid trwydded sydd dros 75 oed ac sy'n byw mewn Llety Gofal Preswyl (ARC) â Hawliau a Gedwir hefyd yn gynnwys i gael trwydded am ddim. Ar gyfer Tiriogaethau Dibynnol y Goron, rhoddwyd trefniadau cyfatebol ar waith, gan ddechrau o 1 Ionawr 2021, yn seiliedig ar fudd-daliadau lleol.

Adroddiad gweithredol Ein sefyllfa ariannol – parhad

£12 miliwn o un flwyddyn i'r llall. Datganodd BBC Commercial Limited ddfidend o £198 miliwn (2021/22: £144 miliwn) i'r gwasanaeth cyhoeddus yn ystod y flwyddyn, a gaiff ei dalu yn 2023/24, gan adlewyrchu perfformiad cryf y Grŵp Masnachol. Ni chaiff dididendau rhwng rhannau'r grŵp eu cynnwys yng nghyfrifon cyfunol Grŵp y BBC.

Cyflawnodd BBC Studios flwyddyn arall o'r enillion uchaf erioed i'r BBC, sef £362 miliwn (2021/22: £353 miliwn) – gan weithio tuag at ei ymrwymiad i gynyddu enillion i'r BBC i £1.5 biliwn yn ystod y pum mlynedd o 2022/23. Am yr ail flwyddyn yn olynol, cyflawnodd BBC Studios ei refeniw uchaf erioed, gan gyrraedd mwy na £2 biliwn am y tro cyntaf, wedi'i lywio gan lechi cynhyrchu cadarn a ysgogodd werthiannau catalog premiwm, cytundebau partneriaeth hirdymor byd-eang, brandiau poblogaidd a chyfran uwch o'r farchnad i UKTV. Bu'r twf yn ein busnes Content Studio (sef "Cynhyrchu a Dosbarthu" gynt) o gymorth wrth helpu i gyflawni'r EBITDA uchaf erioed, sef £240 miliwn, 6% yn uwch na 2021/22. Cynyddodd y galw am gynnwys BBC Studios yn ystod y flwyddyn, a chafwyd cynnydd sylweddol yn y rhaglenni a wnaed i gwsmeriaid y tu allan i'r BBC, gan gynnwys cyfresi newydd pwysig i Apple, Amazon, Disney+ a Netflix. Mae iechyd creadigol ac ariannol sylfaenol y busnes wedi galluogi BBC Studios i barhau i fuddsoddi mewn twf.

Mae BBC Studioworks yn darparu cyfleusterau stiwdio deledu, cyfarpar, criw a gwasanaethau ôl-gynhyrchu o leoliadau yn y DU i'r BBC ac i gwmnïau cynhyrchu annibynnol. Yn ystod y flwyddyn, lansiodd y busnes ei stiwdio newydd bwrpasol yn Kelvin Hall yn Glasgow gan helpu i wella gallu'r Alban i gynhyrchu cynrychiadau teledu aml-genre. Cyflawnodd BBC Studioworks EBITDA o £5 miliwn, a chyflawnodd ei enillion uchaf erioed i'r BBC, sef £6 miliwn, gan ddyblu dididend y flwyddyn flaenorol.

Ceir rhagor o wybodaeth am ein perfformiad masnachol ar dudalen 78.

Costau pensiwn

Rydym wrthi ar hyn o bryd yn adolygu ein cynnig darpariaeth pensiynau ar gyfer y dyfodol gyda'r nod o gynnig darpariaeth sy'n ariannol gynaliadwy, yn decach ac yn fwy cyson nawr ac yn y dyfodol. Fel cam cyntaf, rydym wedi gofyn i'r Llys egluro un o reolau penodol y cynllun buddiannau diffiniedig (Cynllun Pensiwn y BBC) er mwyn egluro pa newidiadau y gellid eu gwneud. Cynhaliwyd y gwrandawriad Llys ddechrau mis Mai ac unwaith y byddwn wedi cael yr ymateb, byddwn yn ei ystyried fel rhan o'n hadolygiad pensiynau. Ni fydd unrhyw newidiadau i'r buddiannau sydd wedi cronni hyd yn hyn i unrhyw gyflogai ac ni fyddai unrhyw newidiadau a gynigir yn cael eu rhoi ar waith cyn 2024 ar y cynharaf. Byddwn yn gweithio gyda'r Undebau Llafur i lunio ein darpariaeth pensiynau ar gyfer y dyfodol a byddwn yn cynnal ymgynghoriad â'n cyflogeion ar unrhyw gynigion ar gyfer newidiadau.

Cwblhawyd y prisiad actiwaraid teirblwydd, fel sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith, ym mis Mehefin 2022, gan arfarnu asedau a rhwymedigaethau'r gronfa bensiwn yn seiliedig ar amrywiaeth o dybiaethau ariannol a demograffig er mwyn sicrhau bod y cynllun wedi'i ariannu'n ddigonol i gyflawni ei rhwymedigaethau yn y dyfodol. Dangosodd yr ailbrisiad ddiffyg ariannu o £841 miliwn ar 1 Ebrill 2022 (o gymharu â £1,138 miliwn ar 1 Ebrill 2019). Mae'r BBC ac Ymddiriedolwyr y Cynllun Pensiwn wedi cytuno ar gynllun talu newydd a fydd yn weithredol tan fis Rhagfyr 2028. Yn 2022/23, talodd y BBC £239 miliwn i mewn i'r Cynlluniau Pensiwn (2021/22: £173 miliwn).

Mae'r safonau cyfrifyddu (IAS 19 Buddiannau Cyflogaion) yn ei gwneud hi'n ofynnol cynnal prisiad pensiwn cyfrifyddu blynyddol. Ar 31 Mawrth 2023, dangosodd yr ailbrisiad warged o £695 miliwn (2021/22: £1,241 miliwn). Nid yw'r prisiad hwn yn effeithio ar gost arian parod wirioneddol adennill diffyg y cynllun pensiwn actiwaraid ac felly nid yw'n effeithio ar y cynllun talu sydd ar waith ar hyn o bryd. Dim

ond 'cipolwg' cyfrifyddu ar ddiwedd y flwyddyn y mae'r prisiad cyfrifyddu yn ei ddarparu ac mae'n sensitif i amrywiadau byrdymor yn y farchnad. Dyna pam nad yw'n effeithio ar y cynllun talu na buddiannau pensiwn yr aelodau. Mae'r prisiad cyfrifyddu yn aml yn cyflwyno sefyllfa ariannu fwy ffafriol o ganlyniad i'r cyfraddau disgowntio y mae angen eu defnyddio.

Strategaeth treth

Rydym yn ymrwymedig i dalu'r swm cywir o dreth ar yr adeg gywir yn yr holl awdurdodaethau rydym yn gweithredu ynddynt, gan gynnwys, ond nid yn gyfyngedig i, dreth gyflogaeth, TAW a threth gorfforaeth. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd talu'r swm cywir o dreth i'r cymunedau rydym yn gweithredu ynddynt, ac rydym yn cymryd ein rhwymedigaethau cydymffurfio â rheolau treth o ddirif.

Rydym yn rheoli ein materion treth o fewn fframwaith deddfwriaeth treth y DU a'r awdurdodaethau eraill rydym yn gweithredu ynddynt. Mae lefel goddefiant y BBC mewn perthynas â threth yn isel, a dangosir hyn yn ein dull o gynllunio a llywodraethu treth. Mae ein hasesiad o'r risg sy'n gysylltiedig â threth yn ystyried nid yn unig y swm ariannol sydd yn y fantol, ond hefyd effaith y mater dan sylw ar ein henw da. Mae'r amgylchedd gwleidyddol a deddfwriaethol yn dod yn gynyddol gymhleth mewn nifer o diriogaethau allweddol ledled y byd.

Yn 2022/23, gwnaethom gydnabod credyd treth net o £19 miliwn (2021/22: £20 miliwn) o ganlyniad i gredydau treth teledu o'r radd flaenaf, sy'n amrywio o flwyddyn i flwyddyn, wedi'i wrthbwyo'n rhannol gan daliadau treth corfforaeth. Rydym yn cyhoeddi ein strategaeth treth yn unol â Deddf Cyllid 2016, y gellir dod o hyd iddi ar ein gwefan: <http://downloads.bbc.co.uk/aboutthebbc/reports/reports/bbc-tax-strategy-2023.pdf>.

Is-gwmnïau masnachol

EBITDA BBC Studios

£240m

2021/22: £226 miliwn

BBC
STUDIOS

EBITDA BBC Studioworks

£5m

2021/22: £8 miliwn



Enillion i'r BBC

£368m

2021/22: £356 miliwn

Gwariant darlledu cyhoeddus

Mae'r tabl isod yn dangos sut y cafodd arian ffi'r drwydded ei wario yn ystod y flwyddyn gyfredol a'r flwyddyn flaenorol, gan gynnwys gofyniad y Siarter i'r BBC adrodd ar wariant ar Wasanaethau Teledu Cyhoeddus y DU fesul genre (fel y'i diffinnir yn unol â safonau'r diwydiant). Mae cyfanswm y gwariant ar gynnwys yn cynrychioli'r gost o wneud cynnwys ar draws gwasanaethau'r BBC. Mae cyfanswm y gwariant ar wasanaethau yn cynrychioli holl gostau cynhyrchu, cefnogi a chyflwyno cynnwys y BBC i gynulleidfaeodd.

Arian grant y World Service

Yn 2022, yn dilyn adolygiad o wariant y Llywodraeth yn 2021, cadarnhaodd y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu (FCDO) fuddsoddiad pellach o £94.4 miliwn y flwyddyn yn y BBC World Service hyd at fis Mawrth 2025, sef cyfanswm o £283 miliwn dros y cyfnod o dair blynedd. Mewn ymateb i'r ymosodiadau ar Wcráin, rhoddodd FCDO gyllid ychwanegol o £4 miliwn er mwyn helpu i ddarparu darllediadau newyddion annibynnol a diduedd yn Wcráin a Rwsia, gan atal twyllwbyodaeth.

Ym mis Mawrth 2023, gwnaed taliad untro ychwanegol o £20 miliwn er mwyn diogelu'r 42 o wasanaethau iaith BBC World Service dros y ddwy flynedd nesaf, gan gefnogi darlledu Saesneg, ac atal twyllwbyodaeth.

Gwariant Darlledu Cyhoeddus

	2022/23 £m	2021/22 £m
Newyddion a Materion Cyfoes	342	314
Ffeithiol a Dysgu	280	235
Y Celfyddydau a Cherddoriaeth	39	31
Ffilm a Drama	397	376
Adloniant a Chomedi	244	214
Cynrychiadau Chwaraeon	99	94
Plant	89	90
Gwariant ar gynnwys teledu arall	379	431
Gwasanaethau teledu fesul genre	1,869	1,785
Radio	498	477
BBC Ar-lein a Red Button	234	247
Gwariant ar gynnwys gwasanaethau fesul llwyfan	2,601	2,509
Cerddorfeydd a grwpiau perfformio	31	25
S4C (gwariant ar y gwasanaeth)	22	24
Gwariant ar ddatblygu	72	58
Grant BBC World Service	103	97
Trwydded Weithredu BBC World Service ^{^*}	249	243
Gwariant arall ar y gwasanaeth	477	447
Cyfanswm gwariant ar gynnwys	3,078	2,956
Costau dosbarthu	197	185
Cynnwys a chymorth dosbarthu	469	395
Cymorth cyffredinol	187	158
Cyfanswm gwariant ar wasanaethau	3,931	3,694
Costau casglu ffi'r drwydded	137	122
Rhwymedigaethau eraill (S4C)	89	75
Monitro	6	4
Taliad gostwng diffyg pensiwn Grŵp PSB	75	50
Costau PSB i gynhyrchu incwm heblaw am ffi'r drwydded	220	183
Costau ailstrwythuro	61	13
Cyfanswm gwariant Grŵp PSB	4,519	4,141
Eitemau a nodwyd y tu allan i wariant gweithredu ^{**}	(77)	(70)
Gwariant Grŵp PSB	4,442	4,071

[^] Gwariwyd £290 miliwn ar Drwydded Weithredu BBC World Service yn 2022/23 gan gynnwys costau cynnwys, dosbarthu a chymorth cyffredinol (2021/22 £277 miliwn)

^{*} Mae Trwydded Weithredu BBC World Service yn cynnwys gwariant dosbarthu o £39 miliwn (2021 £30 miliwn)

^{**} Er mwyn adlewyrchu cost lawn gwariant Grŵp PSB fesul gwasanaeth, caiff costau penodol eu cynnwys uchod a nodir y tu allan i wariant gweithredu. Er enghraifft, caiff llog pryddes gyllidol ei chynnwys er mwyn adlewyrchu cost lawn eiddo, er nad yw wedi'i chynnwys yng ngwariant gweithredu'r Grŵp

Adroddiad gweithredol

Ein pobl: profiad i gyflogeion sy'n unigryw i'r BBC

Lle gwych i weithio ynddo

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r sefydliad wedi gwneud cynnydd sylweddol tuag at ein huchelgais i greu BBC modern, hynod effeithlon, wedi'i lywio gan ein strategaeth Gwerth i Bawb. Mae'r strategaeth hon, ymhlith ffactorau amrywiol, hefyd wedi'i hategu gan ein huchelgais i greu lle gwych i weithio ynddo. Bydd ein Prif Swyddog Pobl newydd, a ddechreuodd ym mis Chwefror 2023, yn cynnig ffocws newydd ar ailddylunio profiad cyflogeion wrth i'r sefydliad wynebu cyfnod pwysig o drawsnewid ac arloesi.

Profiad cyflogeion

Ein huchelgais yw cynnig profiad i gyflogeion sy'n dangos esiampl i'r diwydiant cyfan, gan ymgysylltu â chydweithwyr a'u grymuso, a chan weithio'n agos gyda'n Hundebau cydnabyddedig a'n rhwydweithiau staff.

Rydym wedi llunio cynnig cryf i gyflogeion o dan fframwaith unigol, sef Gweithio yn y BBC, ac rydym wedi parhau i wella elfennau allweddol o'r fframwaith gan gynnwys codiadau cyflog, gweithio hyblyg, datblygu gyrfa a chefnogi uchelgeisiau sero net y BBC drwy adlewyrchu pwysigrwydd cynaliadwyedd wrth bennu nodau.

Rydym yn parhau i feithrin dealltwriaeth werthfawr o'n Harolwg Ymgysylltu â Chyflogeion. Roedd ein harolwg 'Check-In' a gynhaliwyd ym mis Medi 2022 o gymorth i ni wrth fesur cynnydd yn erbyn ein camau gweithredu hanner ffordd drwy'r flwyddyn.

Cafwyd lefel ymgysylltu o 61%; +1 o gymharu â'r arolwg blaenorol ac yn gyfwerth â 2021. Roedd lefelau balchder yn uchel o hyd, (84%; +1), ac roedd ymdeimlad cryf o ddiben ymhlith cydweithwyr. Gwelsom welliannau nodedig a sgoriau ymgysylltu uwch o ran uniondeb/ gweithredu sefydliadol (35%; + 4), gweithio yn y BBC, mynegai amrywiaeth a chynhwysiant (74%; +4) a'r mynegai didueddrwydd (79%; +3). Gostyngodd lefelau hyder yn y cwmni (43%; -2) a lefelau'r mynegai rheolwyr (63%; -1).

Mae rhoi ein strategaeth Gwerth i Bawb ar waith yn faes ffocws allweddol, yn ogystal â grymuso timau perfformiad uchel drwy gymunedau arweinyddiaeth ymgysylltiol.

Gyda dyfodiad ein Cyfarwyddwr Amrywiaeth a Chynhwysiant newydd, rydym yn dod â strategaethau amrywiaeth a chynhwysiant Creadigol a Gweithlu'r BBC ynghyd i ddatblygu a gweithredu un weledigaeth gyffredin i gefnogi cyflogeion a chynnig gwerth i gynulleidfaeoedd. Am ragor o wybodaeth am ein gweithgareddau Amrywiaeth a Chynhwysiant yn y flwyddyn hon, gweler tudalen 58.



Ffilmio *Mayflies* yn Ayrshire

Rydym yn parhau i ganolbwyntio ar ddiogelwch a llesiant cyflogeion ac rydym wedi parhau i gefnogi ein cydweithwyr sy'n gweithio i'r BBC mewn sefyllfaoedd peryglus ledled y byd. Ym mhob rhan o BBC News, gwnaethom gefnogi 170 o gydweithwyr yn Affganistan, 50 o gydweithwyr yn Wcráin a 100 o gydweithwyr yn Rwsia. Cydweithiodd timau o bob rhan o'r BBC, gan gynnwys adnoddau dynol, i ymdrin â materion uniongyrchol a materion hirdymor fel diogelwch, gan gynnig cymorth llesiant, rheoli trefniadau adleoli ac adsefydlu. Rydym yn parhau i ddarparu cymorth diogelwch a llesiant ychwanegol i gydweithwyr yn ein Gwasanaeth Perseg.

Arweinyddiaeth o'r radd flaenaf

Mae sicrhau Gwerth i Bawb ar waith yn dibynnu ar arweinwyr talentog, sy'n meddu ar sgiliau priodol o ran ysgogi newid a chreu timau perfformiad uchel. Drwy gydol y flwyddyn, rydym wedi cynnig amrywiaeth o gyfleoedd datblygu i arweinwyr ar bob lefel. Cafodd mwy na 500 o arweinwyr eu cefnogi gan ein rhwydwaith mewnol o hyfforddwyr a mentoriaid ac mae mwy na 2,000 o arweinwyr wedi cymryd rhan mewn gweithdai fel Rheoli Perfformiad, Arweinyddiaeth Gynhwysol a Chyfathrebu. Ym mis Mawrth 2023, gwnaethom lansio ein Sioeau Teithiol Gwerth i Bawb i Reolwyr ar draws y DU, gan sicrhau bod pob arweinydd yn meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth i bennu nodau a blaenoriaethau strategol ac i sicrhau bod eu timau yn deall Gwerth i Bawb, yn ymgysylltu â'r strategaeth ac yn cyfrannu ati.

Bydd ein ffocws ar greu carfan o arweinwyr o'r radd flaenaf yn parhau'n gadarn er mwyn sicrhau bod y BBC ar y trywydd cywir i barhau i weithredu fel maged ar gyfer y dalent orau, ac fel man y gellir meithrin y dalent honno.

Dylunio BBC cryfach

Drwy gydol y flwyddyn, mae ein his-adrannau wedi ailddylunio eu timau i greu BBC mwy effeithlon mewn sefyllfa well i roi'r strategaeth Gwerth i Bawb ar waith o fewn cyfyngiadau ariannol ffi'r drwydded wastad, mwy o gystadleuaeth a chwyddiant uwch. Rydym wedi parhau i roi ein cynllun Across the UK ar waith er mwyn sicrhau bod mwy o weithlu a buddsoddiadau'r BBC wedi'u dosbarthu ar draws y DU. Rydym wedi symud y tîm llafar sain i Gaerdydd, wedi trosglwyddo'r tîm cynrychiadau Plant i Studios ac wedi amlinellu ein cynlluniau i drawsnewid dulliau cynhyrchu aml-lwyfan ym maes chwaraeon. Symudwyd dros 200 o rolau Newyddion a Materion Cyfoes hefyd o Lundain i Birmingham, Leeds, Caerdydd, Glasgow a Salford.

Yn BBC Local, gwnaethom roi cynlluniau ar waith i wasanaethu cynulleidfaoedd yn well gyda mwy o gynnwys lleol, digidol drwy greu model staffio i ddarparu gwasanaethau ar-lein lleol. Cynhaliwyd adolygiad eang o World Service wedi'i lywio gan ei nod o ddod yn wasanaeth digidol yn gyntaf. O ganlyniad, gwnaed newidiadau sylweddol mewn sawl gwlad, gwnaed penderfyniadau strategol i gau rhai gwasanaethau radio a theledu darlledu llinol dethol a gwnaed newidiadau i'r model gweithredu, gan gynnwys Uwch-dîm Arwain newydd. Bu sawl newid o ran arweinwyr Newyddion, gan gynnwys Prif Swyddog Gweithredol newydd ac ailddyluniwyd y Bwrdd Newyddion.

Mae newidiadau sylweddol yn deillio o'r broses hon i ailstrwythuro'r gweithlu, gan gynnwys creu swyddi newydd sy'n aml yn swyddi digidol, ailddylunio rhai swyddi penodol er mwyn sicrhau eu bod yn addas i ychwanegu gwerth at ddyfodol y BBC a lleihau swyddi penodol. Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â'n hundebau llafur i ddod o hyd i'r canlyniad gorau i bawb. Serch hynny, gwelwyd rhywfaint o weithredu diwydiannol, gan gynnwys deuddydd o streiciau a threfniadau gweithio yn ôl y rheolau yn is-adrannau'r BBC yn y Gwledydd.

Rydym yn parhau i weithio gyda'n harweinwyr undebau a swyddogion cenedlaethol er mwyn rhoi strategaeth Gwerth i Bawb y BBC ar waith.

Ailbennu gwerthoedd ac ymddygiad

Rydym wedi diweddarau Gwerthoedd y BBC ac wedi cynnwys datganiadau ymddygiad am y tro cyntaf – gan nodi disgwyliadau clir i'n cyflogaion a disgwyliadau ychwanegol i'n harweinwyr.

O dan werth newydd 'Atebolrwydd', rydym yn pennu targedau heriol i'n Harweinwyr Tîm. Rydym wedi gweithio gydag uwch-dimau arwain pob is-adrannau i roi'r gwerthoedd a'r ymddygiadau ar waith.

Mae'r gwerthoedd bellach wedi'u cynnwys ym mhob cam o gylch oes y cyflogai ac maent hefyd bellach yn rhan greiddiol o'n prosesau sefydlu a chynffwrdd ac yn rhan allweddol o God Ymddygiad diwygiedig y BBC.

Mae'r BBC yn ymrwymedig i greu amgylchedd gwaith cynhwysol sy'n canolbwyntio ar barch a chynhwysiant a lle na cheir unrhyw achosion o fwlio ac aflonyddu. Yn 2022/23, gweithiodd BBC Content â rhanddeiliaid allanol allweddol i wella arferion ym mhob rhan o'r diwydiant, gan gadarnhau sefyllfa'r BBC fel arweinydd y farchnad ym maes amrywiaeth, cydraddoldeb a chynhwysiant.

Perfformiad â diben

Mae diwylliant gwaith wedi'i lywio gan ddiben wedi'i ategu gan berfformiad uchel yn un o brif alluogwyr ein strategaeth Gwerth i Bawb. O dan ein fframwaith myConversation, mae pob cyflogai yn cael trafodaeth ddwyffordd o ansawdd uchel ddwywaith y flwyddyn â'i reolwr llinell gan ganolbwyntio ar ei berfformiad a'i ddatblygiad. Rydym wedi gwella ansawdd y trafodaethau hyn er mwyn canolbwyntio ar bennu nodau clir a chysylltiedig, gan ddefnyddio adborth dwyffordd i ddysgu a thyfu a rhoi cymorth i ddatblygu gyrfa. Nodwyd myConversation fel meincnod i'r diwydiant, ac fe'i dewiswyd fel astudiaeth achos a gafodd ei chynnwys mewn gwaith ymchwil gan y Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu (CIPD).

Dim ond un o blith llawer o ddulliau a ddefnyddir gennym i ysgogi ein diwylliant o berfformiad uchel ac atebolrwydd yw myConversation.

Rydym yn disgwyl y perfformiad uchaf gan ein huwch-arweinwyr ac yn mesur eu heffaith drwy'r Mynegai Uwch-arweinwyr â metrigau ar gyfer lefelau ymgysylltu timau, ansawdd trafodaethau perfformiad a datblygiad, amrywiaeth a chynwysoldeb hinsawdd y tîm a'r ffocws ar ddiueddrwydd. Yn ogystal, mae pob uwch-arweinydd yn cael adroddiad adborth 360 sy'n mesur i ba raddau y mae'n dangos gwerthoedd y BBC yn ei ymddygiadau a'i weithredoedd. Mae penderfyniadau am gyflogau ar gyfer ein Huwch-arweinwyr, a chanlyniadau bonws ar gyfer uwch-aelodau o staff yn ein hendidau masnachol, yn adlewyrchu perfformiad yn erbyn y Mynegai Arweinyddiaeth. Y flwyddyn hon, rydym wedi rhoi dull newydd o ystyried codiadau cyflog ar waith, a'r cam cyntaf yw sicrhau bod pawb yn y BBC yn cael cyflog sy'n unol â'u sgiliau, eu profiad a'u cyfraniad. Byddwn yn adeiladu ar y gwaith hwn yn ystod y blynyddoedd nesaf er mwyn cefnogi'r diwylliant perfformiad uchel rydym yn anelu ato a'n strategaeth Gwerth i Bawb.

Denu a datblygu talent

Rydym yn ymrwymedig i ddenu, cadw a datblygu'r dalent orau yn y diwydiant er mwyn gwasanaethu ein cynulleidfaoedd. Mae ein dull ar gyfer denu a datblygu talent yn dal i ganolbwyntio ar ddarparu diwylliant creadigol ac arloesol lle mae'r bobl orau yn gwneud eu gwaith gorau. Rydym wedi trawsnewid ein dull recriwtio, gan lansio pecyn cymorth penodi newydd i Arweinwyr Tîm wedi'i ategu gan adnoddau penodi penodol a briffiadau i dros 1,300 o Arweinwyr Tîm. Mae'r dull yn cynnwys fframwaith cyfweld Gwerthoedd ac Ymddygiadau sy'n cydnabod potensial ynghyd â phrofiad. Mae hyn yn ein galluogi i benodi talent sy'n meddu ar y sgiliau i gyflawni'r gwaith gorau ond sydd hefyd yn meddu ar y potensial i feithrin y sgiliau sydd eu hangen i fod yn llwyddiannus yn y dyfodol.

Rydym wedi cyflwyno brand cyflogwr newydd a diddorol a gwefan Gyrfaoedd newydd. Mae dull newydd o ddenu talent drwy LinkedIn (mwy na dwy filiwn o ddilynwyr) a sianel Instagram Life@theBBC (lle mae 55% o'r dilynwyr rhwng 18 a 34 oed) wedi ein cyflwyno i amrywiaeth gynyddol eang o ymgeiswyr, gan ein galluogi i gystadlu am dalent mewn ffordd gystadleuol, fodern a digidol.

Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol tuag at ein targed o 1,000 o brentisiaid Gyrfaoedd Cynnar a Staff erbyn 2025. Yn ystod y 12 mis diwethaf, mae dros 100 o bobl wedi dechrau prentisiaethau ac erbyn hyn, mae gennym 629 o brentisiaid. O'r cyfanswm prentisiaid hwnnw, mae 398 o brentisiaid Gyrfaoedd Cynnar bellach yn gweithio ym mhob un o is-adrannau'r BBC fel rhan o 28 o wahanol gynlluniau, ac mae 69% ohonynt wedi'u lleoli y tu allan i Lundain. Mae proffil amrywiaeth ein prentisiaid Gyrfaoedd Cynnar yn cynnwys 57% o fenywod, 24% o bobl o grwpiau Du, Asiaidd neu Ethnig Leiafrifol, 16% o unigolion ag anabledd a 24% o unigolion o

Mae gennym

629

o brentisiaid Gyrfaoedd Cynnar a staff

Rydym wedi cyflawni lefel gynrychiolaeth o

50%

o fenywod yn y gweithlu

649

nifer y bobl a gymerodd ran yn Hot Shoes neu leoliadau mewnol 80/20

9,000+

nifer yr unigolion a fynychodd ddigwyddiadau Production Unlocked

gefndir economaidd-gymdeithaol isel. Gwnaethom ennill y categori Macro Gyflogwr y Flwyddyn a'r categori Rhagoriaeth Recriwtio'r Flwyddyn yng Ngwobrau Prentisiaethau Cenedlaethol 2022.

Rydym hefyd yn darparu amrywiaeth eang o gymorth datblygu gyrfa i staff. Cynhaliwyd Wythnos Gyrfaoedd fewnol gyntaf y BBC ym mis Tachwedd 2022 a chynhaliwyd 16 o sesiynau datblygu rhithwir, chwe digwyddiad Get Connected wyneb yn wyneb ar draws y DU a sesiynau un-i-un â mentoriaid gyrfa.

Rhoddodd ein cynllun Hot Shoes (a oedd yn cynnig lleoliadau rhwng deuddydd a phythefnos o hyd) a 80/20 (treulio 20% o'r amser yn dysgu gyda thîm arall am gyfnod o 3-6 mis) gyfle i 649 o bobl ymdreiddio i ddisgyblaethau newydd, meithrin sgiliau newydd a datblygu eu gyrfaoedd ymhellach – gan ar yr un pryd ychwanegu safbwyntiau a gwerthoedd newydd i brosiectau allweddol. Lansiodd gweithdai Cultivate Your Career a Supporting Career Development gennym a oedd yn canolbwyntio ar gyfleoedd i dyfu a datblygu. Llwyddwyd i ddenu dros 370 o gyfranogwyr i'r ddwy sesiwn a chafwyd sgoriau bodddhad o 77% a 88% ar eu cyfer.

Adroddiad gweithredol

Ein pobl – parhad

Hawliau dynol, caethwasiaeth fodern a gwrth-lwgrwobrwyo

Rydym yn ymrwymedig i barchu hawliau dynol y rhai sy'n gweithio i ni neu gyda ni. Mae ein Telerau Masnach yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw gyflenwyr rydym yn cydweithio â nhw, ac unrhyw isgontractwyr a ddefnyddir ganddynt, ddilyn codau ymarfer y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a Chomisiwn Cydraddoldeb Gogledd Iwerddon. Hefyd, mae'n ofynnol i gyflenwyr ac isgontractwyr ddilyn ein Cod Polisi Moesegol. Gellir gweld y cod llawn yma: downloads.bbc.co.uk/supplying/pdf/BBC_Ethical_Policy.pdf

Rydym yn cydnabod yr angen i flaenoriaethu'r gwaith o fynd i'r afael â'r achosion mwyaf difrifol o ymyrryd â hawliau dynol, yn cynnwys caethwasiaeth fodern. Rydym yn glynu wrth Ddeddf Caethwasiaeth Fodern 2015 ac yn cyhoeddi ein Datganiad Caethwasiaeth Fodern yn unol â hynny. Mae'r datganiad llawn ar gael yn: downloads.bbc.co.uk/aboutthebbc/reports/pdf/bbcmsa2023.pdf

Rydym wedi ymrwymo i bolisi dim goddefgarwch mewn perthynas â llwgrwobrwyo a llygredd. Rydym yn disgwyl i bawb sy'n cynrychioli'r BBC ddilyn Cod Ymddygiad Gwrth-lwgrwobrwyo y BBC. Gellir gweld y cod llawn yma: downloads.bbc.co.uk/aboutthebbc/insidethebbc/howwework/policiesandguidelines/pdf/bbc_anti_bribery.pdf

Datganiad Gwybodaeth Adrodd Anariannol

Rydym yn cydnabod gofynion adrodd anariannol Deddf Cwmnïau 2006 ac wedi datgelu gwybodaeth gysylltiedig a pherthnasol drwy gydol yr adroddiad strategol. Er hwylustod, gellir dod o hyd i wybodaeth am y pum mater a gwmpesir gan y rheoliad ar y tudalennau canlynol: cynaliadwyedd amgylcheddol (tudalennau 66-70); ein pobl (tudalennau 54-57); hawliau dynol, caethwasiaeth fodern, gwrth-lwgrwobrwyo (uchod). Hefyd, ceir rhagor o wybodaeth am ein model busnes (tudalen 85), ein prif risgiau (tudalennau 111-121) a'n perfformiad anariannol (drwy gydol yr adroddiad strategol).



Astudiaeth achos: Rhaglen Accelerator – Tess Foster



Mae Accelerator yn rhan o'n dull integredig i ddatblygu talent a gafodd effaith gadarnhaol yn ei flwyddyn gyntaf. Nod y rhaglen yw meithrin a datblygu arweinwyr gyda'r potensial i weithredu ar ran y BBC cyfan, i greu amgylcheddau cynhwysol, ac i helpu eraill i ffynnu a chymryd atebolrwydd. Mae'n cynnig amrywiaeth eang o ymriadau dysgu, gan gynnwys noddwyr o blith uwch-aelodau'r staff, hyfforddiant allanol, dysgu gweithredol a serminarau trac mewnlol. Mae'r cyfranogwyr hefyd yn cael profiad uniongyrchol gyda sefydliadau allanol amrywiol, gan weithio ar lefel bwrdd ar heriau amser real. Ar ôl 12 mis, mae mwy na hanner y cyfranogwyr ar y rhaglen wedi symud i rôl newydd.

Roedd Tess Foster yn gynhyrhydd Cynnwys pan ddechreuodd y rhaglen ac mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn drawsnewidiol iddi, yn bersonol ac yn broffesiynol. Gyda chymorth ei noddwr ar lefel Weithredol, adeiladodd rwydweithiau

newydd, dysgodd sut i feddwl yn fwy strategol a chafodd ddealltwriaeth newydd bwerus o amrywiaeth o brosiectau a heriau a wynebwr gan sefydliadau eraill. Mae bellach yn Gynhyrhydd Cyfres yn BBC Education, yn rheoli'r ymgyrch Tiny Happy People.

Dyweddodd Tess, "Helpodd rhaglen Accelerator fi i ailystyried pethau a gwnaeth i mi sylweddoli bod fy nghefnidir a'm profiadau mewn bywyd yn rhoi safbwynt unigryw a gwerthfawr i mi. Rwy'n fennyw o liw o deulu o fewnfudwyr rhangarthol o gefndir economaidd-gymdeithasol isel.

Mae'r rhaglen wedi chwalu unrhyw ofnau a oedd gennyf. Rwy'n bwriadu dal ati i symud ymlaen ac am i fynd – a thrwy feithrin cydberthnasau cadarn a dulliau arwain cefnogol – rwy'n bwriadu llywio fy nhimau, y sefydliad a'r gynulleidfa tuag at ddyfodol heriol a disglair."

Hyfforddiant o'r radd flaenaf

Mae ein darpariaeth, ein hadnoddau a'n rhaglenni talent integredig a chyfoethog, y cyfeirir atynt yn yr adran hon, ymhlith yr ymdrechion mwyaf cynhwysfawr a blaenllaw yn y farchnad i ddatblygu talent, gan gadarnhau statws y BBC fel maged ar gyfer y dalent orau a man lle gellir meithrin y dalent honno a'i lansio. Yn ystod 2022/23, cynigiwyd cyfleoedd datblygiad proffesiynol parhaus mewn sgiliau Cynhyrchu, Technoleg, Newyddiaduraeth ac Arweinyddiaeth drwy gyfuniad o ddarpariaeth ar-lein ac wyneb yn wyneb, gan ddarparu dros 185,000 awr o ddysgu a gyda 79% o'r staff yn cwblhau un cwrs neu fwy, ynghyd ag amrywiaeth eang o gyfleoedd datblygu amffurfiol drwy ein llwyfan learn@BBC.

Mae meithrin ymddiriedaeth cynulleidfaoedd yn flaenoriaeth ac mae 97.2% o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant gorfodol ar ddiudeddrwydd. Lansiodd BBC Academy yr Editorial Standards Learning Hub, lle gellir dod o hyd i dros 30 awr o gynnwys dysgu sy'n anelu'n benodol at gyrraedd safonau golygyddol uchel. Ychwanegwyd cynnwys pellach mewn ymateb i'r Thematic Review of Taxation, Public Expenditure, Government Borrowing and Government Debt. Rydym wedi parhau â'n hymrwymiad Siarter i weithio mewn partneriaeth i feithrin sgiliau'r sector creadigol ehangach gan gynnal cyfres o ddigwyddiadau Production Unlocked ar draws y DU. Roedd ein partneriaid yn cynnwys ScreenSkills, NFTS, RTS, asiantaethau sgrin lleol a'r sector AB/AU. Daeth dros 9,000 o unigolion i'r digwyddiadau yn bersonol ac ar-lein, gan fynychu sesiynau fel adrodd straeon, creadigrwydd a Rheoli Cynrychiadau.

Llwyddodd pedair cynhadledd fewnol ac a cynigiwyd yn allanol hefyd (Trust in News; Climate Creatives; AI: The Future; a Connected Cars) i gyrraedd cyfanswm o 7,500 o unigolion wyneb yn wyneb ac ar-lein, a gwyliodd mwy na 25,000 recordiadau o'r sesiynau ar ôl y digwyddiad. Roedd ein partneriaid yn cynnwys The Guardian, LSE, Reuters Institute, EBU, Ofcom, Washington Post a Google. Cynhaliwyd ein cynhadledd flynyddol i ddatblygwyr meddalwedd, sef {develop: BBC} 2022, yn Glasgow a chafwyd cyfraniadau domestig a rhyngwladol. Roedd siaradwyr allweddol y gynhadledd yn cynnwys Microsoft, Netflix a'r elusen addysg Code your Future.

Cyflwynodd prosiect Gohebwyrf Ifanc BBC Academy ddigwyddiadau sgiliau allgymorth i bobl ifanc rhwng 16 a 18 oed â diddordeb mewn gyrfaedd ar yr awyr. Roedd y digwyddiadau wedi'u hanelu at grwpiau amrywiol o'r gynulleidfa sy'n anodd eu cyrraedd mewn ardaloedd fel Bournemouth, Bolton, Wolverhampton, Lerpwl a Tottenham.

Astudiaeth achos: Prentisiaid – Sanjana Idnani



Mae'r BBC yn ymrwymedig i gael 1,000 o brentisiaid yn y sefydliad erbyn diwedd 2025: 500 ar y rhaglen Early Careers (sy'n cael eu cyflogi o'r newydd i'r sefydliad) a 500 o aelodau presennol o staff sy'n cael budd o ddatblygiad personol a phroffesiynol a fydd yn rhoi cymhwyster ffurfiol iddynt. Rydym hefyd yn cynnal rhaglen beilot yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr o'r enw Apprentice Hub – Flexi-Job Apprenticeship Agency lle rydym yn gosod prentisiaid mewn busnesau bach creadigol, diwylliannol a digidol lleol. Ar ddiwedd 2022/23 cawsom 397 o brentisiaid drwy'r rhaglen Early Careers a 232 o aelodau o staff yn y BBC, ac mae'r niferoedd yn cynyddu bob blwyddyn. Gwnaethom osod 30 o brentisiaid gyda chyflogwyr lleol hefyd, drwy'r Apprentice Hub.

Mae Sanjana yn gweithio yn BBC Cymru ac mae ar y cynllun Journalist Advanced, a dywedodd:

“Dewisais y BBC oherwydd ehangder y profiadau gwahanol y gallwch eu cael yma a'r ffordd rydym yn adrodd straeon.

O ddarnau ffurf hir i bodlediadau ac erthyglau cymdeithasol, gwyddwn mai dyma fyddai'r lle gorau i mi feithrin fy sgiliau ac, fel cyw newyddiadurwr gwleidyddol, roedd llawer o fy arwyr yn gweithio yma gan gynnwys Laura Kuennsberg, Chris Mason ac Ione Wells (a ddechreuodd ar y cynllun hwn!).

Rwyf wedi magu hyder, a chaffael sgiliau newydd a fyddai wedi codi ofn arnaf flwyddyn yn ôl. Doeddwn i erioed wedi golygu fideos ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol, ac rwy'n gwneud hynny bob dydd nawr. Rwyf hefyd wedi cyflwyno darn ar gyfer ein rhaglen materion cyfoes wythnosol, *Wales Live*, lle gwnes i fy narn cyntaf erioed i gamera.

Mae'r ymddiriedaeth yn of a'r cyfleoedd rwyf wedi eu cael, fel prentis, wedi fy ngalluogi i adrodd y straeon yr wyf am eu rhannu, yn enwedig y rheini sy'n cynnwys cynulleidfaoedd a danwasanaethir. Mae hefyd yn golygu y gallaf ddysgu'r sgiliau yn y ffordd orau: drwy fynd ati i wneud pethau!”



Prentisiaid BBC Hub – mis Hydref 2022

Dysgu a datblygu BBC Academy a BBC Studios

Cyrhaeddiad	2022/23
Cyfanswm y cyrsiau hyfforddi a gwblhawyd*	88,146
Staff y BBC a gwblhaodd un cwrs neu fwy	79%
Cyfanswm oriau dysgu a datblygu	185,209
Nifer y diwrnodau dysgu a datblygu fesul CALL	1.2
Gwerth am arian	2021/22
Gwariant ar gyflwyno hyfforddiant (£m)**	£12.28
Cost dysgu a datblygu fesul CALL***	£553

Mae data hyfforddiant a ffigurau CALL ar gyfer y BBC cyfan, yn cynnwys PSB, BBC Studios ac is-gwmnïau masnachol eraill

* Cyfanswm cyrsiau unigol wyneb yn wyneb, ystafell ddsbarth rithwir ac ar-lein a gwblhawyd

** Cyfanswm gwariant BBC Academy a BBC Studios ar gyflwyno hyfforddiant ac eithrio prosiectau mawr

*** Cyfanswm gwariant BBC Academy a BBC Studios ar gyflwyno hyfforddiant wedi'i rannu â chyfanswm CALL

Adroddiad gweithredol

BBC i bawb – Amrywiaeth a chynhwysiant yn y gweithlu a'n hadroddiad ar wybodaeth cydraddoldeb

Bob blwyddyn, rydym yn nodi gwybodaeth fanwl am amrywiaeth ein staff, ar draws amrywiaeth o nodweddion gwahanol ac wedi'u rhannu yn amrywiaeth o categorïau. Mae'r wybodaeth lawn ar gael ar-lein ochr yn ochr â'r adroddiad blynyddol hwn, ac ar y dudalen hon rydym yn nodi ein perfformiad cyffredinol ar gyfer y flwyddyn hon a rhai o'r camau a gymerwyd gennym i wella amrywiaeth a chynhwysiant ein gweithlu.

Ar y cyfan, rydym yn parhau i wneud cynnydd sylweddol yn erbyn yr ymrwymiadau strategol a nodir yn ein Cynllun Amrywiaeth a Chynhwysiant y Gweithlu, sy'n cwmpasu cyfnod o dair blynedd.

Y flwyddyn hon, yn dilyn llwyddiant y peilot hyfforddiant Penodi Cynhwysol i recriwtwyr a Hyrwyddwyr Cyfweld, gwnaethom gyflwyno 'myHiring Toolkit' i helpu rheolwyr sy'n penodi ac i sicrhau y gallwn ddenu'r dalent orau posibl i weithio yn y BBC, ble bynnag y bôn yn y byd ac ni waeth beth fo'u cefndir. Ein nod yw sicrhau bod gennym restrau byr amrywiol ar gyfer pob swydd arwain ac yn annog paneli cyfweld amrywiol er mwyn sicrhau bod amrywiaeth eang o safbwyntiau a ffyrdd o feddwl gan ein cyfwelwyr. Gwnaethom hefyd lansio hyfforddiant Arweinyddiaeth Gynhwysol i

helpu ein harweinwyr i greu timau cynhwysol a luniwyd pecyn cymorth cynhwysiant gennym i helpu pob cydweithiwr i feithrin diwylliant cynhwysol. Wrth hyrwyddo cynwysoldeb, rydym wedi cyflwyno fframwaith polisi 'cefnogi bywydau gwaith', sy'n cysoni'r cymorth sydd ar gael i bob cydweithiwr yn ystod digwyddiadau bywyd allweddol, boed hynny fel rhieni neu ofalwyr newydd; neu wrth ymdrin â phrofedigaeth, ffrwythlondeb neu'r menopos; neu wrth ymateb i argyfyngau bywyd.

Mae ein rhwydweithiau amrywiaeth a chynhwysiant o dan arweiniad y staff yn chwarae rhan bwysig iawn yn ein dull o ymdrin ag amrywiaeth a chynhwysiant drwy ddarparu ffordd effeithiol i ni fyfyrto ar y cymunedau a wasanaethir gennym a'u deall, rhoi cymorth cymheiriaid ac annog cyflogaion i ymgysylltu ag amrywiaeth a chynhwysiant. Y flwyddyn hon, er mwyn rhoi mwy o gymorth i'n rhwydweithiau, gwnaethom atgyfnerthu trefniadau llywodraethu'r rhaglen rhwydweithiau. Darparwyd amser gwarchoddedig i Gadeiryddion rhwydweithiau i'w neilltuo i weithgareddau'r rhwydwaith bob wythnos (20%) a gwnaethom sicrhau bod gan bob un o'r rhwydweithiau noddwyr gweithredol ar lefel uwch ac o'r adran adnoddau dynol er mwyn rhoi arweiniad a helpu i ysgogi cynhwysiant ym mhob rhan o'r sefydliad.


Rydym hefyd yn falch mai ni yw un o'r darlledwyr cyntaf yn y DU i lansio rhwydwaith cyflogaion sy'n canolbwyntio ar niwroamrywiaeth. Lansiodd ein rhwydwaith staff, Enigma, y flwyddyn hon a datblygodd Lawlyfr Niwroamrywiaeth (a ddatblygwyd gan aelodau o staff niwroamrywiol) sydd â'r nod o hybu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o niwroamrywiaeth a helpu cydweithwyr niwroamrywiol i ffynnu yn y gweithle.

Gwnaethom barhau â'n rhaglen Accessible First sy'n ceisio sicrhau bod hygyrchedd i staff anabl a'n cynulleidfaoedd anabl wrth wraidd ein prosesau gwneud penderfyniadau. Ail-lansiwyd ein cynllun pasbort anabledd i staff y flwyddyn ddiwethaf ac ers hynny, rydym wedi darparu 72 o basbortau anabledd drwy'r sefydliad. Rydym hefyd wedi cymryd camau pendant i archwilio a gwella hygyrchedd yn ein technoleg ac yn y gweithle drwy gyflwyno canllawiau a chyllid i ddiwallu anghenion hygyrchedd staff anabl. Parhaodd y rhaglen uwchsgilio Disability Allies hefyd ac, er mwyn cynyddu lefelau cynhwysiant a chynrychiolaeth pobl anabl ymhellach, ail-lansiwyd ein rhaglen Extend sydd â'r nod o ddenu pobl anabl i ddatblygu eu gyrfaedd yn y BBC.

Gwnaethom lansio rhaglenni datblygu gyrfa newydd ac ehangu rhaglenni sy'n bodoli eisoes sy'n canolbwyntio ar amrywiaeth. Ar bob un o'n rhaglenni datblygu a lansiwyd yn 2022/23, llwyddwyd i gyflawni cynrychiolaeth amrywiol a oedd yn unol â'n targedau 50:20:12:25 tuag at sicrhau 50% o fenywod, o leiaf 20% o gefndiroedd Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol, o leiaf 12% o staff anabl ac o leiaf 25% o staff o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol isel. O ganlyniad i'r ymdrechion hyn a mentrau eraill a gyflwynwyd, rydym wrth ein boddau bod y BBC, am y tro cyntaf, wedi llwyddo i gyrraedd lefel gynrychiolaeth o 50% o fenywod ac rydym yn parhau i wneud cynnydd tuag at ein targedau yn y meysydd eraill ac yn erbyn ein hymrwymiadau.



Ffilmio Wild Isles

 Gellir gweld data manwl am y nodweddion hyn a nodweddion eraill, gan gynnwys dadansoddiadau is-adrannol, yn <https://www.bbc.co.uk/aboutthebbc/documents/equality-information-report-2022-23.pdf>.

Ar draws y BBC – Pob aelod o staff a phob arweinydd: 31 Mawrth 2023

	Gweithlu	Mawrth '22	Mawrth '23	Targed Mawrth '26*
Menywod	Pob aelod o staff	49.5%	50.1%	50%
	Arweinwyr	47.5%	49.0%	
B.A.M.E	Pob aelod o staff	16.4%	17.0%	20%
	Arweinwyr	13.1%	14.1%	
Anabledd	Pob aelod o staff	9.3%	9.4%	12%
	Arweinwyr	7.9%	7.9%	
Cefndir Economaidd-gymdeithasol isel (metrig galwedigaeth yr aelwyd)	Pob aelod o staff	dd/g	21.1%	25%
	Arweinwyr	dd/g	20.1%	

* Targed amrywiaeth economaidd-gymdeithasol i'w gyflawni erbyn blwyddyn ariannol 2026/27

Tablau data Ein pobl

Ar y tudalennau canlynol, rydym yn rhoi rhagor o ddata i ategu'r wybodaeth yn yr adran hon.

Cyfanswm nifer y staff cyfartallog 2022/23 (cyfwerth ag amser llawn)

	2023		2022	
	Staff ac eithrio prentisiaid	Prentisiaid*	Cyfanswm	Cyfanswm
Grŵp PSB	17,375	313	17,688	17,890
BBC Studios	3,752	45	3,797	3,159
Busnesau masnachol eraill	146	0	146	232
Cyfanswm y Grŵp	21,273	358	21,631	21,281

* Yn cynnwys prentisiaid Gyrfaoedd Cynnar a phrentisiaid FJAA

Fframwaith Llwybr Gyrfa

Mae ein Saerniaeth Swyddi yn mapio swyddi cyflogaion ar draws 27 o deuluoedd swyddi a saith band gyrfa (gan amrywio o Fand A i uwch-arweinwyr), gan drefnu swyddi i strwythur clir, tryloyw a chydawns y gellir ei ddefnyddio am amrywiaeth o resymau sy'n amrywio o drafodaethau datblygu gyrfa i benderfyniadau tryloyw am gyflogau.

Cyfwerth ag amser llawn (CALL)/Nifer y staff yn ôl Band CPF Grŵp y BBC (ac eithrio Grwpiau Perfformio, Hyfforddeion a Phrentisiaid a'r Rhai nad ydynt yn CPF).

Band CPF	CALL		Nifer y staff	
	CALL	CALL (%)	Nifer y staff	Nifer y staff (%)
A	200	1%	252	1%
B	2,034	11%	2,183	11%
C	6,063	33%	6,498	33%
D	6,593	35%	6,984	35%
E	2,264	12%	2,353	12%
F	945	5%	968	5%
FP	94	1%	105	1%
SL	304	2%	310	2%
Cyfanswm	18,497	100%	19,653	100%

Nifer yr uwch-arweinwyr yn y DU yn ôl band cyflog (PSB yn unig)

Band cyflog	2022/23 Gwirioneddol	2021/22 Gwirioneddol
£50,000 – £99,999	22	28
£100,000 – £149,999	102	102
£150,000 – £199,999	80	74
£200,000 – £249,999	26	21
£250,000 – £299,999	5	3
£300,000 – £349,999	6	5
£350,000+	1	1
Cyfanswm*	242**	234

* Nid yw'r cyfanswm yn cynnwys aelodau o Fwrdd y BBC na chyfarwyddwyr pensiwn

** Yn cynrychioli 1.3% o gyfanswm y gweithlu

Gwariant ar rolau ar yr awyry*

	2022/23		2021/22		Amrywiad £000oedd
	Gwariant £000oedd	Nifer	Gwariant £000oedd	Nifer	
Llai na £40,000	37,095	23,197	33,222	19,163	3,873
£40,000 – £100,000	63,944	1,038	61,963	1,030	1,981
£100,000 – £150,000	15,301	125	14,412	118	889
£150,000 – £500,000	20,539	87	17,878	72	2,661
£500,000 – £1m	1,530	2	982	1	548
£1m – £5m	1,350	1	1,350	1	–
Cyfanswm	139,759	24,450	129,807	20,385	9,952

* Ystyrir bod gan unigolyn rôl ar yr awyry os oes ganddo gyfrifoldebau ar yr awyry sylweddol (h y 80% neu fwy)

Taliadau diswyddo

Ein polisi o ran taliadau dileu swyddi yw un mis o gyflog am bob blwyddyn o wasanaeth hyd at uchafswm o 12 mis o gyflog (uchafswm o 24 mis o gyflog i'r rhai a ymunodd cyn mis Ionawr 2013). Rhaid bod cyflogaion wedi'u cyflogi'n barhaus am ddwy flynedd neu fwy pan ddaw eu swydd i ben er mwyn bod yn gymwys i gael taliad. Rydym wedi cynnal cap o £150,000 ar daliadau dileu swyddi a diswyddo. Lle y telir taliadau dileu swyddi, caiff rhybudd ei roi. Os bydd unigolion am adael yn gynt na diwedd eu cyfnod rhybudd, rhaid iddynt ildio hawl i'r cyfnod rhybudd sy'n weddill ac ni chânt dâl amdano.

Yn 2022/23, talwyd taliadau yn lle rhybudd i ddau gyflogai a adawodd y BBC heb basio eu cyfnodau prawf, ac i 29 o gyflogaion tramor a adawodd y busnes fel rhan o brosesau ailstrwythuro a lle y talwyd taliadau yn lle rhybudd oherwydd traddodiadau ac arferion lleol a/neu er mwyn hwylyso gweithrediadau busnes.

Band taliadau	2022/23		2021/22	
	Gwariant £000oedd	Nifer	Gwariant £000oedd	Nifer
O dan £10,000	214	62	402	70
£10,000 – £50,000	3,697	131	5,733	200
£50,000 – £75,000	3,250	52	8,369	134
£75,000 – £100,000	4,108	47	11,502	131
£100,000 – £150,000	16,583	124	26,473	210
Cyfanswm	27,852	416	52,479	745

Darperir gwybodaeth yn unol â Rheoliadau Undebau Llafur (Gofynion Cyhoeddi Amser Cyfleuster) 2017 – atodlen 2 (1 Ebrill 2022–31 Mawrth 2023).

Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda'n hundebau llafar cydnabyddedig ar raglenni trawsnewid ym mhob rhan o'r BBC. Yn 2022/23, cafwyd dau anghydfod ffurfiol a oedd yn cynnwys gweithredu diwydiannol. Cafwyd cyfnod gweithredu nad oedd yn cyfateb i streic (gweithio yn ôl y rheolau) a effeithiodd ar Northwest Tonight a chafwyd streic undydd a chyfnod gweithredu nad oedd yn cyfateb i streic (gweithio yn ôl y rheolau) a effeithiodd ar BBC Local.

Fel rhan o Reoliadau Undebau Llafur (Gofynion Cyhoeddi Amser Cyfleuster) 2017, mae'n ofynnol i awdurdodau cyhoeddus roi gwybodaeth am amser cyfleuster a gymerir gan swyddogion undebau llafur dros gyfnod o 12 mis. (Mae amser cyfleuster yn cyfeirio at yr amser a gymerir i'n hundebau llafar cydnabyddedig gynrychioli aelodau yn unigol ac ar y cyd mewn amrywiaeth o faterion ym mhob rhan o'r BBC.) Nodir y manylion hyn yn y tabl isod.

Swyddogion undeb perthnasol

	2022/23
Nifer y swyddogion undeb	319 (CALL: 305)

Canran yr amser a dreuliyd ar amser cyfleuster

	Nifer y cyflogaion
0%	0
1% – 50%	309
51% – 99%	8
100%	2
Cyfanswm cost amser cyfleuster	£723,073
Cyfanswm bil cyflogau cymwys PSB	£1,264.3m
Canran cyfanswm y bil cyflogau a wariwyd ar amser cyfleuster	0.06%

Gweithgareddau undeb llafur â thâl

Amser a dreuliyd ar weithgareddau undeb llafur â thâl fel canran o gyfanswm yr oriau amser cyfleuster â thâl	80%
--	------------

* Cafodd deg cynrychiolydd undeb eu seondio i gynrychioli eu hundeb, gyda dau ohonynt yn gweithio'n llawn amser i'r undeb ac wyth yn rhai oedd yn rhannu swyddi yn gweithio i'r BBC ac yn cynrychioli eu hundeb

Adroddiad gweithredol

Tablau data Ein pobl – parhad

Nifery cwynion mewnol

Cwynion a wnaed ac yr ymchwiliwyd iddynt

	2022/23	2021/22
Bwlio ac aflonyddu Cwynion cyflogaeth a wnaed naill ai'n uniongyrchol i'r adran Adnoddau Dynol, drwy gyflwyno cwyn gyflogaeth, neu drwy'r llinell gymorth bwlio ac aflonyddu gyfrinachol.	34 o achosion ffurfiol <ul style="list-style-type: none"> • 4 yn ymwneud ag aflonyddu rhywiol • 30 yn ymwneud â bwlio ac aflonyddu • 23 wedi'u cau • 8 yn mynd rhagddynt • 3 wedi'u tynnu'n ôl Amser cyfartalog i gau achos: 69 diwrnod	53 o achosion ffurfiol <ul style="list-style-type: none"> • 1 yn ymwneud ag aflonyddu rhywiol • 52 yn ymwneud â bwlio ac aflonyddu • 30 wedi'u cau • 21 yn mynd rhagddynt • 2 wedi'u tynnu'n ôl Amser cyfartalog i gau achos: 103 diwrnod
Achosion o chwythu'r chwiban Daw honiadau o chwythu'r chwiban i law naill ai drwy Navex Global, sy'n rheoli llinell gymorth chwythu'r chwiban annibynnol ar ein rhan, drwy uwch-reolwyr yn cynnwys cyfarwyddwr anweithredol dynodedig, neu'n uniongyrchol i'r timau Ymchwiliadau.	Cyfanswm o 37 o achosion (amrywiaeth o faterion, gan gynnwys honiadau o gamymddwyn golygyddol, llygredd ariannol, aflonyddu rhywiol a chamddefnyddio pŵer ac ati): <ul style="list-style-type: none"> • 4 wedi'u cadarnhau • 7 heb eu cefnogi • 8 heb eu cadarnhau • 18 yn mynd rhagddynt 	Cyfanswm o 33 o achosion (amrywiaeth o faterion yn cynnwys diogelwch, lladrad a thwyll): <ul style="list-style-type: none"> • 1 wedi'i gadarnhau • 1 wedi'i gadarnhau yn rhannol • 3 heb eu cefnogi • 17 heb eu cadarnhau • 11 yn mynd rhagddynt

Codi pryder yn y BBC

Ymdrinnir â'r rhan fwyaf o bryderon a godir gan staff drwy Bolisi Cwynion Cyflogaeth y BBC neu Bolisi Bwlio ac Aflonyddu'r BBC. Lle y bo modd, dylid codi unrhyw bryderon gyda rheolwyr llinell yn uniongyrchol, ond gall Partner Busnes Adnoddau Dynol hefyd ddarparu cymorth uniongyrchol i fynd â phethau ymhellach, neu gellir defnyddio'r llinell gymorth Bwlio ac Aflonyddu, a llinell gymorth a gwefan Care First. Gall honiadau chwythu'r chwiban, a elwir yn 'Ddatgeliadau a Ddiogelir' hefyd, gael eu gwneud gan unrhyw un â phryderon gwirioneddol am gamymddwyn difrifol yn y BBC. Mae'r pryderon y gellir eu codi drwy bolisi Chwythu'r Chwiban y BBC yn cynnwys y canlynol:

- Materion sy'n cyflwyno risg o niwed difrifol, colled ariannol neu rwymedigaeth gyfreithiol ar ran y BBC, neu a allai gael effaith ddifrifol ar enw da'r BBC fel arall;
- Achosion o gamymddwyn wrth gynnal busnes y BBC, gan gynnwys er enghraifft, camddefnyddio pŵer a llygredd (e.e. nepotiaeth, camddefnyddio achos o wrthdaro buddiannau nas datganwyd), a llwgrwobrwyo
- Camymddwyn golygyddol difrifol (y tu hwnt i anghytundebau golygyddol arferol) neu weithredoedd neu ddiffyg gweithredoedd eraill sy'n gyfystyr â chamymddwyn proffesiynol difrifol
- Pryderon diogelu am blentyn neu berson ifanc (h.y. person o dan 18 oed) neu oedolyn agored i niwed

- Troseddau gwirioneddol neu bosibl
- Methiant i gydymffurfio ag unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol
- Risgiau i iechyd a diogelwch unrhyw unigolyn
- Difrod gwirioneddol neu bosibl i'r amgylchedd
- Gwybodaeth sy'n awgrymu bod unrhyw un o'r materion uchod wedi cael eu cuddio

Mae Polisi Chwythu'r Chwiban y BBC yn galluogi pobl i roi gwybod am honiadau difrifol yn ddiennw, mewn ffordd briodol ac effeithiol, gan gynnwys:

- drwy'r Tîm Chwythu'r Chwiban
- drwy'r Cyfarwyddwr Ansawdd, Risg a Sicrwydd Is-adrannol
- drwy'r Cyfarwyddwr Anweithredol ar Fwrdd y BBC, Nicholas Serota
- drwy ein darparwr trydydd parti annibynnol allanol, Navex Global, naill ai ar-lein neu drwy ei linell adrodd ddynodedig sydd ar gael mewn 37 o ieithoedd gwahanol

Yn ogystal â'r broses chwythu'r chwiban, mae gennym lwybr cysylltiadau cyflogaeth mewnol, proses cwynion cyflogaeth ar gyfer codi pryderon ac amrywiaeth o ddatrysiadau wedi'u teilwra'n benodol i sicrhau bod ein cyflogaeth wedi'u hamddiffyn gan brosesau sy'n teimlo'n deg, yn dryloyw ac yn gyson

Polisi chwythu'r chwiban wedi'i ddiweddarau

Cyhoeddwyd Polisi Chwythu'r Chwiban diwygiedig y BBC, a ddatblygwyd yn dilyn canlyniadau Adolygiad Serota, ar 1 Gorffennaf 2022. Mae'r polisi wedi'i ddiweddarau yn ymhelaethu ar y mathau o gamymddwyn difrifol y gellir rhoi gwybod amdanynt drwy ei systemau gan gynnwys honiadau a allai gyflwyno risg o niwed difrifol, colled ariannol, rhwymedigaeth gyfreithiol, neu unrhyw beth a allai gael effaith andwyol ar enw da'r Gorfforaeth a gweithredoedd o gamwedd broffesiynol ddifrifol, gan gynnwys er enghraifft: camddefnyddio pŵer a llygredd (e.e. nepotiaeth, llwgrwobrwyo, camddefnyddio achos o wrthdaro buddiannau nas datgelwyd) a chamymddwyn golygyddol difrifol. Mae'r polisi yn rhoi diffiniad o 'gamymddwyn golygyddol difrifol' ac yn cadarnhau ymhellach y bydd y BBC yn cefnogi chwythwyr chwiban ac yn parhau ei ddyletswydd gofal i'r rhai hynny a gaiff eu cyhuddo o gamymddwyn.

Adroddiad ar Fwlch Cyflog y BBC 2022/23

Cyflwyniad

Mae tegwch a thryloywder ymhlith egwyddorion allweddol ein dull o reoli cyflogau yn y BBC. Mae gennym lefelau uchel o dryloywder cyflogau yn fewnol yn ogystal ag yn allanol ac rydym yn datgelu cyflogau ein huwch-aelodau o staff a'n staff ar gyflogau uchel. Rydym wedi cyflwyno adroddiad ar ein bylchau cyflog rhwng y rhywiâu ers 2017 ac ers hynny, rydym wedi arwain y farchnad drwy ychwanegu nodweddion gwarchoddedig eraill a chyhoeddi ein bylchau cyflog fesul bandiau gyrfa. Rydym yn bwriadu cyflwyno adroddiadau ar ein bylchau cyflog rhwng grwpiau economaidd-gymdeithasol o flwyddyn nesaf. Mae ein lefelau datgelu yn uchel ar gyfer pob nodwedd gan ein galluogi i gynnal gwaith dadansoddi trylwyr o'r bylchau cyflog ac i fesur ein cynnydd wrth gyflawni amcanion amrywiaeth tymor hwy.

Mae ein bylchau cyflog yn deillio o

gynrychiolaeth

ym mhob rhan o'r sefydliad

Mae ein bwllch cyflog cymedr rhwng y rhywiâu wedi haneru ers 2017 ac mae bellach yn

llai na £5%

Bylchau cyflog yn y BBC

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r prif ffigurau ar gyfer y bwllch cyflog ar gyfer y pedwar categori a nodir yn fanwl yn yr adroddiad, yn ogystal â'r categori ar gyfer cyflogaion rhan-amser, a chaiff data y flwyddyn hon eu cymharu â data y flwyddyn ddiwethaf. Mae hanner y bylchau cyflog wedi lleihau neu wedi aros yr un peth y flwyddyn hon o gymharu â'r flwyddyn ddiwethaf, ac mae hanner wedi cynyddu.

Rydym yn disgwyl rhai amrywiadau bach yn y bylchau cyflog bob blwyddyn yn seiliedig ar niferoedd penodi a gadael newydd, yn ogystal ag unrhyw ymyriadau cyflogau penodol. Caiff hyn ei adlewyrchu ym mhrofiad sefydliadau eraill yn y diwydiant. Caiff y rhesymau penodol dros unrhyw gynnydd eu nodi yn yr adrannau ar gyfer pob nodwedd isod.

Mae ein bylchau cyflog rhwng y rhywiâu yn sylweddol is na'r bwllch canolrif cyfartalog cenedlaethol, sef 14.9%*. O gymharu ffigurau ein bylchau cyflog â ffigurau'r prif ddarlledwyr eraill yn y DU, rydym yn parhau i nodi bylchau cyflog cymedr a chanolrif is rhwng y rhywiâu.

	Cymedr 2022/23	Cymedr 2021/22	Canolrif 2022/23	Canolrif 2021/22
Rhyw	4.7%	5.1%	7.3%	5.9%
Ethnigrwydd	2.9%	3.3%	1.8%	1.6%
Anabled	6.6%	7.4%	5.7%	5.9%
LHDC+	5.4%	4.2%	5.2%	4.9%
Rhan-amser	2.6%	2.6%	4.2%	2.6%

Mae bylchau cyflog yn y BBC yn deillio'n bennaf o gynrychiolaeth ar wahanol lefelau yn y sefydliad; o edrych ar rolau o faint tebyg drwy gymharu'r cyflog cyfartalog fesul awr yn ôl bandiau gyrfa, mae ein bylchau cyflog yn sylweddol is. Gweler yr adrannau isod ar gyfer pob nodwedd.

Dim ond un nodwedd o'n gwaith penodol yn y BBC ar amrywiaeth, cynhwysiant a pherthyn yw ein hadroddiadau ar y bylchau cyflog. Yn 2021, gwnaethom gyhoeddi ein Cynllun Amrywiaeth a Chynhwysiant y Gweithlu er mwyn meithrin ymddiriedaeth bellach ymhlith ein staff, mynd i'r afael ag anghydraddoldebau ac achosion o dangynrychiolaeth, dangos esiamplau o ymddygiadau cynhwysol a chreu gweithle cynhwysol. Gwnaethom ymrwymiadau a oedd yn esiampl i'r diwydiant cyfan i wella cynrychiolaeth drwy anelu at sefydliad lle ceir cydbwysedd rhwng y rhywiâu, gydag o leiaf 20% o'r staff yn bobl Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol, ac o leiaf 12% o'r staff yn bobl anabl erbyn 2026.

Ers hynny, rydym wedi lansio sawl menter i wella cynrychiolaeth ar bob lefel o'r sefydliad, gan gynnwys sicrhau bod pob un o'n rhaglenni denu talent, datblygu gyrfa, symudedd ac arweinyddiaeth yn adlewyrchu ein targedau cynrychiolaeth. Yn ogystal, cafodd ein cynlluniau olyniant ar gyfer uwch-rolau hanfodol eu cynllunio mewn ffordd sy'n gydnaws â'n targedau cynrychiolaeth er mwyn sicrhau y caiff ymdrechion i wella cynrychiolaeth eu cynnal yn yr hirdymor. Cafodd ein prosesau recriwtio eu trawsnewid hefyd er mwyn gwella cynhwysiant yn ystod pob cam o'n proses benodi i'n galluogi i ddenu a recriwtio mwy o bobl o grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli. Rydym yn gwneud cynnydd cadarn tuag at gyflawni ein targedau cynrychiolaeth ym mhob rhan o'r Grŵp; rydym wedi cyflawni cydbwysedd rhwng y rhywiâu, mae 17% o'n staff yn bobl Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol, ac mae 9% o'n staff yn bobl anabl. Mae 10% o'n cyflogaion wedi cadarnhau eu bod yn ystyried eu hunain yn ddeurywiol, hoyw, lesbiaidd neu gyfeiriadedd rhywiol arall (heb gynnwys heterorywiol).

Yn ogystal, rydym yn anelu o hyd at greu diwylliant o gynhwysiant a pherthyn. Er enghraifft, gwnaethom ddatblygu Pecyn Cymorth Cynhwysiant arloesol, gan ddefnyddio talent greadigol o'r tu mewn i'r sefydliad a'r tu allan iddo, gan sicrhau bod amrywiaeth eang o adnoddau ar gael i'r staff ac arweinwyr greu diwylliant cynhwysol. Caiff ein naw rhwydwaith staff gweithredol ac ymgysylltiol eu cefnogi gan uwch-swyddog gweithredol ac maent hefyd yn helpu i adlewyrchu'r cymunedau a wasanaethir gennym ac i'w deall, i roi cymorth cymheiriaid ac i hyrwyddo lefelau ymgysylltu.

Er ein bod wedi gwneud cynnydd sylweddol wrth wella cynrychiolaeth a chynhwysiant ym mhob rhan o'r sefydliad, mae rhagor o waith i'w wneud o hyd. Mae ein harweinwyr yn ymrwymedig i ysgogi newid er mwyn adlewyrchu amrywiaeth ein cynulleidfaoedd a chreu diwylliant lle y gall pawb ffynnu, gwneud eu gwaith gorau a chyflwyno cynnwys o'r radd flaenaf.

Cyflog Cyfartal

Mae bylchau cyflog rhwng y rhywiâu yn wahanol i Gyflog Cyfartal. Cyflog Cyfartal yw'r gofyniad cyfreithiol i dalu'r un cyflog i ddynion a menywod am waith cyfwerth neu debyg. Fel rhan o'n hymrwymiad parhau i sicrhau cyflog teg a chyfartal yn y BBC, rydym wedi cwblhau'r archwiliad diweddaraf yn ein cyfres o Archwiliadau Cyflog Cyfartal bob pum mlynedd a gynhelir gan arbenigwyr trydydd parti annibynnol. Mae canfyddiadau'r archwiliad hwn yn rhoi sicrwydd nad oes unrhyw achosion o wahaniaethu systemig rhwng y rhywiâu yn y ffordd y caiff cyflogau eu rheoli yn y BBC ac nad yw'r bylchau cyflog rhwng y rhywiâu a gofnodir gennym yn deillio o gyflog anghyfartal.

Bylchau cyflog rhwng y rhywiâu

Mae gennym gyfradd ddatgelu o 100% ar gyfer rhywedd staff fel y'i cofnodir ar eu cofnodion Yswiriant Gwladol. Mae 47% o gyfanswm y boblogaeth y mae'r adroddiad hwn yn berthnasol iddi yn fenywod ac mae 53% yn ddynion. (Ar draws y BBC, mae 50% yn fenywod ac mae 50% yn ddynion).

Mae ein bwllch cyflog cymedr rhwng y rhywiâu bellach yn 4.7%; rydym wedi lleihau'r bwllch hwn dros hanner ers 2017 ac rydym wrth ein boddau bod y duedd ar i lawr wedi parhau y flwyddyn hon.

Mae ein bwllch cyflog canolrif rhwng y rhywiâu wedi cynyddu y flwyddyn hon, ac mae bellach yn 7.3%. Mae hyn yn bennaf oherwydd buddsoddiadau penodol mewn cyflogau, gan gynnwys ar gyfer talent hanfodol mewn swyddi allweddol yn ein meysydd technoleg a chynhyrchion. Mae cyfrannau uwch o ddynion yn gweithio yn y meysydd hyn yn y BBC ac yn allanol, ac o ganlyniad, mae ein cyfradd canolrif fesul awr i ddynion wedi cynyddu. Fel rhan o'n hymrwymiadau i wella cynrychiolaeth, rydym yn anelu at wella'r cydbwysedd rhwng y rhywiâu yn ein timau technoleg a chynhyrchion, ac rydym yn sicrhau bod enghreifftiau da o ran lefelau cynrychiolaeth menywod ar ein rhaglenni datblygu gyrfa, symudedd ac arweinyddiaeth, gan gynnwys Accelerator (69%) ac Arweinyddiaeth Gynhwysol (64%), gan sicrhau cyflenwad cryf o dalent ar bob lefel ac ym mhob is-adran. Hefyd, mae gennym rwydweithiau staff ar waith i roi cymorth cymheiriaid ac i wella lefelau cynrychiolaeth menywod mewn STEM.

Adroddiad gweithredol

Adroddiad ar Fwlch Cyflog y BBC 2022/23 – parhad

Gwelsom hefyd gynnydd yn y cyfraddau cymedr a chanolrif fesul awr i ddynion ar ôl rhoi ein dull newydd o ystyried cyflogau ar waith, a oedd o fudd i nifer ychydig yn uwch o ddynion na merched oherwydd eu sefyllfa berthynol o fewn yr ystodau cyflog. O ganlyniad, cynyddodd y bylchau cyflog cymedr a chanolrif ond mae'n gam pwysig tuag at sicrhau y caiff pawb eu talu'n briodol am eu sgiliau a'u profiad.

Ein bwllch cyflog canolrif rhwng y rhywiau gan gynnwys Gogledd Iwerddon yw 7.3% a'n bwllch cyflog cymedr rhwng y rhywiau gan gynnwys Gogledd Iwerddon yw 4.8%.

	Cymedr	Canolrif
2023	4.7%	7.3%
2022	5.1%	5.9%
2021	5.0%	5.2%
2020	6.3%	6.2%
2019	6.8%	6.7%
2018	8.4%	7.6%
2017	10.7%	9.3%

* Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Hydref 2022

Mae'r tabl canlynol yn dangos ein bylchau cyflog rhwng y rhywiau yn ôl bandiau cyflog.


Band	Cymedr	Canolrif
A	4.4%	2.4%
B	0.1%	0.1%
C	3.6%	4.1%
D	2.8%	2.7%
E	2.0%	3.1%
F	-0.7%	-0.3%
Uwch-arweinwyr	-5.9%	-7.9%

Mae'r bylchau cyflog negatif yn dangos bod y grŵp lleiafrifol, sef menywod yn yr achos hwn, yn cael cyflog uwch ar gyfartaledd na'r grŵp mwyafrifol.

Mae lefelau cynrychiolaeth benywaidd fel canran wedi cynyddu'n gyffredinol ac ym mhob un o'n tri band gyrfa uchaf. Mae mwy o fenywod na dynion yn ein dau fand gyrfa isaf. Er mwyn cyflawni gostyngiadau sylweddol pellach yn ein bylchau cyflog rhwng y rhywiau, byddai angen i ni sicrhau cydbwysedd rhwng y rhywiau ar bob lefel yn y sefydliad; rydym yn gwneud cynnydd ardderchog wrth gynyddu nifer y menywod yn ein swyddi lefel uchaf.

Mae'r graff canlynol yn dangos cyfran y dynion a'r menywod ym mhob chwarter cyflog.

Rhaniad staffio rhwng y rhywiau yn ôl chwarter



Bylchau cyflog ethnigrwydd

Mae 97% o gyflogaion wedi rhannu eu data ethnigrwydd â ni. Mae 18% o gyfanswm y boblogaeth a gynhwysir yn yr adroddiad hwn yn nodi eu bod yn bobl Ddu, Asiaidd neu'n rhan o grŵp ethnig leiafrifol arall (17% ar draws y BBC). Ni chaiff y rhai hynny nad ydynt wedi datgelu eu cynnwys yn y dadansoddiad o'r bwllch cyflog.

Mae'r bwllch rhwng cyflog cymedr fesul awr ein staff Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol a'n staff gwyn wedi lleihau o gymharu â'r flwyddyn ddiwethaf. Mae'r bwllch cyflog canolrif wedi cynyddu ychydig o gymharu â'r flwyddyn ddiwethaf. Ein bwllch cyflog ethnigrwydd cymedr cyfredol yw 2.9% a'r bwllch canolrif yw 1.8%.

	Cymedr	Canolrif
2023	2.9%	1.8%
2022	3.3%	1.6%
2021	3.3%	0.0%
2020	3.0%	-0.3%
2019	3.2%	-1.1%
2018	4.0%	-1.1%
2017	5.7%	0.4%


Mae'r tabl canlynol yn dangos ein bylchau cyflog ethnigrwydd yn ôl band gyrfa (lle mae gennym fwy nag 20 o gyflogaion Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol yn y band).

Band	Cymedr	Canolrif
A	-7.0%	-8.6%
B	-2.5%	-3.1%
C	-4.5%	-5.1%
D	-2.2%	-2.5%
E	-4.8%	-5.0%
F	-3.9%	-0.5%
Uwch-arweinwyr	-5.8%	-23.4%

Mae'r bylchau cyflog negatif yn dangos bod y grŵp lleiafrifol, sef staff Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol yn yr achos hwn, yn cael cyflog uwch ar gyfartaledd na'r grŵp mwyafrifol. Mae lleoliad ein staff Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol, y mae llawer ohonynt wedi'u lleoli yn Llundain ac felly yn cael Lwfans Pwysoliad Llundain a gaiff ei gynnwys wrth gyfrifo bylchau cyflog yn unol â'r ddeddfwriaeth, yn effeithio ar ein bylchau cyflog yn ôl band gyrfa. Pan gaiff y lwfans hwn ei dynnu, mae'r bylchau cyflog ethnigrwydd yn ôl band gyrfa yn agosach at sero.

Mae'r graff canlynol yn dangos cyfran y staff Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol a'r staff gwyn ym mhob chwarter cyflog. Mae hyn yn adlewyrchu cynrychiolaeth ar draws ein bandiau gyrfa; mae gennym gyfran uwch o staff Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol yn ein bandiau gyrfa is o gymharu â'n bandiau gyrfa uwch. Er mwyn lleihau'r bylchau cyflog ethnigrwydd, bydd angen i ni gynyddu cynrychiolaeth ym mhob rhan o'r sefydliad ac yn arbennig yn ein bandiau uwch. Er mwyn cyflawni hyn, rydym yn atgyfnerthu ein rhaglen RISE sy'n cynnig cymorth mentora a datblygu gyrfa i staff Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol. Rydym hefyd wedi sicrhau cynrychiolaeth Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol gadarn ar ein rhaglenni recriwtio, datblygu gyrfa, symudedd ac arweinyddiaeth fel Accelerator (27%), gan ganolbwyntio ar gynhwysiant yn y broses ddeddhol derfynol er mwyn creu'r amodau gorau posibl ar gyfer sicrhau carfan amrywiol o gynnig sydd ar agor i bawb. Mae rhaglenni fel y Rhaglen Arweinwyr Newydd ar agor i bob rheolwr newydd, ar draws y DU a ledled y byd, ac yn cynnwys opsiwn ar gyfer lleoedd blaenoriaeth er mwyn gwella amrywiaeth. Rydym hefyd wedi cynnwys y dull gweithredu hwn fel rhan o'n trefniadau cynllunio olyniaeth er mwyn sicrhau y caiff talent amrywiol ei chefnogi ac y gellir cynnal lefelau cynrychiolaeth yn yr hirdymor.

Rhniad staffio ar gyfer staff Du, Asiaidd ac ethnig lleiafrifol yn ôl chwarter



Mae'r tabl canlynol yn dangos y bylchau cyflog ar gyfer categorïau ethnigrwydd penodol. Mae cyfradd gyfartalog fesul awr ein cyflogeion du yn parhau'n is na chyfradd gyfartalog fesul awr ein cyflogeion eraill ac mae'r bylchau yn llawer mwy na'r bylchau cyflog ethnigrwydd cyffredinol.

	Cymedr	Canolrif
Asiaidd	-1.0%	0.7%
Du	8.3%	6.4%
Cymysg	5.8%	4.8%
Arall	4.8%	1.2%

Bwlch cyflog pobl anabl

Mae 94% o gyflogeion wedi dweud wrthym p'un a oes ganddynt anabledd ac mae 9% o gyfanswm y boblogaeth a gynhwysir yn yr adroddiad hwn wedi cadarnhau eu bod o'r farn bod ganddynt anabledd (9% ar draws y BBC hefyd). Mae hyn yn cynnwys pob aelod o staff sydd o'r farn ei fod yn bodloni diffiniad y Ddeddf Cydraddoldeb o anabledd. Ni chaiff y rhai hynny nad ydynt wedi datgelu eu cynnwys yn y dadansoddiad o'r bwlch cyflog.

Mae'r bylchau rhwng cyflog cymedr a chanolrif fesul awr ein staff anabl a'n staff nad ydynt yn anabl wedi lleihau o gymharu â'r flwyddyn ddiwethaf. Mae'r cymedr bellach yn 6.6% ac mae'r canolrif yn 5.7%.

	Cymedr	Canolrif
2023	6.6%	5.7%
2022	7.4%	5.9%
2021	5.6%	4.0%
2020	4.9%	3.6%
2019	4.8%	3.1%
2018	4.9%	4.0%
2017	5.2%	3.3%


Mae'r tabl hwn yn dangos ein bylchau cyflog pobl anabl yn ôl band gyrfa (lle mae gennym fwy nag 20 o gyflogeion ag anabledd yn y band).

	Cymedr	Canolrif
A	1.0%	-2.3%
B	1.7%	0.7%
C	1.9%	2.7%
D	0.8%	0.5%
E	2.7%	2.3%
F	0.8%	3.5%
Uwch-arweinwyr	-	-

Mae'r bylchau cyflog negatiff yn dangos bod y grŵp lleiafrifol, sef cyflogeion anabl yn yr achos hwn, yn cael cyflog uwch ar gyfartaledd na'r grŵp mwyafrifol.

Mae'r graff isod yn dangos cyfran y cyflogeion anabl ym mhob chwarter cyflog. Mae hyn yn adlewyrchu cynrychiolaeth ar draws ein bandiau gyfrfa gyrfa; mae gennym gyfran uwch o staff anabl yn ein bandiau gyrfa is o gymharu â'n bandiau gyrfa uwch. Er mwyn lleihau'r bylchau cyflog pobl anabl, bydd angen i ni gynyddu cynrychiolaeth ym mhob rhan o'r sefydliad ac yn arbennig yn ein bandiau uwch. Er mwyn cyflawni hyn, rydym wedi datblygu ac wedi lansio sawl rhaglen i helpu staff anabl i ddatblygu eu gyrfa oedd yn y BBC. Er enghraifft, ein rhaglen mentora a datblygu, Elev8, sy'n anelu at gefnogi datblygiad gyrfa staff anabl a'n rhaglen BBC Extend sy'n cynyddu cyfleoedd i bobl anabl ddatblygu eu gyrfa oedd yn y BBC drwy greu'r amgylchedd gweithio gorau posibl. Mae BBC Extend yn anelu at wella cynrychiolaeth ar bob lefel o'r sefydliad. Yn ein his-adran Cynnwys, mae rhaglen ar waith i ddatblygu gyrfa oedd talent cynhyrchu aelodau o staff â lefel byddardod ganolig, staff anabl a staff niwroamrywiol yn y BBC ac ar gynrychiadau'r BBC, gan eu helpu i gamu ymlaen. Gwnaethom lansio cynllun pasbort anabledd blaenllaw hefyd sy'n hwyluso cyfleoedd i symud gyrfa i staff anabl drwy greu proses symlach ar gyfer trosglwyddo addasiadau wrth symud i swydd newydd yn y sefydliad ac yn y diwydiant. Rhagorodd rhaglen Accelerator hefyd ar ein targed amrywiaeth i bobl anabl, gyda 27% o'r garfan yn nodi anabledd o gymharu â tharged y BBC o 12%. Rydym hefyd wedi cynnwys y dull gweithredu hwn fel rhan o'n trefniadau cynllunio olyniaeth er mwyn sicrhau y gellir cynnal lefelau cynrychiolaeth yn yr hirdymor.

Rhniad staffio ar gyfer pobl anabl yn ôl chwarter



Bwlch cyflog LHDTC+

Mae 84% o'n cyflogeion wedi datgelu eu data ar gyfer y nodwedd hon. Mae 10% o'n cyflogeion a gynhwysir yn yr adroddiad hwn wedi cadarnhau eu bod yn ystyried eu hunain yn ddeurywiol, hoyw, lesbiaidd neu gyfeiriadedd rhywiol arall (heb gynnwys heterorywiol) (10% ar draws grŵp ehangach y BBC hefyd). Mae'r grŵp LHDTC+ hefyd yn cynnwys unrhyw un sy'n cadarnhau achos o ailbennu rhywedd ni waeth beth fo'i rwywioldeb. Ni chaiff y rhai hynny nad ydynt wedi datgelu eu cynnwys yn y dadansoddiad o'r bwlch cyflog.

Y bwlch y flwyddyn hon rhwng y cyfraddau cymedr fesul awr yw 5.4% a'r bwlch rhwng y cyfraddau canolrif fesul awr yw 5.2%. Mae'r ddau flwch cyflog LHDTC+ wedi cynyddu y nystod y flwyddyn hon o gymharu â'r flwyddyn ddiwethaf ac maent wedi cynyddu'n sylweddol ers i ni ddechrau cyflwyno adroddiad ar y bylchau cyflog hyn yn 2019. Ochr yn ochr â hyn, bu gwelliant sylweddol yn ein cyfradd ddatgelu ers 2019.

Adroddiad gweithredol

Adroddiad ar Fwlch Cyflog y BBC 2022/23 – parhad

	Cymedr	Canolrif
2023	5.4%	5.2%
2022	4.2%	4.9%
2021	2.5%	2.7%
2020	-0.3%	0.8%
2019	-0.7%	0.7%
2018	-	-
2017	-	-


Mae'r tabl hwn yn dangos ein bylchau cyflog LHDTTC+ yn ôl band gyrfa (lle mae gennym fwy nag 20 o gyflogaion sy'n nodi eu bod yn LHDTTC+ yn band):

	Cymedr	Canolrif
A	1.8%	1.1%
B	4.6%	6.3%
C	4.1%	3.9%
D	-0.7%	-0.5%
E	-0.7%	-0.5%
F	-3.6%	1.6%
Uwch-arweinwyr	1.8%	0.3

Mae'r bylchau cyflog negatif yn dangos bod y grŵp lleiafrifol, sef staff LHDTTC+ yn yr achos hwn, yn cael cyflog uwch ar gyfartaledd na'r grŵp mwyafrifol.

Mae'r graff isod yn dangos cyfran y cyflogaion LHDTTC+ ym mhob chwarter cyflog. Mae hyn yn adlewyrchu cynrychiolaeth ar draws ein bandiau gyrfa; mae gennym gyfran uwch o staff LHDTTC+ yn ein bandiau gyrfa is o gymharu â'n bandiau gyrfa uwch, er bod cynrychiolaeth LHDTTC+ ar bob lefel o'r BBC yn gadarn. Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn amcangyfrif bod 3.2% o boblogaeth y DU yn LHDTTC+. Yn y BBC, mae 10% o'r staff yn nodi eu bod yn LHDTTC+. Rydym yn ymrwymedig i feithrin diwylliant o gynhwysiant a pherthyn er mwyn sicrhau y gall staff LHDTTC+ fod yn agored am eu hunaniaeth yn y gwaith. Y flwyddyn hon, byddwn yn dechrau casglu gwybodaeth am ganran y cydweithwyr LHDTTC+ sy'n agored am eu hunaniaeth LHDTTC+ fel ffordd o fesur cynhwysiant a pherthyn – fel man cychwyn, rydym yn anelu at gyflawni dros 50%. Rydym hefyd wedi bod yn cynnig sesiynau ar feithrin cydberthnasau cadarn ag unigolion LHDTTC+ yn ystod y blynyddoedd diwethaf sy'n helpu i annog ymddygiadau cynhwysol a chreu ymdeimlad o berthyn i'r gymuned LHDTTC+. Mae ein rhwydwaith staff LHDTTC+, Pride, hefyd yn rhoi cymorth cymheiriaid ac yn anelu at sicrhau gwell cynhwysiant i unigolion LHDTTC+ ym mhob rhan o'r sefydliad.

Rhaniaid staffio ar gyfer pobl LHDTTC+ yn ôl chwarter



Taliadau ychwanegol yn y BBC

Nid oes unrhyw daliadau bonws yn cael eu talu ym maes darlledu cyhoeddus y BBC. Mae'r gofynion adrodd statudol ar gyfer adrodd ar gyflog rhwng y rhywiau yn cynnwys bwlch cyflog rhwng y rhywiau o ran bonysau. Yn unol â'r canllawiau hynny, rydym yn cyfrifo'r ffigurau isod ar sail ein cynllun cydnabyddiaethau a'n dyfarnaldiadau gwasanaeth hir, er nad ydym yn ystyried bod y rhain yn daliadau bonws. Mae'r cynllun cydnabyddiaethau ar ffurf talebau yn fodd i wobrwyo staff ym mandiau A i F am berfformiad heb ei ail. Yn ystod y flwyddyn, cafodd 2,845 o staff dalebau o dan y cynllun hwn, a'r swm canolrif oedd £200. Cafodd 239 o staff ddyfarnaldiadau gwasanaeth hir, a'r taliad canolrif oedd £5,014.

Mae'r tablau isod yn dangos cyfran y staff ym mhob nodwedd a gafodd ddyfarnaliad o dan y cynllun cydnabyddiaethau neu'r dyfarnaldiadau gwasanaeth hir a'r bylchau rhwng y symiau cymedr a chanolrif a gafwyd.

	% y grŵp mwyafrifol a gafodd ddyfarnaliad	% y grŵp lleiafrifol a gafodd ddyfarnaliad
Rhywedd	18.3%	19.6%
Ethnigrwydd	19.7%	16.4%
Anabledd	18.9%	19.5%
LHDTTC+	19.4%	20.3%

	Bwlch bonws cymedr	Bwlch bonws canolrif
Rhywedd	25.2%	0.0%
Ethnigrwydd	30.1%	0.0%
Anabledd	20.3%	0.0%
LHDTTC+	-8.6%	0.0%

Beth mae'r adroddiad hwn yn ei gynnwys?

Mae'r adroddiad ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn ein hadroddiad Bylchau Cyflog yn nodi'r gwahaniaeth yn y cyflog crynswth cymedr a chanolrif fesul awr rhwng dynion a menywod. Fel o'r blaen, rydym wedi cynnwys datgeliadau gwirfoddol o fylchau cyflog ar gyfer nodweddion gwarchoddedig eraill (ethnigrwydd, pobl anabl ac LHDTTC+). Sicrhawyd cyfrifiadau statudol a chanlyniadau gan dîm Archwilio Mewnol y BBC.

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r datgeliadau statudol sy'n ofynnol gan wasanaeth darlledu cyhoeddus y BBC ar gyfer aelodau o staff yng Nghymru, Lloegr a'r Alban, gan gynnwys y World Service. Nid yw'n cynnwys ein his-gwmnïau masnachol; BBC Studios, BBC Global News, BBC Studioworks, Plant mewn Angen a Media Action. Mae'r rhain naill ai islaw'r gofynion adrodd statudol o ran nifer y staff, neu cyflwynir adroddiad ar wahân ar eu cyfer.

Rydym wedi cynnwys data ar gyfer pobl ar gcontractau staff (parhaol a thymor sefydlog). Mae hyn yn cynnwys ein cyflwynwyr ar yr awyr sydd â chontractau staff y BBC. Nid ydym yn cynnwys unrhyw weithwyr ar gcontractau llawrydd. Ni chaiff gweithwyr asiantaeth a oedd yn gweithio'n llawn amser i'r BBC ond a oedd wedi'u cyflogi drwy asiantaethau trydydd parti eu cynnwys gan y byddant wedi'u cynnwys yn yr adroddiad Bwlch Cyflog a gyflwynir gan yr asiantaeth sy'n eu cyflogi.

Wrth adolygu ein bylchau cyflog, rydym yn llunio rhestr o enillion ein cyflogaion – o'r uchaf i'r isaf – ac yn ei rhannu'n bedwar grŵp cyfartal, neu chwarteri. Rydym wedi dangos y data hyn ochr yn ochr â'r bylchau cyflog cymedr a chanolrif a'r bylchau cyflog yn ôl band gyrfa ar gyfer pob nodwedd. Rydym hefyd wedi cynnwys ein bylchau bonws, sy'n ymwneud â dyfarnaldiadau ar ffurf talebau a wnaed o dan ein cynllun cydnabyddiaethau a'n dyfarnaldiadau gwasanaeth hir. Mae'r data a gyflwynir yn seiliedig ar y data cipolwg statudol ar gyfer cyflogwyr awdurdodau cyhoeddus ar 31 Mawrth 2023.

Ymgynghoriadau

Mae Siarter y BBC yn ei gwneud yn ofynnol i Fwrdd y BBC ystyried manteision ymgynghori â phobl â budd fel rhan o'n hymrwymiad i fod yn agored, yn dryloyw ac yn atebol, ac mae'n elfen allweddol o'n gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid.

Newidiadau sylweddol i weithgareddau cyhoeddus y BBC

Rhaid i'r BBC ystyried a fydd unrhyw newidiadau posibl i'n gweithgareddau gwasanaeth yn sylweddol. Dim ond pan fydd Prawf Budd y Cyhoedd wedi cael ei gynnal y gallwn wneud newid sylweddol i weithgareddau o'r fath. Mae'r prawf hwn yn asesu gwerth unrhyw newidiadau o'r fath i'r cyhoedd a'u heffaith ar y farchnad, ac a yw rheoleiddiwr y BBC, sef Ofcom, wedi datgan y gellir eu gwneud. Mae ymgynghori â rhanddeiliaid yn rhan allweddol o unrhyw Brawf Budd y Cyhoedd.

Ymgynghoriad Prawf Budd y Cyhoedd ar newidiadau i BBC iPlayer

Y flwyddyn ddiwethaf, nodwyd gennym y byddai'r BBC, fel rhan o'i weledigaeth i wella ei arlwy digidol a chynnig gwerth uwch i gynulleidfaoedd, yn ymgynghori ar gynlluniau i wella BBC iPlayer drwy gynnig mwy o focs-setiau a chynnwys archif, cynnig mwy o gyfresi'r BBC ar ffurf ar alw, a sicrhau bod newyddion a materion cyfoes yr un mor bwysig i BBC iPlayer ag ar y sianelau darlledu.

Ym mis Mehefin 2022, gwnaethom nodi manylion y cynigion hyn a fyddai'n rhoi'r rhyddid i'r BBC wella a chynyddu argaeledd rhaglenni ar BBC iPlayer drwy ein galluogi i gyhoeddi – yn amodol ar ein cyfyngiadau ariannol a gweithredol – unrhyw deitl ar BBC iPlayer yn unol â'n cytundebau â chynhyrchwyr a'n deiliaid hawliau sylfaenol, gan gynnwys argaeledd unrhyw gyfresi sy'n dychwelyd fel bocs-setiau o gyfresi llawn.

Byddai'r newidiadau arfaethedig yn cynnig gwerth uwch i gynulleidfaoedd drwy fodloni disgwyliadau'r gynulleidfa fodern, lleihau bylchau rhaglennu a meithrin hyder yn BBC iPlayer fel cyrchfan. Byddent yn galluogi'r BBC i gyflawni ei genhadaeth ac i hyrwyddo ei ddibenion cyhoeddus yn well, gan wasanaethu pob cynulleidfa gan gynnwys y rhai hynny ag arferion gwyllo ar alw cryf. Byddai'r gallu i gyhoeddi mwy o gynnwys archif yn galluogi'r BBC i gyflwyno amrywiaeth ehangach o raglenni hynod nodedig ar draws amrywiaeth eang o genres i gynulleidfaoedd ac i wasanaethu pob grŵp demograffig yn well. Byddai cyhoeddi mwy o gynnwys wedi'i gomisiynu gan y BBC ar BBC iPlayer o dan y telerau masnach blaenorol neu'r telerau masnach presennol hefyd o fudd i'r sector cynhyrchu a thalent.



Waterloo Road

Ym mis Hydref 2022, ar ôl cyfnod o ymgynghori, ymchwil i'r gynulleidfa a dadansoddiadau economaidd, penderfynodd Bwrdd y BBC nad oedd y cynigion yn sylweddol – ac y byddent, beth bynnag, yn darparu gwerth uchel i'r cyhoedd heb gael unrhyw effaith andwyol sylweddol ar y farchnad. Nododd y Bwrdd y byddai'r cynigion yn cyfrannu at gyflawni Cenhadaeth a Dibenion Cyhoeddus y BBC drwy gynnig y canlynol: gwell gwerth am arian i dalwyr ffi'r drwydded; amrywiaeth ehangach o genres a rhaglenni; gwell lefelau cynrychioli a phortreadu; gwell argaeledd rhaglenni hygyrch; a mwy o newyddion.

Er mwyn deall unrhyw effaith bosibl ar y farchnad, aethom ati i fodelu dwy senario. Roedd y gyntaf yn cynyddu archif BBC iPlayer 300% a'r ail 600%. Ni chafodd y naill senario na'r llall effaith andwyol sylweddol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol.

Felly atgyfeiriodd y BBC y cynnig at Ofcom. Ym mis Tachwedd 2022, ar ôl adolygu'r cynlluniau, daeth Ofcom i'r casgliad nad oedd cynnig y BBC yn newid sylweddol, a thrwy hynny ganiatáu i'r BBC fwrw ati â'i gynlluniau.

Adroddiad gweithredol Cynaliadwyedd amgylcheddol

Mae Grŵp y BBC yn parhau'n ymrwymedig i gynhyrchu cynnwys a gaiff ei gydnabod yn rhyngwladol sy'n hysbysu ein cynulleidfaoedd am faterion amgylcheddol, gan sicrhau bod ein heffeithiau amgylcheddol gweithredol mor isel â phosibl ar yr un pryd. Y flwyddyn hon, rydym wedi gweithio gyda nifer o bartneriaid allanol er mwyn cael sicrwydd ynghylch ein prosesau ar gyfer pennu targedau cynaliadwyedd ac adrodd arnynt. Rydym yn anelu at ragoriaeth a thryloywder yn ein hadroddiadau amgylcheddol fel sy'n briodol o ystyried ein sefyllfa fel y darlledwr newyddion byd-eang yr ymddiriedir ynddo fwyaf.

Targedau Sero Net

Mae ein targedau Sero Net tymor agos, a gymeradwywyd gan y fenter Science Based Targets (SBTi) yn 2021, yn ymrwymo'r BBC i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr o'n gweithrediadau uniongyrchol (Cwmpas 1 a 2) 46% ac o'n cadwyn gwerth (Cwmpas 3) 28% erbyn 2030/31 o linell sylfaen 2019/20. Er mwyn cyrraedd safon SBTi, byddwn yn pennu targedau hirdymor sero net ar gyfer lleihau allyriadau yn ystod blwyddyn ariannol 2023/24, fel sy'n ofynnol er mwyn datgarboneiddio ein hallyriadau nwyon tŷ gwydr erbyn 2050.

Amcangyfrifiadau yw allyriadau Cwmpas 3 gan fwyaf ac mae'r setiau data a'r fethodoleg yn cael eu gwella'n barhaus, sef yr ymarfer arweiniol arferol. Fel rhan o'r broses o wella ein data allyriadau Cwmpas 3 amcangyfrifedig, gwnaethom ailgyfrifo ein llinell sylfaen Cwmpas 3 ar gyfer 2019/20 drwy gymhwyso ffactorau allyriadau Exiobase at ddata mewnbwn yn seiliedig ar wariant a referniw, sy'n fwy cydnaws â'n math o fusnes a'n gweithrediadau byd-eang. Gellir darllen mwy am y fethodoleg ar adran Cynaliadwyedd Amgylcheddol ein gwefan About the BBC yn: bbc.com/aboutthebbc/reports/policies/sustainability.

Mae cyfrannau llinell sylfaen allyriadau diwygiedig 2019/20 wedi'u dangos yn y diagram, nad yw'n cynnwys 'Y Defnydd o Gynhyrchion a Werthwyd' er mwyn cyfateb i eithriadau ffiniau SBTi.


Rydym hefyd wedi cyfrifo allyriadau nwyon tŷ gwydr Grŵp y BBC ar gyfer 2021/22 a 2022/23 er mwyn asesu tueddiadau a nodi heriau lleihau carbon. Mae'r holl ddata wrthi'n cael eu dilysu i safon ISO 14064. Mae data a pherfformiad Cwmpas 1 a 2 wedi'u dangos yn y tabl ar y dudalen hon. Mae'r broses o ailgyfrifo data Cwmpas 3 ar gyfer 2022/23 gan ddefnyddio ffactorau allyriadau Exiobase yn mynd rhagddi o hyd.

Perfformiad Sero Net yn erbyn y targedau

Rydym yn gwneud cynnydd sylweddol yn erbyn ein hallyriadau gweithredol uniongyrchol neu Gwmpas 1 a 2 ac ar hyn o bryd, mae ein trywydd yn rhagori ar ein llwybr targed gan ddangos gostyngiad o -13% fel y gwelir yn y tabl isod. Cyflawnwyd hyn drwy gyfres wedi'i thargedu o fentrau yn erbyn ein defnydd o danwyddau ffosil a thrydan. Mae'r rhain yn cynnwys uwchraddio a gadael safleoedd, fel symud o'r Ganolfan Ddarlledu yng Nghaerdydd i'n swyddfa yn y Sgwâr Canolog, sy'n cyflawni statws Rhagorol o dan Ddull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu (BREEAM), a lleihau ein hól troed yn Broadcasting House ym Mryste. Rydym hefyd wedi cynyddu nifer y safleoedd rhyngwladol sy'n caffael trydan gwyredd ac y mae ganddynt Dystysgrifau Priodoli Ynni. Yn ogystal, rydym wedi lleihau ein defnydd o nwy ar bob un o'n safleoedd allweddol a'n defnydd o ddielol yn ein cynrychiadau.

Pob uned mewn tunelli CO ₂ e	2019/20	2021/22	2022/23 ¹	Newid % yn 2023 o gymharu â'r llinell sylfaen
Cwmpas 1				
Prosesau ymlogsi sefydlog, ymlogsi symudol ac allyriadau ffo	19,545	19,218	16,964	-13%
Cwmpas 2				
Trydan a brynir (yn seiliedig ar y farchnad) ²	6,400	5,306	5,529 ³	-14%
Trydan a brynir (yn seiliedig ar leoliadau) ⁴	46,897	36,238	32,622	-30%
Gostyngiadau mewn allyriadau cyfunol Cwmpas 1 a 2				-13% ⁵
Dwysedd allyriadau Cwmpas 1 a 2	5.2	4.6	3.9	

- 1 Ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23, lle nad oedd yr holl ddata gwirioneddol ar gael oherwydd yr amserlen, defnyddiwyd rhai amcangyfrifon
- 2 Yn seiliedig ar y farchnad Mae'r dull hwn yn adlewyrchu allyriadau o'r trydan a brynwyd
- 3 Diweddarwyd y fethodoleg yn 2022/23 i ddefnyddio ffactorau allyriadau ar gyfer cyflenwyr penodol ar gyfer safleoedd yn y DU nad oes Gwarantau Tarddle Ynni Adnewyddadwy (REGO) yn berthnasol iddynt. Rydym yn bwriadu ailgyfrifo ein hallyriadau llinell sylfaen gan ddefnyddio'r dull hwn yn ddiweddarach yn 2023 a byddwn yn eu haildatgan yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y flwyddyn nesaf
- 4 Yn seiliedig ar leoliadau Mae'r dull hwn yn defnyddio ffactor grid cyfartalog y lleoliad, lle caiff ynni ei ddefnyddio
- 5 Gostyngiad Cwmpas 1 a 2 yn 2022/23 oedd -13.3% yn erbyn SBT o -12.6% yn seiliedig ar ostyngiad o -4.2% y flwyddyn o'r llinell sylfaen



Gan weithio gyda Microsoft, rydym wedi rhoi llwyfan ar-lein ar waith i goladu holl ddata amgylcheddol y BBC, sef EARTH (Environmental Accounting, Reporting and Tracking Hub). Bydd EARTH yn gwella cysondeb ein proses olrhain perfformiad ar draws y BBC ac yn symleiddio ein dulliau adrodd allanol.

Er mwyn cyrraedd ein targedau, rydym yn parhau i ganolbwyntio ar ddileu allyriadau, fel yr amlinellir yn ein gwefan Cynaliadwyedd Amgylcheddol yn: bbc.co.uk/sustainability. Bydd ein camau datgarboneiddio yn cynnwys cau rhai o'n hadeiladau hŷn ac uwchraddio eraill. Mae ein his-adran Technoleg yn treialu prosiectau effeithlonrwydd ynni mewn perthynas â'n cyfarpar, gan leihau'r amseroedd gweithredu i'r isafswm sydd ei angen i sicrhau

parhad busnes. Mae ein timau Cynaliadwyedd, y Gweithle, Caffael a Thrafnidiaeth yn cydweithio i ddefnyddio cerbydau trydan ym mhob rhan o'n fflyd yn y DU yn lle cerbydau â pheiriannau tanio mewnol.

Rydym yn annog ein timau cynhyrchu a chomisiynu cynnwys i leihau eu hallyriadau drwy orfodi safon diwydiant albert BAFTA ar gyfer dulliau cynhyrchu teledu cynaliadwy ar bob cyfres newydd a gomisiynir ac ar gyfresi sy'n dychwelyd. Mae'r safon hon yn ei gwneud hi'n ofynnol i wneuthurwyr rhaglenni gwblhau cynllun gweithredu carbon i leihau allyriadau o'r cychwyn, cyn mesur allyriadau ac wedyn wrthbwysu allyriadau na ellir eu lleihau ar ddiwedd y cynhyrchiad. Er mwyn cyflawni'r ymrwymiad hwn, cafodd allyriadau ar gyfer holl gynrychiadau Gwasanaeth Cyhoeddus y

BBC ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22 eu coladu ym mis Ebrill 2022 a phrynwyd credydau carbon gan Bartneriaid Effeithiau'r Hinsawdd a oedd yn cyrraedd safonau a gydnabyddir yn rhyngwladol. Ceir rhagor o fanylion am gamau gweithredu sy'n gysylltiedig â chynulleidfaoedd o dan yr adran o Blaid Pobl ar y dudalen hon.

Ymgysylltu â'n cadwyn gyflenwi

Rydym yn parhau i weithio gyda'n cyflenwyr a'n partneriaid i leihau allyriadau ein cadwyn gyflenwi, sy'n cyfateb yn fras i 68% o linell sylfaen ein hól troed carbon. Rydym bellach yn ail flwyddyn rhaglen cadwyn gyflenwi ein Prosiect Datgelu Carbon (CDP). Mae CDP yn gweithredu system ddatgelu fyd-eang i sefydliadau reoli eu heffeithiau amgylcheddol. Cymerodd 163 o'n cyflenwyr allweddol ran yng nghylch CDP 2022. Rydym yn parhau i gefnogi ein cyflenwyr drwy gydol y broses hon, gan eu hannog i ymuno â'n hymdrech i drawsnewid i Sero Net. Defnyddir data CDP i lywio ein mentrau i leihau ein hallyriadau Cwmpas 3. Ein huchelgais yn 2023 yw ymgysylltu â throes 250 o gyflenwyr. Mae ein Strategaeth Caffael Cyfrifol, sy'n canolbwyntio ar dair elfen sef y Blaned, Pobl a'r Bunt, yn pwysleisio ein nodau cynaliadwyedd a gwerth cymdeithasol ac yn sicrhau gwerth i dalwyr ffi'r drwydded, gan roi pwsylais ar ddewis cyflenwyr sy'n rhannu amcan y BBC o sicrhau bod cynaliadwyedd cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd wrth wraidd eu gweithrediadau.

Y Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol sy'n gysylltiedig â'r Hinsawdd (TCFD) a Llywodraethu

Ar gyfer ein Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol sy'n gysylltiedig â'r Hinsawdd (TCFD), rydym wedi gwella ein dadansoddiadau o senarios sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd ers 2021/22, drwy gynnwys ein hymateb strategol a'n camau lliniaru fel rhan o waith modelu ein TCFD, lle y bo'n bosibl. Ystyriwyd dwy senario sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd y flwyddyn hon o dan y senarios trydydd parti a gydnabyddir yn fyd-eang 'Sero Net' (cynhesu cyfwerth ag 1.5°C erbyn 2100) a 'Polisiau Cyfredol' (cynhesu cyfwerth â 3.5-4.5°C erbyn 2100). Gwnaethom hefyd werthuso ein risgiau a'n cyfleoedd hinsawdd yn erbyn tair gorwel amser ar gyfer y byrdymor (2023 i 2029), y tymor canolig (2030 i 2039) a'r hirdymor (2040 i 2059). Mae ansicrwydd annatod yn gysylltiedig ag unrhyw waith i foddelu dadansoddiadau o senarios sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd, ond yn arbennig ar gyfer pedwar o'r wyth o risgiau a chyfleoedd hinsawdd a ystyriwyd, fel y nodir yn y tabl ar dudalen 68.

Dangosodd ein dadansoddiadau fod effeithiau'r risgiau trawsnewid ar eu gwaethaf o dan senario Sero Net, ac y disgylir y bydd risgiau ffisegol fel llifogydd yn dod yn fwy mynych ac yn fwy difrifol yn y tymor hwy o dan y senario Polisiau Cyfredol. Ystyriwyd risgiau ffisegol eraill fel risgiau a chyfleoedd hinsawdd posibl yn ogystal â llifogydd, ond nid oeddent mor sylweddol. Cânt eu hadolygu wrth i risgiau

sy'n gysylltiedig ag effaith newid yn yr hinsawdd ddog i'r amlwg yn y dyfodol. Defnyddiwyd y data diweddaraf ar gyfer y senario, wedi'u llywio gan Rwydwaith Gwyrddhau'r System Ariannol, ac edrychwyd ar gronfeydd data cyhoeddus cydnabyddedig eraill ar yr hinsawdd lle ceir cyfyngiadau, gan gynnwys yr Asiantaeth Ynni Rhyngwladol, ac adnodd Aqueduct Athrofa Adnoddau'r Byd. Cynhaliwyd nifer o weithdai â rhanddeiliaid mewnol allweddol y BBC ac ymgynghorwyr trydydd parti, i wella tybiaethau modelu a chyfyngiadau amlinellol, er mwyn gallu cysoni â chanllawiau TCFD ac arferion gorau.

Rydym yn parhau i feithrin ein gwydnwch yn erbyn risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd ac i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i sicrhau ein bod mewn sefyllfa gadarn i ymateb i'r senarios hyn.

Mae Pwyllgor Archwilio a Risg y BBC yn cefnogi ein hymdrechion i gysoni ag argymhellion y TCFD ac mae'n cyflwyno adroddiadau ar y mater i Fwrdd y BBC. Ceir manylion ar dudalen 120 yn adran Ein Prif Risgiau yr adroddiad hwn.

Mae'r BBC hefyd wedi cyflawni gradd B y Prosiect Datgelu Carbon ar gyfer aeddfedrwedd strategaeth yr hinsawdd yn ystod ein blwyddyn gais gyntaf. Mae hyn yn cyfateb i'r cyfartaledd ar gyfer busnesau yn sectorau'r Cyfryngau, Telathrebu a Gwasanaethau Canolfannau Data. Mae'r BBC wedi cynnal asesiad parodrwedd i adrodd mewnol ar gyfer Tasglu Cynllun Trawsnewid y Llywodraeth. Caiff cynaliadwyedd bellach ei asesu a'i fonitro fel Prosiect o fewn Portffolio Prosiectau Allweddol y BBC.

O Blaid Natur

Gan ystyried ein cynnwys bywyd gwylt sydd o bwys byd-eang, rydym wedi bod yn treialu beta fframwaith y Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol sy'n gysylltiedig â Natur (TNFD), gan asesu pa rai o'n hasedau sy'n rhyngweithio â natur, yn arbennig ag ardaloedd sensitif o ran bioamrywiaeth ac ardaloedd integredd isel. Rydym hefyd yn ceisio gwella ein dealltwriaeth o'r risgiau a'r cyfleoedd sydd ar gael i'r BBC yn gysylltiedig â natur. Rydym yn gweithio gyda thrydydd parti i gyfrifo ein Hól Troed Bioamrywiaeth, gan ddilyn model a ddefnyddir gan Brifysgol Rhydychen.

O Blaid Pobl

Mae'r BBC yn hysbysu ac yn addysgu am gynaliadwyedd amgylcheddol – yn allanol i gynulleidfaoedd ac yn fewnol i'w staff. Fel rhan o ymrwymiad y BBC i'n Haddewid Cynnwys Hinsawdd (ceir rhagor o fanylion yn adran Rhaglennu Cynaliadwy yr adroddiad hwn ar dudalen 27), rydym yn mesur effaith ein cynnwys – ein 'hól ymennydd' – drwy gynnal arolygon ar-lein o'r gynulleidfa ddwywaith y flwyddyn. Mae'r data diweddaraf wedi dangos bod 41% o oedolion yn y DU o'r farn bod y BBC wedi gwella eu dealltwriaeth o faterion amgylcheddol.

Ym mis Mawrth 2023, gwnaethom ddechrau prosiect i ymchwilio i effaith y gyfres hanes naturiol *Wild Isles*, gan adeiladu ar y gwaith a wnaed mewn perthynas â *The Green Planet* yn 2022. Rydym hefyd yn cynnal ymchwil i effaith y bydoedd *Frozen Planet II* a luniwyd mewn partneriaeth â Minecraft Education. Rydym yn disgwyl cyflwyno adroddiadau ar y ddau brosiect y flwyddyn nesaf.

Fel rhan o'r Addewid Cynnwys Hinsawdd, gwnaethom gomisiynu, ar y cyd â darlledwyr eraill, Ipsos a CAST i gynnal ymchwil i'r ffordd fwyaf effeithiol o greu cynnwys amgylcheddol. Ceir crynodeb o ganfyddiadau'r ymchwil honno yma: ipsos.com/en-uk/pan-uk-broadcaster-climate-research.

Astudiaeth achos: *The Green Planet*



Canfu asesiad o werthfawrogiad natur a bwriadau amgylcheddol cadarnhaol hunangofnodedig cynulleidfaoedd o ganlyniad i wyllo'r gyfres hanes naturiol *The Green Planet*, hyd yn oed o ystyried ffactorau eraill dylanwadol – fel oedran, incwm, rhywedd ac addysg – o gymharu ag unigolion nad oedd wedi gwyllo'r gyfres/cymdeithas ehangach, fod cysylltiadau cadarnhaol cryf rhwng gwyllo'r gyfres a'r canlyniadau canlynol:

- Gwell llesiant
- Gwerthfawrogi natur yn fwy
- Ymweliadau ychwanegol â pharciau a gerddi
- Defnyddio llai o ynni a chyfraddau ailgylchu uwch



Adroddiad gweithredol Cynaliadwyedd amgylcheddol – parhad

TCFD – Tabl canlyniadau dadansoddi senarios

Risg neu gyfle sylweddol	Gorwel amser			Disgrifiad	Yr effaith ariannol bosibl os na chymerir unrhyw gamau i liniaru'r risgiau neu os na chaiff cyfleoedd eu gwirredu	Ymateb strategol
	Byr	Canolig	Hir			
Risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd Costau uwch mewn perthynas â phrisiau carbon, gwrthbwyso a threthiant (gan gynnwys camau lliniaru)				Mae ymrwymadau sero net yn y DU ac yn rhyngwladol yn debygol o arwain at gyflymu a gweithredu systemau prisiau carbon gan gynnwys capiau allyriadau â gofynion gwrthbwyso a threthi carbon.	Costau uniongyrchol uwch mewn perthynas ag ôl troed allyriadau'r BBC a chostau anuniongyrchol wrth i gyflenwyr y BBC drosglwyddo costau carbon.	Adolygu amserlen y strategaeth wrthbwyso ac asesu potensial prisiau carbon mewnol i gyflymu gweithgarwch datgarboneiddio, a pharhau i gyflwyno datblygiadau carbon isel arloesol.
Risg o lifogydd yn achosi difrod ac yn tarfu ar wasanaethau				Mae'n debygol y bydd mwy o law a dwysedd digwyddiadau yn cynyddu'r risg o lifogydd, a thrwy hynny, gynyddu'r risg o ddiffrod i asedau a seilwaith, yn ogystal â tharfu ar y gallu i ddarparu gwasanaethau.	Costau uwch o ganlyniad i atgyweiriadau a gwaith cynnal a chadw, premiymau yswiriant uwch, yn ogystal â gostyngiad mewn refeniw o ganlyniad i gyfnodau estynedig o darfu ar wasanaethau.	Sicrhau bod risgiau amlygiad i lifogydd a thymheredd uchel yn cael eu monitro'n rheolaidd gan gynnwys y cydnerthedd angenrheidiol.
Cyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd Arbedion o effeithlonrwydd ynni				Mae cyfle i gyflwyno gwelliannau effeithlonrwydd ynni i adeiladau, gweithrediadau ac ymddygiadau'r BBC yn debygol o sicrhau arbedion o ran ynni a chostau	Costau uniongyrchol is o ddefnydd ynni is ar draws ystadau a gweithrediadau'r BBC ac o symud tuag at fathau o danwydd mwy cynaliadwy a chost effeithiol.	Rhoi rhaglen effeithlonrwydd ynni ac optimeiddio adeiladau ar waith ar draws Grŵp ac ystad y BBC.
Ymgysylltu â chynulleidfaoedd a chynhyrchu cynnwys ffeithiol				Mae cyfle gan y BBC i wella ei arweinyddiaeth wrth gynhyrchu cynnwys ffeithiol drwy ymgysylltu â chynulleidfaoedd, eu hysbysu a'u hysbrydoli drwy ein cynnwys.	Mae gwasanaethau cynnwys ffeithiol y BBC yn apelio at gynulleidfaoedd ehangach a marchnadoedd newydd, gan alluogi cyfleoedd ar gyfer partneriaethau a chyfleoedd ariannu newydd ar draws Grŵp y BBC.	Parhau i gynnal arolygon o gynulleidfaoedd a dulliau olrhain data eraill er mwyn canfod dewisiadau cynulleidfaoedd ac effaith cynnwys sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd. Parhau â dulliau mesur carbon ac ardystio cynhyrchu cynaliadwy ar draws cynhyrchion a gwasanaethau. Cynnal dulliau olrhain o themâu sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd o fewn cynnwys golygyddol.
Mwy o risgiau a chyfleoedd ansicr ar y cam hwn Risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd Llai o waith i ddenu a chadw talent*				Bydd strategaeth datgarboneiddio ac enw da'r BBC o ran materion sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd yn effeithio ar ein gallu i ddenu cyflogwyr i'r BBC a'u cadw.	Costau staff uwch i gymell a chadw cyflogwyr a chostau gweithredu ychwanegol sy'n gysylltiedig â chyflogi oherwydd cyfraddau gadael uwch.	Sicrhau bod dyhead a gweithgarwch cynaliadwyedd yn cyrraedd safonau arferion arweiniol ac yn cyd-fynd â disgywiliadau'r diwydiant a disgywiliadau cyflogwyr.
Mynediad cyfyngedig i gyfalaf (gan gynnwys camau lliniaru)*				Yn gynyddol, mae gan ddarparwyr cyfalaf eu hymrwymadau sero net eu hunain sy'n arwain at gostau cyfalaf uwch i sefydliadau yr ystyri'r nad ydynt yn cymryd camau gweithredu digonol mewn perthynas â'r hinsawdd.	Cyfraddau llog uwch mewn perthynas â benthyca cyfalaf, a allai effeithio ar ochr fasnachol y busnes.	Sicrhau y caiff cynnydd yn erbyn targedu ei fonitro o ran perfformiad ac y caiff yr ymyriadau angenrheidiol eu rhoi ar waith er mwyn parhau ar y llwybr hanfodol.
Risg i enw da o wyrddgalchu*				Canfyddiad y cyhoedd ynghylch diffyg cysondeb rhwng negeseuon cynnwys cryf a pherfformiad gwael yn erbyn targedau neu ddiffyg cysondeb rhwng cyflenwyr/cyflogwyr a strategaeth hinsawdd y BBC.	Colli refeniw o ganlyniad i ddiffrod i enw da'r BBC gan arwain at lai o gyfleoedd i greu partneriaethau wrth i gwsmeriaid symud tuag at gystadleuwyr, yn ogystal â chostau uwch yn sgil ymglyfwrth mewn perthynas â'r hinsawdd.	Sicrhau y caiff cynnydd yn erbyn targedu ei fonitro o ran perfformiad ac y caiff yr ymyriadau angenrheidiol eu rhoi ar waith er mwyn parhau ar y llwybr hanfodol.
Cyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r Hinsawdd Enw da o ran arweinyddiaeth hinsawdd*				Mae gan y BBC gyfle i ddangos arweinyddiaeth hinsawdd yn niwydiant y cyfryngau, drwy strategaeth a thargedau hinsawdd.	Refeniw uwch wedi'i lywio gan y buddiannau sy'n gysylltiedig ag enw da gan arwain at gynulleidfaoedd ehangach ar gyfer gwasanaethau'r BBC, yn ogystal â mwy o gyfleoedd am bartneriaethau ym mhob rhan o Grŵp y BBC.	Sicrhau y caiff canlyniadau arolygon ac ymarferion mesur effaith eu rhannu â llunwyr cynnwys y BBC a bod strategaeth gynaliadwyedd y BBC yn cyrraedd y safonau gweithredol uchaf. Hyrwyddo camau gweithredu cynaliadwyedd y BBC i gynulleidfaoedd ac i'r diwydiant er mwyn sicrhau gwelededd a rhannu'r gwersi a ddyddig.

Pryd y disgwylir i'r risg/cyfle ddoed i'r amlwg

Amcangyfrif o effaith lawn y risg/cyfle

* Ansicrwydd uchel yn y gwaith modelu dadansoddiadau o senarios ar gyfer y risgiau/cyfleoedd hyn

Effaith weithredol

Er mwyn sicrhau bod pob un o'n cynhyrchwyr cynnwys teledu yn gwneud rhaglenni mewn modd cynaliadwy, mae'r BBC yn dal i chwarae rhan weithredol ac amlwg yng Nghonsortium a Chyfarwyddiaeth Albert BAFTA. Mae'r fenter gydweithredol hon sy'n cynnwys pob rhan o'r diwydiant yn hyrwyddo camau gweithredu cadarnhaol i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd ym maes cynhyrchu ffilm a theledu ar draws pob genre, ar y sgrin ac oddi ar y sgrin.

Bu'n ofynnol defnyddio adnoddau ardystio cynhyrchu cynaliadwy Albert BAFTA ar gyfer pob comisiwn cynnwys teledu newydd, pob ail gomisiwn a phob cyfres sy'n dychwelyd ers mis Ionawr 2022, ac eithrio cynyrchiadau â chyllideb isel iawn neu gynnwys a gaffaelwyd fel cynhyrchiad gorffenedig. Mae ardystiad Albert yn gofyn am gyfrifiad o'r ôl troed carbon a'r cynllun gweithredu carbon (CAP). Disgwylir i gynyrchiadau a gomisiynwyd cyn mis Ionawr 2022 gwblhau'r ôl troed carbon Albert gorfodol o hyd ond dim ond argymhellad yw'r CAP.

Nodir perfformiad yn erbyn y targedau hyn yn y tabl isod:

Targed	Cynnydd ar gyfer blwyddyn ariannol 22/23 ¹
Cyfrifiad ôl troed carbon Albert o 100% ar draws pob allbwn (gorfodol).	99% ²
Mae gan 100% o'r allbwn a gomisiynwyd ers mis Ionawr 2022 ardystiad cynhyrchu cynaliadwy Albert (gorfodol).	92% ³
100% o'r holl allbwn ag ardystiad cynhyrchu cynaliadwy Albert (argymhellwyd).	96% ⁴

- 1 % y cynnydd yw cyfanswm y nifer a gwblhawyd + y nifer y rhagweilir y byddant yn cael eu cwblhau gan nad oedd data terfynol ar gael ar adeg cyhoeddi
- 2 Ar gyfer olion troed Albert, amcanestyniad yw'r ffigur hwn 92% wedi'u cwblhau + 7% disgwylidiedig
- 3 Ar gyfer ardystiad Albert (gorfodol), amcanestyniad yw'r ffigur hwn 85% wedi'u cwblhau + 8% disgwylidiedig, ond yn talgrynnu lawr i 92%
- 4 Ar gyfer ardystiad Albert (argymhellwyd), amcanestyniad yw'r ffigur hwn 72% wedi'u cwblhau + 24% disgwylidiedig

Ni lwyddwyd i gyrraedd targedau o 100% yn bennaf gan fod nifer cyfyngedig o brosiectau wedi dechrau eu CAP yn rhy hwyr yn ystod y broses gynhyrchu i gael ardystiad. Er mwyn cefnogi cynhyrchwyr yn well, rydym wedi egluro'r gofyniad hwn yn ein ffurflen manyleb comisiynu. Rydym yn parhau i weithio gyda thimau cynhyrchu ar draws Gwasanaeth Cyhoeddus y BBC, BBC Studios ac yn bwysig â chwmnïau cynhyrchu annibynnol i wella prosesau addysgu ac ymgysylltu ac i gynyddu'r nifer sy'n defnyddio'r adnodd ôl troed a'r CAP.

Mae llawer o dimau cynhyrchu'r BBC ar draws pob genre teledu yn dal i wneud cynnwys sy'n ystyried yr amgylchedd, gan ddefnyddio dulliau gweithio carbon isel. Rydym yn eu hannog i ganolbwyntio ar eu heffeithiau mwyaf sylweddol ym maes Teithio, Ynni a Gwastraff.

Teithio

Mae rhai o'r arferion cynhyrchu a ddefnyddiwyd o dan gyfyngiadau teithio COVID-19 wedi parhau, ond yn anochel, mae allyriadau teithio sy'n gysylltiedig â chynhyrchu wedi cynyddu yn

ystod 2022/23 ers llacio'r cyfyngiadau teithio. Mae egwyddorion cynaliadwyedd sy'n gysylltiedig â theithio wedi'u nodi yn ein Polisi Treuliau, sy'n annog staff i ddefnyddio'r dulliau teithio mwyaf 'carbon effeithlon', gan ddewis teithio ar drên yn hytrach nag awyren ar gyfer teithiau ar dir mawr y DU, rhannu cerbydau lle bynnag y bo'n bosibl a defnyddio trafniadaeth gyhoeddus yn hytrach na thacsis. Mae BBC Studios a BBC News wedi pennu targedau allyriadau teithio i'w staff ac mae Is-adrannau eraill y BBC yn anelu at bennu targedau allyriadau teithio ar gyfer 2023/24.

Nodwyd 12 o adeiladau'r BBC ar draws y DU fel lleoliadau strategol i osod gwefrwyr cerbydau trydan er mwyn helpu i ddatgarboneiddio ein fflyd weithredol, sy'n amcan cynaliadwyedd allweddol.

Mae cyflenwyr ceir i'w llogi a thacsis y BBC wedi gwella eu systemau archebu i gynnwys cerbydau

trydan, ond mae problemau o ran y cyflenwad byd-eang yn effeithio ar argaeledd cerbydau.

Ynni

Nodir newidiadau i'n defnyddio ynni yn y tabl isod. Defnyddir nwy naturiol ac olew tanwydd i wresogi ein hadeiladau a chafwyd cynnydd yn y defnydd ohonynt er mwyn trechu'r dulliau awyru ychwanegol yr oedd eu hangen i drechu haint COVID-19. Gwrthbwywyd y cynnydd hwn gan ostyngiad sylweddol o ran defnydd yn deillio o gau safleoedd hŷn a oedd yn llai ynni effeithlon a symud i safleoedd newydd fel Sgwâr Canolog Caerdydd. Mae'r cynnydd o ran y defnyddio o ddiesel a/neu betrol yn 2021 a 2022 yn deillio o ddata gwell, mwy cynhwysfawr yn hytrach na chynnydd yn y defnyddio danwydd ar draws Grŵp y BBC. Mae ein trydan adnewyddadwy sy'n cynhyrchu ei hun yn dod o bump o safleoedd y BBC â gosodiadau ffoto-foltäig.

Newidiadau o ran y defnyddio ynni

	Uned	2019/20 ¹	2021/22 ¹	2022/23	Newid % presennol o gymharu â 2021/22	Newid % presennol o gymharu â'r llinell sylfaen
Nwy Naturiol	kWh	85,993,636	84,419,474	63,098,646	-25%	-27%
Olew Tanwydd ²	litrau	39,500	124,800	50,000	-60%	27%
Diesel ³	litrau	771,419	841,648	880,566	5%	14% ⁵
Petrol ⁴	litrau	40,347	218,884	167,854	-23%	316% ⁵
Trydan a brynwyd	kWh	179,393,765	163,054,712	159,388,898	-2%	-11%
Trydan adnewyddadwy a brynwyd	kWh	158,388,180	144,925,891	141,874,887	-2%	-10%
Trydan Adnewyddadwy sy'n cynhyrchu ei hun	kWh	137,634	351,183	706,885	101%	414%

- 1 Ailddatganwyd rhai gwerthoedd oherwydd gwelliannau data
- 2 Defnyddir gan adeiladau BBC Belfast yn unig
- 3 Diesel a ddefnyddir gan gerbydau fflyd a generaduron
- 4 Petrol ar gyfer cerbydau fflyd
- 5 Cynnydd oherwydd data gwell yn hytrach na mwy o ddefnyddio danwydd

Astudiaeth achos: Tanwydd HVO

Gall defnyddio olew llysiâu hydrogenaid (HVO) ardystiedig yn hytrach na diesel safonol i weithredu generaduron leihau allyriadau carbon yn sylweddol. Ni chawsom wybod am unrhyw achos lle y bu'n rhaid i gynyrchiadau gyfaddawdu. Yn ogystal, yn ôl pob sôn, maent yn profi llawer llai o fygdarth ac amgylchedd gweithio mwy plaserus. Defnyddiwyd HVO i bweru darllediadau o sawl digwyddiad chwaraeon yn 2022 gan gynnwys Pencampwriaeth Snwcer y Byd, Chynghrair Pêl-droed Uwch y Menywod a Rygbi Chwe Gwlad y Menywod.



Adroddiad gweithredol

Cynaliadwyedd amgylcheddol – parhad

Mae gwneud mwy o ddefnydd o ynni carbon isel hefyd yn hanfodol i'n nodau Sero Net gweithredol. Mae BBC News yn parhau i dreialu defnydd o'u cerbyd casglu newyddion drwy loeren (SNG) â system ddarlledu ar y cerbyd wedi'i phwero â batri, ac mae hefyd yn ystyried ffyrdd eraill o osgoi defnyddio generaduron diesel. Mae BBC Sport yn defnyddio pŵer prif gyflenwad ar gyfer digwyddiadau byw lle ceir cyflenwad digonol, ac yn cyfuno hynny â batris lle y bo'n briodol, yn ogystal â threialu technoleg 5G ar gyfer darllediadau allanol o chwaraeon ac ystyried dulliau cynhyrchu o bell.

Defnyddiodd cyfres Uned Hanes Naturiol BBC Studios *The Watches* generaduron hydrogen ac wedi'u pwero gan fatris am y tro cyntaf erioed ar gyfer ei darllediadau allanol byw. Mae sawl un o ddigwyddiadau byw BBC Studios, gan gynnwys dathliadau'r Jiwbilî Blatinwm, bellach yn defnyddio generaduron hybrid gan gyfuno batris â generaduron diesel, gan leihau eu defnydd o danwydd a'u hallyriadau carbon. Mae cynrychiadau eraill wedi'u sgriptio hefyd yn dechrau ystyried technoleg ynni hybrid erbyn hyn ac yn cydweithio â chyflenwyr i ddod o hyd i ddatrysiadau pŵer arloesol sy'n fwy symudol. Lle y bo'n bosibl, rydym yn rhoi blaenoriaeth i olew llysiâu hydrogenaidd (HVO), sydd ag allyriadau is na diesel safonol.

Gwastraff

Gwastraff cynhyrchu o'n stiwdios Drama sy'n gwneud y cyfraniad mwyaf at wastraff cyffredinol y BBC. Mae BBC Studios wedi dod o hyd i ddatrysiadau newydd arloesol i aildddefnyddio'r deunyddiau hyn, gan weithio gyda'r fenter gymdeithasol Community Wood. Rydym hefyd wedi dechrau gweithio gyda Ramco, sefydliad economi gylchol arall, sydd wedi casglu asedau diangen o 23 o safleoedd y

BBC ac sydd wrthi'n dod o hyd i gartrefi newydd iddynt y tu allan i'r BBC. Mae aildddefnyddio cynhyrchion a deunyddiau yn ehangu eu hoes ddefnyddiol er mwyn cynyddu eu gwerth i'r eithaf rywle arall gan osgoi'r allyriadau a fyddai wedi cael eu cynhyrchu pe byddent wedi ymuno â ffyrddiau gwastraff.

Mae BBC Technology yn annog cydweithwyr i ddychwelyd eitemau o TG nad oes eu hangen mwyach, i'w haildddefnyddio neu eu hailgylchu. Mae'r BBC hefyd wedi rhoi 2,000 o liniaduron i ysgolion fel rhan o'r ymgyrch Give a Laptop. Llwyddodd ein his-gwmni masnachol Studioworks i gyflawni ardystiad Zero Waste to Landfill yn 2022. Ers COVID-19, mae ein defnydd o argraffwyr mewn swyddfeydd wedi lleihau dros 92%, gan leihau ein defnydd o bapur a'r allyriadau carbon sy'n gysylltiedig â'r ffyrddiau gwaith gwastraff a thrafnidiaeth.

Data gwastraff

Ar hyn o bryd, dim ond ar gyfer safleoedd yn y DU mae'r data hyn ar gael, nid ar gyfer swyddfeydd rhyngwladol.

Pob uned mewn tunelli	2019/20	2021/22	2022/23
Gwastraff a ailgylchwyd	1,951	831	1,006
Gwastraff a losgwyd gan adfer ynni	1,176	1,280	1,120
Gwastraff a losgwyd heb adfer ynni	0	0	0
Gwastraff i safleoedd tirlenwi	394	24	21
Treulio Anaerobig	222	81	145
Gwastraff TGCh a ailgylchwyd	40	27	26
Cyfanswm Gwastraff	3,783	2,243	2,318
Aildddefnyddio	0	0	44

Diwylliant cynaliadwy

Mae is-adran Adnoddau Dynol y BBC wedi ymgorffori egwyddorion parch tuag at bobl a'r blaned yng Ngwerthoedd y BBC. Mae Adnoddau Dynol y BBC yn creu partneriaethau â sefydliadau i gynnig buddiannau i'r staff fel cynlluniau llogi cerbydau trydan a beiciau a mynediad i Liftshare er mwyn annog trefniadau cymudo gan ddefnyddio ceir mewn modd cynaliadwy, gan gefnogi arbedion carbon ac arbedion costau i'n staff.

Rydym yn gweithio gyda'r BBC Academy i sicrhau bod hyfforddiant cynaliadwyedd i staff yn cael blaenoriaeth gan ddarparu cysiau gorffodol i newyddiadurwyr Newyddion a chynhyrchwyr a Chomisynwyr cynnwys mewnol nad ydynt yn gysylltiedig â'r adran Newyddion, yn ogystal â hyfforddiant i dimau gweithredol a chyrtsiau byr i aelodau cyffredinol o staff. Gall pob gwneuthurwr rhaglenni yn y BBC a chyflenwyr allanol weld ein Canllaw Pwnc a'n Rhestr Termau Cynaliadwyedd Amgylcheddol: bbcademyfiles.s3.amazonaws.com/assets/-projects/Environmental-Sustainability-Topic-Guide/course/index.html#/, sy'n cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf yn seiliedig ar y dystiolaeth wyddonol orau sydd ar gael.

Rydym yn cynnal digwyddiadau ymgysylltu a gaiff eu defnyddio gan y diwydiant cyfan, gan gynnwys gŵyl rithwir undydd Climate Creatives 2022 gan BBC Academy, a ddenodd dros 1,600 o ymweliadau unigol â sesiynau ar gyfer y digwyddiad byw. Yn 2023, gwnaethom gynnal ymarfer hyfforddi ymgysylltu â chynaliadwyedd a gwyddor yr hinsawdd ar gyfer uwch-arweinwyr o Grŵp y Prif Swyddog Gweithredu er mwyn sicrhau bod llythrennedd yr hinsawdd yn cael ei ystyried fel rhan o lefelau gweithredu uchaf Grŵp y BBC.

Mae Is-adranau'r BBC yn ymgysylltu â chynaliadwyedd er mwyn ysgogi newid ym mhob rhan o'r sefydliad, yn aml gan weithio mewn partneriaeth â chyrrff allanol. Mae BBC Sport yn gweithio gydag Uwchgyhadledd Sport Positive a chyrrff chwaraeon eraill sy'n gysylltiedig â chynaliadwyedd. Mae BBC Technology yn cefnogi DIMPACT, sef menter gydwethredol rhwng academyddion a chwmnïau'r cyfryngau i gyfrifo allyriadau carbon y cyfryngau digidol.

Yn swyddfeydd mwy y BBC, mae Timau Gwyrdd gwirfoddol hefyd yn ymgysylltu â chydweithwyr sy'n cynnal digwyddiadau i staff. Er mwyn rhoi diwylliant cynaliadwyedd ar waith, rydym yn dal i rannu gwybodaeth fewnol reolaidd am weithgareddau cynaliadwyedd yn y BBC.

Astudiaeth achos: Croesawu'r Economi Gylchol

Mae'r fenter gymdeithasol Community Wood yn adfer eitemau pren oddi ar setiau cynhyrchu i'w haildddefnyddio fel rhan o fframwaith yr economi gylchol, gan ar yr un pryd greu swyddi a chyfleoedd i grwpiau dan anfantais. Ym mis Ionawr 2023, cafodd 41% o'n heitemau pren eu troi'n gynhyrchion newydd, cafodd 42% ei aildddefnyddio fel coed tân neu ar randiroedd a chafodd 16% ei ailgylchu i greu asglodfwrdd neu sglodion pren ar gyfer tanwydd.



t.27 i gael gwybod mwy am raglennu cynaliadwy

Gwaith elusennol



Mentor darlledu BBC Media Action Patrick Mulehi yn cyfnewid Ekusi, ffermwrraig a mam ger pentref Natoot, Turkana, Kenya

Mae'r apeliadau elusennol a ddarlledwyd ar y BBC y flwyddyn hon unwaith eto wedi codi milynau o bunnoedd i sefydliadau ar draws y DU a ledled y byd ac rydym yn ddiolchgar am ymateb hael ein cynulleidfaoedd.

Rhoddodd y BBC amser ar yr awyr i 60 o elusennau drwy Apêl Radio 4 a Lifeline BBC One. Cafodd yr elusennau ar gyfer y slotiau hyn eu dewis ar ôl proses ceisiadau chwarterol drylwyr ac roedd eu hapeliadau yn cynnwys amrywiaeth o straeon o bob cwr o'r DU ac yn rhyngwladol. Gall cynulleidfaoedd ddarllen am effaith yr apeliadau mynediad hyn yn: bbc.com/charityappeals/what-your-money-does.

Ym mis Rhagfyr, cafodd Apêl Nadolig flynyddol Radio 4 ar y cyd ag Elusen St Martin-in-the-Fields ei darlledu. Mae bellach wedi codi dros £5.1 miliwn, gan helpu pobl o bob cwr o'r DU i ddod o hyd i fan diogel i fyw ac i gael gafael ar y cymorth sydd ei angen arnynt.

Yng Ngogledd Iwerddon, cafwyd 12 o Apeliadau ar BBC Radio Ulster/Foyle ac ar deledu BBC Northern Ireland. Gwahoddwyd ceisiadau hefyd gan elusennau lleol ar gyfer slotiau Apêl i ddod a chefnogwyd yr holl weithgarwch hwn gan wefan ddynodedig a phresenoldeb datblygol ar y cyfryngau cymdeithasol. Mae'r Apeliadau darlledu yng Ngogledd Iwerddon yn dal i ganolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth o waith elusennau lleol a'u hanghenion cymorth.

Darlledodd y BBC ddwy apêl ar ran y Pwyllgor Argyfwng Trychinebau. Roedd y gyntaf, ym mis Medi 2022, ar ran y rhai hynny yr effeithiwyd arnynt gan y llifogydd ym Mhacistan. Yr ail, ym mis Chwefror 2023, oedd Apêl Daeargryn Twrci-Syria a nododd y Pwyllgor y daeth £140.2 miliwn i law yn ystod y deufis cyntaf yn unig. Parhaodd Apêl Ddyngarol Wcráin a

lansiwyd yn ystod y flwyddyn flaenorol i ddenu rhoddion ac mae bellach wedi codi £417.4 miliwn.

BBC Plant mewn Angen

Ar hyn o bryd mae elusen y DU y BBC yn ariannu mwy na 1,800 o elusennau a phrosiectau lleol yn y pedair gwlad, gan helpu i wella bywydau 450,000 o blant a phobl ifanc yn y flwyddyn ddiwethaf yn unig. Cefnogodd cydweithwyr o bob rhan o'r BBC yr Apêl yn 2022, gan rannu'r straeon pwerus hyn ac ysbrydoli'r cyhoedd ledled Prydain i ymateb gan ddangos haelioni eithriadol unwaith eto. Ymhlith y rhaglennu arbennig roedd: *Countryfile Ramble*; *The Rickshaw Relay Rides Again with BBC Breakfast*; *DIY SOS Children in Need Special*; *The One Show's Surprise Squad* a *Radio 2's The Great Treadmills Challenge*. Cyhoeddwyd bod cyfanswm anhygoel o £35 miliwn wedi'i godi ar ddiwedd ymgyrch yr Apêl, ac mae'r ffigur wedi parhau i gynyddu. Am ragor o wybodaeth ewch i: bbc.co.uk/Pudsey.

BBC Media Action

Llwyddodd BBC Media Action, sef elusen rhyngwladol y BBC, i gyrraedd 113 miliwn o bobl mewn 23 o wledydd incwm isel a chanolig y flwyddyn ddiwethaf, gan gefnogi'r cyfryngau annibynnol lleol sy'n hanfodol i ddemocratiaeth a datblygiad a chyflwyno rhaglenni sy'n pontio rhaniadau, yn herio anghydraddoldeb ac yn amddiffyn iechyd a'n planed.

Y flwyddyn hon, parhaodd BBC Media Action i gefnogi cyfryngau budd y cyhoedd yn Wcráin, Affganistan a gwladwriaethau eraill bregus yr effeithiwyd arnynt gan wrthdaro er mwyn darparu gwybodaeth y gellir ymddiried ynddi, a rhoddodd brosiect cymorth y cyfryngau wedi'i ariannu gan FCDO ar waith yn Sierra

113 miliwn

nifer y bobl a gyrhaeddwyd gan BBC Media Action mewn 23 o wledydd incwm isel a chanolig yn 2022/23

1,800

nifer yr elusennau lleol sy'n cael cyllid gan BBC Plant mewn Angen yn y pedair gwlad, gan helpu i wella bywydau 450,000 o blant a phobl ifanc yn 2022/23

Leone, Bangladesh ac Ethiopia. Roedd yr uchafbwyntiau hefyd yn cynnwys gwobr 'Best Trust Initiative' i lwyfan y cyfryngau ym maes materion cyfoes *El Kul* (I Bawb) i gynulleidfaoedd yn Libya; cyhoeddiad ar anhrefn gwybodaeth a luniwyd ar y cyd â Google Jigsaw a Phrifysgol Caergrawnt; a lansio'r Gronfa Ryngwladol ar gyfer Cyfryngau Budd y Cyhoedd er mwyn rhoi cymorth cyfryngau annibynnol, yn seiliedig ar gysyniad gwreiddiol ac astudiaeth ddichonoldeb gan BBC Media Action. Dysgwch fwy yn: bbcmediaaction.org.

Comic Relief

Llwyddodd Diwrnod Trwynau Coch 2023 i godi £35.7 miliwn, ac mae'r cyfanswm yn cynyddu o hyd, a chafodd gefnogaeth eithriadol gan y BBC. Cymerodd pob un o'r prif orsafoedd radio ran a chododd *The One Show*, *BBC Breakfast*, *Morning Live*, BBC One a Radio 1 filiynau i'n heriau, wrth i griw o enwogion feicio, chwarae recordiau, dringo mynyddoedd a chwblhau dawnsathon 24 awr ac i *Blue Peter* droi'n goch am y dydd.

Gydag ymgyrch pytia rhagflas rhyngweithiol arloesol, aeth darllediad teledu gyda'r nos Diwrnod Trwynau Coch y tu hwnt i bob disgwyliad. Gan wneud hwyl am ben lluo o enwogion a pharodïau o raglenni poblogaidd *Ghosts*, *The Traitors*, *Eurovision* a mwy, cyflwynwyd noson anhygoel o gerddoriaeth, gweithgareddau codi arian annisgwyl ac amrywiaeth o ffilmiau apêl, gyda Thywysog William ymhlith eraill yn dangos sut mae rhoddion yn helpu'r rhai hynny sydd angen cymorth fwyaf yn y DU a ledled y byd. Darllenwch fwy yn: Comicrelief.com a Comicrelief.com/rednoseday.

Adroddiad gweithredol

Partneriaethau a mentrau cydweithredol

Mae'r BBC yn llunio partneriaethau â phortffolio eang o sefydliadau er mwyn darparu gwerth i gynulleidfaedd ar draws y DU a thu hwnt. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi canolbwyntio ar gynyddu effaith partneriaethau'r BBC gan sicrhau ar yr un pryd bod partneriaid yn dal i gael y gwerth gorau posibl drwy gydweithio â'r BBC.

Dengys gwaith ymchwil a gyhoeddwyd yn ddiweddar fod buddsoddiad parhaus y BBC yn yr ecosystem cyfryngau lleol drwy ddatblygu cronfeydd talent a chynnull a meithrin partneriaethau ym mhob rhan o'r sector yn lleol yn annog busnesau eraill i ddangos cefnogaeth hefyd yn ardaloedd canolfannau lleol y BBC (e.e. Bryste, Caerdydd a Salford). Dengys yn fras fod cynnydd o 15% yn ôl troed lleol y BBC yn dyblu cyfradd twf y clwstwr creadigol dros amser, gan greu swyddi â chyflogau uwch, sy'n fwy cynhyrchiol a lle mae angen gwneud llai o oramser di-dâl.

Ar draws y DU

Mae'r BBC wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth ag Awdurdod Cyfun Gorllewin Canolbarth Lloegr i wella ei effaith economaidd, ddiwylliannol a chymdeithasol yn y rhanbarth. Fel rhan o strategaeth Across the UK y BBC, er mwyn adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu pob cynulleidfa yn well, cyhoeddodd BBC Birmingham ym mis Awst 2022 y byddai'n symud i safle newydd yn Digbeth fel rhan o'r ymdrech i adfywio'r chwarter creadigol. Mae Newsbeat Radio 1 ac Asian Network News eisoes wedi adleoli i Birmingham ac mae Radio 1Xtra bellach yn darlledu dwy raglen newydd o'r ddinas.

Drwy bartneriaeth bwerus â threfnwyr Gemau'r Gymanwlad 2022 yn Birmingham, cynhyrchwyd cynnwys gan bob rhan o'r BBC, gan ategu ein darllediadau chwaraeon, a thynnu sylw at y Gymanwlad a Gorllewin Canolbarth Lloegr. Darlledodd *The Zoe Ball Breakfast Show*, *BBC Breakfast* Radio 2 a *Today* Radio 4 yn fyw o Birmingham.

Mae'r bartneriaeth rhwng y BBC a ScreenSkills yn parhau i dargedu gweithgarwch hyfforddi a buddsoddiadau er mwyn helpu i gefnogi iechyd a thwf sgiliau a gwybodaeth yn y diwydiannau creadigol ar draws y DU, er mwyn sicrhau bod ein hallbwn a'n gwasanaethau yn parhau o'r radd flaenaf. Mae'r BBC yn cyfrannu at Gronfa Unscripted sy'n cyflwyno hyfforddiant sy'n canolbwyntio ar brinder sgiliau yn y Gwledydd a'r Rhanbarthau. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r BBC hefyd wedi parhau i gydweithio'n agos â phartneriaid asiantaethau sgrin yng Nghymru, Gogledd Iwerddon, yr Alban a Gogledd-ddwyrain Lloegr ar amrywiaeth o ymyriadau strategol i gefnogi sectorau creadigol lleol. Un enghraifft oedd cynllun datblygu Hot House Gogledd Iwerddon, lle cydfuddsoddodd y BBC a Northern Ireland Screen mewn cynllun pum mis i atgyfnerthu gallu cynhyrchu'r rhwydwaith i gwmnïau cynhyrchu annibynnol lleol. Dewiswyd pum cwmni i gael y buddsoddiad, y ddealltwriaeth greadigol, yr adnoddau a'r cymorth i'w galluogi i gystadlu am gomisiwn neu gyd-gomisiwn am gyfres rhwydwaith ffeithiol uchelgeisiol. Nod y cynllun yw atgyfnerthu creadigrwydd, arloesedd a thwf pellach i'r sector yng Ngogledd Iwerddon yn ogystal â chyflwyno straeon lleol uchelgeisiol i gynulleidfaedd ar draws y DU.

Ym mis Mawrth, agorodd Archif Ddarlledu Cymru ei drysau yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth. Gyda chefnogaeth gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol a Llywodraeth Cymru, ac mewn partneriaeth â'r BBC a'r prif ddarlledwyr eraill yng Nghymru, mae'r Llyfrgell wedi casglu archifau o BBC Cymru, ITV Cymru ac S4C, gan roi mynediad i'r cyhoedd i fwy na chanrif o gynnwys teledu a radio am y tro cyntaf erioed.

Partneriaethau digidol ac ar-lein

Y flwyddyn hon, adnewyddodd y BBC y cytundeb â saith prifysgol bartner ar gyfer y Bartneriaeth Ymchwil Gwyddor Data, sy'n anelu at sicrhau bod y BBC ar flaen y gad ym maes dysgu drwy beiriant a gwyddor data ar gyfer diwydiant y cyfryngau. Mae'r fenter gydweithredol yn dod â gwyddonwyr data ac ymchwilwyr dysgu drwy beiriant blaenllaw'r DU o fewn y BBC a Phrifysgolion Bryste, Manceinion, Caeredin a Surrey, Prifysgol Queen Mary yn Llundain, Prifysgol Ulster a Choleg Prifysgol Llundain ynghyd, gan ddatgloi potensial data'r BBC a helpu i greu BBC mwy personol a all hysbysu, addysgu a diddanu mewn ffyrdd newydd.

Mae BBC Education wedi meithrin partneriaeth lwyddiannus â'r tîm sy'n gyfrifol am Ddiwrnod y Llyfr ers sawl blwyddyn, gan gydweithio i gynhyrchu rhifynnau o'n cyfres o wersi byw â'r nod cyffredin o annog cariad at ddarllen. Ymunodd bron i 410,000 o blant ysgol gynradd â'r wers fyw a ddarlledwyd ar gyfer Diwrnod y Llyfr 2023, un o gynulleidfaedd mwyaf y gyfres.

Partneriaethau creadigol o bwys

Yn ystod mis Ebrill 2022, aeth BBC Arts a'r sectorau amgueddfeydd, llyfrgelloedd, orielau ac archifau ati i weithio ar Wyl Art That Made Us, i gyd-fynd â chyfres wyth rhan nodedig ar BBC Two yn ymchwilio i'r ffordd y mae celf wedi llunio hanes Ynsoedd Prydain. Roedd partneriaid yn cynnwys Art Fund, Art UK, Cymdeithas yr Amgueddfeydd Annibynnol, Libraries Connected, Culture 24, Cymdeithas yr Amgueddfeydd, Cyngor Cenedlaethol Cyfarwyddwyr Amgueddfeydd a Chyngor Gwybodaeth Llyfrgelloedd yr Alban. Cymerodd mwy na 200 o sefydliadau ran a chynhaliwyd 170 o ddigwyddiadau yn ystod mis Ebrill. Cyflwynodd partneriaeth y BBC ag UNBOXED: Creativity in the UK ŵyl o greadigrwydd wedi'i hariannu'n gyhoeddus i gynulleidfaedd ar draws y DU a'r byd.



Astudiaeth achos: Rhaglen Addysg East Bank

Yny cyfnod cyn agor safle newydd BBC Music Studios yn ardal East Bank ar Barc Olympaidd y Frenhines Elizabeth, Stratford, cynhaliodd y BBC raglen ymgysylltu, o dan arweiniad Cerddorfa Symffoni a Chorws y BBC a'r BBC Singers. Ei nod yw ysbrydoli cynulleidfaedd ifanc drwy bartneriaethau ag ysgolion a chymunedau, gweithdai, sesiynau dysgu creadigol a pherfformiadau yn Waltham Forest, Tower Hamlets, Hackney a Newham. Drwy feithrin cydberthnasau â 47 o ysgolion ledled y bwrdeistrefi, gwnaethom gyrraedd 4,300 o blant drwy weithdai a chyngherddau cerddorol am ddim.

Astudiaeth achos: REASON



Mae technoleg symudol yn bwnc ymchwil allweddol i'r BBC gan ei bod yn gynyddol bwysig o ran gwneud a dosbarthu cynnwys y BBC. Y flwyddyn hon, lansiwyd REASON (Realising Enabling Architectures and Solutions for Open Networks) gennym, sef partneriaeth wedi'i hariannu gan DCMS â'r partneriaid canlynol: Prifysgol Bryste, Coleg King's yn Llundain, Prifysgol Queen's yn Belfast, Prifysgol Southampton, Prifysgol Strathclyde, Parallel Wireless, Thales, BT, BBC, PureLifi, Weaver Labs, Digital Catapult, Samsung, Ericsson, Nokia a CSC. Bydd parhau i ddatblygu rhwydweithiau agored yn helpu busnesau bach a chanolig yn y DU i ymuno â chadwyn gyflenwi 5G er



mwyn iddynt allu cyfrannu'n haws a y sector cynyddol hwn. Bydd y prosiect hefyd yn gwella cynaliadwyedd rhwydweithiau 5G drwy leihau'r defnydd o ynni ac allyriadau carbon cysylltiedig, yn unol â strategaeth y BBC o gyflawni sero net erbyn 2030. Mae canfyddiadau'r prosiect hwn yn cynrychioli camau cynnar gwaith ymchwil 6G, ond byddant yn nodi sut y gellir datblygu canlyniadau addawol y gwaith hwn ymhellach i symud o'r cam ymchwil,

drwy'r broses o ddatblygu safonau, hyd at ddefnydd llwyddiannus a darparu gwasanaethau 6G ar sail fasnachol ac i ddefnyddwyr. Drwy wneud hynny, bydd y prosiect hwn yn gwella sefyllfa'r DU fel cyflenwr systemau 6G byd-eang ac yn datblygu ecosystem ac arbenigedd y DU i fasnacheiddio'r gallu hwn, gan gynnwys gwneud mwy o waith i ddatblygu Eiddo Deallusol – y patentau sy'n ysgogi technolegau newydd.

Darlledwyd y digwyddiad agoriadol fel rhan o *The One Show* a chafodd uchafbwyntiau'r ŵyl eu rhannu â chynulleidfaoedd rhyngwladol ar *Click* BBC World. Roedd comisiynau arbennig yn cynnwys *The People's Piazza: A History of Covent Garden* (BBC Two) yn ogystal â phennod arbennig o *Countryfile* ar BBC One, wedi'u cefnogi gan Wledydd y BBC.

Y flwyddyn ddiwethaf, gweithiodd y tîm Cynnwys a Phartneriaethau Archif â thros 200 o amgueddfeydd, sefydliadau treftadaeth a sefydliadau addysgol ar draws y DU, gan ddarparu dros 1,000 o ddarnau o gynnwys archif i'w defnyddio fel rhan o arddangosfeydd a digwyddiadau allanol. Maent yn amrywio o bartneriaethau mawr gan gynnwys Llyfrgell Brydeinig, Sefydliad Ffilm Prydain a'r Asiantaeth Recordiadau Addysgol i arddangosfeydd proffil uchel llai o faint.

Fel rhan o un o bartneriaethau unigryw o bwys y BBC, mae'n ariannu, yn gweithredu ac yn cyflwyno'r sianel deledu Gaelleg, BBC ALBA, ar y cyd ag MG ALBA. Mae cynnwys BBC ALBA wedi cael cydnabyddiaeth gan y diwydiant yn ystod y flwyddyn ddiwethaf gan ennill gwobrau ar gyfer cynnwys i blant, cerddoriaeth a chynnwys ffeithiol. Un prosiect nodedig a gyflwynwyd gan y bartneriaeth yw SpeakGaelic, sef cyfres gynhwysfawr o adnoddau dysgu iaith a ygnigir ar bob cyfrwng gan gynnwys Teledu, iPlayer, Radio, Sounds, gwefan benodedig yn ogystal â dosbarthiadau wyneb yn wyneb a rhithwir â phartneriaid dysgu. Partneriaeth amlasiantaeth yw hon a fydd yn creu adnoddau dysgu ar gyfer cenhedlaeth newydd o siaradwyr Gaelleg. Yn y flwyddyn ddiwethaf, dechreuodd y BBC ac MG

ALBA gynnal adolygiad o'r bartneriaeth gan anelu at sicrhau bod BBC ALBA yn addas ar gyfer amgylchedd cyfryngau'r dyfodol.

Cefnogi didueddrwydd

Rydym yn parhau i gyflawni yn erbyn ein hymrwymiad i gefnogi didueddrwydd, drwy bartneriaethau'r BBC â'r Cyngor Hyfforddiant Newyddiaduraeth Ddarlledu a'r Cyngor Cenedlaethol ar gyfer Hyfforddi Newyddiaturwyr er mwyn helpu i ddatblygu'r genhedlaeth nesaf o newyddiaturwyr. Mae gan y ddau sefydliad fentrau cynhwysiant, sef y Cynllun Cymorth Lleoli a'r Gronfa Amrywiaeth Newyddiaduraeth, wedi'u cynllunio'n benodol i helpu myfyrwyr o gefndiroedd amrywiol a thrwy hynny, wella amrywiaeth darpar recriwtiaid newydd ym mhob rhan o'r diwydiant a all sicrhau y caiff straeon sy'n berthnasol i gymunedau o bob cwr o'r DU eu hadrodd. Mae'r Partneriaethau Newyddion Lleol wedi bod yn gweithredu ers pum mlynedd erbyn hyn ac mae bellach yn cefnogi newyddiaduraeth bron i 200 o bartneriaid cyfryngau rhanbarthol sy'n gyfrifol ar y cyd am fwy na 1,100 o frandiau newyddion print, ar-lein a darlledu unigol ym mhedair gwlad y DU. Yn ystod y 12 mis diwethaf, cyflwynodd y Partneriaethau Newyddion Lleol fwy na 60,000 o straeon budd y cyhoedd drwy'r Gwasanaeth Adrodd ar Ddemocratiaeth Leol, gan olygu bod y gwasanaeth wedi cyhoeddi mwy na 325,000 o straeon ers ei lansio yn 2018. Prosiect amlbartner arall sy'n weithredol o hyd yw'r Fenter Newyddion yr Ymddiriedir Ynddo a sefydlwyd gan Gyfarwyddwr Cyffredinol y BBC yn 2019. Mae wedi tyfu i gynnwys 23 o bartneriaid byd-eang o fydd y cyfryngau,

llwyfannau technoleg ac ymchwil gan gynnwys Meta, Microsoft, Twitter, Google, Reuters, AFP, AP, Hindu, ABC (Australia) a CBC Radio-Canada. Ei nod yw cydweithio i drechu'r mathau mwyaf niweidiol o dwyllwbyodaeth a chydweithredu i sicrhau'r arferion gorau. Ceir cynhadledd flynyddol, a gynhaliwyd ar y cyd yn Delhi a Llundain y flwyddyn hon, lle caiff gwybodaeth a datblygiadau arloesol eu rhannu â chynulleidfa ledled y byd.

Partneriaethau a mentrau cydweithredol ar draws y BBC yn 2022/23

Maes y BBC	Nifer y Partneriaethau
Academy	4
Archif	28
Y Celfyddydau	16
Plant ac Addysg	66
Cynnwys (Teledu)	27
Amrywiaeth Greadigol	13
Lloegr	128
Hanes	14
Media Action	10
Newyddion	17
Ymchwil a Datblygu	21
Chwaraeon	3
Gogledd Iwerddon	3
Radio a Cherddoriaeth	125
Yr Alban	9
Cymru	8
Datblygu Busnes World Service	10
Cyfanswm	502

GWEITHREDIADAU MASNACHOL



Mae is-gwmniau masnachol y BBC yn cefnogi cenhadaeth y BBC ac yn cynhyrchu incwm ar gyfer Grŵp y BBC. Mae'r cwmniau hyn yn sicrhau'r gwerth mwyaf o ran eiddo deallusol y BBC, gan ddarparu incwm i ariannu cynnwys nodedig o ansawdd uchel i dalwyr ffi'r drwydded, a chefnogi diwydiant teledu'r DU ar lwyfan rhyngwladol hefyd.

t.76

BBC Studios: Adolygiad
y Prif Swyddog
Gweithredol

t.78

BBC Studios

t.83

BBC Studioworks

Gweithrediadau masnachol

Mae gan y BBC ddau is-gwmni masnachol o dan berchenogaeth lwyr sy'n ategu cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus y BBC:



Mae BBC Studios yn gweithredu dau fath o fusnes: Content Studio a Sianelau a Ffrydio. Mae'n creu, yn buddsoddi, yn datblygu, yn cynhyrchu ac yn dosbarthu cynnwys sydd wrth wraidd amserlen y BBC, yn ogystal ag ar lawer o lwyfannau ac o amgylch y byd, gan gynnig gwell gwerth am arian i dalwyr ffi'r drwydded drwy helpu i ariannu rhaglenni a difidendau arian parod.

 **t.76** Am fwy ar weithgareddau BBC Studios

**Y meini prawf masnachol**

Mae is-gwmnïau masnachol y BBC yn darparu cynnwys creadigol o ansawdd i gynulleidfaoedd ac maent yn cynyddu gwerth eiddo deallusol y BBC, yn ogystal â darparu cymorth hanfodol i'r diwydiant creadigol ehangach, yn y DU a thu hwnt. Maent yn gwneud hyn wrth hefyd hyrwyddo a diogelu brand ac enw da'r BBC ledled y byd, yn unol â'r meini prawf masnachol fel y'u nodir yn y Siarter a'r Cytundeb:


1. rhaid i'r gweithgareddau weddu i'r Genhadaeth a'r Dibenion Cyhoeddus;
2. rhaid i'r gweithgareddau fod yn fasnachol effeithlon;
3. ni ddylai'r gweithgareddau beryglu enw da'r BBC na gwerth brand y BBC; ac
4. ni ddylai'r gweithgareddau, o ganlyniad i berthynas y gweithgaredd â Gwasanaethau Cyhoeddus y DU, gweithgareddau masnachu na gweithgareddau nad ydynt yn rhai gwasanaeth, wyrddroi'r farchnad na chreu mantais gystadleuol annheg.

Bwrdd Masnachol y BBC sy'n goruchwyllo'r broses o gyflawni uchelgeisiau masnachol y Gorfforaeth. Mae'n adrodd i Fwrdd y BBC ar y broses o gyflawni amcanion BBC Studios, yn unol â strategaeth fasnachol gyffredinol y BBC ac ar BBC Studioworks.

Caiff y Bwrdd Masnachol ei gadeirio gan Damon Buffini, un o aelodau anweithredol Bwrdd y BBC, ac mae'n cynnwys mwyafrif o chwe aelod anweithredol ynghyd â thri aelod gweithredol.



Mae BBC Studioworks yn darparu cyfleusterau stiwdio deledu, cyfarpar, criw a gwasanaethau ôl-gynhyrchu o leoliadau yn y DU. Mae'n cefnogi darlledu cyhoeddus yn y DU drwy ddifidendau arian parod blynyddol.

 **t.83** Darllenwch fwy am yr hyn mae Studioworks yn ei ddarparu ar gyfer y BBC



BBC STUDIOS: ADOLYGIAD Y PRIF SWYDDOG GWEITHREDOL



Ymysg uchafbwyntiau Content Studio roedd trydedd gyfres hirddisgwyliedig *Happy Valley* ar gyfer y BBC, cyfres nodedig arloesol am ddeinosoriaid *Prehistoric Planet* ar gyfer AppleTV+ a'r tro cyntaf i *Dancing with the Stars* gael ei ddarlledu ar Disney+.

Bu'n flwyddyn lwyddiannus arall yn greadigol ac yn fasnachol i BBC Studios. Gwnaethom gyrraedd carreg filltir sylweddol o ran gwerthiannau, gan sicrhau mwy na £2 biliwn am y tro cyntaf, gyda'r lefel uchaf erioed o EBITDA (enillion cyn llog, trethi, dibrisiant ac amorteiddio) hefyd.

Y gwerthiannau ar gyfer y flwyddyn gyfan oedd £2,090 miliwn (2021/22: £1,630 miliwn), 28% yn uwch na'r flwyddyn flaenorol. Cafodd hyn ei ysgogi gan lechen iach o'n Content Studio, a greodd fomentwm ar gyfer y busnes yn gyffredinol, a rhoi hwb i werthiannau catalog premiwm BBC Studios. Cyfrannodd cytundebau partneriaeth hirdymor byd-eang, y brandiau sy'n ffynnu *Bluey* a *Strictly Come Dancing*, a chyfran fwy yn y farchnad i UKTV hefyd at y flwyddyn orau erioed.

Ymysg uchafbwyntiau Content Studio roedd trydedd gyfres hirddisgwyliedig *Happy Valley* o'n label cynhyrchu Lookout Point, a ddenodd gynulleidfa gyfunol o 13 miliwn i'r BBC, y gyfres nodedig arloesol am ddeinosoriaid *Prehistoric Planet* ar gyfer AppleTV+ (ceir mwy o fanylion yn yr astudiaeth achos ar dudalen 80) a bywyd newydd ar Disney+ i fersiwn boblogaidd yr UD o *Strictly Come Dancing* sef *Dancing with the Stars*. Gwneir 36% o gynyrchiadau BBC Studios bellach ar gyfer trydydd partion a ni yw allforiwr cynnwys teledu mwyaf y DU o hyd.

Helpodd y twf yn ein Content Studio ni i gyflawni'r EBITDA uchaf erioed, sef £240 miliwn (2022/23: £226 miliwn), 6% yn uwch na'r flwyddyn flaenorol, er gwaethaf y pwysau o ran chwyddiant ac effaith y sector hysbysebu anwadal ynghyd â gwrthod refereniw o danysgrifiad teledu.

Gwnaethom dargedu tri maes allweddol i ddatblygu ein heffeithiau diwylliannol a'n heffeithiau ehangach ymhellach: rhoi hwb i berfformiad ein pobl; gwella amrywiaeth a chynhwysiant; ac arloesi mewn cynaliadwyedd.

Mae perfformiad a llesiant ein pobl yn ganolog i lwyddiant a thwf BBC Studios yn y dyfodol. Drwy broses feincnodi eang a thrwy ymgynghoriad llawn ffocws â'n huwch-arweinwyr, mae gennym ymrwymiad clir i rymuso staff i wneud eu gwaith gorau. Mae ein perfformiad ariannol yn ystod y flwyddyn yn dangos bod hyn yn dwyn ffrwyth, gydag 85% o'r staff yn dweud eu bod yn falch o weithio i ni yn arolwg ymgysylltu diweddar y BBC.

Mae BBC Studios yn cyd-fynd â thargedau amrywiaeth Grŵp y BBC, gyda'n menter Gwerthfawrogi Gwahaniaeth yn arwain wyth rhwydwaith staff i gefnogi pob nodwedd warchoddedig gan gynnwys rhywedd ac ethnigrwydd. Edrychodd Chris Packham *Inside Our Autistic Minds* ar gyfer BBC Two, a gwnaeth ein Huned Rhaglenni Dogfen *Freedom: 50 years of Pride* ar gyfer Channel 4 mewn cydweithrediad â Stephen Daldry, a gafodd gryn ganmoliaeth. Mae bron i bedwar o bob pump (78%) aelod o staff BBC Studios yn y DU yn dweud y gallant fod yn nhw eu hunain yn y gwaith.

Rydym yn parhau i ddatgarboneiddio yn unol â thargedau gwyddonol. Roedd gan 98% o'n cynrychiadau yn y DU gynlluniau gweithredu carbon albert BAFTA, gan arloesi amrywiaeth o ddatrysiadau arloesol o leoliadau a bwerir gan ynni solar ar gyfer yr Uned Hanes Naturiol, generaduron hybrid ar gyfer darllediadau'r Jiwbilí Blatinwm, defnyddio tanwydd olew llysiâu wedi'i hydro-drin sy'n ddewis amgen i ddiesel ar *Strictly Come Dancing* a chynnal cynlluniau ailddefnyddio yn *EastEnders* ar y cyd â'r gymuned leol.

Yn dilyn Addewid Cynnwys Hinsawdd ym mhob rhan o'r diwydiant yn 2021, buom yn gweithio'n galed i wella ymwybyddiaeth o ddewisiadau gwyrddach ar y sgrin a thu hwnt. Ymysg ein gweithgarwch roedd ein cydweithrediad hynod boblogaidd rhwng Minecraft Education a *Frozen Planet II*, a ddangoswyd yn COP27 ym mis Tachwedd.

Mae gennym gynlluniau twf uchelgeisiol, gyda'r nod o ddyblu'r busnes rhwng 2021/22 a 2028.

Er mwyn gwneud hyn, gwneir buddsoddiad uwch mewn cynnwys a gwasanaethau digidol newydd ac i gynyddu twf masnachol i'r eithaf er mwyn cefnogi Grŵp y BBC yn well yn gyffredinol.

Tom Fussell

Tom Fussell

Prif Swyddog Gweithredol, BBC Studios
27 Mehefin 2023



Astudiaeth achos: Ffocws ar Blant a Theulu



Ym mis Ebrill 2022, daeth tîm Children's In-House Production y BBC yn rhan o BBC Studios a sefydlwyd yr is-adran newydd Plant a Theulu.

Mae Plant a Theulu, cartref newydd *Blue Peter*, *Bluey*, *Phoenix Rise*, *Hey Duggee*, *JoJo & Gran Gran*, *The Beaker Girls*, *Sarah & Duck* a *Something Special*, yn cyfuno canrif o adrodd straeon clodwiw â buddsoddiad mewn cynnwys, arbenigedd masnachol a marchnata BBC Studios. Mae gan yr is-adran newydd y gallu cynhwysol i fynd â phrosiectau o'r sgrifft i'r sgrin a thu hwnt.

Mae'r tîm eisoes yn gweithio'n galed i roi hwb i broffil brandiau sy'n bodoli eisoes ac ysgogi creadigrwydd teitlau poblogaidd newydd i blant ar draws drama, adloniant, comedi a ffeithiol. Ymunodd unigolion allanol newydd â'r tîm y flwyddyn ddiwethaf i roi hwb i gyfleoedd llechen datblygu a masnachol y tîm.

Lansiwyd *Supertato* ym mis Hydref ar CBeebies, gyda'i archarwr taten a'i elyn Evil Pea yn cael croeso mawr ar unwaith. Roedd y rhaglen 408% uwchlaw cyfartaledd y slot pan gafodd ei lansio a hawliodd y safle uchaf yn ei slot yn gyfforddus ar gyfer plant pedair i chwe oed ar draws pob rhaglen deledu. Creodd y ddrama tyfu i fyny *Phoenix Rise* ar gyfer BBC Three ac iPlayer gyffro mawr.

Mae gan y llechen datblygu gyflenwad cryf o brosiectau, gyda chyfres ffuglen wyddonol nad yw wedi'i henwi eto a ysgrifennwyd gan awdur Artemis Fowl, Eoin Colfer, ac animeiddiad yn seiliedig ar y llyfrau Little Bad Man am gyw rapiwr drygionus.

Gweithrediadau masnachol BBC Studios

Adolygiad ariannol

Perfformiad yn ôl math o fusnes

	Gwerthiannau £m		EBITDA* £m	
	22/23	21/22	22/23	21/22
Content Studio	1,612	1,150	139	93
Sianelau a Ffrydio	535	536	102	135
Dileadau	(57)	(56)	(1)	(2)
Cyfanswm	2,090	1,630	240	226

* EBITDA yw'r dull anstatudol o fesur perfformiad ariannol sy'n helpu i ddeall perfformiad ar sail gymaradwy o flwyddyn i flwyddyn. Mae'r Grŵp wrthi'n adolygu dull mesur EBITDA er mwyn sicrhau cysondeb ag arferion gorau'r diwydiant.

Gwelwyd y lefelau uchaf erioed ar gyfer gwerthiannau ac EBITDA am yr ail flwyddyn yn olynol, gyda Content Studio yn rhoi hwb i dwf creadigol BBC Studios, wrth i werthiannau cynhyrchu godi 59%.

Roedd EBITDA i fyny 6% i £240 miliwn (2021/22: £226 miliwn) wedi'i ysgogi gan yr elw uchaf erioed yn Content Studio, i fyny £46 miliwn er gwaethaf y pwysau uwch o ran chwyddiant. Mae iechyd creadigol ac ariannol sylfaenol y busnes wedi galluogi BBC Studios i barhau i fuddsoddi mewn twf, ac i amsugno effeithiau sefyllfa facroeconomaid ehangach ar y cyfan. Mae hyn yn cynnwys yr heriau a wynebir gan y farchnad hysbysebu teledu linellol sydd, ynghyd â gwrthod referniw o dalu tanysgrifiad teledu, yn effeithio ar elw o ran Sianelau a Ffrydio, gydag EBITDA i lawr £33 miliwn i £102 miliwn.

Ar ddiwedd y flwyddyn, gwnaeth BBC Studios amhariad o £40m yn erbyn ei asedau anghyfredol, yn bennaf o ran Sianelau a Ffrydio, gan adlewyrchu rhagolwg wedi'i ddiweddarau o'r farchnad a gyfrannodd at y gostyngiad yn elw'r Grŵp cyn trethiant o £100 miliwn yn 2022 i £66 miliwn yn 2023. Tâl cyfrifyddu nad yw'n arian parod yw hwn ac nid yw'n effeithio ar adenillion BBC Studios i'r BBC. Nid yw'r tâl yn adlewyrchu perfformiad gweithredol, a gaiff ei wneud yn y ffordd orau ym marn y rheolwyr drwy EBITDA, y dull mesur perfformiad arweiniol ar gyfer y busnes.

Gwelwyd y llif arian parod rhydd uchaf erioed ar gyfer BBC Studios sef £204 miliwn (2021/22: £198 miliwn), sy'n adlewyrchu sgwrs EBITDA gref o 85% ac sy'n ariannu difidend i BBC Commercial Ltd. Roedd y buddsoddiad mewn cynnwys yn £177 miliwn (2021/22: 191 miliwn), gan helpu'r BBC i gael yr enillion uchaf erioed sef £362 miliwn (2021/22: £353 miliwn).

£2 biliwn

o werthiannau; yr elw uchaf erioed

85%

canran y staff sy'n falch o weithio yn BBC Studios

Content Studio

Mae Content Studio byd-eang BBC Studios yn cwmpasu cynnwys a wneir ar draws y genres Cynnwys wedi'i Sgriptio, Ffeithiol, Fformatau Byd-eang a Phlant a Theulu o fewn Unedau Cynhyrchu BBC Studios, Labeli, Cwmnïau Annibynnol y Buddsoddwyd Ynddynt a chanolfannau cynhyrchu ledled y byd ar gyfer amrywiaeth eang o gwsmeriaid byd-eang, ynghyd â chyllido, dosbarthu a thrwyddedu cynnwys a fformatau ar sail fyd-eang.

Momentwm creadigol

Tyfodd y galw am gynnwys BBC Studios yn ystod y flwyddyn, a chafwyd cynnydd sylweddol yn y rhaglenni a wnaed i gwsmeriaid y tu allan i'r BBC, gan gynnwys cyfresi newydd pwysig i Apple TV+, Amazon Prime Video, Disney+ a Netflix.

Enillodd BBC Studios 111 o wobrau o 440 o enwebiadau, gan gynnwys cydnabyddiaeth gan RTS a BAFTA.

Ymysg y teitlau ar gyfer y BBC roedd *Sherwood* gan James Graham gyda House Productions, ac *Am I Being Unreasonable?*, comedi gyffro dröedig a ysgrifennwyd gan ac a oedd yn cynnwys Daisy May Cooper a Selin Hizli o Boffola Pictures Lookout Point. Enillodd y ddau wobrau RTS a chawsant eu hailgomisiynu ar unwaith.

Cynhaliodd y 25ain a'r 26ain cyfres o *Silent Witness* gan BBC Studios Drama Productions gyfran gref o'r gynulleidfa yn y DU, gyda mwy na 7 miliwn yn gwyllo pob cyfres ar gyfartaledd. *Here We Go* gan BBC Studios Comedy Productions, gydag Alison Steadman, a *The Witchfinder* gan Baby Cow gyda Daisy May Cooper oedd y ddwy raglen gomedi newydd fwyaf poblogaidd yn y DU. Darlledwyd *Black Ops*, drama gomedi am swyddogion heddlu cudd ar gyfer BBC One gan BBC Studios Drama Productions, yn fuan ar ôl diwedd y flwyddyn.

Frozen Planet II gan Uned Hanes Naturiol BBC Studios oedd un o deitlau ffeithiol mwyaf poblogaidd 2022 yn y DU, gan gyrraedd cyfanswm o 20.5 miliwn o wylwyr unigryw ar draws ei rediad cyntaf ar BBC One. Bydd BBC Studios Factual Entertainment Productions yn parhau i wneud *Antiques Roadshow* yn dilyn tendr o dan ofynion elfen o gystadleuaeth y BBC ar gyfer cyfresi sy'n dychwelyd.

Trodd gwylwyr ledled y byd at y BBC ar gyfer dau foment cenedlaethol arwyddocaol, a gyflwynwyd i gynulleidfa oedd gan dîm BBC Studios Events Productions: Jiwbilî Blatinwm EM Brenhines Elizabeth II ym mis Mehefin, a digwyddiadau seremonïol ym mis Medi o bob cwr o Wledydd y DU, gan gynnwys yr Angladd Gwladol.

Cyrhaeddodd y darllediadau dros benwythnos y Jiwbilî fwy na 30 miliwn o bobl, gyda'r Platinum Party at the Palace, goleuo fflaglau, Cyflwyno'r Faner a phasiant. Ym mis Medi, gwylwyd y darllediadau o'r Angladd Gwladol gan gynulleidfa o 19.9 miliwn ar gyfartaledd.

Yn ystod y flwyddyn, bu Uned Rhaglenni Dogfen BBC Studios yn gweithio gyda phersonoliaethau sy'n diffinio eu genre gan gynnwys Chuck D ar *Fight the Power: How Hip Hop Changed the World*, gan gynnwys cyfweiliadau gydag Ice-T, Fat Joe, Run DMC ac MC Lyte ar gyfer y BBC a PBS. Ymysg y cydweithrediadau eraill roedd Jon Favreau ar gyfer *Prehistoric Planet* gan yr Uned Hanes Naturiol a Daisy May Cooper ar gyfer lluo o gomediâu gan gynnwys y teitlau a nodir uchod a *Rain Dogs* gan Sid Gentle Films, un o labeli cynhyrchu BBC Studios ar gyfer y BBC a HBO.

I ffwrdd o'r BBC, creodd BBC Studios Production gyfres gomedi wreiddiol *Extraordinary* gan Sid Gentle Films ar gyfer Disney+, ailgomisiynu o'r fersiwn lwyddiannus o *Ghosts* yn yr UD ar gyfer CBS gan BBC Studios LA Productions, ac *Anthrax Attacks* gan yr Uned Gwyddoniaeth ar gyfer Netflix.

Ehangodd neu ychwanegodd BBC Studios at ei bartneriaethau gyda'i Labeli Cynhyrchu a Chwmnïau Annibynnol y Buddsoddwyd Ynddynt. Ynghyd â chaffael Sid Gentle Films, Firebird Pictures; a Voltage TV yn llawn, cytunodd ar ddwy gyfran leiafrifol newydd gyda'r cwmni annibynnol newydd Mothership Productions a cartref *Small Axe*, Turbine Studios sydd wedi ennill sawl gwobr (ceir rhagor o fanylion yn yr astudiaeth achos ar dudalen 79). Gwerthodd y busnes ddaliadau ecwiti yn Curve Media ac Amazing Productions yn ystod y flwyddyn.

Mae BBC Studios hefyd mewn partneriaeth â llechen eang o gwmnïau cynhyrchu annibynnol trydydd parti arweiniol a newydd, gan ddsbarthu teitlau allweddol yn ystod y flwyddyn. Roedd y rhain yn cynnwys *The Following Events Are Based On a Pack Of Lies*, gan SISTER a *Blue Lights* gan Two Cities a Gallagher Films a ddarlledwyd ar y BBC ar ddiwedd y flwyddyn ac sydd eisoes wedi cael ei chomisiynu ar gyfer ail gyfres. Ehangodd y busnes ei bartneriaethau hirsefydlog â Neal Street ar gyfer y tair cyfres nesaf o *Call the Midwife*, a gyda Red Planet Pictures ar gyfer y tymhorau nesaf o *Death in Paradise* a *Beyond Paradise*. Gyda'r partneriaid newydd Clapperboard Studios a BlackBox Multimedia, bydd BBC Studios yn dosbarthu'r ddrama gyffro gwyliau uchelgeisiol *The Castaways*, a wnaed ar gyfer Paramount+ UK.

111 o wobrau

a 440 o enwebiadau

8.7%

cyfran uchaf erioed UKTV o effeithiau masnachol

3 miliwn

o danysgrifwyr BirtBox

Cyrraedd cynulleidfaoedd rhyngwladol

Mae BBC Studios yn chwarae rôl bwysig yn adlewyrchu'r DU, ei diwylliant a'i gwerthoedd i'r byd. Drwy ei fuddsoddiad mewn talent greadigol Brydeinig a rhyngwladol wych, ei wasanaethau a chynhyrchu a dosbarthu rhaglenni a gaiff eu mwynhau ledled y byd, mae gan BBC Studios gyrhaeddiad wythnosol byd-eang o 63 miliwn.

Ynghyd â'i gwsmeriaid a'i bartneriaid cynnwys, mae BBC Studios yn cyflwyno masnachfreintiau trawsgenre a rhaglenni poblogaidd i gynulleidfaoedd ledled y byd, gan gynnwys *Bluey*, *Planet Earth*, *Happy Valley*, *Top Gear* a *Doctor Who*.

Ym mis Hydref 2022, llofnododd BBC Studios gyntundeb dosbarthu nodedig trawsnewidiol â Disney ar gyfer *Doctor Who*. Bydd Russell T Davies yn dychwelyd i redeg y rhaglen a byddwn yn gweld y *Doctor* newydd Ncuti Gatwa yn fyd-eang ar Disney+, gyda'r BBC yn cadw ei ddetholrwydd yn y DU.

Mae hoff fformatau heb eu sgriptio BBC Studios yn parhau i ddod o hyd i gynulleidfaoedd newydd. Cyfres 31 o *Dancing with the Stars* yn yr UD oedd y fformat cyntaf i ddarlledu'n fyw ar Disney+, gwerthwyd *Bake Off* i 40fed gwlad, ac ailgomisiynwyd y fersiwn ddiweddaraf o *The Weakest Link*, sydd bellach mewn 47 o wledydd, yn yr UD am drydedd gyfres. Mewn teitlau newydd, gwerthwyd y rhaglen gwis *1% Club* i chwe gwlad eisoes, gan ddangos cyflenwad cryf, a gwnaed cynnydd yn datblygu fformatau gwreiddiol gan gynnwys dau gomisiwn newydd a grëwyd yn Awstralia: *The Match Makers* ar gyfer SBS ac *Art on the Brain* ar gyfer ABC.

Ar gyfer rhaglenni a sgriptiwyd, creodd *Rain Dogs* (Sid Gentle Films); *This is Going to Hurt* (SISTER) a *Mood* gan Nicole Lecky (Bonafide Films) werthiannau cryf. Datblygwyd fformat yr UD o *Ghosts* drwy bartneriaeth BBC Studios gyda Lionsgate, a hwn oedd y comedi darlledu newydd mwyaf poblogaidd ond un yn yr UD y flwyddyn ddiwethaf, ac mae wedi'i gomisiynu ar gyfer trydedd gyfres.

Astudiaeth achos: Buddsoddi mewn talent greadigol Brydeinig wych



Mae BBC Studios yn enwog am ei arbenigedd creadigol mewnol, ac mae hefyd yn gweithio'n agos gyda thalent o bob rhan o'r diwydiannau creadigol yn y DU ac yn rhyngwladol, gan gefnogi syniadau a mentrau newydd, a buddsoddi yn y cwmnïau cynhyrchu mwyaf cyffrous.

Drwy'r cydberthnasau hyn, mae BBC Studios mewn partneriaeth â rhai o awduron gorau Prydain heddiw gan gynnwys James Graham, Sally Wainwright, Steven Moffat, Daisy May Cooper, Emma Moran, Pete Jackson a Theresa Ikoko.

Mae'n cymryd dull uchelgeisiol a phenodol ar gyfer pob buddsoddiad, gan weithio'n agos gyda phob Label Cynhyrchu a Chwmni Annibynnol y Buddsoddiwyd Ynddo i gefnogi ei dwf creadigol a masnachol, gan ddychwelyd tua £179 miliwn i'r diwydiant y flwyddyn ddiwethaf.

Mae ganddo chwe label cynhyrchu ar gyfer rhaglenni arbenigol a sgriptiwyd y mae ganddo berchenogaeth fwyafrifol ohonynt sef Baby Cow, Clerkenwell Films, Lookout Point, Firebird Pictures, House Productions a Sid Gentle Films, ac un ar gyfer rhaglenni heb eu sgriptio: Voltage TV. Mae ganddo gyfran leiafrifol o Turbine Studios, Expectation, Moonage Pictures, Various Artists Limited a Mothership TV, a chytundebau datblygu â Brock Media a Bonafide Films.

Gyda theitlau sydd wedi ennill sawl gwobr fel *Killing Eve*, *Happy Valley* a chyfres *Small Axe* eisoes wedi'u cynhyrchu, mae'r cyflenwad yn y dyfodol ar gyfer y busnesau hyn yr un mor gyffrous. Yn ystod y flwyddyn, creodd Sid Gentle *Rain Dogs*, gyda Daisy May Cooper ar gyfer y BBC a HBO, a'r comedi nodedig *Extraordinary* ar gyfer Disney+. Gwnaeth House Productions y gyfres glodwiw *The Good Mothers* ar gyfer Disney+ a Hulu, cynhyrchodd Firebird Pictures *Wilderness* gyda Jenna Coleman ar gyfer Amazon Studios, a gwnaeth Boffola Pictures Lookout Point *Am I Being Unreasonable?* ar gyfer y BBC a HBO, a chreodd Lookout Point ei hun *Devil's Peak* ar gyfer y darlledwr Is-Sahara Affricanaidd M-Net a *The Ballad of Renegade Nell* gan Sally Wainwright ar gyfer Disney+, a chaiff y ddau eu darlledu yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Mae Clerkenwell wrthi'n creu *Truelove* ar gyfer Channel 4 ynghyd â'r ddrama *Baby Reindeer* gan Richard Gadd ar gyfer Netflix. Mae Firebird Pictures yn paratoi i gynhyrchu *Wahala* gan awdur Rocks Theresa Ikoko, bydd Baby Cow yn creu ffilm nodwedd *One For The Money* gyda Bankside Films, ac mae gan Voltage gyfres ddogfen breimiwm ar y gweill ar gyfer Amazon Prime Video, *Fake Sheikh*, am ddefnydd y gohebydd Mazher Mahmood o hunaniaethau ffug i dwyllo ffigurau cyhoeddus.



Gweithrediadau masnachol BBC Studios – parhad

Mewn gwerthiannau fformat, mae *The Office* bellach mewn 12 o wledydd, ac mae *Doctor Foster* mewn 13 o wledydd, a'r fersiwn o *Luther*, *Rudra: The Edge of Darkness* ar gyfer Disney Hotstar oedd y gyfres gwe Hindi a wlywyd fwyaf yn 2022.

Cadarnhaodd y gyfres fyd-eang boblogaidd *Bluey* ei statws fel brand eiconig i blant, gan ymddangos fel balw'n enfawr a baentiwyd â llaw yng 96fed Gorymdaith Diolchgarwch Macy's yn Efrog Newydd. Mae *Bluey* sydd wedi ennill gwobrau, a gydgomisiynwyd gan ABC a BBC Studios o Ludo Studios ac a ddsbarthwyd gan BBC Studios, bellach yn darlledu ac yn ffrydio mewn 60 o wledydd, gyda chynhyrchion wedi'u trwyddedu ar gael mewn dros 20 o wledydd a threfnwyd y daith gyntaf yn yr UD ar gyfer *Bluey's Big Play The Stage Show*.

Helpodd llwyddiant *Bluey* i gynyddu'r gwerthiannau ar gyfer cynhyrchion defnyddwyr 10% yn ystod y flwyddyn, ac ehangodd BBC Studios ei ddull gweithredu i ehangu brandiau a phartneriaethau. Mae ei grŵp newydd, Brandiau a Thrwyddedau, yn adeiladu ar arbenigrwydd sefydledig BBC Studios mewn cynhyrchion defnyddwyr. Gyda mynediad i archif unigryw y BBC, bydd y tîm yn gweithio i greu partneriaethau newydd ar gyfer nwyddau, trwyddedau a digwyddiadau byw ynghylch brandiau newydd mewn meysydd fel addysg, metafyd, fideos cymdeithasol a chwarae gemau, a chyflwyno cynnwys sy'n eiddo i BBC Studios i gynulleidfaoedd newydd.

Mae hyn eisoes yn llwyddiannus: cafodd partneriaeth â Minecraft Education ar *Frozen Planet II* ei lawrlwytho mewn dros 116 o wledydd, gan dorri'r record am y nifer mwyaf o lawrlwythiadau o fyd Minecraft addysgol mewn un diwrnod. Cafodd ei gyfieithu i 29 o ieithoedd a lluniwyd cynlluniau gwersi ar gyfer athrawon. Mae'r bydoedd yn helpu i gyfleu gwybodaeth am effaith y newid yn yr hinsawdd ar natur i filiynau o bobl ifanc ledled y byd.

Lansiwyd BBC Earth Experience sydd wedi'i leoli yn Llundain ychydig cyn diwedd y flwyddyn. Cafodd ei leisio gan Syr David Attenborough, ac mae'n cynnwys clipiau o *Seven World, One Planet* gan Uned Hanes Naturiol BBC Studios sy'n dangos pwysigrwydd bioamrywiaeth a'r modd y gall pawb greu newid cadarnhaol ar gyfer y blaned. Roedd ystyriaethau cynaliadwyedd wrth wraidd y broses o adeiladu a gweithredu'r lleoliad, a chaiff ei adolygu'n rheolaidd, gyda'r uchelgais o leihau hyd yn oed mwy o'r ynni a'r dŵr a ddefnyddir a gwella gwaith i brosesu gwastraff yn barhaus.

Cafodd y gwaith cynhyrchu ar gyfres 34 o Top Gear ei oedi yn dilyn damwain yn cynnwys y cyflwynydd Freddie Flintoff ym mis Rhagfyr 2022. Mae BBC Studios yn canolbwyntio'n bennaf ar les y rheini yr effeithir arnynt, yn enwedig Freddie. Gwneir penderfyniad ynghylch amseru rhaglenni yn y dyfodol ar y cyd â BBC Content maes o law.



Drwy garedigrwydd Apple TV+

Astudiaeth achos: Creu Prehistoric Planet



Cyfres hanes naturiol breimiwm epig gyda thro yw *Prehistoric Planet* a wnaed ar gyfer Apple TV+ gan Uned Hanes Naturiol BBC Studios, gyda'r cynhyrchwyr gweithredol Jon Favreau a Mike Gunton, gan ddefnyddio'r effeithiau gwledol ffotorealistic diweddaraf i roi bywyd newydd i ddeinosoriaid sydd wedi diflannu ers cyfnod maith.

Mae wedi'i lleisio gan Syr David Attenborough ac wedi'i gosod i sgôr wreiddiol gan Hans Zimmer. Mwynhaodd gwylwyr Apple TV+ bum pennod yn cwmpasu amrywiaeth o gynefinoedd deinosoriaid o arfordiroedd, anialwch a dŵr croyw, i fydoedd iâ a choedwigoedd.

Roedd y gyfres arloesol yn brosiect a gymerodd sawl blwyddyn, gan gyfuno gwaith creu ffilmiau bywyd gwyllt clodwiw,

ymchwil balaentolegol a thechnoleg o'r radd flaenaf i ail-greu ymddangosiad, synau ac ymddygiadau deinosoriaid o ddiwedd y cyfnod Cretasig yn gywir.

O ddulliau rhianta T-Rex i haid o gywion Anchiornis, mae'r gyfres yn dod â hanes y Ddaear yn fyw.

Mae beirniaid wedi'i galw yn 'jaw-dropping', 'stunning' ac 'a wonderfully creative collision of the real and the imagined', ac mae wedi ennill lluo o wobrau ac enwebiadau am ei chrefft a'i harloesedd.

Cafodd y gyfres ei hailgomisiynu ar unwaith am ail gyfres, a lansiodd ar Apple TV+ yn fuan ar ôl diwedd y flwyddyn.

Sianelau a Ffrydio

Mae Sianelau a Ffrydio yn cynnwys y darlledwr UKTV yn y DU, sianelau rhyngwladol â brand y BBC a weithredir gan BBC Studios – gan gynnwys y cyd-fenter BritBox International ag ITV ccc – BBC.com, BBC AMERICA a gweithgareddau ffrydio eraill.

Wynebodd UKTV farchnad hysbyseb heriol, ond cynyddodd ei gyfran o'r gynulleidfa deledu fasnachol (a elwir yn gyfran o effeithiau masnachol, neu SOCI) unwaith eto i'r lefelau uchaf erioed sef 8.70% yn 2022, i fyny o 8.5% yn 2021. Yn y flwyddyn galendr, cynyddodd nifer yr ymweliadau â gwasanaeth ffrydio am ddim UKTV 27% ac ychwanegodd filiwn o ddefnyddwyr cofrestredig i gyrraedd 6.45 miliwn. Lansiodd sianel W y cyfle i wylto

am ddim, gan arwain at gynydd o 23% yn ei chyfran o'r farchnad yn 2022, ac enillodd *Big Zulu's Big Eats* ar Dave ddwy wobwr BAFTA.

Yn ystod y flwyddyn, cynyddodd BBC Studios ei chyfran o'r farchnad sianel deledu am ddim, a gefnogir gan hysbysebion (FAST), ac mae bellach yn cynnig 12 o sianelau FAST yng Ngoogledd America a deg yn Ewrop, y Dwyrain Canol ac Affrica, sy'n cyfuno i ddarparu mwy na 6,000 o benodau o gynnwys ar lwyfannau blaenllaw gan gynnwys Samsung TV Plus, Roku, Amazon Freeview a Rakuten. Roedd 2022 yn flwyddyn heriol i'r holl lwyfannau cynnwys mawr yn yr UD, ond parhaodd BBC America i gyflawni refereniw ac arian parod cryf – gyda rhaglenni allweddol yn cynnwys *Mood* (BBC Three) a *Frozen Planet II* (BBC One).

Cynyddodd nifer y tanysgrifwyr â BritBox International i dair miliwn ar draws wyth marchnad ryngwladol, gan gynnwys yr Unol Daleithiau, Canada, Awstralia, De Affrica a'r gwledydd Nordig, cynnydd o fwy na 15% yn ystod y flwyddyn. Mae'n buddsoddi mewn cynnwys gwreiddiol, gan gynnwys addasiad newydd mawr o nofel glasurol Agatha Christie, *Murder is Easy*, a gydgomisiynwyd gyda BBC One.

Parhaodd BBC.com a BBC Select i dyfu, gan dynnu sylw at y galw parhaus am adroddiadau gwreiddiol, dulliau adrodd straeon arloesol a darllediadau o'r radd flaenaf o ddigwyddiadau mawr gan gynnwys etholiadau canol tymor yr UD a'r rhyfel yn Wcráin. BBC Podcast Premium oedd un o sianelau tanysgrifio mwyaf poblogaidd Apple yn yr UD yn 2022, a lansiodd yn Awstralia a Seland Newydd tuag at ddiwedd y flwyddyn.

Wrth i'r BBC barhau â'i waith o drawsnewid digidol yn gyntaf gyda'r nod o baratoi'r sefydliad ar gyfer twf yn y dyfodol, mae BBC Studios yn buddsoddi yn ei wasanaethau newyddion digidol a chynnwys ffeithiol, i'w gwneud hyd yn oed yn fwy deniadol ar gyfer cynulleidfaoedd a hysbysebwy, ac i wella'r cyfleoedd ar gyfer newyddiaduraeth o'r radd flaenaf gan y BBC.

Mae hyn yn cynnwys uwchraddio'r arlwy newyddion digidol gyda BBC.com ac ap newydd y BBC yn dod yn ddiweddarach y flwyddyn hon, a phenodiadau newydd mewn marchnadoedd allweddol fel yr UD, gyda Phrif Gyflwynwyr BBC News Sumi Somaskanda a Cairtriona Perry yn ymuno â'r tîm cyflwyno yn Washington DC, Paul Royall yn cael ei benodi fel golygydd gweithredol a thri phenodiad allweddol ym maes strategaeth cynnwys masnachol.

Mae'r ymdrechion hyn eisoes wedi arwain BBC.com at dwf digidau dwbl yng Ngogledd America yn chwe mis olaf y flwyddyn ariannol, a cyrhaeddodd BBC.com y tu allan i'r DU ac lwerddon 123 miliwn o ddefnyddwyr bob mis ar gyfartaledd yn 2022/23. Ystyrir mai BBC News yw un o'r darlledwyr newyddion rhyngwladol yr ymddiriedir ynddo fwyaf ac yn yr UD, mae ar y blaen i bob brand newyddion arall yn yr UD.

Rhagolygon

Mae BBC Studios mewn sefyllfa gadarn ar gyfer y flwyddyn i ddod, gyda mantolen gref, cyflenwad iach a chyffrous ar gyfer ei Content Studio byd-eang a chytundebau cynnwys dros sawl blwyddyn sy'n rhoi sylfaen cadarn i'r busnes ar gyfer rhagfynegi perfformiad, er gwaethaf yr heriau allanol a wynebwyd yn sgil chwyddiant a marchnad hysbysebu anwadal.

Ymysg y teitlau sydd ar ddod mae *The Ballad of Renegade Nell* gan Lookout Point ar gyfer Disney+, *Baby Reindeer* gan Clerkenwell Films ar gyfer Netflix, *Wilderness* gan Firebird Pictures ar gyfer Amazon Prime Video, ynghyd ag ail gyfres ar gyfer y rhaglenni poblogaidd *Time*, gan BBC Studios Drama Productions, a *Sherwood* gan House Productions.

Mae *Ultimate Wedding Planner* gan BBC Studios Factual Entertainment Productions yn fformat newydd ar gyfer y BBC sy'n cynnwys Fred Sirieix, Sara Davies a Raj Somaya, a bydd *Unique Boutique* gan BBC Studios Factual Entertainment Productions ar gyfer Channel 4 yn gweld eitemau ffasiwn newydd yn cael eu creu ar gyfer y rheini nad yw'r diwydiant dillad prif ffrwd yn darparu ar eu cyfer yn draddodiadol.

Bydd yr ail gyfres o *Good Omens* gan BBC Studios Comedy Productions yn lansio ar Amazon Prime Video, a bydd *Planet Earth III* gan Uned Hanes Naturiol BBC Studios yn cael ei chyflwyno i'r BBC yn y DU ac i bartneriaid byd-eang.

Yn y flwyddyn i ddod, fel rhan o strategaeth y BBC o sicrhau gwerth i bawb, bydd BBC Studios yn dechrau ar y flwyddyn gyntaf o gynllun hir i gyflawni newid sylweddol mewn uchelgais masnachol byd-eang drwy ddyblu maint y busnes rhwng 2021/22 a 2028.

Wedi'i adeiladu o amgylch brand y BBC, ei werthoedd a'i eiddo deallusol, ynghyd â phroses llywodraethu masnachol newydd, terfyn benthycu uwch ac ymgais i weithredu'n fwy cynaliadwy, nod BBC Studios yw ysgogi twf a chefnogi ffi'r drwydded yn well drwy fuddsoddi mewn cynnwys, syniadau a thalent greadigol.

I wneud hyn, bydd y busnes yn tyfu ei eiddo deallusol y mae'n berchen arno drwy ehangu brandiau presennol a brandiau newydd a manteisio arnynt, cynnal perfformiad sianelau llinellol wrth dyfu gwasanaethau digidol uniongyrchol i'r defnyddiwr a buddsoddi mewn partneriaethau cwsmeriaid mawr. Mae'n debygol y bydd hyn yn effeithio ar EBITDA BBC Studios, yr adroddir arno, yn y byrdymor.

Mae gweithgarwch i gefnogi hyn eisoes wedi dechrau, gan gynnwys y cytundeb byd-eang gyda Disney+ i gynyddu cyrhaeddiad ac uchelgais *Doctor Who*, ac yn y broses o ddatblygu allbwn newyddion rhyngwladol y BBC.

61 o diriogaethau

yn dangos *Dancing with the Stars*

123 miliwn

o ddefnyddwyr bob mis yn cael eu cyrraedd gan BBC.com yn fyd-eang

32 miliwn

wedi gwyllo'r Jiwilî Blatinwm yn y DU



Fight the Power: How Hip Hop Changed the World

Gweithrediadau masnachol BBC Studios – parhad


BBC Studios: strwythur gweithredol

O fewn ei ddwy linell busnes – Content Studio byd-eang a Sianelau a Ffrydio – mae BBC Studios yn gweithredu pedair is-adran sydd wedi esblygu a chyfuno ers ei sefydlu yn 2018. Y rhain yw BBC Studios Productions, gyda'i

unedau genre, Cwmnïau Annibynnol y Buddsoddwyd Ynddynt, Labeli Cynhyrchu, Fformatau Byd-eang a Phlant a Theulu. Mae Dosbarthu Byd-eang yn cynnwys gwerthiannau cynnwys rhyngwladol, sianelau â brand y BBC a gwasanaethau ffrydio tramor, ac

mae is-adran y DU yn cynnwys UKTV a gweithrediadau gwerthiannau teledu BBC Studios yn y DU ac Iwerddon. Mae Brandiau a Thrwyddedau, is-adran newydd, yn goruchwyllo brandiau eiconig allweddol a swyddogaeth gwybodaeth fyd-eang.

BBC Studios



BBC Studioworks

Trosolwg

Mae BBC Studioworks yn is-gwmni masnachol o dan berchenogaeth lwyr y BBC, sy'n darparu stiwdios teledu a gwasanaethau ôl-gynhyrchu i holl ddarlledwyr a chwmnïau cynhyrchu mawr y DU. Dros y flwyddyn ddiwethaf (2022/23) gwelwyd cyflawniadau eithriadol ar gyfer y busnes, ar yr un pryd â'r gwaith i reoli'r aflonyddwch a achoswyd pan gaewyd dwy stiwdio o fewn portffolio Llundain y busnes ers mis Medi 2022.

Er gwaethaf yr heriau, cyflawnodd BBC Studioworks refeniw o £41 miliwn, cyflawnodd EBITDA o £5 miliwn ac mae wedi cyflawni ei adenillion uchaf erioed i'r BBC sef £6 miliwn, dwbl difidend y flwyddyn flaenorol.

Strategaeth

Gwnaeth BBC Studioworks gynnydd cadarn yn erbyn ei strategaeth ehangu a'i gynlluniau twf ar draws y DU, ynghyd â'i flaenoriaeth graidd o atgyfnerthu ei gyflenwad o dalent.

Lansiodd y busnes stiwdio bwrpasol newydd yn Kelvin Hall yn Glasgow. Mae'r cyfleuster wedi rhoi hwb i gapasiti yr Alban i greu cynrychiadau teledu aml-genre gyda mwy na 40 o benodau o raglenni teledu wedi'u hwyluso ar gyfer cleientiaid, STV a Zeppotron. Fe'i cymeradwywyd gan gyn Brif Weinidog yr Alban, Nicola Sturgeon fel "a welcome addition to Scotland's existing range of studio space", ac mae'r cyfleuster wedi creu cyfleoedd gwaith gwirioneddol ar gyfer pobl leol yn Glasgow.

Cymerodd BBC Studioworks y gwaith o werthu gofod cyfleusterau sef pedwar llwyfan sain yn Stiwdios Porth y Rhath yng Nghaerdydd, ailddatblygodd a gweithredodd Studio M yn BBC Elstree Centre ac estynodd ei brydles gydag Elstree Film Studios hyd at 2029.

Buddsoddodd y cwmni hefyd yn helaeth yn ei ôl troed craidd drwy brynu offer newydd ac adnewyddu ei gyfleusterau er mwyn cynnig gwell profiad i'w gyflogeion a'i gwsmeriaid, gan gynnwys pencadlys newydd yn y Ganolfan Deledu.

Rhoddydd ffofws sylweddol ar ddatblygu gweithlu a set sgiliau'r cwmni, gan fuddsoddi'n helaeth mewn dysgu a datblygu er mwyn galluogi cynnydd, cyfoethogi diwylliant a chreu busnes modern ac effeithlon.

Rhoddydd blaenoriaeth i fuddsoddi mewn cymunedau lleol drwy allgymorth i ysgolion a chreu pwyntiau mynediad newydd i'r diwydiant, gan gynnwys teithiau, gweithdai a mwy na 1,200 o oriau o gysgodi a hyfforddiant i fyfyrwyr lleol. Lluniodd BBC Studioworks bartneriaeth hefyd ag NFTS Scotland i gyflwyno'r *Multi-Camera TV Conversion Programme* cyntaf erioed yn yr Alban, sydd wedi'i chynllunio i atgyfnerthu sgiliau presennol a rhoi hyfforddiant mewn swydd; rhoddodd BBC Studioworks gyfleoedd gwaith â thâl i bob un o gyfranogwyr y rhaglen.

Gwnaed cynnydd rhagorol yn erbyn nodau cynaliadwyedd craidd BBC Studioworks, a hi oedd y stiwdio a gafodd y sgôr uchaf yn Safon Cynaliadwyedd Stiwdio albert; cynllun gan BAFTA i helpu stiwdios i fesur a lleihau effaith amgylcheddol eu cyfleusterau.

Dod â syniadau'n fyw

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, parhaodd y cwmni i hwyluso cynnwys unigryw o bwys ar gyfer BBC Studios a sawl cwmni cynhyrchu annibynnol. Ymysg y cynrychiadau a ddychwelodd roedd *The Graham Norton Show* ar gyfer BBC One, *Ant & Dec's Saturday Night Takeaway* ar gyfer ITV a *Never Mind the Buzzcocks* ar gyfer Sky Max.

Enillodd y busnes lu o gynrychiadau newydd gan gynnwys *The Chris and Rosie Ramsay Show* ar gyfer BBC Two, *Bridge of Lies* ar gyfer BBC One a *Cheat* ar gyfer Netflix.

Ymysg y credydau ôl-gynhyrchu roedd *EastEnders* a *Strictly Come Dancing* ar gyfer y BBC, *Love Island Aftersun*, *The Games* a *The Martin Lewis Money Show* ar gyfer ITV. Mae'r busnes hefyd wedi parhau i ddarparu gwasanaethau ôl-gynhyrchu i BBC Programme Acquisitions a BBC Persian Television.

Blaenolwg

Mae'r busnes stiwdios teledu aml-gamera yn parhau i fod yn sector sydd â maint elw bach gyda chystadleuaeth gynyddol. Mae BBC Studioworks yn gorfod wynebu costau cynyddol a ysgogir gan y farchnad, cystadlu â setiau cystadleuol cynyddol ddynamig a gweithio gyda chyllidebau comisiynu a gaiff eu herio. Er mwyn parhau i fod yn gystadleuol, bydd BBC Studioworks yn gorfod bod yn greadigol o ran y ffordd y mae'n rheoli ei weithrediadau, yn recriwtio staff ac yn creu partneriaethau â landlordiaid a thimau cynhyrchu. Mae BBC Studioworks yn ystyried opsiynau ar gyfer y ddwy stiwdio sy'n dal i fod wedi cau ym mhorthffolio Llundain y busnes.

Er mwyn cyflawni twf a sicrhau rhagoriaeth weithredol barhaus, mae angen buddsoddiad parhaus mewn sgiliau a thalent newydd ar y busnes. Bydd atgyfnerthu ei gyflenwad o dalent er mwyn sicrhau gweithlu amrywiol a chynhwysol sy'n addas ar gyfer y dyfodol yn flaenoriaeth sy'n parhau o 2022/23.

Gan werthfawrogi'r nifer bach o gyfleoedd twf a geir yn y genre adloniant ysgafn yn y DU, mae gan BBC Studioworks gynlluniau masnachol clir y tu hwnt i deledu aml-gamera gyda nifer o fentrau cyffrous a gaiff eu lansio yn 2023/24.

Strictly Come Dancing



LLYWODRAETHU



Mae'r adran hon yn edrych yn fanwl ar rôl Bwrdd y BBC ac mae'n cynnwys adroddiadau gan is-bwyllgorau dirprwyedig y Bwrdd. Mae'r adran hefyd yn manylu ar ein dull cyffredinol o ymdrin â llywodraethu corfforaethol, ein sefyllfa reoleiddiol a chadarnhad o ddyletswyddau'r Bwrdd mewn perthynas â'r Adroddiad Blynnyddol.

t.85

Bwrdd y BBC

t.89

Adroddiad cydnabyddiaeth

t.97

Datgeliadau cyflogau

t.106

Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Risg

t.122

Adroddiad y Bwrdd Masnachol

t.123

Adroddiad Canllawiau a Safonau Golygyddol

CYFLWYNO EIN BWRDD



Richard Sharp
Cadeirydd
(hyd at 27 Mehefin 2023)



Y Fonesig Elan Closs Stephens DBE
(Cadeirydd Dros Dro o 27 Mehefin 2023)
Cyfarwyddwr anweithredol
Aelod Cymru



Tim Davie CBE
Cyfarwyddwr
Cyffredinol a Phrif
Olygydd



Syr Shumeet Banerji
Cyfarwyddwr
anweithredol



Syr Damon Buffini
Dirprwy Gadeirydd
Cadeirydd Bwrdd
Masnachol y BBC



Shirley Garrood
Cyfarwyddwr
anweithredol
Cadeirydd y Pwyllgor
Archwilio a Risg



Syr Robbie Gibb
Cyfarwyddwr
anweithredol
Aelod Lloegr



Muriel Gray
Cyfarwyddwr
anweithredol
Aelod yr Alban



Charlotte Moore
Prif Swyddog Cynnwys



Syr Nicholas Serota CH
Uwch-gyfarwyddwr
Annibynnol



Leigh Tavaziva
Prif Swyddog
Gweithredu



Deborah Turness
Prif Swyddog
Gweithredol Newyddion
a Materion Cyfoes y BBC

Mae'r Bwrdd wedi'i sefydlu o dan delerau Siarter Frenhinol a Chytundeb y BBC. Mae'n gyfrifol am sicrhau bod y BBC yn cyflawni ei genhadaeth a'i ddiibenion cyhoeddus, fely'u nodir yn y Siarter a'r Cytundeb.

Mae'r Siarter yn amlinellu cyfrifoldebau'r Bwrdd, ei aelodaeth a'r gofyniad am nifer o Bwyllgorau i gefnogi ei waith. Y Bwrdd sy'n gyfrifol am arfer holl swyddogaethau'r BBC mewn modd priodol, effeithiol ac annibynnol. Mae'n pennu cyfeiriad strategol y gorfforaeth ac yn cymeradwyo'r cylch gwaith creadigol a'r cyllidebau ar gyfer gwasanaethau'r BBC.

Yn ystod y flwyddyn, Richard Sharp oedd cadeirydd y Bwrdd. Mae'n cynnwys hyd at ddeg cyfarwyddwr anweithredol – gan gynnwys y Cyfarwyddwr Cyffredinol. Caiff y Cadeirydd a chyfarwyddwyr anweithredol y pedair gwlad eu penodi gan EF Y Brenin, ar sail argymhelliad Gweinidogion ar draws y DU. Caiff aelodau eraill y Bwrdd eu penodi gan y BBC, drwy Bwyllgor Enwebiadau'r Bwrdd.

Gellir darllen bywgraffiadau llawn holl aelodau'r Bwrdd, gan gynnwys eu rolau eraill, ar wefan y BBC: bbc.com/aboutthebbc/whoweare/bbcboard.

Mae'r Bwrdd yn dirprwyo rhai o'i gyfrifoldebau i nifer o is-bwyllgorau. Mae'n ofynnol iddo gael Pwyllgor Cydnabyddiaeth, Pwyllgor Enwebiadau a Phwyllgor Archwilio a Risg. Caiff gwaith y pwyllgorau hyn ei ategu gan waith nifer o bwyllgorau eraill, a sefydlwyd gan y Bwrdd – mae'r rhain yn cynnwys y Pwyllgor Masnachu Teg, y Pwyllgor Canllawiau a Safonau Golygyddol a phwyllgorau ar gyfer pob un o bedair gwlad y DU. Mae'r Bwrdd Masnachol yn goruchwyllo is-gwmnïau masnachol y BBC ar ran y Bwrdd.

Mae'r adran hon yn cynnwys adroddiadau gan y pwyllgorau hynny, sy'n cynnwys cyfarwyddwyr anweithredol yn bennaf, ac a gadeirir ganddynt, fel sy'n ofynnol gan y Siarter. Mae'r tudalennau hyn yn dangos aelodaeth y Bwrdd ar 27 Mehefin 2023, pan lofnodwyd yr adroddiad hwn.

Yn ystod y flwyddyn, ymunodd Deborah Turness â'r Bwrdd, ar 5 Medi 2022, fel Aelod gweithredol. Ni wnaed unrhyw newidiadau eraill i aelodaeth y Bwrdd yn ystod y flwyddyn.

Ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol, ar 28 Ebrill 2023, ymddiswyddodd Richard Sharp o'i rôl fel Cadeirydd a chamodd i lawr o'r Bwrdd ar 27 Mehefin 2023. Cymerodd Elan Closs Stephens rôl Cadeirydd Dros Dro ar yr adeg honno.

Gadawodd Ian Hargreaves y Bwrdd ar ddiwedd cyfnod ei benodiad, ar 2 Ebrill 2023. Gadawodd Shirley Garrood y Bwrdd hefyd ar ddiwedd cyfnod ei phenodiad, ar 2 Gorffennaf 2023.

Rhoddir manylion am bresenoldeb aelodau yng nghyfarfodydd y Bwrdd ac is-bwyllgorau ar dudalen 105.

Y Bwrdd

Cadeirydd Dros Dro (o 27 Mehefin 2023): Elan Closs Stephens

Y Bwrdd sy'n gyfrifol am sicrhau ein bod yn cyflawni ein cenhadaeth a'n dibenion cyhoeddus. Gwna hyn drwy bennu: y cyfeiriad strategol ar gyfer y BBC; y cylch gwaith creadigol ar gyfer allbwn a gwasanaethau golygyddol a chreadigol y BBC; cyllideb y BBC; a fframwaith ar gyfer asesu perfformiad. Rhaid i'r Bwrdd gynnal a diogelu annibyniaeth y BBC a gwneud ei benderfyniadau er budd y cyhoedd. Mae'n gyfrifol am ein holl weithgareddau gan gynnwys y gwasanaethau a ariennir yn gyhoeddus, a'n gweithgareddau masnachol yn y DU a ledled y byd. Ceir manylion yr aelodaeth ar dudalen 85.

Y Pwyllgor Enwebiadau

Cadeirydd (o 27 Mehefin 2023): Elan Closs Stephens

Y Pwyllgor Enwebiadau sy'n gyfrifol am wneud penodiadau i'r Bwrdd a'i bwyllgorau. Mae hefyd yn ystyried ac yn adolygu annibyniaeth aelodau'r Bwrdd, gan gynnwys unrhyw wrthdaro buddiannau, ac yn sicrhau cydymffurfiaeth â Chod Ymarfer y Bwrdd. Gweler tudalen 105.

Y Pwyllgor Cydnabyddiaeth

Cadeirydd: Robbie Gibb

Y Pwyllgor Cydnabyddiaeth sy'n gyfrifol am y strategaeth gwobrwyo a chydabyddiaeth ar draws Grŵp y BBC. Mae'n goruchwyllo'r trefniadau cydnabyddiaeth ar gyfer Aelodau gweithredol o'r Bwrdd ac aelodau o'r Pwyllgor Gweithredol. Mae'n monitro ac yn cymeradwyo adroddiadau allweddol ar faterion yn ymwneud ag amrywiaeth a chyflogau. Gweler tudalen 89.

Y Pwyllgor Canllawiau a Safonau Golygyddol

Cadeirydd: Nicholas Serota

Mae'r Pwyllgor Canllawiau a Safonau Golygyddol yn gyfrifol am ddatblygu a sicrhau cydymffurfiaeth â chanllawiau golygyddol y BBC. Mae'n sicrhau bod y BBC yn cydymffurfio â'i fframwaith cwynion ac â Chod Darlledu Ofcom. Mae hefyd yn asesu perfformiad allbwn y BBC yn erbyn y canllawiau golygyddol, yn benodol mewn perthynas â didueddrwydd dyledus a chywirdeb. Gweler tudalen 123.

Y Bwrdd Masnachol

Cadeirydd: Damon Buffini

BBC Commercial Limited (y Bwrdd Masnachol) sy'n goruchwyllo'r broses o gyflawni uchelgeisiau masnachol y Gorfforaeth. Mae'n adrodd i Fwrdd y BBC ar y broses o gyflawni amcanion BBC Studios, yn unol â strategaeth fasnachol gyffredinol y BBC ac ar BBC Studioworks. Gweler tudalen 122.

Y Pwyllgor Archwilio a Risg

Cadeirydd: Shirley Garrood (hyd at 2 Gorffennaf)

Mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am adolygu a goruchwyllo trefniadau llywodraethu corfforaethol Grŵp y BBC, yn enwedig o ran adroddiadau ariannol, rheolaeth fewnol a systemau rheoli risg. Mae'n goruchwyllo gwaith swyddogaeth Archwilio Mewnol y BBC ac yn monitro prosiectau allweddol a risgiau gweithredol ar ran y Bwrdd. Gweler tudalen 106.

Y Pwyllgor Masnachu Teg

Cadeirydd Dros Dro: Muriel Gray

Mae'r Pwyllgor Masnachu Teg yn cynorthwyo'r Bwrdd i fodloni gofynion rheoleiddio masnachu a gwahanu Ofcom, fel y'u nodir yn ei Fframwaith Gweithredu. Mae cylch gwaith y Pwyllgor yn cwmpasu pob mater a all effeithio ar gydymffurfiaeth y BBC â gofynion masnachu a gwahanu Ofcom. Gweler tudalen 127.

Pwyllgorau'r Gwledydd

Cadeirydd: Aelodau gwledydd y Bwrdd

Y Pwyllgorau ar gyfer Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban sy'n gyfrifol am gynghori'r Bwrdd ar berfformiad y BBC ym mhob un o'r gwledydd hynny. Maent yn asesu a yw'r BBC yn diwallu anghenion cynulleidfaoedd ym mhob gwlad a'r modd y mae'n cyflawni'r ymrwymadau a nodir yn y Cynllun Blynnyddol. Gweler tudalen 125.

Cyfarwyddwr Cyffredinol

Cyfarwyddwr Cyffredinol, Tim Davie

Y Cyfarwyddwr Cyffredinol yw Prif Swyddog Gweithredol y BBC a'i Brif Olygydd. Efyw arweinydd golygyddol, gweithredol a chreadigol y BBC, gyda chyfrifoldeb am y gweithlu byd-eang, gan ddarparu gwasanaethau i gynulleidfaoedd ar draws teledu, radio ac ar-lein.

Pwyllgor Gweithredol

Caiff ei gadeirio gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol, Tim Davie

Mae'r Pwyllgor Gweithredol yn gyfrifol am reolaeth y BBC o ddydd i ddydd. Mae'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau'r BBC yn unol â'r strategaeth y cytunwyd arni gan y Bwrdd, ynghyd â phob agwedd ar reoli gweithredol. Y Pwyllgor yw'r prif grŵp ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth weithredol a chreadigol o fewn y BBC ac mae'n adolygu perfformiad cynulleidfaoedd ac allbwn, ynghyd â goruchwyllo cyllid a gweithrediadau.

Pwyllgor Gweithredol Studios

Cadeirydd: Tom Fussell

Un o bwyllgorau Bwrdd BBC Studios Limited yw Pwyllgor Gweithredol BBC Studios, is-gwmni dan berchenogaeth lawn BBC Commercial Limited – sy'n gyfrifol am oruchwyllo grŵp BBC Studios. Pwyllgor Gweithredol BBC Studios sydd ag awdurdod o ddydd i ddydd ac efyw corff cymeradwyo grŵp BBC Studios. Y pwyllgor sy'n cyflawni'r canlyniadau masnachol fel sy'n ofynnol, neu fel y dirprwyir, gan Fwrdd Masnachol y BBC.

Y Pwyllgor Gweithrediadau

Cadeirydd: Leigh Tavaziva

Y Pwyllgor Gweithrediadau sy'n sicrhau y caiff blaenoriaethau strategol y BBC eu cyflawni. Yn benodol, mae'n cwmpasu: y broses o weithredu, cydlynu a chyflawni prosiectau strategol allweddol ar draws y BBC; y broses o adolygu a chymeradwyo polisiâu ar draws y BBC ar faterion gweithredol; a chydymffurfiaeth â rhwymedigaethau ariannol, rheoleiddio a gweithredol.

Grŵp Arweinyddiaeth Ddigidol

Cadeirydd: Storm Fagan

Mae'r Grŵp Arweinyddiaeth Ddigidol yn adolygu'r cynnydd a wneir tuag at weithredu Amcanion a Chanlyniadau Allweddol ar draws y BBC ac mae'n goruchwyllo gweithgareddau sy'n gysylltiedig ag aeddfedrwedd ddigidol. Sefydlwyd y Grŵp yn 2020 ac mae'n goruchwyllo map ffordd cynhyrchion ac arferion gwaith digidol yn gyntaf ar draws y BBC, wrth gefnogi strategaeth Gwerth i Bawb.

Pwyllgor y Genhedlaeth Nesaf

Cyd-Gadeiryddion: Oscar Thewlis, Zara Tso

Sefydlwyd Pwyllgor y Genhedlaeth Nesaf yn 2017 fel is-bwyllgor ffurfiol o'r Pwyllgor Gweithredol. Mae'n cyflawni swyddogaeth gynghori ar gyfer y Pwyllgor Gweithredol, yn benodol i ystyried yr heriau sy'n wynebu'r BBC o safbwynt cynulleidfaoedd iau. â.

Adroddiad cydymffurfiaeth gorfforaethol a llywodraethu

Cydymffurfiwn ag arferion gorau llywodraethu corfforaethol

Diffinnir fframwaith llywodraethu corfforaethol y BBC yn ei Siarter a'r Cytundeb Fframwaith cysylltiedig. Mae'r Siarter a'r Cytundeb ar gael ar wefan y BBC yn: <https://www.bbc.com/aboutthebbc/governance/charter>.

Mae Siarter y BBC yn ei gwneud yn ofynnol i'r BBC ystyried egwyddorion llywodraethu corfforaethol da a dderbynnir yn gyffredinol. Er nad yw'r BBC yn gwmni rhestredig, mae wedi dewis cymhwyso arferion gorau a dilyn darpariaethau Rheolau Rhestru'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol a Chod Llywodraethu Corfforaethol 2018 y DU ("y Cod"), lle y bo hynny'n briodol. Mae hyn yn cyrraedd y safonau llywodraethu sy'n gymwys i gwmnïau a restrir ar farchnad stoc reoleiddiedig yr UE.

Adolygiad o effeithiolrwydd y Bwrdd

Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd Adolygiad allanol o Effeithiolrwydd y Bwrdd, a oedd yn cynnwys adolygiad o Bwyllgorau'r Bwrdd. Cynhaliwyd yr adolygiad gan Christopher Saul Associates ar ddechrau 2022 a chafodd ei adrodd i'r Bwrdd ym mis Ebrill 2022. Ym mis Mehefin 2022, cytunodd y Bwrdd ar gyfres o gamau gweithredu a gododd o argymhellion yr adolygiad. Roedd yr adolygiad hefyd yn cynnwys asesiad o weithrediad Pwyllgorau'r Bwrdd, y gwnaeth pob un ohonynt adolygu eu cylch gorchwyl yn ystod y flwyddyn.

Canfu'r adolygiad allanol o'r Bwrdd bod aelodau'r Bwrdd yn dangos cryn ymrwymiad a gwelwyd bod dynameg da ymysg aelodau'r Bwrdd, gyda pharodrwydd ar ran pob Cyfarwyddwr i gyfrannu ac awydd gwirioneddol i ddatblygu buddiannau'r BBC. Roedd y Bwrdd yn falch o weld y canfyddiad hwn a nododd y cynhaliwyd yr adolygiad yn ystod y broses o drosglwyddo allan o gyfyngiadau COVID-19.

Ymysg yr argymhellion a wnaed yn yr adolygiad roedd:

- ail-gydbwyso agendâu'r Bwrdd tuag at bynciau sy'n bwysicach yn strategol;
- cynnwys sesiynau cinio ychwanegol i'r Bwrdd yn y calendr, ynghyd â phwysigrwydd cyfarfodydd ar y cyd rhwng y Bwrdd a'r Bwrdd Gweithredol;
- cynnydd yn nifer y galwadau briffio ychwanegol, dewisol i aelodau'r Bwrdd allu ymgysylltu â materion penodol yn fanylach;
- cynnwys sesiwn ar ddechrau pob cyfarfod Bwrdd yn nodi'r themâu a'r penderfyniadau allweddol i'w trafod; ac
- ystyried y mathau o fusnes y Bwrdd y gellid eu dirprwyo i'r Pwyllgorau er mwyn creu gofod ychwanegol ar agendâu ar gyfer pynciau strategol allweddol.

Aed i'r afael â phob un o'r argymhellion hyn yn ystod y flwyddyn, a sefydlwyd adolygiad o strwythurau'r Pwyllgor yn ystod y flwyddyn, er mwyn gwneud argymhellion i'r Bwrdd ar opsiynau newid posibl.

Yn ystod y flwyddyn, sefydlodd y Pwyllgor Enwebiadau hefyd adolygiad i ystyried cydymffurfiaeth y Cadeirydd â'i rwymedigaethau i'r BBC mewn perthynas â gwrthdaro buddiannau ers iddo gael ei benodi i'r rôl. Cynhaliwyd yr adolygiad gan aelodau anweithredol y Pwyllgor a gyfarfu heb fod y Cadeirydd a'r Cyfarwyddwr Cyffredinol yn bresennol. Cyhoeddwyd yr adolygiad ym mis Mai 2023 a gwnaeth argymhellion i newid arferion rheoli gwrthdaro buddiannau yn y dyfodol ar gyfer aelodau'r Bwrdd.

Darpariaethau Cod Corfforaethol

Mae nifer o elfennau o'r Cod nad ydynt yn briodol i amgylchiadau'r BBC neu lle mae cydymffurfiaeth â Siarter neu Gytundeb y BBC yn drech na nhw.

Mae hyn yn ymwneud â'r canlynol:

- darpariaeth 3, 4, 36 a 37, mewn perthynas ag ymgysylltu â chyfranddalwyr a chyd-fynd â'u buddiannau, nad ydynt yn gymwys, o ystyried nad oes gan y BBC gyfranddalwyr yn yr un modd ag sydd gan gwmni. Fodd bynnag, mae gan y BBC amrywiaeth eang o fesurau ar waith i sicrhau ei fod yn ymgysylltu â rhanddeiliaid allanol.
- darpariaeth 5, materion a nodir yn adran 172 o Ddeddf Cwmnïau 2006, sy'n berthnasol i gwmnïau yn unig ac y mae Dibenion Cyhoeddus y BBC, fel y'u disgrifir yn y Siarter, yn drech na nhw.
- darpariaeth 18, aelodaeth o'r Bwrdd, a lywodraethir gan erthyglau'r Siarter.
- darpariaeth 25 a 26, y dull o benodi neu ailbenodi'r archwilydd allanol, a lywodraethir ac a bennir gan gymal 55 o'r Cytundeb.

Fodd bynnag, mae'r BBC wedi cydymffurfio'n llawn â gofynion llywodraethu corfforaethol y Siarter a'r Cytundeb yn ogystal â chydymffurfio'n llawn â'r Cod.

Cost cydymffurfio

Er mwyn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol y mae'r BBC yn ddarostyngedig iddi fel darlledwr a chorff cyhoeddus, yn 2022/23 aethom i gostau cydymffurfio amcangyfrifedig o £19 miliwn (21/22: £19 miliwn). Mae'r ffigur hwn yn cynnwys ffi'r BBC i Ofcom, sef £12 miliwn.

Costau cydymffurfiaeth gyfreithiol

Mae costau datrys hawliadau cyfreithiol yn deillio o gyhoeddi adroddiad Arglwydd Dyson ar gyfweiliad *Panorama* â Diana, Tywysoges Cymru yn 1995 wedi'u cynnwys yn y costau cyfreithiol yr aed iddynt gan y BBC ar gyfer 2022/23, ynghyd â gwaith cyfreithiol cysylltiedig arall yn deillio o gyhoeddi'r Adroddiad ac yn dilyn hynny (£1.16 miliwn mewn iawndal, £0.263 miliwn a TAW mewn costau cyfreithiol hawlwyr a £1.36 miliwn a TAW mewn costau cyfreithiol allanol).

Mae'r BBC, fel y nodwyd yn flaenorol, wedi rhoi'r elw o werthiannau masnachol yn deillio o gyfweiliad *Panorama* â Diana, Tywysoges Cymru yn 1995 i elusen. Cafodd swm o £1.42 miliwn ei rannu'n gyfartal rhwng saith elusen a oedd yn gysylltiedig â'r Dywysoges, sef: Centrepoint, English National Ballet, Great Ormond Street Hospital Children's Charity, The Leprosy Mission, National AIDS Trust, The Royal Marsden Cancer Charity a The Diana Award.

Rheoleidd-dra

Rhaid i'r broses o reoli holl adnoddau'r BBC fod yn unol â darpariaethau'r Siarter, y Cytundeb Fframwaith a chytundebau eraill a wna'r BBC â Gweinidogion y Llywodraeth. Ystyri bod trafodion sy'n cyflawni'r dibenion a friadwyd ac sy'n unol ag awdurdodau perthnasol yn rhai 'rheolaidd'; caiff y rhai nad ydynt yn bodloni'r meini prawf hyn eu hystyried yn 'afreolaidd'. Ymdrinnir â thrafodion twyllodrus a chosbau ariannol neu ddirwyon fel rhai 'afreolaidd'. Yn ogystal ag adolygiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol o reoleidd-dra (fel archwilwyr allanol, ar ran y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol), cynhaliodd y gwasanaeth Archwilio Mewnol adolygiad o fframwaith cydymffurfio â rheoleidd-dra'r BBC, gan gynnwys y prosesau, y rheolaethau a'r systemau sicrwydd sydd ar waith i reoli'r risg i reoleidd-dra mewn meysydd yr asesir eu bod yn wynebu'r risg fwyaf o afreoleidd-dra. Gwnaeth cwmpas yr adolygiad ystyried y defnydd priodol o ffi'r drwydded, yr asesiad o newidiadau perthnasol, gweithredu o fewn terfynau benthyca a'r risg o dwyll. Ni nodwyd unrhyw eithriadau perthnasol o ganlyniad i'r adolygiad hwn ac nid yw'r rheolwyr yn ymwybodol o unrhyw drafodion y gellid eu hystyried yn afreolaidd.

Llywodraethu Pwyllgor Gweithredol

Mae'r Cyfarwyddwr Cyffredinol yn cadeirio Pwyllgor Gweithredol, sy'n gyfrifol am redeg y BBC o ddydd i ddydd.

Mae'r Pwyllgor Gweithredol yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau'r BBC yn unol â'r strategaeth y cytunwyd arni gan y Bwrdd, ac am bob agwedd ar reoli gweithredol.

Mae'r Pwyllgor Gweithredol yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn goruchwyllo prosiectau strategol allweddol a chynigion o bwys i'r sefydliad cyfan. Mae'n cael adroddiadau rheolaidd ar gynulleidfaeodd a pherfformiad ariannol, yn ogystal â goruchwyllo polisiâu a materion gweithredol y BBC cyfan. Mae gwybodaeth am drefniadau cydnabyddiaeth y Pwyllgor Gweithredol yn 2022/23 ar gael yn yr adroddiad Cydnabyddiaeth ar dudalennau 89 i 96.

Ymunodd Deborah Turness â'r Pwyllgor Gweithredol fel Prif Swyddog Gweithredol Newyddion a Materion Cyfoes ym mis Medi 2022 ac ymddiswyddodd Jonathan Munro o'r Pwyllgor ar yr adeg honno. Ymunodd Alan Dickson â'r Pwyllgor fel Prif Swyddog Ariannol ym mis Rhagfyr 2022. Ymunodd Alice Macandrew fel Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol ym mis Ionawr 2023 ac ymunodd Uzair Qadeer fel Prif Swyddog Pobl ym mis Chwefror 2023. Ymddiswyddodd June Sarpong o'r Pwyllgor Gweithredol a gadawodd y BBC ar 30 Medi 2022.

Mae manylion llawn aelodaeth y Pwyllgor Gweithredol ar gael yn: bbc.com/aboutthebbc/whoweare/exco. Mae'r tudalennau hyn yn dangos aelodaeth y Pwyllgor Gweithredol ym mis Mehefin 2023.



Tim Davie CBE
Cyfarwyddwr Cyffredinol
a Phrif Olygydd



Kerris Bright
Prif Swyddog Cwsmeriaid



Alan Dickson
Prif Swyddog Ariannol



Tom Fussell
Prif Swyddog
Gweithredol BBC Studios



Alice Macandrew
Cyfarwyddwr Materion
Corfforaethol y Grŵp



Charlotte Moore
Prif Swyddog Cynnwys



Uzair Qadeer
Prif Swyddog Pobl



Gautam Rangarajan
Cyfarwyddwr
Strategaeth a
Pherfformiad y Grŵp



Rhodri Talfan Davies
Cyfarwyddwr y Gwledydd



Leigh Tavaziva
Prif Swyddog Gweithredu



Deborah Turness
Prif Swyddog
Gweithredol Newyddion
a Materion Cyfoes y BBC

Pwyllgor y Genhedlaeth Nesaf

Sefydlwyd Pwyllgor y Genhedlaeth Nesaf y BBC gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol ar ddiwedd 2017 gyda'r nod o gynghori Pwyllgor Gweithredol ac Uwch-arweinwyr y BBC a sicrhau bod llais a syniadau pobl iau yn cael eu clywed ar lefel weithredol. Mae'r Pwyllgor yn cynnwys 15-20 o aelodau iau o'r staff o bob rhan o'r sefydliad am gyfnod o 12-18 mis. Yn 2022/23, bu'r Pwyllgor yn gweithio ac yn canolbwyntio ar gefnogi staff anabl, recriwtio a chadw staff, creu rhwydweithiau i wneud y mwyaf o adnoddau mewnol a sut i wella cynrychiolaeth leol.

Cymerodd aelodau'r Pwyllgor hefyd ran mewn trafodaethau yn yr Uwch-grŵp Gweithredol, gweithdy'r dyfodol gan PwC gydag Uwch-arweinwyr, diwrnod i ffrwrdd Uwch-arweinwyr Grŵp y Prif Swyddog Gweithredu a chyfrannwyd yng nghyfarfodydd is-adrannol y Bwrdd yn ôl y gofyn.

Aelodau'r Pwyllgor yn 2022/23

Georgina Pearce (Cyd-Gadeirydd)
Uwch-newyddiadurwr, 100 Women

Sam Ripman (Cyd-Gadeirydd)
Uwch-gynllunyydd Marchnata a Chynulleidfaeodd, BBC Three

Emma Arbuckle
*Cynhyrchydd Cynorthwyol,
BBC Northern Ireland*

Becky Bailey
Cynhyrchydd Cynnwys Cynorthwyol, CBBC

Myles Bonnar
Uwch-Newyddiadurwr, BBC Scotland News

Jemma Clarke
*Uwch-Ddadansoddwr Cyfryngau
Cymdeithasol, Marchnata a Chynulleidfaeodd*

Adam Clarkson
Newyddiadurwr, Radio Tees

Liz Clements
Newyddiadurwr, BBC Wales News

Ryan Dobney
Newyddiadurwr, Radio 5 live

Adam Eland
*Cynhyrchydd Cynorthwyol,
comisiynu podlediadau Radio 5 live*

Simone Eubanks
*Cydlunyydd Prosiectau, Technoleg, Strategaeth
a Saerniaeth*

Rachael Griffith
*Arbenigwr Cysylltiadau Digidol, tîm y wasg
BBC England*

Daniel Kassim
*Cydlunyydd Cyfryngau Cymdeithasol,
BBC Three*

Julie Yoonnyung Lee
Newyddiadurwr, Korean Service

Drew Hyndman
Newyddiadurwr, Sain Ffurf Hir

Euan Sime
*Cynhyrchydd Cynorthwyol, Radio 1 Player
(hyd at fis Gorffennaf 2022)*

Dillon Wilson
Uwch-Beiriannydd Meddalwedd, BBC News

Adroddiad cydnabyddiaeth

Cymerais Gadeiryddiaeth y Pwyllgor ym mis Ebrill 2022 ac mae wedi bod yn bleser gweld y BBC yn parhau i gymryd camau i greu sefydliad modern sy'n cynrychioli'r DU gyfan. Y flwyddyn ddiwethaf dechreuodd y Bwrdd Gweithredol gyflwyno newidiadau sylweddol ar draws y BBC ac, fel Pwyllgor, rydym yn cydnabod y bydd y gwaith hwn yn heriol i'r staff yn y meysydd hynny lle mae gostyngiadau'n cael eu gwneud.

Fel Pwyllgor, gwnaethom gwrdd bum gwaith y flwyddyn hon a buom hefyd yn gweithio gyda'r Bwrdd Gweithredol all-lein yn ôl yr angen. Ymunodd Richard Sharp a Muriel Gray â mi yn ystod y flwyddyn fel aelodau o'r Pwyllgor a hoffwn ddiolch i'r ddau am eu dealltwriaeth o'r materion a drafodwyd gennym a'u hymrwymiad i hyn. Ymunodd Damon Buffini â ni hefyd fel Cadeirydd y Bwrdd Masnachol, a buom yn trafod materion yn ymwneud â'r busnes masnachol. Ac ym mis Tachwedd, gwnaethom gytuno i benodi PwC fel cynghorwyr annibynnol allanol i'r Pwyllgor.

Yn ystod y flwyddyn, buom yn canolbwyntio ar faterion masnachol yn ymwneud â busnes Studios yn benodol. Buom yn trafod strwythur cynllun cwmni Studios yn 2022/23 ym mis Mai, gan gytuno ar y strwythur hwnnw, ar ôl cytuno ar newidiadau i gwmpas a thelerau'r cynllun y flwyddyn ddiwethaf. Yna, gwnaethom gymeradwyo alldro cynllun 2021/22 yn ein cyfarfod ym mis Mehefin. Rydym yn parhau i archwilio opsiynau ar gyfer strwythurau cymhelliant yn y busnes masnachol, gyda'r nod o sicrhau y gall ddenu, cadw ac ymgysylltu'r dalent orau sydd ar gael yn y marchnadoedd cyfryngau heriol y maent yn gweithredu ynddynt. Buom hefyd yn trafod adolygu ffioedd ar gyfer cyfarwyddwyr anweithredol y Bwrdd Masnachol y flwyddyn hon a gwnaethom argymhellion i'r Pwyllgor Enwebiadau ar gyfer newid posibl.

Yn ystod y flwyddyn buom hefyd yn canolbwyntio ar faterion amrywiaeth yn y gweithlu, lle mae'r BBC wedi gwneud cynnydd sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, gan arwain y diwydiant yn ein ffocws ar fylchau cyflog a cheisio mynd i'r afael â materion yn ymwneud ag amrywiaeth a chynhwysiant drwy bennu targedau heriol. Cawsom drafodaeth ar amrywiaeth barn yn y BBC gan gytuno ar gamau i'w hystyried fel rhan o brosesau recriwtio i sicrhau bod amrywiaeth eang o safbwyntiau'n cael eu cyflwyno yn y sefydliad. Rydym wedi edrych yn fanwl ar y data sy'n sail i'r cyfrifiadau ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiâu yn y BBC ac roedd yn dda gweld mai bach yw'r bylchau ar draws bandiau cyflog swyddi o hyd. Byddwn yn parhau i ddwyn y Bwrdd Gweithredol i gyfrif er mwyn sicrhau bod y bylchau hyn yn cael blaenoriaeth o hyd a gwnaethom nodi bod y bwlch cyflogau cyffredinol rhwng y rhywiâu o ganlyniad i gynrychiolaeth ar lefelau gwahanol ym mhob rhan o'r sefydliad. Cawsom ein calonogi gan y camau gweithredu a gymerwyd o fewn y BBC i fynd i'r afael â materion cynrychiolaeth, a

ddylai sicrhau bod yr elfen o'n bylchau cyflog a achosir gan y ffactor hwn yn lleihau dros amser. Roeddem yn falch o weld bod y BBC yn perfformio'n well na llawer o'r farchnad cyfryngau yn y maes hwn.

Buom hefyd yn edrych yn fanwl ar nifer y cyflogeion cyfwerth ag amser llawn yn gyffredinol yn y BBC, sydd wedi parhau'n wastad ar y cyfan y flwyddyn hon gan geisio deall y symudiadau sy'n sail i hyn. Ac rydym wedi monitro adroddiadau gan reolwyr ar gostau cyflogau cyffredinol, taliadau amrywiaeth a diswyddo, fel rhan o'n busnes rheolaidd.

Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom gyflawni ein cyfrifoldebau o oruchwylio a chymeradwyo cyflogau'r Bwrdd Gweithredol, ac mae'r adroddiad hwn yn dangos y sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn, yn dilyn y newidiadau diweddar a wnaed i'r Pwyllgor Gweithredol. Gwnaethom barhau â'n harfer cadarn o bennu cyflogau swyddogion gweithredol gan gyfeirio at feincnodau marchnad allanol. Rydym wedi ceisio adborth gan arbenigwyr allanol i ddeall canfyddiadau'r farchnad o gynnig gweithredol y BBC a sut mae hyn yn effeithio ar ein gallu i ddenu talent uwch wrth herio marchnadoedd â chyflogau sy'n symud yn gyflym a lefelau uchel o gystadleuaeth.

Mae gennym gyfrifoldeb hefyd, fel Pwyllgor, i gyhoeddi datgeliadau ariannol blynyddol, sy'n dilyn yr adroddiad hwn. Y flwyddyn hon, o dan delerau Siarter y BBC, diwygiwyd lefel y datgeliadau i £178k ar gyfer cyflogeion ar yr awyr ac oddi ar yr awyr. Mae'r newid hwn yn cydnabod y byddai chwyddiant cyflogau dros amser yn arwain at nifer cynyddol o unigolion yn cael eu cynnwys yn y datgeliadau. Felly mae'r addasiad y cytunwyd arno hanner ffordd drwy'r Siarter yn sicrhau bod y trothwy ar gyfer datgeliadau yn cyd-fynd â newidiadau'r farchnad dros amser.

Yn olaf, hoffwn gydnabod y cymorth a'r cyngor a gawsom ni, fel Pwyllgor, gan Wendy Aslett a Rachel Currie a adawodd eu rolau fel Cyfarwyddwyr Adnoddau Dynol y Grŵp y flwyddyn hon. Edrychaf ymlaen at weithio'n agos gydag Uzair Qadeer, Prif Swyddog Pobl newydd y BBC, wrth i'r Pwyllgor barhau i helpu i ddatblygu cynnig gwobrwyo yn y BBC sy'n cyd-fynd â'n strategaeth ac sy'n galluogi gweithlu a all sicrhau gwerth eithriadol i gynulleidfaoedd mewn amgylchedd cyfryngau sy'n newid yn gyflym.

Robbie Gibb

Cadeirydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth
27 Mehefin 2023

Llywodraethu

Adroddiad cydnabyddiaeth – parhad

Mae'r adroddiad hwn yn nodi polisi cydnabyddiaeth y BBC ar gyfer cyfarwyddwyr gweithredol ac uwch-arweinwyr ac yn rhoi manylion am y gydnabyddiaeth flynyddol a dderbyniwyd gan aelodau o Fwrdd y BBC a'r Pwyllgor Gweithredol ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23. Mae hyn yn cynnwys ein datgeliad blynyddol o gyflogau fel sy'n ofynnol gan Siarter y BBC.

Fe'i paratowyd gan gyfeirio at ofynion Rheoliadau Cwmniau a Grwpiau Mawr a Chanolig (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008 (fel y'u diwygiwyd) a'r Rheolau Rhestru lle bo'n berthnasol. Archwiliwyd yr adrannau ar bensiynau a chydabyddiaeth a dderbyniwyd gan y grŵp hwn gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, archwilwyr statudol y BBC.

Cyfansoddiad y Pwyllgor Cydnabyddiaeth a'r ffordd y mae'n gweithredu

Mae Pwyllgor Cydnabyddiaeth y Bwrdd, ers 1 Ebrill 2017, wedi bod yn gyfrifol am bennu'r strategaeth cydnabyddiaeth i Grŵp y BBC ac am bob agwedd ar gydnabyddiaeth cyfarwyddwyr gweithredol y Pwyllgor Gweithredol a'r Bwrdd. Ei aelodau yw'r cyfarwyddwyr anweithredol Robbie Gibb (Cadeirydd), Muriel Gray a Chadeirydd y BBC Richard Sharp.

Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn cael cyngor arbenigol gan gynghorwyr proffesiynol allanol ar rai materion, yn arbennig y rhai sy'n ymwneud ag arfer y farchnad. Yn ystod y flwyddyn, cafwyd cyngor annibynnol gan Willis Towers Watson ar faterion yn ymwneud â chydabyddiaeth cyfarwyddwyr gweithredol ac o bryd i'w gilydd ar ffurf asesiadau o'r farchnad, a gan PricewaterhouseCoopers LLP ar gynllun cymhelliant mewn perthynas â'n his-gwmniau masnachol a'r broses o ddatblygu ein strategaeth Gwobrwyo yn y dyfodol.

Mae'r Pwyllgor yn sicrhau bod cydnabyddiaeth cyfarwyddwyr gweithredol yn gyson â diben a gwerthoedd y BBC. Mae'n sicrhau bod ein trefniadau'n dryloyw ac yn hawdd eu deall, a bod lefelau cydnabyddiaeth yn gymesur â chyfraniad.

Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn cynnal adolygiad chwarterol i gyflogau a nifer y staff. Mae pwyllgorau cymeradwyo is-adrannol ac uwch-arweinwyr yn adolygu ac yn cymeradwyo unrhyw geisiadau eithriadol am addasiadau cyflogau, nifer ychwanegol o staff a diswyddiadau anghytundebol.

Aelodaeth y Bwrdd a'r Pwyllgor Gweithredol

At ddibenion yr adroddiad hwn, cyfarwyddwyr gweithredol yw'r rhai sy'n aelodau o'r Bwrdd ynghyd â'r aelodau eraill o'r Pwyllgor Gweithredol.

Mae Bwrdd y BBC yn cynnwys 14 o aelodau, gyda mwyafrif o gyfarwyddwyr anweithredol. Penodwyd y Cadeirydd a phedwar o'r aelodau anweithredol gan y Brenin mewn Cyngor ar argymhelliad Gweinidogion, gydag un aelod yn cynrychioli pob un o bedair gwlad y DU. Ni phenodwyd i safle'r aelod ar gyfer Gogledd Iwerddon eto, tra bo Gweithrediaeth newydd yng Ngogledd Iwerddon yn yr arfaeth. Mae Bwrdd y BBC yn penodi pum aelod anweithredol arall drwy ei Bwyllgor Enwebiadau. Mae pedwar cyfarwyddwr gweithredol ar y Bwrdd, gan gynnwys Cyfarwyddwr Cyffredinol y BBC, sef prif swyddog gweithredol a phrif olygydd y Gorfforaeth. Penodwyd Deborah Turness i'r Bwrdd fel Prif Swyddog Gweithredol Newyddion a Materion Cyfoes ar 5 Medi 2022. Nodir y newidiadau eraill i aelodaeth y Bwrdd, a wnaed ar ôl diwedd y flwyddyn ar dudalen 85.

Cefnogir Bwrdd y BBC gan y Pwyllgor Gweithredol, sy'n gyfrifol am arweinyddiaeth weithredol y Gorfforaeth. Ceir manylion am lefelau cydnabyddiaeth yr 11 cyfarwyddwr gweithredol ar dudalen 80-96. Gwnaed y newidiadau canlynol i'r aelodaeth yn 2022/23:

- Penodwyd Deborah Turness i'r Pwyllgor Gweithredol fel Prif Swyddog Gweithredol Newyddion ar 5 Medi 2022, ac ar yr adeg honno, ymddiswyddodd Jonathan Munro fel Cyfarwyddwr Dros Dro BBC News;
- Penodwyd y canlynol i'r Pwyllgor Gweithredol hefyd: Alan Dickson (Rhagfyr 2022), Alice Macandrew (Ionawr 2023), Uzair Qadeer (Chwefror 2023);
- Ymddiswyddodd June Sarpong o'r Pwyllgor Gweithredol a gadawodd y BBC ym mis Medi 2022

Egwyddorion Cyflogau'r BBC

Parhawyd i weithio ar gyflogau ar bob lefel yn y BBC, ynghyd â'n ffocws ar gyflog teg. Mae gennym fframwaith sefydledig a ddefnyddir i wneud penderfyniadau teg a chyson ynghylch cyflogau ac i sicrhau bod ein Hegwyddorion Cyflogau Teg wedi'u hymgorffori ym mhob rhan o'r sefydliad.

1. Teg
2. Cyson
3. Tryloyw
4. Cystadleuol
5. Clir

Mae'r BBC yn gweithredu mewn marchnad sy'n newid yn gyflym lle mae cystadleuaeth ddwys am dalent a gwelwyd twf aruthrol ymhlith rhai cwmniau cyfryngau, ffrydio a thechnoleg ddigidol newydd sy'n cynnig pecynnau hynod ddeniadol. Felly, rydym yn parhau i gydbwysio cyflogau cystadleuol ar y farchnad â'r angen i ddangos gwerth am arian i dalwyr ffi'r drwydded. Adlewyrchir y cydbwysedd hwn yn ein hystodau cyflog swydd a bennir gan gyfeirio at gyflogau canolrifol ar y farchnad mewn sefydliadau eraill.

Polisi Cydnabyddiaeth Uwch-arweinwyr

Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn ymrwymedig i bennu cyflog priodol i gyfarwyddwyr gweithredol sy'n denu, yn cymell ac yn cadw'r bobl orau i arwain y BBC a sicrhau gwerth i dalwyr ffi'r drwydded. Mae egwyddorion cyflogau'r BBC yn gymwys i'r holl staff, cyfarwyddwyr gweithredol ac uwch-arweinwyr ym mhob rhan o Grŵp y BBC.

Wrth bennu polisi'r BBC ar gyflogau, mae'r Pwyllgor yn ystyried darpariaethau arferion orau Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU yn llawn.

Nid oes gan gyfarwyddwyr gweithredol nac uwch-arweinwyr yr hawl i gael y codiad cyflog blynyddol y cytunwyd arno â'r Cyd-undebau ac nid oes ganddynt hawl awtomatig i gael unrhyw fath o gynyddran flynyddol na thaliad datblygiad. Dim ond y Pwyllgor Cydnabyddiaeth all wneud penderfyniadau ar gyflogau cyfarwyddwyr gweithredol a chaiff penderfyniadau ar gyflogau uwch-arweinwyr eu hadolygu gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth, er mwyn sicrhau cysondeb a thegwch.

Yn 2021, lanswyd cerdyn sgorio perfformiad newydd o'r enw'r Mynegai Uwch-arweinwyr er mwyn ysgogi rhagor o atebolrwydd am berfformiad y BBC ymysg y gymuned o uwch-arweinwyr. Ystyrir y canlyniadau wrth asesu perfformiad a photensial yn y boblogaeth o uwch-arweinwyr. Mae'r mesurau'n amrywiol ac maent yn cynnwys ffigurau amrywiaeth ac ymgysylltu â chyflogeion. Yn 2022, ehangwyd y Mynegai i gynnwys grŵp peilot o fewn poblogaeth reoli ehangach.

Elfen	Diben a'i chysylltiad â'r strategaeth	Gweithrediad	Y cyfle mwyaf
Cyflog sylfaenol	<p>Ar gyfer cyfarwyddwyr gweithredol, diffinnir cyflog sylfaenol drwy gyfeirio at ganolrif y farchnad wedi'i ddisgowntio ar gyfer cyfanswm cydnabyddiaeth uniongyrchol (cyflog, bonws blynyddol a chymhelliant hirdymor blynyddol).</p> <p>Ar gyfer uwch-arweinwyr, caiff ystodau cyflog swydd a ddefnyddir i bennu cyflogau eu llywio gan gyfanswm arian parod targed canolrifol ar y farchnad (cyflog sylfaenol, lwfansau a bonws targed). Disgwylir y bydd hyn yn arwain at ddisgowntio cyfanswm cydnabyddiaeth o gymharu â chanolrif y farchnad allanol.</p> <p>Ni thelir unrhyw uwch-arweinydd yn is na'r isafswm ystod cyflog swydd ar gyfer ei rôl, ac mae ystodau cyflog yn dryloyw i'r holl uwch-arweinwyr a gweithlu ehangach y BBC.</p>	<p>Defnyddir y ffactorau canlynol i bennu lefel y cyflog sylfaenol a bennir ar gyfer cyfarwyddwyr gweithredol neu uwch-arweinydd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • graddfa a chymhlethdod y rôl • gwybodaeth, sgiliau a phrofiad • perfformiad a chyfraniad • ffactorau'r farchnad a fforddiadwyedd <p>Caiff cyflogau eu hadolygu'n flynyddol, gyda chodiadau yn weithredol o 1 Awst. Cytunir ar gyllideb ac fe'i dosberthir yn unol â'r ffactorau uchod.</p> <p>Caiff ystodau cyflog swydd ar gyfer uwch-arweinwyr eu hadolygu'n flynyddol a'u diweddarau yn ôl yr angen.</p>	<p>Dim uchafswm cyflog nac uchafswm cynnydd penodedig i gyfarwyddwyr gweithredol.</p> <p>Mae ystodau cyflog swydd uwch-arweinwyr yn cynnwys isafswm ac uchafswm; lle mae unigolyn uwchlaw uchafswm ei ystod cyflog am resymau etifeddol neu fasnachol yna ni fydd ei gyflog yn cynyddu ymhellach.</p>
Tâl Amrywiadwy	<p>Mae cyfarwyddwyr gweithredol a rhai uwch-arweinwyr sydd wedi'u cyflogi ym musnesau masnachol y BBC yn gymwys i gael bonws blynyddol ar sail perfformiad. Caiff bonysau o'r fath eu hariannu'n gyfan gwbl gan y busnesau masnachol yn hytrach na ffi'r drwydded. Mae'n cynnig gwobr am gyflawni nodau strategol byrdymor (blynyddol) a thwf mewn elw.</p>	<p>Nid oes gan gyfarwyddwyr gweithredol nac uwch-arweinwyr yn y Gwasanaeth Cyhoeddus yr hawl i gael taliad bonws ar sail perfformiad.</p> <p>Mae taliadau bonws ymhlith busnesau masnachol y BBC yn amodol ar gyrraedd targedau yn seiliedig ar brif elw i'w busnes, mesurau strategol a pherfformiad unigol.</p>	<p>Nid oes unrhyw gyfarwyddwr gweithredol yn y Gwasanaeth Cyhoeddus wedi cael bonws ers 2008.</p> <p>Ar gyfer 2022/23, cymerodd un cyfarwyddwr gweithredol – Prif Swyddog Gweithredol BBC Studios – ran mewn cynllun bonws. Mae gan y cynllun cymhelliant fonws targed o 60% ac uchafswm o 90%, gyda chynnydd ychwanegol o hyd at 135% ar gael am berfformiad unigol eithriadol. Caiff un rhan o dair o'r cyfanswm sy'n daladwy i'r cyfranogwyr ar y lefelau uchaf ei gohirio am hyd at dair blynedd, yn amodol ar gyflogaeth barhaus.</p>
Buddiannau – Pensiwn	<p>Cynigir pensiynau yn unol â'r trefniadau pensiwn a gynigir i holl gyflogeion y BBC.</p> <p>Yn ogystal â phensiynau, darperir yswiriant bywyd yn unol â'r trefniadau a ddarperir ar gyfer holl gyflogeion y BBC.</p>	<p>Gall cyfarwyddwyr gweithredol ac uwch-arweinwyr ddewis ymuno â chynllun cyfraniadau diffiniedig y BBC, sef LifePlan.</p> <p>Mae cynllun buddiannau diffiniedig y BBC wedi'i gau i staff newydd sy'n ymuno.</p> <p>Trefnir yswiriant bywyd yn achos marwolaeth mewn swydd o bedair gwaith eu cyflog sylfaenol i gyfarwyddwyr gweithredol.</p>	<p>Mae'r polisi cyfredol yn darparu cynllun cyfraniadau diffiniedig heb gap cyflog, ac uchafswm cyfraniad o 10% o gyflog gan y cyflogwr.</p> <p>Mae aelodau presennol o gynllun pensiwn buddiannau diffiniedig yn destun cap ar lefel yr uchafswm cyflog ar gyfer eu cynllun pensiwn neu'n destun cap mewn twf mewn cyflog pensiwnadwy.</p>
Buddiannau – Cludiant/teithio	<p>Dim ond i'r Cyfarwyddwr Cyffredinol a'r Cadeirydd y cynigir buddiannau teithio.</p>	<p>Mae defnydd o gar a gyrrwr ar gael i'r Cyfarwyddwr Cyffredinol a'r Cadeirydd ond nid oes ganddynt hawl i lwfans car personol na lwfans tanwydd. Mae rhai uwch-arweinwyr yn parhau i gael lwfans car etifeddol ers i'r buddiannau ceir gael eu dileu yn 2012.</p>	<p>Nid oes unrhyw uchafswm penodedig gan mai budd hanesyddol ydyw, nad yw wedi cael ei gynnig i staff newydd sy'n ymuno ers 2012.</p>
Buddiannau – Yswiriant Meddygol Preifat	<p>Ym mis Ebrill 2011, gwnaeth y BBC ddileu budd gofal iechyd preifat i bob cyfarwyddwr gweithredol ac uwch-reolwr newydd a chysoni â threfniadau i holl gyflogeion y BBC.</p> <p>Yn dilyn ymgynghoriad, cytunwyd i ddileu budd yswiriant meddygol preifat i gyfarwyddwyr gweithredol ac uwch-arweinwyr o 1 Ebrill 2019.</p>	<p>Mae un cyfarwyddwr gweithredol yn cael lwfans etifeddol yn lle yswiriant meddygol preifat.</p>	<p>Yr uchafswm yswiriant a gynigir yw yswiriant teuluol.</p> <p>Budd hanesyddol yw hwn.</p>

Llywodraethu

Adroddiad cydnabyddiaeth – parhad

Elfen	Diben a'i chysylltiad â'r strategaeth	Gweithrediad	Y cyfle mwyaf
Contractau cyflogaeth a diswyddo	Mae contractau cyflogaeth cyfarwyddwyr gweithredol yn cynnwys cyfnod rhybudd o chwe mis ar y mwyaf, ond gellir eu terfynu'n gynt am reswm penodol.	Nid oes hawl gytundebol i unrhyw gydnabyddiaeth ychwanegol os terfynir contract yn gynnar oni bai ei fod yn cael ei derfynu ar sail diswyddo.	Os caiff swydd cyfarwyddwr gweithredol ei dileu, mae ganddo hawl i gael taliadau sy'n hafal i fis y flwyddyn hyd at uchafswm taliad o £150,000.
Cydnabyddiaeth arall	Nid oes unrhyw hawl i unrhyw gydnabyddiaeth arall, felly ni chafwyd unrhyw daliadau o'r fath yn ystod y flwyddyn.	Os cynigir unrhyw gydnabyddiaeth ychwanegol, rhoddir ystyriaeth lawn i'r risg i enw da'r BBC a byddai angen i unrhyw daliad o'r fath gael ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth cyn gweithredu.	Nid oes unrhyw uchafswm penodedig.

Pensiwn

Mae cyfarwyddwyr gweithredol a ymunodd â'r BBC cyn 1 Rhagfyr 2010 yn gymwys i barhau i fod yn rhan o Gynllun Pensiwn y BBC ('y Cynllun'), sy'n darparu buddiannau pensiwn ar sail buddiannau diffiniedig. Mae cyfarwyddwyr gweithredol a ymunodd â'r BBC ar neu ar ôl 1 Rhagfyr 2010 yn gymwys i ymuno â LifePlan, sef trefniant cyfraniad diffiniedig y BBC. Mae'r BBC yn talu cyfraniadau cyfatebol i LifePlan am gyfraniadau cyflogaeth o 5%. Caiff cyfraniadau cyflogaethion rhwng 6% a 7% eu cyfateb ynghyd ag 1% ychwanegol.

Mae cyfraniadau cyflogaethion o 8% neu fwy yn cael y cyfraniad cyflogwr uchaf o 10%. Nid oes unrhyw uchafswm cyflog pensiynadwy i'r rhai sy'n cyfrannu at LifePlan.

Caiff cyfarwyddwyr gweithredol sy'n penderfynu peidio ag ymuno â LifePlan neu nad ydynt eisoes yn aelod presennol o'r Cynllun, yn amodol ar fodloni'r meini prawf perthnasol, eu cofrestru'n awtomatig â'r Ymddiriedolaeth Cynilion Cyflogaeth Genedlaethol (NEST). Talodd y BBC 3% a thalodd cyflogaethion 5% o enillion cymwys i NEST yn 2022/23 yn unol â gofynion statudol. Gall unigolion ddewis ymeithrio o hyn.

Caiff trefniadau pensiwn cyfarwyddwyr gweithredol eu hadolygu a'u diwygio mewn ymateb i newidiadau mewn deddfwriaeth neu ddatblygiadau tebyg.

Rhoddir nodweddion trefniadau pensiwn y BBC y mae ein cyfarwyddwyr gweithredol yn rhan ohonynt ochr yn ochr â chyflogaethion eraill y BBC yn y tabl isod.

Mae manylion Cynllun Pensiwn y BBC ar gael yn: : bbc.co.uk/mypension/.

Cynllun	Cynllun Pensiwn Buddiannau Diffiniedig y BBC				Cyfraniad diffiniedig LifePlan	Cyfraniad diffiniedig (trefniant cofrestru awtomatig) Ymddiriedolaeth Cynilion Cyflogaeth Genedlaethol (NEST)
	Hen fuddiannau	Buddiannau newydd	CAB 2006	CAB 2011		
Dyddiad y'i caewyd	30 Medi 1996	31 Hydref 2006	30 Tachwedd 2010	1 Ionawr 2012	Yn agored i bob cyflogai cymwys	Yn agored i bob cyflogai cymwys
Croniad	60fed cronriad	60fed cronriad	1.67% o groniad Wedi'i addasu yn unol â chwyddiant	1.67% o groniad Wedi'i addasu yn unol â'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr	Bydd y BBC yn cyfrannu uchafswm o 10% o gyflog os bydd cyflogai yn cyfrannu 8% gyda graddfa symud is.	Bydd y BBC yn cyfrannu 3% o enillion cymwys (2022/23)
Cyflog	Pensiynadwy terfynol	Pensiynadwy terfynol	Enillion wedi'u hailbrisio cyfartaledd gyrfa	Enillion wedi'u hailbrisio cyfartaledd gyrfa		
Oedran pensiynadwy arferol	60	60	65	65	Dd/G	Dd/G
Cap ar enillion	Wedi ymuno cyn 1 Mehefin 1989, heb ei gapio, wedi'i gapio fel arall ar £181,800	Wedi'i gapio ar £181,800	Wedi'i gapio ar £181,800	Wedi'i gapio ar £164,400	Heb ei gapio	Isafswm enillion £6,240 y.f. Uchafswm enillion £50,270 y.f. (2022/23)
Twf mewn cyflog pensiynadwy cyn i'r cap ar enillion gael ei gymhwysu	Wedi'i gyfyngu ar 1% y.f.	Wedi'i gyfyngu ar 1% y.f.	Wedi'i gyfyngu ar 1% y.f.	Dim cyfyngiad	Dd/G	Dd/G
Cyfraniad cyflogai (% o gyflog pensiynadwy)	7.50%	7.50%	4%	6%	Isafswm cyfraniad y cyflogai yw 5%	5% o enillion cymwys (2022/23)

Cydnabyddiaeth flynyddol Bwrdd y BBC a'r Pwyllgor Gweithredol – manylion cydnabyddiaeth a dderbyniwyd

Mae'r tabl isod yn rhoi manylion llawn y gydnabyddiaeth a dderbyniwyd gan holl aelodau Bwrdd y BBC ar gyfer 2022/23.

Ceir manylion cadeiryddion pob un o wahanol bwyllgorau'r BBC ar dudalen 85. Mae pob cadeirydd yn cael £5,000 y flwyddyn yn ychwanegol at ei ffioedd sylfaenol. Cynhwysir y ffioedd hyn yn y tabl ar y dudalen ganlynol. Dangosir yr holl ffioedd yn pro-rata lle y bo'n briodol. Cydnabyddiaeth flynyddol Bwrdd y BBC a'r Pwyllgor Gweithredol – manylion am y gydnabyddiaeth a dderbyniwyd. Mae'r tabl isod yn rhoi manylion llawn am y gydnabyddiaeth a dderbyniwyd gan holl aelodau Bwrdd y BBC ar gyfer 2022/23.

Bwrdd y BBC (archwiliedig)

Manylion y gydnabyddiaeth a dderbyniwyd (gwerthoedd mewn £000oedd)

	Penodiad dyddiad dechrau'r tymor	Penodiad dyddiad diwedd y tymor	Blwyddyn	Cyflog sylfaenol ¹	Buddiannau trethadwy ²	Ffigur sengl sy'n gysylltiedig â phensiwn	Ar sail perfformiad	Cyfanswm
Cyfarwyddwyr anweithredol								
Richard Sharp ³	16/02/2021	27/06/2023	2022/23 2021/22	£160 £160	£12 £7	£0 £0	£0 £0	£172 £167
Shumeet Banerji	07/01/2022	31/12/2025	2022/23 2021/22	£33 £8	£0 £0	£0 £0	£0 £0	£33 £8
Damon Buffini	01/01/2022	31/12/2025	2022/23 2021/22	£38 £8	£0 £0	£0 £0	£0 £0	£38 £8
Shirley Garrood	03/07/2019	02/07/2023	2022/23 2021/22	£38 £38	£0 £0	£0 £0	£0 £0	£38 £38
Robbie Gibb	07/05/2021	06/05/2024	2022/23 2021/22	£43 £38	£0 £0	£0 £0	£0 £0	£43 £38
Muriel Gray	03/01/2022	02/01/2026	2022/23 2021/22	£38 £9	£0 £0	£0 £0	£0 £0	£38 £9
Tanni Grey-Thompson ⁴	03/04/2017	31/12/2021	2022/23 2021/22	£0 £25	£0 £0	£0 £0	£0 £0	£0 £25
Ian Hargreaves	03/04/2017	02/04/2023	2022/23 2021/22	£38 £38	£0 £0	£0 £0	£0 £0	£38 £38
Tom Ilube ⁵	03/04/2017	30/06/2021	2022/23 2021/22	£0 £10	£0 £0	£0 £0	£0 £0	£0 £10
Steve Morrison ⁶	03/04/2017	02/01/2022	2022/23 2021/22	£0 £29	£0 £0	£0 £0	£0 £0	£0 £29
Nicholas Serota ⁷	03/04/2017	02/04/2024	2022/23 2021/22	£38 £38	£0 £0	£0 £0	£0 £0	£38 £38
Elan Closs Stephens ⁸	20/01/2017	19/01/2024	2022/23 2021/22	£43 £43	£0 £0	£0 £0	£0 £0	£43 £43
			2022/23	£469	£12	£0	£0	£481
			2021/22	£444	£7	£0	£0	£451
Cyfanswm cyfarwyddwyr anweithredol								
Cyfarwyddwyr gweithredol								
Tim Davie ⁹	01/09/2020	dd/g	2022/23 2021/22	£525 £494	£3 £2	£0 £26	£0 £0	£528 £522
Charlotte Moore ¹⁰	01/09/2020	31/08/2024	2022/23 2021/22	£442 £425	£2 £2	£29 £39	£0 £0	£473 £466
Leigh Tavaziva ¹¹	01/02/2021	31/01/2025	2022/23 2021/22	£417 £400	£0 £0	£0 £0	£0 £0	£417 £400
Fran Unsworth ¹²	01/04/2019	27/01/2021	2022/23 2021/22	£0 £280	£0 £2	£0 £0	£0 £0	£0 £282
Deborah Turness ¹³	05/09/2022	04/09/2024	2022/23 2021/22	£233 £0	£0 £0	£0 £0	£0 £0	£233 £0
			2022/23	£1,617	£5	£29	£0	£1,651
			2021/22	£1,599	£6	£65	£0	£1,670
			2022/23	£2,086	£17	£29	£0	£2,132
			2021/22	£2,043	£13	£65	£0	£2,121

1 Caiff y ffigioedd eu dangos ar sail pro-rata lle gwnaeth yr aelodau adael neu ymuno yn ystod y flwyddyn

2 Buddiannau trethadwy lwfans car, yswiriant meddygol preifat/lwfans etifeddol a threuliau trethadwy eraill Mae'r Cadeirydd a'r Cyfarwyddwr Cyffredinol wedi defnyddio car â gyrrwr at ddbenion busnes yn unig

3 Ymddiswyddodd Richard Sharp o'i rôl fel Cadeirydd ar 28 Ebrill 2023 a gadawodd y BBC ar 27 Mehefin 2023 Cafodd ffi o £160,000 y flwyddyn, a benwyd gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, fel Cadeirydd Bwrdd y BBC Rhoddoddy y BBC y swm hwn, a dalwyd ar ôl Cyfraniadau Yswiriant Gwladol, i elusen ac fe'i gweinyddwyd drwy gynllun y BBC ar gyfer rhoi drwy'r gyflogres

4 Ymddiswyddodd Tanni Grey-Thompson o'r Bwrdd a gadawodd y BBC ar 31 Rhagfyr 2021 ac felly ni chafodd unrhyw gydnabyddiaeth yn 2022/23

5 Ymddiswyddodd Tom Ilube o'r Bwrdd a gadawodd y BBC ar 30 Mehefin 2021 ac felly ni chafodd unrhyw gydnabyddiaeth yn 2022/23

6 Ymddiswyddodd Steve Morrison o Fwrdd y BBC ar 2 Ionawr 2022 Parhaodd i fod yn Gyfarwyddwr ar Fwrdd Masnachol y BBC nes iddo ymddiswyddo o'i rôl ar 24 Mawrth 2023

7 Penodwyd Nicholas Serota am ail gyfnod a ddechreuodd ar 3 Ebrill 2021

8 Cafodd cyfnod penodiad cychwynnol Elan Closs Stephens fel Aelod Cymru ei ymestyn gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i redeg tan 19 Ionawr 2021 Cafodd ei phenodi i ail gyfnod a ddechreuodd ar 20 Ionawr 2021 Cafodd y cyfnod hwn ei ymestyn hyd at 19 Ionawr 2024 Yn dilyn hyn, cafodd ei phenodi'n Gadeirydd Dros Dro am gyfnod o 12 mis neu nes i Gadeirydd parhaol newydd gael ei benodi, pa un bynnag fydd gynharaf

9 Ymunodd Tim Davie â'r Bwrdd fel Prif Swyddog Gweithredol BBC Studios ar 3 Ebrill 2017 Dechreuodd ei gyfnod ex-officio pan gafodd ei benodi'n Gyfarwyddwr Cyffredinol Dewisodd beidio â bod yn aelod gweithredol o adran CAB 2011 yn 2021 ac nid yw'n cyfrannu at bensiwn y BBC ar hyn o bryd

10 Cafodd Charlotte Moore ei phenodi am ail gyfnod a ddechreuodd ar 1 Medi 2022

11 Cafodd Leigh Tavaziva ei phenodi am ail gyfnod a ddechreuodd ar 1 Chwefror 2023

12 Ymddiswyddodd Fran Unsworth o'r Bwrdd ar 27 Ionawr 2021 ac felly ni chafodd unrhyw gydnabyddiaeth yn 2022/23

13 Ymunodd Deborah Turness â'r Bwrdd ar 5 Medi 2022

Llywodraethu

Adroddiad cydnabyddiaeth – parhad

Mae'r tabl isod yn rhoi manylion llawn y gydnabyddiaeth a dderbyniwyd gan holl aelodau Pwyllgor Gweithredol y BBC ar gyfer 2022/23, o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae'r gydnabyddiaeth i'r aelodau a d dangosir isod yn ymwneud â'u cyfnod o wasanaeth ar y Pwyllgor Gweithredol yn unig. Er mwyn cael y symiau blynyddol llawn, cyfeiriwch at yr adran ar Ddatgeliadau ar dudalen 97.

Aelodau Pwyllgor Gweithredol y BBC (archwiliedig)

Manylion y gydnabyddiaeth a dderbyniwyd (gwerthoedd mewn £000oedd)

	Dyddiad y'i penodwyd i'r Pwyllgor	Blwyddyn	Cyflog sylfaenol ¹	Buddiannau trethadwy	Ffigur sengl sy'n gysylltiedig â phensiwn ²	Ar sail perfformiad	Cyfanswm
Tim Davie ³	01/11/2012	2022/23 2021/22	£525 £494	£3 £2	£0 £26	£0 £0	£528 £522
Charlotte Moore	06/07/2016	2022/23 2021/22	£442 £425	£2 £2	£29 £39	£0 £0	£473 £466
Leigh Tavaziva	01/02/2021	2022/23 2021/22	£417 £400	£0 £0	£0 £0	£0 £0	£417 £400
Fran Unsworth ⁴	01/01/2018	2022/23 2021/22	£0 £280	£0 £2	£0 £0	£0 £0	£0 £282
Kerris Bright	18/06/2018	2022/23 2021/22	£367 £360	£0 £0	£0 £0	£0 £0	£367 £360
Tom Fussell ⁵	01/09/2020	2022/23 2021/22	£450 £421	£0 £1	£0 £0	£388 £210	£838 £632
Jonathan Munro ⁶	28/01/2022	2022/23 2021/22	£142 £60	£0 £0	£14 £6	£0 £0	£156 £66
Gautam Rangarajan	01/06/2018	2022/23 2021/22	£217 £210	£0 £0	£47 £44	£0 £0	£264 £254
June Sarpong ⁷	01/11/2019	2022/23 2021/22	£36 £225	£0 £0	£0 £0	£0 £0	£36 £225
Bob Shennan ⁸	08/04/2019	2022/23 2021/22	£0 £310	£0 £2	£0 £44	£0 £0	£0 £356
Rhodri Talfan Davies	01/01/2021	2022/23 2021/22	£279 £263	£0 £0	£48 £44	£0 £0	£327 £307
Alan Dickson ⁹	17/12/2022	2022/23 2021/22	£87 £0	£0 £0	£0 £0	£0 £0	£87 £0
Deborah Turness ¹⁰	05/09/2022	2022/23 2021/22	£233 £0	£0 £0	£0 £0	£0 £0	£233 £0
Uzair Qadeer ¹¹	27/02/2023	2022/23 2021/22	£29 £0	£22 £0	£0 £0	£0 £0	£51 £0
Alice Macandrew ¹²	30/01/2023	2022/23 2021/22	£51 £0	£0 £0	£0 £0	£0 £0	£51 £0
Cyfanswm y Pwyllgor Gweithredol		2022/23 2021/22	£3,275 £3,448	£27 £9	£138 £203	£388 £210	£3,828 £3,870

1 Caiff cyflog sylfaenol ei ddangos ar sail pro-rata lle gwnaeth yr aelodau adael neu ymuno yn ystod y flwyddyn

2 Gwneir cyfraniadau pensiwn cyflogion fel arfer drwy drefniant aberthu cyflog fel cyfraniad y cyflogwr, gyda gostyngiad cyfatebol mewn cyflog. Nid yw cyflogau sylfaenol cyfarwyddwyr gweithredol wedi'u haddasu i adlewyrchu effaith y cyflog a aberthir er mwyn ei gwneud yn bosibl i gymharu â blynyddoedd blaenorol cyn i'r trefniant aberthu cyflog gael ei gyflwyno. Yn gyffredinol, cyfrifir y ffigur sengl sy'n gysylltiedig â phensiwn fel 20 gwaith y cynnydd yn y pensiwn cronodig dros y flwyddyn yn glir o chwyddiant, llai cyfraniadau buddiannau diffiniedig y cyfarwyddwyr, ynghyd â chyfraniadau diffiniedig y cyflogwr. Dangosir hyn yn fanwl hefyd yn y tabl hawliadau posibl pensiwn buddiannau diffiniedig

3 Dewisodd Tim Davie beidio â bod yn aelod gweithredol o adran CAB 2011 yn 2021 ac nid yw'n cyfrannu at drefniant pensiwn y BBC

4 Gadawodd Fran Unsworth y BBC ar 27 Ionawr 2022 ac felly ni chafodd unrhyw gydnabyddiaeth yn 2022/23

5 Ariennir rôl Tom Fussell yn gyfan gwbl gan reffeniw masnachol y BBC ac nid yw ffrif drwydded yn talu amdani nac yn ei chymorthdalu. Telir unrhyw fonws yn amodol ar gyflawni targedau perfformiad. Telir dwy ran o dair o'r bonws yn fuan ar ôl diwedd blwyddyn ariannol 2022/23, gydag un rhan o dair wedi'i gohirio am hyd at dair blynedd

6 Penodwyd Jonathan Munro yn Gyfarwyddwr Interim Newyddion a Materion Cyfoes y BBC ac ymunodd â'r Pwyllgor Gweithredol ar 28 Ionawr 2022. Ymddiswyddodd o'r Pwyllgor Gweithredol ar 5 Medi 2022 pan ymunodd Deborah Turness â'r BBC fel Prif Swyddog Gweithredol Newyddion

7 Gadawodd June Sarpong y BBC ar 30 Medi 2022

8 Gadawodd Bob Shennan y BBC ar 31 Mawrth 2022 ac felly ni chafodd unrhyw gydnabyddiaeth yn 2022/23

9 Penodwyd Alan Dickson yn Brif Swyddog Ariannol ac ymunodd â'r Pwyllgor Gweithredol ar 17 Rhagfyr 2022

10 Penodwyd Deborah Turness yn Brif Swyddog Gweithredol Newyddion ac ymunodd â'r Pwyllgor Gweithredol ar 5 Medi 2022

11 Penodwyd Uzair Qadeer yn Brif Swyddog Pobl ac ymunodd â'r Pwyllgor Gweithredol ar 27 Chwefror 2023. Mae'r buddiannau'n ymwneud â pheycyn adleoli y cytunwyd arno

12 Penodwyd Alice Macandrew yn Gyfarwyddwr Materion Corfforaethol y Grŵp ac ymunodd â'r Pwyllgor Gweithredol ar 30 Ionawr 2023

Cyfanswm cydnabyddiaeth – y Bwrdd a'r Pwyllgor Gweithredol (archwiledig)

Cyfanswm y gydnabyddiaeth (gwerthoedd mewn £000oedd)	2022/23	2021/22
Cyfanswm y Pwyllgor Gweithredol (gan gynnwys cyfarwyddwyr gweithredol y Bwrdd)	£3,828	£3,870
Cyfarwyddwyr anweithredol y Bwrdd	£481	£451
Cyfanswm cydnabyddiaeth flynyddol	£4,309	£4,321

Hawliadau posibl pensiwn buddiannau diffiniedig (gwerthoedd mewn £000oedd)

	Oedran ar 31 Mawrth 2023	Adran	Pensiwn cronedig 31 Mawrth 2023 (neu ar adeg ymddeol/ gadael y bwrdd os yw hynny'n gynt)	Pensiwn cronedig 1 Ebrill 2022 (neu ymuno â'r Bwrdd os ar ôl hynny)	Cyfraniadau buddiannau diffiniedig cyfarwyddwyr (drwy drefniant aberthu cyflog) 2022/2023	Ffigur sengl sy'n gysylltiedig â phensiwn
		Buddiannau				
Charlotte Moore	54	newydd	43	39	12	29
Gautam Rangarajan	51	CAB 2011	29	25	10	47
Rhodri Talfan Davies	52	CAB 2011	30	26	10	48
		Hen				
Alan Dickson	55	fuddiannau	35	34	2	0

Cyflog cymharol drwy'r BBC cyfan

Cytunodd y Pwyllgor, o 2021/22, y byddai cymhareb enillion y Cyfarwyddwr Cyffredinol i gyflog chwarter isaf, canolig ac uchaf cyflogeion yn y DU yn cael ei datgelu'n wirfoddol bob blwyddyn. Mae hyn yn sicrhau bod datgeliad y BBC yn unol â chwmnïau rhestrredig sy'n cyhoeddi cymhareb cyflog eu Prif Swyddog Gweithredol o gymharu â chyflogeion y DU o dan Reoliadau Cwmnïau a Grwpiau Mawr a Chanolig eu Maint (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008 ('Rheoliadau').

Mae'r cwmni wedi dewis Opsiwn A i nodi cyflogeion ar y chwarter isaf, canolig ac uchaf a'u priod gyflogau a buddiannau, gan gynnwys cyfraniadau pensiwn, oherwydd y cydnabyddir mai dyna'r dull mwyaf cywir i'w ddefnyddio a'r hyn a ystyrir yn arfer gorau'r farchnad. Mae pob un o gyflogeion darlledu cyhoeddus llawn amser y DU ar ddiwedd y flwyddyn ariannol wedi cael eu cynnwys yn yr adroddiadau, a chaiff y cyflogeion eu sgorio yn seiliedig ar eu cydnabyddiaeth ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2022/23.

Mae'r tabl isod yn nodi cyfanswm gwerth y cyflogau a buddiannau a dderbyniwyd gan gyflogeion a nodwyd yn y chwarter isaf, canolig ac uchaf ar 31 Mawrth 2023.

2022/23	25ain canradd	50fed canradd	75ain canradd
Cyfanswm y Cyflogau a'r Buddiannau	£43,399	£57,194	£75,491
Cyflogau	£39,604	£49,305	£60,325

Cymhareb y Cyfarwyddwr Cyffredinol

Mae'r gymhareb cyflogau yn gymharol gyson â'r flwyddyn flaenorol. Mae'r Pwyllgor yn fodlon ei fod yn gyson â'r codiadau cyflog a'r polisiâu gwobrwyo ar gyfer ein cyflogeion darlledu cyhoeddus yn y DU.

Blwyddyn	Cymhareb cyflog 25ain canradd	Cymhareb cyflog ganolrifol	Cymhareb cyflog 75ain canradd
2023	12.1:1	9.2:1	7.0:1
2022	12.8:1	9.7:1	7.3:1

Llywodraethu

Adroddiad cydnabyddiaeth – parhad

Mae'r tabl isod yn rhoi crynodeb o'r newidiadau i enillion arian parod y Cyfarwyddwr Cyffredinol ar gyfer 2022/2023 o gymharu â'r newid yn enillion canolrifol y BBC cyfan dros yr un cyfnod.

	2022/23 (gwerthoedd mewn £000oedd)	Newid ers 2021/22
Enillion y Cyfarwyddwr Cyffredinol	525	0%
Enillion canolrifol drwy'r BBC cyfan	49.3	1%

Nid yw'r cyfrifiad o enillion ar draws y BBC yn cynnwys cyfraniadau pensiwn nac enillion y Pwyllgor Gweithredol.

Mae'r tybiaethau data a gynhwyswyd yn ein hadroddiadau fel a ganlyn:

Elfen	Disgrifiad
Cyflog sylfaenol	Rydym wedi defnyddio'r cyfwerth ag amser llawn, ar ddiwedd y flwyddyn, fel y ffigur cyflogau i sgorio ein cyflogeion. Mae symiau cyflog sylfaenol hefyd yn cynnwys unrhyw gynnydd mewn lwfansau a lwfansau dros dro ar gyfer ymlyniadau o fewn adrannau/rolau eraill yn y sefydliad.
Lwfansau a buddiannau	Mae hyn yn cynnwys ystod o lwfansau lleoliad, ar sail rôl a buddiannau cyflogeion a gynhwyswyd ar sail pro-rata ar gyfer cydweithwyr rhan amser.

Taliadau diswyddo

Ni thalwyd unrhyw daliadau diswyddo i gyfarwyddwyr gweithredol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023.

Buddiannau allanol

Drwy gytundeb ymlaen llaw gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol, gall aelodau Gweithredol y BBC ddal swyddi cyfarwyddwyr allanol â chydabyddiaeth. Dylai prif ddiben swydd cyfarwyddwr allanol ymwneud â chefnogi datblygiad personol a datblygiad gyrfa a thrwy hynny gyfrannu at y BBC.

Gall yr unigolyn gadw cydnabyddiaeth sy'n deillio o swyddi cyfarwyddwyr allanol, ond rhaid cymeradwyo hynny'n ffurfiol. Gall cyfarwyddwyr gweithredol hefyd ddal swyddi na thelir cydnabyddiaeth mewn perthynas â hwy y tu allan i'r BBC. Ni chaniateir mwy nag un neu ddau ddiwrnod y mis i gyflawni'r holl ddyletswyddau allanol.

Busnesau masnachol y BBC

Yn ystod 2022/23, roedd gan y BBC staff a gyflogwyd gan dri phrif is-gwmni masnachol:

- BBC Studios (gan gynnwys BBC Global News)
- BBC Studioworks
- UKTV

Mae cydnabyddiaeth yn yr is-gwmnïau masnachol yn ddarostyngedig i brosesau llywodraethu a chymeradwyo'r BBC. Mae polisi cydnabyddiaeth yn yr is-gwmnïau yn cynnwys darparu bonws blynyddol cytundebol sydd ar gael i staff cymwys, gan gynnwys cyfarwyddwyr, ac mae'n amrywio rhwng endidau masnachol. Caiff costau llawn cyflog sylfaenol a'r bonws blynyddol eu hunanariannu gan reffeniw masnachol pob is-gwmni ac ni chânt eu cymorthdalau drwy ffi'r drwydded.

Cynllun Bonws Cwmni BBC Studios

Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn goruchwyllo'r ffordd y mae Cynllun Bonws Cwmni BBC Studios wedi'i lunio a'i alldro.

Yn dilyn adolygiad o'r cynllun, cytunodd y Pwyllgor i gynyddu pwysoliad EBITDA fel yr unig fesur ariannol, i gynnwys mesur am gyrraedd targedau sy'n gysylltiedig â'r Mynegai Uwch-arweinwyr (a gaiff ei fesur ar lefel cwmni), ac i gynyddu pwysoliad amcanion personol unigol yn seiliedig ar strategaeth BBC Studios. Bydd yr amcanion personol yn parhau i gael eu rhannu â'r Pwyllgor bob blwyddyn.

Roedd y mesuriadau a'r priod bwysoliadau ar gyfer cynllun 2022/23 fel a ganlyn:

- EBITDA, wedi'i bwysoli 60%
- Mynegai Uwch-arweinwyr, wedi'i bwysoli 10%
- Amcanion personol unigol, wedi'u pwysoli 30%.

O ganlyniad i'r broses o adolygu'r bonws, cytunodd y Pwyllgor hefyd i gynyddu'r cyfle i gael bonws ar y targed ac am berfformiad eithriadol ar gyfer yr Uwch-bwyllgor Gweithredol ac Uwch-arweinwyr sy'n cymryd rhan yn y cynllun. Mae hyn yn golygu bod cyfanswm yr iawndal unigol yn agosach at lefelau'r farchnad a bydd hyn yn helpu i sicrhau bod gan BBC Studios y gallu i ddenu a chadw'r dalent allweddol sydd ei hangen i gyflawni'r strategaeth y cytunwyd arni gan y Bwrdd. Mae elfen o ohirio yn perthyn i'r bonws, gydag un rhan o dair yn cael ei gohirio am hyd at dair blynedd, i'r cyfranwyr sydd yn y swyddi uchaf yn unig.

Canlyniadau 2022/23

Ar gyfer 2022/23, rhagorodd y mesur ariannol (EBITDA) ar y targed a bennwyd ar gyfer perfformiad eithriadol, ac o ganlyniad gwnaed y taliad uchaf ar gyfer yr elfen hon o'r bonws. Roedd canlyniad y mesur arwain (Mynegai Uwch-arweinwyr) yn uwch na lefel y trothwy ar gyfer taliadau, ond ychydig yn is na'r targed. Adolygodd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth berfformiad Prif Swyddog Gweithredol BBC Studios yn erbyn ei amcanion personol, a phenderfynwyd ei fod wedi perfformio ar y lefel uchaf. O ganlyniad i'r cyfuniad o ganlyniadau'r Cwmni a pherfformiad personol, gwnaed dyfarniad bonws o 86.25% (£388,125) i Brif Swyddog Gweithredol BBC Studios mewn perthynas â pherfformiad yn ystod y flwyddyn. Caiff un rhan o dair o gyfanswm y taliad hwn ei gohirio dros y dair blynedd ddilynol.

Datgeliadau cyflogau

Adroddiad gan Bwyllgor Cydnabyddiaeth y BBC ar y bobl a gafodd eu talu dros £178,000 o reffeniw ffi'r drwydded yn ystod y flwyddyn ariannol

Bob blwyddyn, ers 2017, mae wedi bod yn ofynnol i'r BBC gyhoeddi yn yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon restr o'r unigolion hynny, ar yr awyr ac oddi ar yr awyr, sy'n cael mwy na £150,000 o reffeniw ffi'r drwydded yn ystod y flwyddyn. Byddwn hefyd yn cyhoeddi manylion ychwanegol am y gwaith penodol a wnaed gan unigolion ar yr awyr am y gydnabyddiaeth a gawsant.

Pan gyhoeddwyd Siarter Frenhinol y BBC gan y Llywodraeth yn 2016, roedd yn cynnwys, yng nghymal 65, fformiwla penodol ar gyfer diwygio'r lefel o £150,000, o fis Mehefin 2022. Mae'r cymal yn nodi:

*The following indexation formula is to be used to vary the amounts specified in article 37 (Annual Report) on 1st June 2022 and 1st June 2026:
(CPIA / CPIB) x 100*

Where: CPIA represents the Consumer Price Index all items index figure for the month before the proposed variation is to be made; and CPIB represents the Consumer Price Index all items index figure for the month before 1st January 2017.

Drafftwyd y cymal er mwyn cydnabod y byddai chwyddiant cyflogau dros amser yn arwain at nifer cynyddol o unigolion yn cael eu cynnwys yn y datgeliadau, felly mae'r addasiad hanner ffordd drwy'r Siarter yn sicrhau bod y trothwy ar gyfer datgeliadau yn cyd-fynd â newidiadau'r farchnad.

Gan ddefnyddio'r cyfrifiad a nodwyd yn y Siarter, mae'r trothwy ar gyfer datgeliadau wedi symud i £178,000 ac mae'r tudalennau canlynol yn nodi'r holl unigolion uwchlaw'r lefel hon. Caiff y datgeliad ei gyfrifo a'i gyhoeddi yn yr un ffordd ag mewn blynyddoedd blaenorol. Yn y cyfamser, rydym yn parhau i weithredu mewn marchnadoedd lle mae'r gystadleuaeth am dalent a chyfraddau chwyddiant cyflogau cyffredinol yn arwain at heriau sylweddol.

Ar gyfer y flwyddyn drawsnewidiol hon yn unig, rydym yn cyhoeddi isod fanylion cyfanredol yn dangos sut beth fyddai datgeliad o £150,000 o gymharu â 2021/22. Rydym hefyd yn cyhoeddi manylion cyfanredol isod yn dangos cyfanswm nifer y bobl yn y datgeliadau yn 2017/18 (y flwyddyn gyntaf y cyhoeddwyd y datgeliadau), ynghyd â chyfanswm cyfanredol y rhestrau ar y tudalennau canlynol.

	2017/18 – dros £150k			2021/22 – dros £150k			2022/23 – dros £150k			2022/23 – dros £178k		
	Ar yr awyr	Oddi ar yr awyr	Cyfanswm	Ar yr awyr	Oddi ar yr awyr	Cyfanswm	Ar yr awyr	Oddi ar yr awyr	Cyfanswm	Ar yr awyr	Oddi ar yr awyr	Cyfanswm
Cyfanswm	64	92	156	74	105	179	87	133	220	68	67	135
Menywod	22 (34%)	32 (35%)	54 (35%)	33 (45%)	48 (46%)	81 (45%)	37 (43%)	71 (53%)	108 (49%)	28 (41%)	32 (48%)	60 (44%)

Tablau cyflog talent ar yr awyr

Dangosir yr unigolion ar y rhestr hon fesul categori: Newyddion, Radio, Chwaraeon, a chyflwynwyr sy'n gweithio'n rheolaidd ar draws sawl rhan o'r BBC gan gynnwys Teledu. Mae'r ffigurau hyn yn cynnwys taliadau o reffeniw ffi'r drwydded yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023 am wasanaethau a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn. Nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys unrhyw beth y gellir ailgodi tâl amdano, symiau a dalwyd na buddsoddiadau mewn rhaglenni a wnaed gan ein hendidau masnachol – er enghraifft BBC Studios. Hefyd, nid ydynt yn cynnwys taliadau a wnaed gan gynhyrchwyr annibynnol, breindaliadau, ffioedd ailddarlledu, symiau adenilladwy cytundebol a symiau adenilladwy eraill, na threuliau. Nodir ymrwymadau rhaglenni ar sail ymrwymadau cytundebol neu batrymau gwaith eraill, ac maent wedi'u datgan i'r 10 agosaf yn gyffredinol. Mae'r rhain wedi'u datgelu'n gyson ar gyfer pob prif raglen neu genre. Ni chaiff penodau unigol eu cynnwys, oni fydd hyn yn cyfrif am ran sylweddol o waith unigolyn.

Llywodraethu

Datgeliadau cyflogau – parhad

Talent ar yrawyr

Prif raglen	Enw	Ymrwymiadau rhaglen	Cyflog
Newyddion a Materion Cyfoes			
<i>Today</i>	Amol Rajan	Tua 80 o ddiwrnodau cyflwyno <i>Amol Rajan Interviews</i> Rhaglenni dogfen teledu Radio 4 <i>Rethink</i> Golygydd y Cyfryngau (hyd at fis Rhagfyr 2022)	£335,000-£339,999
	Mishal Husain	Tua 135 o ddiwrnodau cyflwyno Tua 20 o ddiwrnodau cyflwyno ar gyfer BBC One <i>Today Debates</i> ar gyfer Radio 4	£315,000-£319,999
	Justin Webb	Tua 140 o ddiwrnodau cyflwyno Podlediad <i>Americast</i>	£280,000-£284,999
	Nick Robinson	Tua 140 o ddiwrnodau cyflwyno Podlediad <i>Political Thinking</i>	£275,000-£279,999
	Martha Kearney	Tua 140 o ddiwrnodau cyflwyno	£260,000-£264,999
<i>World at One</i>	Sarah Montague	Tua 180 o ddiwrnodau cyflwyno Cyflenwi ar gyfer <i>HARDTalk</i>	£245,000-£249,999
<i>PM</i>	Evan Davis	Tua 200 o raglenni <i>The Bottom Line</i> ar Radio 4	£280,000-£284,999
<i>BBC News at Six</i> a <i>BBC News at Ten</i>	Huw Edwards	Tua 180 o ddiwrnodau cyflwyno ar gyfer BBC One Rhaglenni Newyddion Arbennig	£435,000-£439,999
	Sophie Raworth	Tua 180 o ddiwrnodau cyflwyno ar gyfer BBC One Rhaglen bore dydd Sul Rhaglenni dogfen teledu	£365,000-£369,999
	George Alagiah	Tua 180 o ddiwrnodau cyflwyno ar gyfer BBC One	£335,000-£339,999
	Clive Myrie	Tua 135 o ddiwrnodau cyflwyno ar gyfer BBC One Sianel BBC News Rhaglenni dogfen teledu Lleoliadau rhyngwladol	£285,000-£289,999
<i>BBC News at One</i> , <i>BBC News at Six</i> a <i>BBC News at Ten</i>	Reeta Chakrabarti	Bwletinau BBC One Sianel BBC News Gwaith ar leoliad	£215,000-£219,999
<i>Question Time</i>	Fiona Bruce	Tua 40 o benodau o <i>Question Time</i> Tua 25 o ddiwrnodau cyflwyno ar gyfer BBC One	£395,000-£399,999
<i>Newsnight</i>	Victoria Derbyshire	Tua 60 o ddiwrnodau cyflwyno (o fis Medi 2022) Bwletinau sianel BBC News a BBC One (hyd at fis Medi 2022) <i>Any Questions</i> Podlediad <i>UkraineCast</i>	£295,000-£299,999
	Kirsty Wark	Tua 105 o ddiwrnodau cyflwyno Rhaglenni Newyddion Arbennig <i>Start the Week</i> ar Radio 4	£280,000-£284,999
<i>BBC Breakfast</i>	Charlie Stayt	Tua 180 o ddiwrnodau cyflwyno	£190,000-£194,999
	Jon Kay	Tua 130 o ddiwrnodau cyflwyno (o fis Gorffennaf 2022) Gohebydd Newyddion a chyflenwi ar gyfer <i>BBC Breakfast</i> (hyd at fis Gorffennaf 2022)	£185,000-£189,999
	Sally Nugent	Tua 180 o ddiwrnodau cyflwyno	£178,000-£184,999
<i>Sunday with Laura Kuennsberg</i>	Laura Kuennsberg	Tua 30 o raglenni Rhaglenni dogfen teledu Podlediad <i>NewsCast</i> Golygydd Golygyddol (hyd at fis Mai 2022)	£305,000-£309,999
<i>HARDtalk</i>	Stephen Sackur	Cyfweliadau <i>HARDtalk</i>	£190,000-£194,999
<i>BBC World News</i>	Yalda Hakim	Cyflwyno BBC World News Rhaglenni dogfen teledu	£178,000-£184,999
	Matthew Amroliwala	Cyflwyno BBC World News a sianel BBC News	£178,000-£184,999

Prif raglen	Enw	Ymrwymadau rhaglen	Cyflog
Newyddion a Materion			
Cyfoes (parhad)			
<i>Golygyddion a gohebwywr ar yr awyr</i>	Ros Atkins	Golygydd Dadansoddi Cyflwyno <i>Outside Source</i> Ros Atkins <i>On the Week</i> <i>The Media Show</i> ar gyfer Radio 4	£260,000-£264,999
	Faisal Islam	Golygydd Economaidd Cyflenwi ar gyfer <i>Newsnight</i>	£230,000-£234,999
	Jeremy Bowen	Golygydd y Dwyrain Canol	£230,000-£234,999
	Katya Adler	Golygydd Ewrop Cyflwyno <i>Today</i>	£225,000-£229,999
	Chris Mason	Golygydd Gwleidyddol (o fis Mai 2022) <i>Any Questions</i> ar gyfer Radio 4 (hyd at fis Mehefin 2022)	£225,000-£229,999
	Sarah Smith	Golygydd Gogledd America	£220,000-£224,999
	Fergal Keane	Gohebydd Arbennig	£215,000-£219,999
	Simon Jack	Golygydd Busnes Cyflenwi ar gyfer <i>Today</i> ar Radio 4	£210,000-£214,999
	Lyse Doucet	Prif Ohebydd Rhyngwladol	£205,000-£209,999
	Mark Easton	Golygydd Cartref	£195,000-£199,999
	Jonny Dymond	Gohebydd Brenhinol <i>The World This Weekend</i> ar Radio 4 Cyflenwi ar gyfer <i>PM</i> a <i>The World at One</i> ar Radio 4 <i>World Questions</i> Rhaglenni dogfen ar y radio a phodlediadau	£195,000-£199,999
	Orla Guerin	Gohebydd Rhyngwladol	£178,000-£184,999
	John Simpson	Golygydd Materion y Byd <i>Unspun World with John Simpson</i>	£178,000-£184,999
Radio			
BBC Radio 1	Greg James	Tua 220 o benodau o Raglen Frecwast Radio 1 <i>Rewinder</i> ar Radio 4 <i>Radio 1's Big Weekend</i>	£395,000-£399,999
BBC Radio 2	Zoe Ball	Tua 10 o benodau o <i>The Zoe Ball Breakfast Show</i> Rhoglen deyrnged i Terry Wogan ar Radio 2	£980,000-£984,999
	Ken Bruce	<i>Radio 2 Mid Morning Show</i> <i>Radio 2 Eurovision</i> a <i>PopMaster Special</i>	£390,000-£394,999
	Steve Wright	Tua 120 o benodau o <i>Steve Wright in the Afternoon</i> Tua 50 o benodau o <i>Sunday Love Songs</i> Tua 10 rhaglen arbennig ar Radio 2	£360,000-£364,999
	Scott Mills	Tua 95 o benodau o'r rhaglen ar Radio 2 (o fis Tachwedd 2022) Tua 90 o benodau o'r rhaglen ar Radio 1 (hyd at fis Tachwedd 2022) Tua 20 o benodau o <i>Scott Mills and Chris Stark Show</i> ar Radio 5 live Cyflenwi ar Radio 1 a Radio 2 <i>Radio 1's Big Weekend</i> Jubilee Weekend Radio 2	£300,000-£304,999
	Jeremy Vine	Tua 230 o raglenni dyddiol <i>Radio 2 All Stars</i>	£285,000-£289,999
	Sara Cox	Tua 230 o benodau o <i>Drivetime Show</i> ar Radio 2	£285,000-£289,999
	Trevor Nelson	Tua 180 o benodau o <i>Rhythm Nation</i> Tua 50 o Raglenni ar y Penwythnos ar Radio 1Xtra Parti Pen-blwydd 1Xtra <i>Lamont Dozier at the BBC</i> <i>Radio 1 All Stars</i>	£240,000-£244,999
	Jo Whiley	Tua 150 o benodau o Raglen Gyda'r Nos Radio 2 <i>Radio 2 All Stars</i> ; <i>Radio 2 Piano Room</i> <i>Things You Didn't Know About Pop</i>	£230,000-£234,999

Llywodraethu

Datgeliadau cyflogau – parhad

Prif raglen	Enw	Ymrwymiadau rhaglen	Cyflog
Radio (parhad) BBC Radio 4	Emma Barnett	Tua 110 o benodau o <i>Woman's Hour</i> Tua 20 o benodau o <i>Newsnight</i>	£185,000-£189,999
BBC Radio 5 Live	Nicky Campbell	Tua 110 o benodau o <i>Breakfast Show</i> ar 5 Live Tua 110 o benodau o <i>Your Call</i> Tua 90 o benodau o <i>Nicky Campbell Show</i> ar 5 Live	£295,000-£299,999
	Rachel Burden	Tua 200 o benodau o <i>Breakfast Show</i> ar 5 Live Tua 20 o benodau o <i>BBC Breakfast</i> Cyflenwi ar gyfer <i>Your Call</i>	£195,000-£199,999
	Colin Murray	Tua 170 o benodau o <i>Colin Murray Show</i> ar 5 Live Tua 40 o benodau o <i>Fighting Talk</i> ar 5 Live	£185,000-£189,999
	Rick Edwards	Tua 230 o benodau o <i>Breakfast</i> ar 5 Live Podlediad <i>NewsCast</i> <i>Pick of the Week</i> <i>Podcast Radio Hour</i> ar Radio 4	£178,000-£184,999
BBC 6 Music	Lauren Laverne	Tua 210 o benodau o <i>Breakfast Show</i> ar 6 Music Tua 40 o benodau o <i>Desert Island Discs</i> ar Radio 4	£390,000-£394,999
	Craig Charles	Tua 210 o benodau o raglen brynhawn 6 Music yn ystod yr wythnos Tua 50 o benodau o <i>The Craig Charles Funk and Soul Show</i> Tua 10 pennod o raglen brynhawn 6 Music ar Radio 2	£178,000-£184,999
Gorsafoedd gwahanol	Stephen Nolan	<i>The Nolan Show</i> ar Radio Ulster <i>Nolan Live</i> ar BBC 1 (NI) <i>Stephen Nolan Show</i> ar 5 Live	£400,000-£404,999
Chwaraeon Pêl-droed dynion	Gary Lineker	<i>Match of the Day: Premier League, FA Cup a World Cup 2022; Sports Personality of the Year</i>	£1,350,000-£1,354,999
	Alan Shearer	<i>Match of the Day: Premier League, FA Cup a World Cup 2022</i>	£445,000-£449,999
	Jermaine Jenas	<i>Match of the Day: Premier League, FA Cup a World Cup 2022</i> MOTDx	£190,000-£194,999
Pêl-droed Dynion a Menywod	Alex Scott	<i>Football Focus, Women's Super League, World Cup 2022, UEFA Women's Euro 2022</i> <i>Sports Personality of the Year</i>	£185,000-£189,999
Criced	Jonathan Agnew	Criced Teledu a Radio (Prawf, un diwrnod ac ugain pelawd); Gohebydd Criced y BBC	£185,000-£189,999
	Michael Vaughan	Criced Teledu a Radio (Prawf, un diwrnod ac ugain pelawd)	£178,000-£184,999
Tenis	John McEnroe	Wimbledon	£205,000-£209,999
	Sue Barker	Wimbledon a Queen's	£185,000-£189,999
Gwahanol gampau	Mark Chapman	Tua 120 o benodau o <i>Sport</i> ar 5 Live <i>Match of the Day 2</i> Cwpan Pêl-droed y Byd 2022 Cwpan Her a Chwpan Rybgi'r Gynghair y Byd 2022	£325,000-£329,999
	Gabby Logan	Pêl-droed Cwpan Pêl-droed y Byd 2022 Ewros UEFA i Fenywod 2022 Athletau Rybgî'r Undeb Pencampwriaeth Ewrop Gemau'r Gymanwlad <i>Sports Personality of the Year</i>	£240,000-£244,999
	Clare Balding	Y Ras Gychod Ride London Sioe Geffylau Ryngwladol Burghley a Llundain Eastbourne a Wimbledon Gemau'r Gymanwlad Pencampwriaeth Ewrop <i>Sports Personality of the Year</i> Tua 20 o raglenni ar Radio 4	£178,000-£184,999

Genres gwahanol a theledu

Mae nifer bach o unigolion sydd â chydberthnasau aml-flwyddyn â chomisiynu'r BBC eisoes. Nid yw taliadau gan BBC Studios wedi eu cynnwys yn y datgeliad, ac efallai y cânt daliadau gan gynhyrchwyr annibynnol hefyd. Yn yr adran hon, rydym hefyd yn cynnwys cyflwynwyr sy'n treulio bron 50% o'u hamser mewn mwy nag un maes o blith Teledu, Radio, Newyddion a Chwaraeon.

Prif raglen	Enw	Ymrwymadau rhaglen	Cyflwg
Radio a Theledu	Naga Munchetty	Tua 180 o ddiwrnodau cyflwyno <i>BBC Breakfast</i> Tua 140 o raglenni <i>Naga Munchetty</i> ar 5 Live	£335,000-£339,999
	Tina Daheley	<i>Breakfast Show</i> ar Radio 2 Cyflenwi ar gyfer <i>Jeremy Vine</i> Bwletinau Newyddion BBC One BBC Breakfast <i>Cultural Frontline</i> ar gyfer BBC World Service	£240,000-£244,999
Radio a Chwaraeon	Jason Mohammad	BBC Radio Wales (LLun-Mercher) <i>Match of the Day Wales</i> <i>Final Score</i> Gemau'r Gymanwlad BBC Radio 2 (<i>Good Morning Sunday</i>)	£255,000-£259,999
Teledu a Phodlediadau	Louis Theroux	Ffi gan y BBC am amrywiaeth o raglenni a chyfresi	£200,000-£204,999
Teledu	Mary Berry	Ffi gan y BBC am amrywiaeth o raglenni a chyfresi	£215,000-£219,999

Llywodraethu

Datgeliadau cyflogau – parhad

Uwch-swyddogion gweithredol

Rydym yn cyhoeddi cyflog a threuliau pob uwch-arweinydd sy'n ennill dros £178,000 yng ngwasanaethau cyhoeddus y BBC ar ein gwefan. O dan delerau ein Siarter, mae'n rhaid i ni gyhoeddi adroddiad gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth sy'n rhestru holl uwch-swyddogion gweithredol y BBC y talwyd mwy na £178,000 iddynt o refferniw ffi'r drwydded am wasanaethau yn ystod y flwyddyn ariannol, a nodir mewn bandiau cyflog. Nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys unrhyw beth y gellir ailgodi tâl amdano na symiau a dalwyd o'n hendidau masnachol.

Cyflog	Enw	Rôl
Cyfarwyddwr Cyffredinol		
£525,000-£529,999	Tim Davie	Cyfarwyddwr Cyffredinol
Pwyllgor Gweithredol		
£440,000-£444,999	Charlotte Moore	Prif Swyddog Cynnwys
£415,000-£419,999	Leigh Tavaziva	Prif Swyddog Gweithredu'r Grŵp
£365,000-£369,999	Kerris Bright	Prif Swyddog Cwsmeriaid
£275,000-£279,999	Rhodri Talfan Davies	Cyfarwyddwr y Gwledydd
£235,000-£239,999	Alan Dickson	Prif Swyddog Ariannol
£230,000-£234,999	Deborah Turness	Prif Swyddog Gweithredol Newyddion a Materion Cyfoes
£215,000-£219,999	Gautam Rangarajan	Cyfarwyddwr Strategaeth a Pherfformiad y Grŵp
Swyddogaethau Corfforaethol		
£315,000-£319,999	Sarah Jones	Cwnsler Cyfreithiol y Grŵp
£225,000-£229,999	John Shield	Cyfarwyddwr Cyfathrebu
£220,000-£224,999	Balram Veliath	Cyfarwyddwr Ansawdd, Risg a Sicrwydd
	Shirley Cameron	Cyfarwyddwr Rheoli Refeniw a Chwsmeriaid
	Eddy Datubo	Cyfarwyddwr Gweithrediadau a Thrawsnewid
£215,000-£219,999	Joanna Abeyie	Pennaeth Amrywiaeth Greadigol
£205,000-£209,999	Peter Ranyard	Cyfarwyddwr Cyfreithiol Corfforaethol
£200,000-£204,999	Peter Johnston	Cyfarwyddwr Cwysion Golygyddol ac Adolygiadau Golygyddol ac Uwch-gyfarwyddwr Prosiectau
£195,000-£199,999	Clare Sumner	Cyfarwyddwr Polisi
£190,000-£194,999	David Curley	Cyfarwyddwr Cyllid Corfforaethol y Grŵp
	Phil Harrold	Ysgrifennydd y Cwmni a'r Pennaeth Staff
	Irene Asare	Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol, Newyddion
£185,000-£189,999	David Jordan	Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol
	Sophie Garnham	Cyfarwyddwr Hawliau Masnachol a Materion Busnes
	Andrew Kaczor	Cyfarwyddwr Cyllid a Gweithrediadau, Grŵp y Prif Swyddog Gweithredu
	Sarah Gregory	Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol, y Gwledydd
£178,000-£184,999	Sarah Burns	Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol
	Alan Bainbridge	Cyfarwyddwr y Gweithle
Grŵp Technoleg a Grŵp Cynnyrch		
£310,000-£314,999	Storm Fagan	Prif Swyddog Cynhyrchion
£305,000-£309,999	Peter O'Kane	Prif Swyddog Technegol
£245,000-£249,999	Sinead Greenaway	Cyfarwyddwr Darlledu a Thechnoleg Defnyddwyr Terfynol
£215,000-£219,999	Andy Baker	Cyfarwyddwr Gweithrediadau Technoleg
£210,000-£214,999	Jatin Aythora	Cyfarwyddwr Ymchwil a Datblygu
£195,000-£199,999	Kieran Clifton	Cyfarwyddwr Dosbarthu a Datblygu Busnes
	Ellie Runcie	Prif Swyddog Dylunio
£185,000-£189,999	Richard Cooper	Cyfarwyddwr Dosbarthu Digidol
	David Andrade	Cyfarwyddwr Peirianeg Cynnyrch
£178,000-£184,999	Pushpa Reddy	Cyfarwyddwr Rheoli Cynnyrch

Cyflog	Enw	Rôl
Marchnata a Chynulleidfaoedd		
£190,000-£194,999	Paul Davies	Cyfarwyddwr Marchnata a Chynulleidfaoedd
	Nick North	Cyfarwyddwr Cynulleidfaoedd
£178,000-£184,999	Justin Bairamian	Cyfarwyddwr BBC Creative
Y Gwledydd		
£178,000-£184,999	Sarah Calcott	Prif Swyddog Gweithredu
Cynnwys		
£270,000-£274,999	Kate Phillips	Cyfarwyddwr Comisiynu
£265,000-£269,999	Patricia Hidalgo	Cyfarwyddwr Plant ac Addysg
£240,000-£244,999	Dan McGolpin	Cyfarwyddwr iPlayer a'r Sianelau
	Fiona Campbell	Rheolydd Sianel
£230,000-£234,999	Barbara Slater	Cyfarwyddwr Chwaraeon
£220,000-£224,999	Graham Ellis	Rheolydd BBC Audio
£210,000-£214,999	Jon Petrie	Cyfarwyddwr Comisiynu
£205,000-£209,999	Lucy Richer	Uwch-olygydd Comisiynu (Drama)
	Mohit Bakaya	Cyfarwyddwr Comisiynu, Radio
£200,000-£204,999	Jonathan Wall	Cyfarwyddwr Comisiynu, Radio
	Lorna Clarke	Cyfarwyddwr Comisiynu, Radio
£195,000-£199,999	Eva Yates	Cyfarwyddwr Comisiynu
£190,000-£194,999	Clare Sillery	Uwch-bennaeth Comisiynu Ffeithiol
	Gaynor Holmes	Golygydd Comisiynu Drama
£185,000-£189,999	Lindsay Currie	Pennaeth Rheoli Sianelau
	Heidi Dawson	Rheolydd Radio
£178,000-£184,999	Alan Davey	Rheolydd Radio
	Philip Bernie	Pennaeth Chwaraeon
	David Pembrey	Prif Swyddog Gweithredu, Cynnwys
	Catherine Catton	Uwch-bennaeth Comisiynu Ffeithiol
	Suzy Klein	Uwch-bennaeth Comisiynu Ffeithiol
Newyddion a Materion Cyfoes		
£305,000-£309,999	Jonathan Munro	Cyfarwyddwr Dros Dro Newyddion a Materion Cyfoes/Dirprwy Brif Swyddog Gweithredol Newyddion a Chyfarwyddwr Newyddiaduraeth
£205,000-£209,999	Naja Nielsen	Uwch-reolydd Newyddion
£200,000-£204,999	Liliane Landor	Uwch-reolydd Newyddion
£178,000-£184,999	Joanna Carr	Rheolydd Newyddion
Cyn-aelodau o staff		
£240,000-£244,999	Glyn Isherwood	Cyfarwyddwr Prosiect y Prif Swyddog Ariannol
£220,000-£224,999	Craig Parfitt	Prif Swyddog Ariannol Dros Dro

Barn y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol am ddatgeliadau cyflogau Adroddiad Sicrwydd Annibynnol i Fwrdd y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig, yn cydnabod bod Senedd y DU hefyd yn dibynnu ar Gyfrifon ac Adroddiad y Grŵp

Rwyf wedi cynnal gweithdrefnau sicrwydd annibynnol ar y datgeliadau a gynhwyswyd yn Adroddiad Blynyddol y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig (BBC) yn deillio o'r gofyniad o dan y Siarter Frenhinol i'r BBC (y Siarter Frenhinol) barhau i gyhoeddi enwau holl uwch-swyddogion gweithredol y BBC y talwyd mwy na £178,000 iddynt o reffeniw ffi'r drwydded yn y flwyddyn ariannol honno; ac enwau holl aelodau eraill o staff y BBC y talwyd mwy na £178,000 iddynt o reffeniw ffi'r drwydded yn y flwyddyn ariannol honno, wedi'u nodi mewn bandiau cyflog ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023. Cafodd y trothwy gwreiddiol ar gyfer datgeliadau o £150,000 ei addasu yn unol â chwyddiant i £178,000 ar 1 Mehefin 2022, fel y nodwyd yng Nghymal 65 o'r Siarter Frenhinol.

Mae'r datgeliadau hyn yn cynnwys y Datgeliadau Cyflogau fel y'u nodir ar dudalennau 97 i 103 o Adroddiad Blynyddol y BBC (y deunydd pwnc) (y "Datgeliadau Cyflogau").

Cynhelir fy ngwaith yn unol â Safonau Rhyngwladol ar Ymrwymadau Sicrwydd (ISAE) 3000 Ymrwymadau Sicrwydd ac eithrio Archwiliadau neu Adolygiadau o Wybodaeth Ariannol Hanesyddol.

Priod gyfrifoldebau Bwrdd y BBC a'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol

Ar gyfer y flwyddyn adrodd a gwmpesir gan yr adroddiad hwn, roedd Bwrdd y BBC yn gyfrifol am gyhoeddi'r wybodaeth a oedd yn ofynnol o dan y Siarter Frenhinol fel a ganlyn:

- enwau holl swyddogion gweithredol y BBC a gafodd eu talu dros £178,000 o reffeniw ffi'r drwydded yn y flwyddyn ariannol honno; ac
- enwau holl aelodau eraill o staff y BBC y talwyd mwy na £178,000 iddynt o reffeniw ffi'r drwydded yn y flwyddyn ariannol honno, wedi'u nodi mewn bandiau cyflog ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023.

Rwyf yn gyfrifol am roi barn ynghylch a yw'r deunydd pwnc, ym mhob ffordd berthnasol, yn gyflawn ac yn gywir ac wedi'i baratoi'n briodol yn unol â'r sail a nodir ynddo.

Wrth gynnal y gwaith hwn, rwyf i a'm staff wedi cydymffurfio â Safon Foesegol Ddiwygiedig y Cyngor Adrodd Ariannol 2019. Rwyf yn annibynnol ar y BBC yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm gweithdrefnau. Rwyf i a'm staff wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn.

Rwyf i a'm staff wedi cymhwyso Safon Ryngwladol ar Reoli Ansawdd 1 ac yn unol â hynny rydym yn cynnal system gynhwysfawr o reoli ansawdd yn cynnwys polisïau a gweithdrefnau wedi'u dogfennu ar gydymffurfiaeth â gofynion moesegol, safonau proffesiynol a gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol cymwys.

Fy null gweithredu

Rwyf wedi cyflawni ymrwymiad sicrwydd rhesymol fel y'i diffinnir yn ISAE 3000. Wrth gyflawni ymrwymiad sicrwydd rhesymol, cyflawnir y cyfryw weithdrefnau ag sydd eu hangen er mwyn cael gafael ar wybodaeth ac esboniadau sy'n angenrheidiol, yn fy marn i, er mwyn mynegi barn o ran p'un a yw'r Datgeliadau Cyflogau (y deunydd pwnc), ym mhob agwedd berthnasol, yn gyflawn ac yn gywir ac wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r sail a nodir ynddynt.

Roedd fy ngwaith yn cynnwys:

- Deall y broses a fabwysiadwyd gan y BBC er mwyn llunio'r Datgeliadau Cyflogau, yn arbennig cyflawnrwydd a chywirdeb y wybodaeth a ddefnyddiwyd;
- Profi cyflawnrwydd y datgeliadau, gan gynnwys:
 - Croesgyfeirio at fy ngweithdrefnau archwilio ar gyfer Grŵp y BBC sy'n ymwneud â'r gyflogres a gwariant;
 - Cymharu â'r flwyddyn flaenorol a'm dealltwriaeth o'r BBC;
 - Adolygu unigolion a dalwyd yn y mis dilynol a dalwyd yn agos at y trothwy datgelu yn 2022/23;
- Cysoni datgeliadau staff â slipiau cyflog neu, lle na chaiff staff eu talu drwy gyflogres y BBC, cysoni gwariant â thystiolaeth arall megis contractau;
- Cysoni gwariant fesul unigolyn y talwyd mwy na £178,000 iddo o reffeniw Ffi'r Drwydded i'r band cyflog priodol;
- Adolygu'r sylwadau ategol ynghylch rhesymoldeb ac eglurder o ran y sail datgelu.

Cyfyngiadau annatod

Cynlluniwyd fy ngweithdrefnau sicrwydd er mwyn rhoi sicrwydd rhesymol. Amcan ymrwymiad sicrwydd rhesymol yw lleihau risg ymrwymiad i lefel dderbyniol o isel o dan amgylchiadau'r ymrwymiad fel sail ar gyfer gallu mynegi fy nghasgliad mewn ffordd gadarnhaol. Fodd bynnag, nid yw'n dileu'r risg hon yn llwyr. Yn arbennig, wrth baratoi'r datgeliadau, mae'n ofynnol i Fwrdd y BBC lunio nifer o farnau sy'n cyflwyno elfen annatod o risg.

Cynhaliwyd fy gwaith er mwyn i mi allu hysbysu Bwrdd y BBC a Senedd y DU o'r materion hynny y mae'n ofynnol i mi eu hysbysu amdanynt yn yr adroddiad hwn ac nid at unrhyw ddiben arall.

Barn

Yn seiliedig ar ganlyniadau fy ngweithdrefnau, yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol, mae'r Datgeliadau Cyflogau a geir ar dudalennau 97 i 103 yn gyflawn ac yn gywir ac wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r sail a nodir ynddynt. Lluniwyd y farn hon ar sail y materion a amlinellir mewn manau eraill o'r adroddiad sicrwydd annibynnol hwn.

Gareth Davies

Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol Swyddfa Archwilio Genedlaethol

157-197 Buckingham Palace Road

Llundain

SW1W 9SP

30 Mehefin 2023

Adroddiad y Pwyllgor Enwebiadau

Penodiadau i'r Bwrdd

Pwyllgor Enwebiadau'r Bwrdd sy'n gyfrifol am wneud argymhellion ynglŷn â phenodi aelodau'r Bwrdd (ac eithrio'r Cadeirydd ac aelodau'r gwledydd) a phwyllgorau'r Bwrdd.

Nid yw aelodau'r Pwyllgor wedi newid y flwyddyn hon ac mae'n cynnwys: Cadeirydd y BBC, Richard Sharp; Y Cyfarwyddwr Cyffredinol, Tim Davie; yr Uwch-gyfarwyddwr Annibynnol, Nicholas Serota; a'r cyfarwyddwyr anweithredol, Elan Closs Stephens a Shirley Garrood.

Y flwyddyn hon, mae'r Pwyllgor Enwebiadau llawn wedi cyfarfod pum gwaith. Cyfarfu aelodau anweithredol y Pwyllgor heb y Cadeirydd ar dri achlysur yn ystod y flwyddyn hefyd, fel rhan o'u hadolygiad o'i ddatganiadau o fuddiannau personol yn ystod ei gyfnod yn y BBC. Roedd yr adolygiad hwnnw yn mynd rhagddo ar ddiwedd y flwyddyn ariannol a chyhoeddwyd y canfyddiadau ar 11 Mai 2023. Mae'r Pwyllgor Enwebiadau yn ystyried ac yn adolygu annibyniaeth aelodau'r Bwrdd yn flynyddol, gan gynnwys unrhyw wrthdaro buddiannau, ac ar gyfer y flwyddyn hon, gwnaeth hynny ym mis Ebrill.

Y Pwyllgor sy'n gyfrifol am oruchwylio materion goruchwylio yn ymwneud â gweithrediad y Bwrdd a'i is-bwyllgorau. Fel rhan o'r rôl hon, mae'r Pwyllgor Enwebiadau yn comisiynu adolygiad gwerthuso blynyddol o weithrediad Bwrdd y BBC a'i is-bwyllgorau. Elfen bwysig o waith y Pwyllgor y flwyddyn hon oedd adolygu canfyddiadau adolygiad 2021/22 a llunio cynllun gweithredu yn seiliedig ar yr argymhellion, a gymeradwywyd gan y Bwrdd llawn ym mis Mehefin.

Yn ogystal â bod yn gyfrifol am enwebu penodiadau i'r Bwrdd, mae'r Pwyllgor hefyd yn gyfrifol am enwebu aelodau i is-bwyllgorau'r Bwrdd, a'i brif is-gwmniau masnachol. Mae llawer o'r gwaith y flwyddyn hon wedi ymwneud â sicrhau bod gan y Pwyllgor strwythur ac aelodaeth effeithiol, sef ffocws Adolygiad Gwerthuso'r Bwrdd a gomisiynwyd ar gyfer 2022/23.

Mewn ymateb i'r argymhellion a wnaed yn Adolygiad Gwerthuso'r Bwrdd, comisiynodd y Pwyllgor Enwebiadau hefyd adolygiad o'i swyddogaethau risg strategol ar draws gwasanaeth cyhoeddus a changen fasnachol y BBC, i'w hystyried ymhellach gan y Bwrdd.

O ran penodiadau a enwebwyd, y flwyddyn hon gweithiodd y Pwyllgor gyda chynrychiolydd o'r Pwyllgor Canllawiau a Safonau Golygyddol i recriwtio a phenodi cynghorwyr golygyddol allanol i'r Pwyllgor hwnnw, gan gyflawni un o argymhellion Adolygiad Serota o brosesau golygyddol, trefniadau llywodraethu a diwylliant y BBC. Yn dilyn cystadleuaeth llawn ac agored, cafodd Caroline Daniel a Michael Prescott eu penodi'n ffurfiol yn Gyngorwyr Golygyddol i'r Pwyllgor Canllawiau a Safonau Golygyddol yn y cyfarfod o'r Bwrdd ym mis Mehefin. Argymhellodd y Pwyllgor Enwebiadau ddau ailbenodiad hefyd: sef ailbenodi Mai Fyfield yn aelod anweithredol o Fwrdd Masnachol y BBC am dair blynedd arall tan 31 Gorffennaf 2025, ac ailbenodi Leigh Tavaziva, Prif Swyddog Gweithredu, yn aelod gweithredol o Fwrdd y BBC am ddwy flynedd arall tan 31 Ionawr 2025. Mae'r Pwyllgor Enwebiadau hefyd wedi arwain y broses

recriwtio ddiweddaraf ar gyfer dau aelod anweithredol newydd o'r Bwrdd, a oedd yn dal i fynd rhagddi ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Argymhellodd y Pwyllgor Enwebiadau hefyd y dylid gwneud newidiadau i gyfansoddiad ac aelodaeth y Bwrdd Masnachol fel y gellid penodi mwy o aelodau anweithredol, a chynigiodd y dylid penodi Ian Griffiths, Clare Hungate a Gary Newman yn aelodau anweithredol. Cafodd y penodiadau hyn eu cymeradwyo'n ffurfiol yn y cyfarfod o'r Bwrdd ym mis Rhagfyr, i ddechrau ar 2 Ebrill 2023. Cafodd pwysigrwydd cynyddol Bwrdd Masnachol y BBC a'i rôl yn strwythur llywodraethu ehangach y BBC eu cydnabod gan y Pwyllgor Enwebiadau a'u hadlewyrchu gan argymhelliad y Pwyllgor y dylai'r Bwrdd greu'r teitl anrhydeddus 'Dirprwy Gadeirydd', fel teitl ychwanegol ar gyfer Cadeirydd Bwrdd Masnachol y BBC. Cymeradwyodd y Bwrdd yr argymhelliad hwn yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr a chafodd Cadeirydd y Bwrdd Masnachol, Damon Buffini, ei benodi'n Ddirprwy Gadeirydd cyntaf y BBC.

Richard Sharp
Cadeirydd
27 Mehefin 2023

Presenoldeb yng nghyfarfodydd y Bwrdd a'i Bwyllgorau

Ebrill 2022-Mawrth 2023	Bwrdd	Y Pwyllgor Archwilio a Risg	Y Pwyllgor Masnachu Teg	Y Pwyllgor Enwebiadau	Y Pwyllgor Cydnabyddiaeth	Canllawiau a Safonau Golygyddol	Pwyllgor y Gwledydd - Lloegr	Pwyllgor y Gwledydd - Yr Alban	Pwyllgor y Gwledydd - Cymru	Pwyllgor y Gwledydd - Gogledd Iwerddon
Nifer y cyfarfodydd ar gyfer y cyfnod	9	5	3	7	4	8	3	3	3	3
Cyfarwyddwyr anweithredol										
Richard Sharp	9			4 o 4	3			3		
Shumeet Banerji	8	5								
Damon Buffini	9									
Shirley Garrood	8	4		6						
Robbie Gibb	9				4	8	3			
Muriel Gray	9		3		4			3		
Ian Hargreaves	9		3			8			3	
Nicholas Serota	9			7		8	3			3
Elan Closs Stephens	8	5		7					3	3
Cyfarwyddwyr gweithredol										
Tim Davie	9			4 o 4		7				
Charlotte Moore	8									
Leigh Tavaziva	9									
Deborah Turness*	6 o 6					4 o 5				

Nid yw'r tabl hwn yn cynnwys cyfarfodydd arbennig na busnes a gynhaliwyd all-lein
* Ymunodd Deborah Turness â'r Bwrdd ym mis Medi 2022

Llywodraethu

Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Risg

Mae'n bleser gennyf gyflwyno adroddiad blynyddol Pwyllgor Archwilio a Risg y BBC ar gyfer 2022/23. Rôl y Pwyllgor yw cynorthwyo'r Bwrdd yn y gwaith o oruchwylio trefniadau llywodraethu corfforaethol y BBC, yn enwedig o ran adroddiadau ariannol, rheolaeth fewnol a rheoli risg. Yn ystod y flwyddyn, mae'r Pwyllgor wedi ceisio cyflawni'r cyfrifoldeb hwn drwy sicrhau agenda eang a pherthnasol i'r Pwyllgor, gan adolygu a chraffu ar bynciau'r agenda'n drwyadl a, lle y bo'n briodol, geisio cyngor gan arbenigwyr pwnc.

Cyfarfu'r Pwyllgor bum gwaith yn ystod y flwyddyn, a gweithiais gydag aelodau profiadol iawn o'r Pwyllgor, sydd wedi cynnig craffter a chymorth gwerthfawr: Shumeet Banerji, ac Elan Closs Stephens, a ymunodd fel aelod ym mis Ebrill 2022.

Mae'r Pwyllgor wedi cael cyngor effeithiol gan dimau'r BBC, yn enwedig Ysgrifenyddiaeth y Cwmni, y swyddogaeth Cyllid ac Ansawdd, Risg a Sicrwydd a hefyd gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, ar ran y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol, fel archwilyd allanol y BBC. O ganlyniad, rwy'n fodlon bod y Pwyllgor wedi meddu ar y sgiliau a'r cymorth angenrheidiol i gyflawni ei ddyletswyddau'n briodol. Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd adolygiad allanol o effeithiolrwydd y Pwyllgor, fel rhan o adolygiad cyffredinol y Bwrdd. Caiff canfyddiadau ac argymhellion y gwaith hwnnw eu cyflwyno i'r Pwyllgor yn 2023/24.

Mae ein cynllun gwaith a'n gweithgareddau ar gyfer y flwyddyn hon wedi bod yn gynhwysfawr, ac yn unol â diben y Pwyllgor. Mae'r gweithgareddau allweddol yn y maes hwn wedi cynnwys y canlynol:

- goruchwylio cydberthynas y BBC â'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol, gan gynnwys cymeradwyo ei chynllun archwilio, adolygu ei hasesiad o risg a dyfarniadau cyfrifyddu, cael diweddariadau ar hynt ei gwaith a monitro'r broses o gymryd camau gweithredu sy'n deillio o'r gwaith hwnnw. Cynhaliodd y Pwyllgor adolygiad o effeithiolrwydd yr archwiliad allanol;
- adolygu, ar ran y Bwrdd, Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y BBC, gan herio rheolwyr ynghylch eu camau gweithredu a'u dyfarniadau, ac unrhyw ganfyddiadau pwysig eraill sy'n deillio o'r archwiliad allanol;
- asesu, drwy adroddiadau a sicrwydd gan reolwyr, rheoleidd-dra cyfrifon y BBC a gyflwynwyd a datganiadau'r BBC am hyfywedd a busnes gweithredol;

- cael adroddiadau sicrwydd annibynnol ar weithrediad ac effeithiolrwydd amgylchedd rheoli y BBC, gan sicrhau bod rheolwyr yn cymryd camau priodol ac amserol mewn ymateb iddynt;

- goruchwylio fframwaith risg a risgiau gweithredol y BBC ar ran y Bwrdd. Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd adolygiad o briod gyfrifoldebau'r Bwrdd a'r Pwyllgor mewn perthynas â gorchwylio risg, gyda'r Bwrdd yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb am oruchwylio risgiau strategol;

- ar ran y Bwrdd, parhaodd y Pwyllgor i oruchwylio cyfansoddiad a pherfformiad prosiectau allweddol y BBC;

- monitro gwaith ac ansawdd y tîm Archwilio Mewnol. Cwblhawyd 41 o archwiliadau ac adolygiadau sicrwydd, fel rhan o gynllun seiliedig ar risg, a nodwyd 128 o gamau gwella (mae'r Pwyllgor yn olrhain yr holl gamau gwella nes eu bod wedi'u cwblhau).

Yn ystod fy nghyfnod fel Cadeirydd y Bwrdd, rwyf wedi ceisio sicrhau bod yr agendâu a'r pynciau a gaiff eu hadolygu gan y Pwyllgor yn parhau i ddatblygu yn unol â newidiadau i broffil risg a rhwymedigaethau'r BBC.

Yn 2022/23, aeth y Pwyllgor ati i wella ei adolygiad o brif fentrau newid y BBC. Ochr yn ochr ag adroddiadau rheolaidd a thrylwyr ar statws gan reolwyr, rydym bellach yn cael canlyniadau gwaith sicrwydd prosiect annibynnol a wneir gan dîm arbenigol. Mae hyn yn rhoi safbwynt ychwanegol ac yn ein helpu i adolygu a herio rheolwyr. Rydym wedi parhau i gynnal archwiliadau dwfn o brosiectau allweddol, gan gynnwys ar gyfer y flwyddyn hon, uchelgeisiau'r BBC i gyflawni Sero Net, ei ymrwymadau o ran Amrywiaeth a Chynhwysiant a menter strategol bwysig Across the UK.

Fel y nodais y flwyddyn ddiwethaf, rydym bellach yn sicrhau bod un o gyfarfodydd y Pwyllgor bob blwyddyn yn canolbwyntio'n benodol ar adolygu gweithrediadau masnachol y BBC. Mae hyn wedi parhau i fod yn ffordd effeithiol o wneud yn siŵr bod y Pwyllgor yn craffu'n ddigonol ar drefniadau llywodraethu a rheolaethau masnachol. Roedd Prif Swyddog Gweithredu BBC Studios yn bresennol yn y cyfarfod.

Mae risgiau seiber a thechnoleg wedi parhau i fod yn destun adolygiad manwl gan y Pwyllgor, gyda chyflwyniadau rheolaidd gan y Prif Swyddog Technoleg ar risgiau presennol a'r rhai sy'n dod i'r amlwg a mesurau lliniaru. Mae'r Pwyllgor yn ystyried y diweddariadau hyn ochr yn ochr â chanlyniadau gwaith sicrwydd annibynnol. Ymhlith y meysydd risg eraill y mae ein harchwiliadau dwfn wedi canolbwyntio arnynt mae llywodraethu data, hyfforddiant gorfodol a diogelu.

Mae goruchwylio uniondeb ac effeithiolrwydd proses Chwythu'r Chwiban y BBC wedi bod un o flaenoriaethau'r Pwyllgor ers tro, ac mae wedi bod yn braf gweld yr ymdrech a'r buddsoddiad parhaus yn y maes hwn, gan gynnwys mentrau i godi ymwybyddiaeth ar draws y BBC a gwella mynediad i grwpiau ehangach o randdeiliaid, er enghraifft gweithwyr llawrydd a thrydydd partïon. Lle y bo'n briodol, defnyddir trydydd partïon annibynnol i roi cyngor ar brosesau chwythu'r chwiban a darparu arbenigedd ar gyfer ymchwiliadau, gan gynnwys ymchwiliadau i honiadau yn ymwneud â thalent ar yr awyr.

Wrth gwrs, mae heriau na chawsant eu rhagweld yn debygol o godi bob blwyddyn. Yn fy adroddiadau blaenorol, rwyf wedi rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am rôl y Pwyllgor wrth fonitro effaith y pandemig. Rwy'n ddiolchgar na fu'n rhaid i hyn fod yn flaenoriaeth ar gyfer 2022/23, ond mae'r Pwyllgor yn cael diweddariadau rheolaidd am effaith gweithio ystwyth ar yr amgylchedd gweithredu drwy adroddiadau'r tîm Archwilio Mewnol. Fodd bynnag, mae'r argyfwng yn Wcráin yn parhau, ac mae'r Pwyllgor wedi bod wrthi'n monitro'r risgiau sy'n deillio o weithrediadau parhaus y BBC yn Wcráin a Rwsia. Yn fwy diweddar, mae effaith bosibl ymchwiliadau treth ar weithgareddau'r BBC yn o feysydd ffocws y Pwyllgor.

Wrth edrych i'r dyfodol, byddwn yn disgwyl i'r Pwyllgor ganolbwyntio ar yr heriau sy'n gysylltiedig â thechnoleg newydd, gan gynnwys y defnydd o ddeallusrwydd artiffisial a'i heffaith, ochr yn ochr â'r dirwedd economaidd a risgiau allanol ehangach.

Hon oedd fy mlwyddyn olaf fel Cadeirydd y Pwyllgor. Bu'n bleser gweithio ochr yn ochr ag aelodau ymroddedig ac abl iawn y Pwyllgor a staff y BBC. Mae eu hymrwymiad a'u harbenigedd wedi gwneud cryn argraff arnaf. Rwy'n fodlon bod y Pwyllgor, drwy gydol fy nghyfnod fel Cadeirydd, wedi parhau i gefnogi'r BBC i sicrhau gwerth i dalwyr ffi'r drwydded.

Shirley Garrod

Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg
27 Mehefin 2023

Trosolwg o'r Pwyllgor Rôl

Mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Risg yn nodi cyfrifoldebau'r Pwyllgor yn fanylach. Cafodd y rhain eu cymeradwyo gan y Bwrdd ym mis Medi 2018 a'u hadolygu gan y Pwyllgor ym mis Rhagfyr 2022. Mae'r Cylch Gorchwyl ar gael i'w ddarllen ar ein gwefan: bbc.co.uk/aboutthebbc/whoweaare/bbcboard/arc-tor-dec-2022.pdf.

Cylch gwaith y Pwyllgor yw adolygu a goruchwyllo trefniadau llywodraethu corfforaethol y BBC, yn enwedig o ran adroddiadau ariannol, rheolaeth fewnol a rheoli risg. Er mwyn cael y sicrwydd hwn, mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am adolygu a goruchwyllo'r canlynol:

- effeithiolrwydd prosesau rheolaeth fewnol a rheoli risg Grŵp y BBC;
- y risgiau allweddol a wynebwr gan Grŵp y BBC a'r camau a gymerir i liniaru'r risgiau hynny i lefel dderbyniol;
- gweithgareddau a risgiau is-gwmnïau masnachol y BBC, gan sicrhau bod risgiau'n cael eu rheoli mewn ffordd dderbyniol a bod sicrwydd yn annibynnol ac yn ddigonol;
- camau gweithredu a dyfarniadau rheolwyr mewn perthynas ag Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y BBC a datganiadau ffurfiol cysylltiedig;
- gwaith swyddogaeth Archwilio Mewnol y BBC, a'i heffeithiolrwydd, gan gyfarfod ag uwch-reolwyr Archwilio Mewnol yn breifat er mwyn trafod materion fel y bo angen;
- prosiectau allweddol y BBC, gan gynnwys cyfansoddiad y portffolio prosiectau allweddol;
- ymatebion y BBC i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ac adroddiadau Gwerth am Arian y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, gan roi ystyriaeth ddyladwy i ddisgwyliadau Senedd y DU ynghylch y ffordd y dylai adnoddau'r BBC gael eu rheoli;
- cwmpas archwilio arfaethedig yr archwilwyr allanol, gan sicrhau nad oes unrhyw gyfyngiadau anghyfiawn, a chyfarfod gyda'r archwilwyr allanol ar wahân er mwyn trafod unrhyw faterion y dylid eu trafod yn breifat, ym marn y Pwyllgor neu'r archwilwyr;
- annibyniaeth yr archwilydd allanol, ei weithdrefnau rheoli ansawdd a'r camau a gymerir gan yr archwilydd i ymateb i newidiadau i ofynion rheoleiddiol a gofynion eraill;
- systemau'r BBC ar gyfer canfod ac atal twyll a llygredd;
- trefniadau chwythu'r chwiban y gall y staff eu defnyddio i godi pryderon, yn gyfrinachol, ynglŷn ag achosion posibl o amhriodoldeb mewn perthynas ag adrodd ariannol, anghyfreithlondeb neu faterion eraill. Mae'r Pwyllgor wedi goruchwyllo buddsoddiad parhaus yn y maes hwn. I gael rhagor o fanylion am ein prosesau chwythu'r chwiban, gweler tudalen 60.

Aelodaeth

Mae'r Pwyllgor yn cynnwys tri chyfarwyddwr anweithredol, y mae'n rhaid bod un ohonynt yn meddu ar brofiad ariannol diweddar a pherthnasol. Yr aelodau a wasanaethodd yn ystod blwyddyn ariannol 2022/23 oedd:

- Shirley Garrod (Cadeirydd y Pwyllgor)
- Sumeet Banerji (a benodwyd ym mis Ionawr 2022)
- Elan Closs Stephen (a benodwyd ym mis Ebrill 2022)

Ymddiswyddodd Richard Sharp, a wasanaethodd fel aelod dros dro o'r Pwyllgor, ym mis Mawrth 2022. Daeth cyfnod Cadeirydd y Pwyllgor, Shirley Garrod ar Fwrdd y BBC i ben ar 2 Gorffennaf 2023, ar ôl llofnodi'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon. Mae'r broses o benodi olynnydd yn mynd rhagddi.

Mae gan Shirley Garrod, a gadeiriodd y Pwyllgor yn ystod 2022/23, brofiad ariannol sylweddol, diweddar a pherthnasol. At hynny, mae pob aelod a wasanaethodd ar y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn yn unigolion sy'n dal neu sydd wedi dal uwch-swyddi mewn sefydliadau o faint tebyg ac sy'n meddu ar y profiad a'r sgiliau i gyflawni eu cyfrifoldebau. Lle y bo'n briodol, ategir sgiliau a phrofiadau aelodau gan gyngor gan weithwyr proffesiynol mewnol ac allanol – er enghraifft ar faterion fel datblygiadau ym maes adroddiadau ariannol a chynaliadwyedd.

Caiff Cadeirydd y Bwrdd, y Cyfarwyddwr Cyffredinol, Prif Swyddog Gweithredu'r Grŵp, Prif Swyddog Ariannol y Grŵp a'r Cyfarwyddwr Ansawdd, Risg a Sicrwydd, ynghyd ag uwch-gynrychiolwyr o'r tîm Archwilio Mewnol, Rheoli Risg a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol, fel archwilwyr allanol y BBC, eu gwahodd i fynychu cyfarfodydd.

Mae'r Pwyllgor hefyd yn cyfarfod yn breifat â'r archwilwyr mewnol a'r archwilwyr allanol, heb fod unrhyw reolwyr yn bresennol, a hynny'n rheolaidd.

Mae'r Pwyllgor yn asesu ei effeithiolrwydd ei hun yn rheolaidd. Yn 2022/23, bu gwaith y Pwyllgor yn rhan o'r adolygiad allanol o effeithiolrwydd Bwrdd y BBC, a gynhaliwyd gan Chris Saul. Caiff canfyddiadau ac argymhellion yr adolygiad hwnnw eu cyflwyno i'r Pwyllgor yn 2023/24.

Cyfarfodydd

Cyfarfu'r Pwyllgor bum gwaith yn ystod 2022/23, ar adegau allweddol yn y calendr adrodd ac archwilio.

Mae cofnodion o'r cyfarfodydd ar gael i'r Bwrdd a chyhoeddir cofnodion cryno ar wefan y BBC: bbc.co.uk/aboutthebbc/whoweaare/bbcboard/auditandrisk. At hynny, mae Cadeirydd y Pwyllgor yn cyflwyno adroddiad i'r Bwrdd ar ôl pob cyfarfod ar unrhyw faterion lle y mae angen cymryd camau neu wella perfformiad.

Llywodraethu

Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Risg – parhad

Datganiadau ariannol a chywirdeb adroddiadau ariannol

Adolygodd y Pwyllgor gywirdeb datganiadau ariannol y BBC. Wrth wneud hynny, gwnaeth y canlynol:

- drwy drafodaethau â'r rheolwyr a'r archwilwyr allanol, nododd risgiau allweddol o ran camddatganiadau yn natganiadau ariannol y BBC, gan gynnwys y meysydd hynny lle roedd angen llunio barn ariannol arwyddocaol, ac sydd wedi dylanwadu ar y datganiadau ariannol;
- trafododd y risgiau hyn â'r archwilwyr allanol fel rhan o gytundeb y cynllun archwilio a hefyd ar ddiwedd yr archwiliad o'r datganiadau ariannol;
- adolygodd a heriodd bapurau manwl a gyflwynwyd gan reolwyr ar y meysydd hynny lle roedd angen llunio barn ariannol arwyddocaol, gan ystyried safbwyntiau'r archwilydd.

Nodir isod y prif feysydd lle y mae angen llunio barn a sut mae'r Pwyllgor wedi mynd i'r afael â nhw.

Cydnabod reffeniw

Mae risg na chaiff incwm ei gydnabod yn gywir yn unol â safonau adrodd ariannol. Mae natur y risg yn amrywio rhwng reffeniw ffi'r drwydded yn y gwasanaeth cyhoeddus ac incwm masnachol. Caiff reffeniw ffi'r drwydded ei drin fel cymorth grant gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ar y sail y caiff symiau sy'n dderbyniadwy gan dalwyr ffi'r drwydded eu talu.

Mae reffeniw masnachol yn fwy cymhleth, gyda nifer o ffrydiau reffeniw gwahanol yn cynnwys reffeniw sy'n gysylltiedig â chynhyrchu rhaglenni, gwerthu cynnwys i ddarlledwyr byd-eang, reffeniw hysbysebu, incwm tanysgrifiadau a reffeniw o werthu cynhyrchion ffisegol a digidol. Oherwydd cymhlethdod telerau cytundebol, gall fod angen llunio barn wrth asesu pryd y gellir cydnabod reffeniw, sy'n seiliedig ar gyflawni rhwymedigaethau perfformiad a phryd y trosglwyddir rheolaeth i'r cwsmer. Caiff contractau eu hasesu ar gyfer cydymffurfiaeth â Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) ym maes Reffeniw.

Ymateb y Pwyllgor – Mae'r Pwyllgor yn cael adroddiadau gan reolwyr ar unrhyw farn berthnasol neu gymhleth iawn. O ran BBC Studios, rhoddwyd y wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am newidiadau sylweddol i gontractau BBC Studios sy'n effeithio ar gydnabod reffeniw. Mae'r Pwyllgor o'r farn y dylai systemau rheolaeth ariannol presennol y BBC sicrhau y caiff incwm ei drin yn briodol yn y datganiadau ariannol, ac mae'n hyderus bod rheolwyr yn deall y risgiau yn y maes hwn a'u bod wedi rhoi rheolaethau addas ar waith.

Eiddo

Mae gan y BBC bortffolio eiddo sylweddol, sy'n parhau i gael ei resymoli er mwyn lleihau costau. Mae'r ystâd yn cynnwys eiddo rhydd-ddaliadol yn ogystal ag eiddo a ddelir o dan brydlesau.

Gellir dosbarthu adeiladau sydd wedi cael eu his-osod neu sydd ar gael i'w his-osod yn eiddo buddsoddi. Mae barn yn ymwneud â'r bwriadau ar gyfer unrhyw adeiladau gwag yn y dyfodol a therfynau amser cysylltiedig. Gall hyn newid y driniaeth gyfrifyddu briodol ac effeithio ar werth cario'r eiddo ar y fantolen.

Yn ystod y flwyddyn, gwnaed y newidiadau canlynol:

Asedau i'w gwerthu: Cafodd Swains Lane ei ddsbarthu'n ased i'w werthu ar 31 Mawrth 2022. Cafodd yr eiddo ei werthu ym mis Rhagfyr 2022 ac, felly, caiff enillion o £2 filiwn eu cydnabod y flwyddyn hon. Bu oedi yn y broses ceisiadau cynllunio ar gyfer Caversham, a ddsbarthwyd yn ased i'w werthu (£6 miliwn) yn flaenorol, ac felly, ni ddisgwyllir i'r gwerthiant gael ei gwblhau tan fis Medi 2023. Ymhlith eiddo arall i'w werthu ar 31 Mawrth 2023 mae Elstree (£26 miliwn) a Maida Vale (£2 filiwn).

Broadcasting House Llundain: Mae Broadcasting House yn eiddo i Daunus Limited. Mae gan y BBC fuddiant o 20% yn y cwmni hwn, sydd â'r diben penodol o gadw'r eiddo buddsoddi hwn am incwm rhenti a geir gan y BBC. Mae'r buddsoddiad a ddelir yn Daunus yn gymhleth ac, felly, mae angen llunio barn wrth ei ddsbarthu fel menter ar y cyd.

Mae gan y BBC hefyd gyfres o gyfnewidiadau datrys llif arian parod sy'n newid taliadau rhent sy'n gysylltiedig â chwyddiant y BBC ar gyfer Broadcasting House yn broffil llif arian parod mwy gwastad hyd at 2045, sydd hefyd yn cwmpasu ail-brynu'r brif-brydles. Mae'r prisiadau ar ddiwedd y flwyddyn (gwerth £376 miliwn o asedau a gwerth £481 miliwn o rwymedigaethau) yn adlewyrchu gwerth presennol wedi'i ddisgowntio llifau arian parod yn y dyfodol ac maent yn sensitif i amrywiadau mewn cyfraddau SONIA a'r mynegai prisiau manwerthu (RPI).

Ymateb y Pwyllgor – Adolygodd y Pwyllgor adroddiadau gan reolwyr, a oedd yn esbonio'r ffordd y cafodd yr adeiladau pwysicaf eu trin, gan gynnwys y terfynau amser rhagamcanol ar gyfer gweithgarwch yn y dyfodol a'r rhesymeg dros eu trin yn y ffordd honno. Roedd y Pwyllgor yn fodlon bod y ffordd y cafodd yr adeiladau hyn eu trin yn y datganiadau ariannol yn gyson â bwriad rheolwyr ac yn unol â safonau adrodd ariannol rhyngwladol.

O ran Broadcasting House Llundain, adolygodd y Pwyllgor adroddiadau gan reolwyr ar ddechrau'r trefniadau hyn a chafodd ddiweddariadau ar effaith debygol amrywiadau yn y farchnad ar ddiwedd pob blwyddyn. Roedd y Pwyllgor yn fodlon bod y ffordd y cafodd y cyfnewidiadau buddsoddiad a llif arian parod hyn eu trin yn y datganiadau ariannol yn gyson â bwriad rheolwyr ac yn unol â safonau adrodd ariannol rhyngwladol.

Asedau rhaglenni

Mae'r BBC yn dal cryn nifer o asedau mewn stocrestrau ac mewn asedau anniriaethol (hawliau rhaglenni i'w gwerthu yn y dyfodol),

gan gynnwys rhaglenni sydd wrthi'n cael eu cynhyrchu, taliadau a wneir ymlaen llaw i gaffael hawliau darlledu/gwerthu yn y dyfodol a rhaglenni wedi'u cwblhau sy'n barod i'w darlledu i gynulleidfaoedd. Cydnabyddir yr asedau hyn ar gost ond cânt eu hasesu ar ddiwedd pob blwyddyn i gadarnhau a ellir eu hadennill. Mae angen llunio barn wrth benderfynu a ellir adennill yr asedau hyn a thros ba gyfnod y dylent, yn enwedig hawliau rhaglenni, gael eu hamorteiddio.

Caiff gwariant ar raglenni o fewn darlledu cyhoeddus ei gydnabod yn llawn ar yr adeg y caiff y rhaglenni eu darlledu am y tro cyntaf i sianel linellol. Gydag arferion defnyddio cynulleidfaoedd yn newid, a chyfnodau trwyddedu'n cael eu hystyngiadau, caiff adolygiad blynyddol ei gwblhau er mwyn sicrhau bod y proffil amorteiddio yn parhau i fod yn rhesymol. Pennodd adolygiad 2022/23 ei bod yn briodol i'r proffil cyfredol barhau. Caiff adolygiad o falans asedau rhaglenni ar ddiwedd y flwyddyn ei gynnal bob blwyddyn er mwyn nodi unrhyw raglenni perthnasol a allai fod yn eithriad.

Ymateb y Pwyllgor – Roedd y Pwyllgor yn fodlon bod asesiad y rheolwyr o asedau rhaglenni, gan gynnwys yr asesiadau o amhariad a gynhaliwyd, yn unol â safonau adrodd ariannol rhyngwladol.

Cynllun Pensiwn Buddiannau Diffiniedig y BBC

Mae prisiad cyfrifyddu'r cynllun pensiwn yn cynnwys ased pensiwn net o £695 miliwn ar y fantolen ar gyfer cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig y BBC. Mae angen llunio dyfarniadau allweddol ynglŷn â'r tybiaethau a ddefnyddir wrth gyfrifo'r sefyllfa hon. Gall newidiadau yn y tybiaethau hyn arwain at newidiadau mawr yn y ffigurau terfynol a ddatgelir. Mae gan y BBC strategaeth ragfantoli gyda'r nod o leihau effaith amrywiadau ym mhrisiad cyfrifyddu'r cynllun pensiwn. Mae'r tybiaethau a ddefnyddiwyd ar gyfer y prisiad cyfrifyddu diweddaraf yn seiliedig ar argymhellion actiwariad annibynnol ac maent o fewn amrediad derbyniol.

Mae prisiad actiwariad 2022 wedi lleihau'r proffil talu cyfraniadau at y diffyg a chanran cyfraniad y cyflogwr a fydd yn effeithio ar gyfnodau yn y dyfodol.

Ymateb y Pwyllgor – Roedd y Pwyllgor yn fodlon bod y tybiaethau a ddefnyddiwyd yn y datganiadau ariannol mewn perthynas â'r cynllun pensiwn yn rhesymol, yn briodol i'r BBC ac yn cael eu cefnogi gan arbenigwyr actiwariad annibynnol. Nododd y Pwyllgor y lleihad ym mhrisiad y cynllun pensiwn ac roedd yn fodlon ar yr esboniadau a'r dadansoddiad a roddwyd gan reolwyr a chynghorwyr y cynllun.

Darpariaethau Cyflogaeth a Threthiant a Rhwymedigaethau Wrth Gefn

Mae nifer o ddarpariaethau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth a threthiant yn bodoli lle y mae gan y BBC rwymedigaeth presennol o ganlyniad i ddiwyddiaid blaenorol sy'n debygol ac y gellir ei fesur yn ddibynadwy. Yn

hanesyddol, gwnaed darpariaethau ar gyfer taliadau treth posibl yn y dyfodol, gan gynnwys IR35 a darpariaethau statws cyflogaeth eraill. Cynhaliwyd adolygiad llawn o'r rhain, o ystyried y sefyllfa ddiweddaraf, ar y cyd â CTheF, gan arwain at gynnydd o £15.5 miliwn yn y ddarpariaeth, i £29 miliwn.

Mae hyn yn cynnwys symiau i gyflwynwyr, neu ar eu rhan, mewn perthynas â defnyddio Cwmnïau Gwasanaeth Personol. Cyn hyn, mae'r rhan hon o'r ddarpariaeth wedi bod yn destun barn amodol ar reoleidd-dra, oherwydd ystyriwyd bod taliadau yn rhai ex-gratia a'u bod y tu hwnt i'r gweithgareddau a bennir gan y siarter. Er bod y cynnydd yn y rhan hon o'r ddarpariaeth yn cynrychioli gwariant afreolaidd, daeth y Swyddfa Archwilio Genedlaethol i'r casgliad nad oes angen iddi roi barn amodol arall ar reoleidd-dra.

Nodwyd rhwymedigaeth wrth gefn bosibl ar ôl dechrau ymchwiliad treth llywodraeth India ar weithgareddau'r BBC yn India ym mis Chwefror 2023. Mae'r BBC wedi cydweithredu'n llawn â phob cais a wnaed iddo, gan gynnwys ceisiadau am ddogfennau a gwybodaeth, a bydd yn parhau i wneud hynny, wedi'i gefnogi gan ei gynghorwyr cyfreithiol a threth allanol.

Ymateb y Pwyllgor – Cafodd y Pwyllgor adroddiadau ar faterion a allai arwain at gydnabod rhwymedigaethau posibl a thrafododd lefel y darpariaethau, lle y bo'n briodol, â rheolwyr. Cadarnhaodd y rheolwyr eu bod wedi defnyddio dull cyson o nodi, cydnabod a rhyddhau darpariaethau ym mhob rhan o Grŵp y BBC. Mae'r Pwyllgor yn fodlon ar lefel y darpariaethau a gariwyd a'r hyn a ddatgelwyd mewn perthynas â'r darpariaethau hynny.

Prosiectau cyfalaf

Mae'r BBC yn ymgymryd â sawl prosiect cyfalaf ar unrhyw adeg benodol, sy'n cyfrannu at strategaeth gyffredinol y BBC. Mae angen asesu priodoldeb cyfalafu, ynghyd â phrisio unrhyw ased a gyfalafir. Os na ellir cwblhau prosiect cyfalaf perthnasol ar amser, neu os na fydd y BBC yn cael budd ohono yn y dyfodol, gallai hyn ysgogi tâl lleihad mewn gwerth. Adolygwyd adroddiadau gan reolwyr, a oedd yn esbonio statws prosiectau cyfalaf mawr a'r dull a ddefnyddiwyd i asesu a oedd angen unrhyw dâl amhariad.

Ymateb y Pwyllgor – Roedd y Pwyllgor yn fodlon bod asesiad y rheolwyr o brosiectau cyfalaf, gan gynnwys a oes unrhyw amhariad yn briodol, yn unol â safonau adrodd ariannol rhyngwladol.

Risg cyfuno

Mae'r BBC yn grŵp cymhleth sy'n cynnwys llawer o endidau o bob cwr o'r byd, y mae gan rai ohonynt ddyddiadau diwedd blwyddyn, arian cyfred gweithredol a pholisïau cyfrifyddu gwahanol. Ceir trefniadau masnachu rhwng aelodau, y mae hefyd angen eu nodi i'w diddymu wrth gyfuno. Felly, mae cyfuno sefydliad mor fawr yn arwain at risg gynhenid o gamdatganiadau.

Ymateb y Pwyllgor – Adolygodd y Pwyllgor y risg hon a bydd yn monitro hynt camau gweithredu i wella'r broses gyfuno yn 2023/24.

Wcráin a Rwsia

Adolygwyd y risg o daliadau i fanciau sydd o dan sancsiwn. Mae'r BBC wedi ceisio cyngor cyfreithiol er mwyn sicrhau bod taliadau i staff a chyflenwyr yn ddilys. Caiff taliadau eu hadolygu a'u cymeradwyo gan uwch-aelodau o'r staff. Oherwydd y sefyllfa bresennol o ran Wcráin a Rwsia, mae gweithgor sancsiynau wedi bod ar waith drwy'r flwyddyn, gan ganolbwyntio ar oruchwyllo hysbysiadau, monitro newidiadau i sancsiynau a rhoi prosesau sgrinio newydd ar waith. Hysbyswyd yr awdurdodau perthnasol, lle y bo hynny'n ofynnol yn ôl y gyfraith.

Mae'r timau cyllid yn parhau i adolygu'r holl asedau a rhwymedigaethau er mwyn nodi a oes angen unrhyw amhariadau neu ddarpariaethau. Nid oes dim perthnasol wedi'i nodi hyd yma. Mae gan y BBC swyddfa ar brydles ym Moscow, a all fynd yn feichus, yn dibynnu ar sut y bydd y sefyllfa yn y wlad honno yn datblygu.

Ymateb y Pwyllgor – Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod hwn yn faes sensitif. Mae'n fodlon bod y BBC wedi gweithredu mewn modd ystyriol a chymesur hyd yma.

Digwyddiad seiber Capita

Bu Capita Group yn destun digwyddiad seiber ym mis Mawrth 2023. Mae Capita wedi hysbysu'r BBC nad effeithiodd y digwyddiad seiber ar ddata cwsmeriaid Trwyddedu Teledu. Mae'r BBC yn parhau i weithio gyda Capita, gan ganolbwyntio ar unrhyw gamau y mae angen eu cymryd i gryfhau amgylchedd seiberddiogelwch Capita. Mae'r BBC wedi hysbysu Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth am y digwyddiad. Yn seiliedig ar y wybodaeth sy'n hysbys, ni chafodd y digwyddiad hwn unrhyw effaith ariannol.

Ymateb y Pwyllgor – Mae'r Pwyllgor yn fodlon ar asesiad y rheolwyr nad effeithiwyd ar unrhyw ddata personol sy'n gysylltiedig â'r BBC a bod camau'n cael eu cymryd i gryfhau amgylchedd seiberddiogelwch Capita.

Digwyddiadau ar ôl y dyddiad adrodd

Yn gynnar ym mis Mehefin 2023, hysbyswyd y BBC gan ei gyflenwr IBM fod gwendid mewn meddalwedd trydydd parti wedi effeithio ar ei gontractwr, Zellis. Arweiniodd hyn at dor diogelwch data, gan effeithio ar nifer o sefydliadau, yn cynnwys y BBC. Hysbyswyd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth am yr achos hwn o dor diogelwch data. Zellis sy'n rheoli proses cyfloges y BBC ac, felly, mae'n cadw data personol am gyflogaion y BBC ac unigolion sy'n gweithio gyda'r BBC ar sail TWE.

Ymateb y Pwyllgor – Mae rheolwyr wedi briffio'r Pwyllgor ar y gweithgareddau sydd wedi'u cynnal a'u cynllunio i liniaru'r effeithiau sy'n gysylltiedig â'r risg hon. Bydd y Pwyllgor yn parhau i fonitro ymateb y BBC i'r digwyddiad hwn.

Cafodd y Pwyllgor gadarnhad gan y rheolwyr nad oeddent yn ymwybodol o unrhyw gamdatganiadau perthnasol na chamdatganiadau nad oeddent yn berthnasol a wnaed yn fwriadol er mwyn rhoi darlun penodol.

Nododd yr archwilwyr unrhyw gamdatganiadau yr oeddent wedi dod ar eu traws wrth wneud eu gwaith, a gwnaethant gadarnhau nad oedd unrhyw symiau perthnasol nas addaswyd. Gall y Pwyllgor gadarnhau ei fod yn fodlon bod yr archwilwyr allanol wedi cyflawni eu cyfrifoldebau â diwydrwydd ac amheuaeth broffesiynol.

Ar ôl adolygu'r cyflwyniadau a'r adroddiadau gan reolwyr ac ymgynghori, lle bo angen, â'r archwilwyr allanol, mae'r Pwyllgor yn fodlon bod y datganiadau ariannol yn ymdrin yn briodol â'r dyfarniadau beirniadol a'r amcangyfrifon allweddol (o ran y symiau a nodwyd a'r datgeliadau). Mae'r Pwyllgor hefyd yn fodlon bod y tybiaethau arwyddocaol a ddefnyddiwyd i bennu gwerth asedau a rhwymedigaethau wedi bod yn destun prosesau craffu a herio priodol, a'u bod yn diogon cadarn.

Adolygodd y Pwyllgor ddatganiadau ariannol y Grŵp a'u lle yn yr Adroddiad Blynyddol ehangach. Er mwyn cynorthwyo'r adolygiad hwn, ystyriwyd adroddiadau gan reolwyr yn ogystal ag adroddiadau gan yr archwilwyr mewnol a'r archwilwyr allanol, yn cwmpasu'r canlynol:

- ansawdd a derbynoldeb polisiau cyfrifyddu, gan gynnwys eu cydymffurfiaeth â safonau cyfrifyddu;
- cydymffurfiaeth â gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol;
- eglurder datgeliadau a'u cydymffurfiaeth â gofynion adrodd perthnasol; a yw'r Adroddiad Blynyddol yn ei gyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy ac a yw'n rhoi'r wybodaeth ddibynadwy sydd ei hangen i asesu perfformiad a strategaeth y BBC.

Effeithiolrwydd rheolaethau mewnol a'r fframwaith rheoli risg

Sicrwydd rheolaethau mewnol

Adolygodd y Pwyllgor effeithiolrwydd system rheolaeth fewnol y BBC, ar ran y Bwrdd. Er mwyn gwneud yr asesiad hwn, dibynnodd y Pwyllgor yn bennaf ar ganfyddiadau'r gweithgarwch sicrwydd annibynnol a oedd yn digwydd ym mhob rhan o'r Grŵp. Ymhlith y meysydd penodol eraill a ystyriwyd yn ystod y flwyddyn roedd:

- cadarnhad i'r Bwrdd gan aelodau'r Pwyllgor Gweithredol ynghylch rheolaethau yn eu meysydd busnes. Ar gyfer 2022/23, mae'r broses hon wedi cael ei gwella drwy ddatblygu dull hunanasesu rheolaethau yn barhaus;

Llywodraethu

Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Risg – parhad

- y themâu a nodwyd drwy weithgarwch Archwilio Mewnol, gan holi cynrychiolwyr Archwilio Mewnol ynghylch canlyniadau ac arsylwadau eu gwaith. Caiff crynodeb o weithgarwch Archwilio Mewnol, sy'n nodi tueddiadau ac achosion sylfaenol, ei gyflwyno'n flynyddol. Caiff canfyddiadau allweddol o bob archwiliad, gan gynnwys sgoriau sicrwydd a chamau unioni, eu hadolygu gan y Pwyllgor;
- cynnydd wrth gwblhau camau sy'n deillio o weithgarwch sicrwydd annibynnol, gan gynnwys camau sy'n deillio o archwiliadau mewnol ac allanol ac adolygiadau gwerth am arian y Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Mae hwn yn faes rydym yn rhoi ystyriaeth ddilynol iddo ym mhob cyfarfod er mwyn sicrhau yr ymddrinnir yn briodol â'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt o ran unrhyw wendidau a nodwyd;
- gwaith dilynol pellach a chraffu ar y broses o gwblhau unrhyw gynlluniau gwella neu gamau gweithredu y cytunwyd arnynt ar gyfer meysydd a ystyrir yn rhai proffil uchel neu sydd wedi cael canfyddiadau sicrwydd beirniadol;
- adolygiadau rheolaidd o gynnydd prosiectau allweddol a ddarparwyd gan Swyddfa Drawsnewid y BBC. Hefyd, adolygodd y Pwyllgor ddetholiad o brosiectau yn fanylach, ym mhresenoldeb uwch-reolwyr perthnasol;
- adroddiadau ar chwythu'r chwiban ynghyd â'r systemau sydd ar waith i leihau achosion o driniaeth anghyfiawn a'u hatal. Defnyddir cyngor annibynnol lle y bo'n briodol, er enghraifft mewn perthynas â materion yn ymwneud â honiadau yn erbyn talent ar yr awyr;
- adolygu a chymeradwyo datganiad Caethwasiaeth Fodern y BBC ac adolygu'r dull o sicrhau cydymffurfiaeth.

Mae'r Pwyllgor yn fodlon bod y wybodaeth a gyflwynwyd gan reolwyr, a'r ymatebion a gafwyd i gwestiynau ac ymholiadau pellach, yn ddigonol i'r Bwrdd asesu bod effeithiolrwydd cyffredinol rheolaethau mewnol a gweithgarwch rheoli risg yn ddigonol.

Rheoli risg a Chydymffurfiaeth

Ystyriodd y Pwyllgor y prosesau ar gyfer rheoli risgiau sylweddol yn y BBC.

Cyflawnodd y ddyletswydd hon drwy fynd ati, ar sail chwarterol, i adolygu adroddiadau ar risg a oedd yn cynnwys perfformiad metrigau risg allweddol ar draws meysydd strategol, gweithredol a chydymffurfiaeth. Ystyriodd y Pwyllgor hefyd unrhyw risgiau sydd y tu hwnt i'n hawydd i gymryd risgiau a chamau'r rheolwyr i ddatblygu, gwella ac adfer rheolaethau lle y bo angen.

Yn benodol, adolygodd y Pwyllgor adroddiadau a heriodd y rheolwyr mewn perthynas â'r prif risgiau strategol, gweithredol ac o ran cydymffurfiaeth a wynebir gan y BBC; adolygodd y trefniadau llywodraethu ar gyfer adrodd am risgiau a'u goruchwylio ac ystyriodd awydd y BBC i gymryd risgiau mewn meysydd

risg. At hynny, adolygodd y Pwyllgor risgiau sy'n dod i'r amlwg sydd â'r potensial i effeithio ar y BBC, gan gynnwys papurau ar ganlyniadau ymarferion sganio'r gorwel.

Cyflwynwyd dangosfwrdd cydymffurfiaeth i'r Pwyllgor ym mhob cyfarfod hefyd. Am ragor o fanylion, gweler yr adroddiad ar y Prif Risgiau ar y dudalen nesaf.

Effeithiolrwydd Archwilwyr Mewnol

Parhaodd swyddogaeth Archwilio a Sicrwydd y BBC â'i llinell adrodd annibynnol i Gadeirydd y Pwyllgor a chynhaliodd raglen o archwiliadau mewnol yn unol â'r prif risgiau a wynebir gan y BBC. Mae gwaith y tîm yn eitem reolaidd ar agenda pob cyfarfod, a gyflwynir gan y Cyfarwyddwr Archwilio Mewnol. Yn ystod y flwyddyn, mae'r Pwyllgor wedi:

- cymeradwyo'r cynllun gwaith ar gyfer y flwyddyn i ddod, gan sicrhau ei fod yn seiliedig ar risg ac yn taro cydbwysedd rhwng rhoi sicrwydd ynghylch prosesau busnes craidd a meysydd o risg strategol sy'n dod i'r amlwg;
- ystyried canfyddiadau gweithgarwch archwilio, gan ganolbwyntio ar archwiliadau â chanlyniadau anfodddhaol a chynlluniau'r rheolwyr i fynd i'r afael â'r rhain, ac olrhain gweithgareddau adfer hyd at eu cwblhau;
- ystyried gofynion yr Archwilwyr Mewnol o ran adnoddau a'u gallu.
- Hefyd, mae Cadeirydd y Pwyllgor yn cyfarfod â'r Cyfarwyddwr Archwilio Mewnol a'r Cyfarwyddwr Ansawdd, Risg a Sicrwydd, yn rheolaidd y tu allan i gyfarfodydd ffurfiol y Pwyllgor.

Mae'r Pwyllgor yn parhau i fonitro strwythur y swyddogaeth Archwilio Mewnol a gweithrediad y model adnoddau presennol, gyda chyfran o'r archwiliadau yn cael eu cynnal gan bartner allanol. Mae'r Pwyllgor yn fodlon bod y trefniant hwn yn parhau i weithio'n dda.

Yn unol ag arferion da, cynhaliwyd asesiad annibynnol o effeithiolrwydd y swyddogaeth Archwilio Mewnol yn ystod y pum mlynedd diwethaf, a rhoddwyd yr argymhellion ar waith.

Archwilio Mewnol a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol

O dan Siarter a Chytundeb 2016, mae'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol, a thrwy hynny'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol y mae'n bennaeth arni, wedi'i benodi'n archwilydd statudol y BBC am gyfnod y Siarter.

Goruchwyliodd y Pwyllgor y berthynas â'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol, gan gynnwys cwmipas ei gwaith, ei dulliau gweithredu a'i hannibyniaeth. Ymhlith y meysydd penodol y canolbwyntiwyd arnynt yn ystod y flwyddyn mae'r canlynol:

- y broses archwilio allanol, gan gynnwys gofynion adrodd rheoleidd-dra a phriodoldeb.
- asesiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol o feysydd o risg neu farn archwilio. Ar gyfer 2022/23, roedd hyn yn gyson â'r meysydd o risg a barn a nodwyd gan y rheolwyr. Roedd y

meysydd risg allweddol yn ymwneud â dyfarniadau ac amcangyfrifon mewn perthynas â'r canlynol: eiddo, cynlluniau buddiannau diffiniedig, cydnabod refereniw, asedau rhaglenni a'r dull o drin materion yn ymwneud â digwyddiadau sy'n codi, fel y sefyllfa o ran Wcrain ac India.

- canfyddiadau archwiliadau a phroses y BBC o roi argymhellion y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar waith yn dilyn archwiliad allanol 2022/23;
- adolygiad ffurfiol a gynhaliwyd gan y Pwyllgor o effeithiolrwydd yr archwiliad allanol.

Mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol hefyd yn cynnal astudiaethau gwerth am arian o weithgareddau'r BBC nad ydynt yn rhai golygyddol. Yn ystod 2022/23, cwblhaodd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ei hadolygiad o Strategaeth Ddigidol y BBC. Roedd canfyddiadau cyffredinol yr adolygiad hwn yn gadarnhaol a chydnabuwyd bod y BBC wedi gosod gweledigaeth glir o ran y ffordd y mae'n bwriadu defnyddio technoleg ddigidol i wella'r gwasanaethau y mae'n eu cynnig i gynulleidfaoedd, a bod cynhyrchion digidol y BBC, ar y cyfan, yn perfformio'n dda o gymharu â sefydliadau cyfryngau a ariennir yn well. Nododd hefyd, er mwyn cynnal ei lwyddiannau hyd yma a chyflawni ei dargedau mewn perthynas â'i gyfran o'r farchnad, y bydd angen i'r BBC ddatblygu ei gynlluniau digidol yn gyntaf yn llawn ac ystyried mewn modd realistig a oes ganddo'r adnoddau sydd eu hangen i ateb yr her nesaf hon.

Adolygodd y Pwyllgor ymateb y BBC i ganfyddiadau'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol a bydd yn goruchwylio'r broses o olrhain camau gwella a'u rhoi ar waith. Mae argymhellion i ddatblygu'r strwythur llywodraethu a'r manylion yn y cynlluniau strategol, ac i ystyried ymhellach sut i symud rhwng gwasanaethau darlledu a gwasanaethau ar y rhyngwrwyd yn y dyfodol, yn yr arfaeth.

Gwasanaethau nad ydynt yn wasanaethau archwilio

Fel un o'r mesurau i ddiogelu annibyniaeth yr archwiliad allanol, mae'r Pwyllgor wedi datblygu polisi'r BBC ar gomisiynu'r archwilwyr allanol i ddarparu gwasanaethau nad ydynt yn wasanaethau archwilio, ac yn ei oruchwylio.

Mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol wedi nodi nad yw'n darparu gwasanaethau nad ydynt yn wasanaethau archwilio. Er gwaethaf hyn, ni fyddai'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn cael ei hystyried ar gyfer gwaith a allai beryglu ei gallu i roi barn annibynnol ar ddatganiadau ariannol y BBC. Mae'n rhaid cael cymeradwyaeth ymlaen llaw gan y Pwyllgor cyn recriwtio aelod o staff y Swyddfa Archwilio Genedlaethol i unrhyw swydd uwch-reolwr yn y BBC.

Ein prif risgiau

Mae risgiau yn effeithio ar allu'r BBC i gyflawni ei rwymedigaethau o dan y Siarter a'i ddibenion cyhoeddus. Nod ein dull o reoli risg yw cefnogi'r gwaith o gyflawni ein huchelgeisiau strategol a'n hamcanion gweithredol.

Rheoli risg yn y BBC

Ar adeg o argyfwng geowleidyddol rhyngwladol parhaus a straen domestig, mae'r BBC yn parhau i gyflawni ei ddibenion cyhoeddus.

Mae cynulleidfaoedd yn y DU a ledled y byd wedi parhau i ddibynnu ar y BBC i gael eu hysbysu, eu haddysgu a'u diddanu, er gwaethaf cystadleuaeth ddwys gan gwmnïau byd-eang. Erys cefnogaeth gref i genhadaeth a dibenion cyhoeddus y BBC, gydag 8 o bob 10 oedolyn yn y DU o'r farn bod y BBC yn darparu gwasanaeth cyhoeddus gwerthfawr i bobl yn y DU.

Mae'r amgylchedd allanol wedi cyflwyno risgiau a heriau sylweddol i'r BBC, e.e. mae'r argyfwng geowleidyddol yn parhau i beri risgiau i ddiogelwch ein staff, gan gynnwys newyddiadurwyr. Mae'r amgylchedd macro-economaidd wedi rhoi pwysau ariannol ar ein costau tra bo ffi'r drwydded yn wastad.

Rydym yn parhau i gyflawni ein blaenoriaethau strategol o ran didueddrwydd, cynnwys o bwys, gwasanaethau digidol a thyfu ein hincwm masnachol.

Mae cyflymder eithriadol y newidiadau yn yr amgylchedd cyfryngau allanol yn golygu bod angen i'r BBC newid a thrawsnewid yn fusnes modern, darbodus ac effeithiol.

Rydym yn rheoli risgiau ar draws y BBC drwy bennu safonau a gofynion ar gyfer y prif risgiau a wynebier gan y BBC. Mae'r rhain yn helpu i ddiffinio lefel y risg rydym yn barod i'w chymryd (ein hawydd i gymryd risgiau) yn ein busnes, cyfrifoldebau rheolwyr allweddol a threfniadau llywodraethu gweithgareddau rheoli risg.

Mae ein fframwaith rheoli risg wedi'i ddylunio i helpu'r busnes i reoli risgiau strategol sy'n deillio o'n blaenoriaethau strategol, risgiau gweithredol sy'n deillio o'n gweithrediadau busnes o ddydd i ddydd a risgiau o ran cydymffurfiaeth sy'n deillio o'r angen i fodloni gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol.

1. Sut rydym yn rheoli risg

Mae'r BBC yn defnyddio dull o'r brig i'r bôn ac o'r bôn i'r brig o sicrhau y caiff risgiau strategol a gweithredol allweddol a wynebier gan y BBC, yn ogystal â risgiau allweddol o ran cydymffurfiaeth, eu nodi, eu hasesu a'u rheoli'n briodol.

Tacsonomeg risgiau corfforaethol

Mae'r BBC wedi datblygu tacsonomeg risgiau er mwyn helpu'r busnes i nodi risgiau strategol, gweithredol, ac o ran cydymffurfiaeth. Mae'r dacsonomeg yn helpu i sicrhau cyflawnrwydd wrth nodi risgiau ac yn hwyluso prosesau cydgasglu a chysondeb o fewn ein hadroddiadau ar risg.

Metrigau risg

Caiff ein risgiau gweithredol eu holrhain gan ddefnyddio metrigau risg meintiol, targedau a datganiadau ansoddol o'n hawydd i gymryd risgiau.

Cofrestrau risg is-adrannol a swyddogaethol

Mae isadrannau a swyddogaethau yn cynnal cofrestrau risg lleol. Caiff pob risg ei neilltuo i berchennog risg, sy'n gyfrifol am reoli'r risg, mesurau lliniaru a rheolaethau o ddydd i ddydd. Caiff cofrestrau risg eu trafod a'u diweddarau mewn cyfarfodydd is-adrannol a chaiff risgiau sylweddol eu huchgyfeirio i lefel gorfforaethol.

Llywodraethu ac adrodd am risg

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn helpu Bwrdd y BBC i oruchwylio trefniadau llywodraethu corfforaethol o fewn y BBC, yn enwedig o ran adroddiadau ariannol, rheolaeth fewnol a rheoli risg.

Mae Bwrdd y BBC a'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn adolygu prif risgiau'r BBC ac yn cynnal archwiliadau dwfn rheolaidd o feysydd risg penodol yn ystod y flwyddyn.

Pwyllgor Gweithredol y BBC sy'n gyfrifol am reolaeth weithredol y BBC, gan gynnwys gweithgareddau rheoli risg.

Mae Pwyllgor Gweithrediadau'r BBC, sy'n un o is-bwyllgorau'r Pwyllgor Gweithredol, wedi canolbwyntio ar fonitro gweithgareddau gweithredol allweddol yn ogystal â gweithgareddau allweddol o ran risg, cydymffurfiaeth a phrosiectau, gan gynnwys gwella rheolaethau mewnol, goruchwylio gweithgareddau unioni a chynnal archwiliadau dwfn o feysydd risg penodol.

Archwiliadau dwfn o risg


Mae archwiliadau dwfn yn ein galluogi i gael trafodaeth fanylach am feysydd risg penodol wrth i berchnogion risg gyflwyno trosolwg o'r risg, statws presennol y risg a gweithgareddau lliniaru.

Mae archwiliadau dwfn o risg a gynhelir gan Bwyllgor Gweithrediadau'r BBC yn cynnwys iechyd a diogelwch, seiberddiogelwch, diogelu, llywodraethu data, y cyflenwad o raglenni a darparu cynhyrchion digidol. Cynhaliodd Pwyllgor Gweithrediadau'r BBC hefyd adolygiadau manwl o brosiectau allweddol, gan gynnwys cynaliadwyedd, Amrywiaeth a Chynhwysiant, Across the UK (prosiect i symud gwariant ar raglennu a chynhyrchu i rannau eraill o'r DU), Birmingham Digbeth (adleoli BBC Birmingham), ac East Bank (adleoli stiwdios cerddoriaeth fyw presennol y BBC i Stratford, Dwyrain Llundain).



Cynhaliodd y Pwyllgor Archwilio a Risg 'archwiliadau dwfn' o feysydd risg amserol a blaenoriaeth uchel yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys: diogelwch gwybodaeth a bygythiadau seiber; hyfforddiant gorfodol ar lywodraethu data; cydymffurfiaeth â chyfundrefnau sancsiynau; materion yn ymwneud â chydymffurfiaeth gyfreithiol a rheoleiddiol yn India; risgiau o ran cydymffurfiaeth ryngwladol, a chynhaliodd hefyd adolygiad blynyddol o risgiau Gweithredol a risgiau o ran Cydymffurfiaeth yn BBC Studios. Adolygodd y Pwyllgor Archwilio a Risg hefyd adolygiadau manwl o berfformiad prosiectau yn East Bank; Amrywiaeth a Chynhwysiant; E20 (aildatblygu safle *EastEnders*); a chynaliadwyedd y rhaglen Sero Net.

Yn ystod y flwyddyn, penodwyd Deloitte gan y Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio a Risg i asesu'r trefniadau ar gyfer goruchwylio risgiau Strategol a Gweithredol, ac i argymhell gwelliannau. Mae canfyddiadau'r asesiad hwn wedi'u rhoi ar waith.

Rheoli risg o'r brig i'r bôn



Rheoli risg o'r bôn i'r brig



Llywodraethu

Ein prif risgiau – parhad

Risgiau sy'n dod i'r amlwg

Bygythiadau annisgwyl a all ddatblygu yw risgiau sy'n dod i'r amlwg, neu fygythiadau sy'n bodoli eisoes ond y mae'n anodd meintoli eu heffeithiau. Cânt eu hystyried dros gyfnodau byrdymor, tymor canolig a thymor hwy. Mae'r tîm Rheoli Risgiau Corfforaethol, ar y cyd ag isadrannau, y tîm Strategaeth a Pherfformiad a thimau eraill o arbenigwyr pwnc, yn sganio'r amgylchedd mewnol ac allanol er mwyn nodi risgiau sy'n dod i'r amlwg i'r BBC.

Caiff risgiau sy'n dod i'r amlwg eu categorioeddio'n rhai allanol/yn y farchnad, gwleidyddol, cyfreithiol a rheoleiddiol, gweithredol a thechnoleg. Caiff risgiau o'r fath eu monitro a'u holrhain drwy ein fframwaith risg presennol.

Mae'r mathau o risgiau sy'n dod i'r amlwg rydym wedi'u hystyried ac yn parhau i'w monitro yn cynnwys y canlynol: amlygrwydd cynyddol Deallusrwydd Artiffisial, adnoddau dysgu drwy beiriant a'u heffaith ar weithgareddau creu cynnwys, golygyddol a chorfforaethol; effaith newidiadau rheoleiddiol disgwylidig, wrth i Fil y Cyfryngau a'r Bil Diogelwch Ar-lein fynd drwy senedd y DU; ac effaith yr amgylchedd macro-economaid uwch o ran chwyddiant yng ngoleuni setliad cyfredol ffi'r drwydded.

Gwelliannau a wnaed yn 2022/23

Rydym yn parhau i wella cadernid y ffordd rydym yn rheoli risg, a'r flwyddyn hon, rydym wedi gwneud y canlynol:

- Diwygio ein prif risgiau drwy gyfres o weithdai Pwyllgor Gweithrediadau'r BBC.
- Gwella ein model perchnogaeth risg.
- Cynnal adolygiad â mewnbwn allanol er mwyn asesu'r ffordd rydym yn rheoli ac yn llywodraethu risgiau strategol, gan gynnwys rolau a chyfrifoldebau Bwrdd y BBC, y Pwyllgor Gweithredol, y Pwyllgor Archwilio a Risg, y Pwyllgor Gweithrediadau a'r Bwrdd Masnachol.
- Gwella'r ffordd rydym yn llywodraethu risgiau ar y cyd â Phwyllgor Gweithrediadau'r BBC, gan ganolbwyntio ar weithrediadau busnes yn cynnwys weithgareddau rheoli a phrosiectau newid a thrawsnewid ar sail cylchdro.

Blaenoriaethau ar gyfer 2023/24


O ran risgiau strategol, rydym yn bwriadu rhoi gwelliannau ar waith i asesu a monitro'r risgiau hyn, ac adrodd amdanynt.

O ran risgiau gweithredol, rydym yn bwriadu adolygu a diwygio ein datganiadau am yr awydd i gymryd risgiau, ein metrigau a'n targedau ar gyfer meysydd risg gweithredol, fel y bo angen.

Byddwn yn parhau i ddarparu cymorth i reoli risgiau o ran cydymffurfiaeth yn ymwneud â gweithrediadau a swyddfeydd rhyngwladol.

2. Ein fframwaith risg

Mae gennym broses pedwar cam i helpu'r busnes i reoli risgiau o fewn ein gweithgareddau o ddydd i ddydd.



1. Nodi

- Caiff risgiau corfforaethol eu nodi a'u hasesu gan Bwyllgor Gweithrediadau'r BBC a chaiff perchenogion risg eu neilltuo i bob risg.
- Mae Bwrdd y BBC a'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn darparu mewnbwn yn ystod yr adolygiad blynyddol o'r prif risgiau.
- Caiff risgiau ar lefel is-adrannol eu nodi drwy ystyried ffactorau sydd â'r potensial mwyaf i effeithio ar strategaeth ac amcanion Is-adrannol.
- Caiff risgiau sy'n dod i'r amlwg eu nodi gan dîm Rheoli Risgiau Corfforaethol y BBC, ar y cyd â thîm Strategaeth y BBC a thimau eraill o arbenigwyr pwnc, drwy sganio meysydd o ddi-ddordeb, bygythiadau a chyfleoedd sydd i ddod.

3. Rheoli

Rydym yn defnyddio model tair llinell amddiffyn i reoli risgiau:

- Mae perchnogion risg yn yr Is-adrannau a'r swyddogaethau yn rheoli'r risgiau ac yn sicrhau y caiff mesurau lliniaru a rheolaethau eu rhoi ar waith yn effeithiol.
- Mae perchnogion risg, ar y cyd â Phwyllgor Gweithredol y BBC yn nodi'r awydd i gymryd risgiau mewn meysydd risg gweithredol.
- Mae'r tîm Rheoli Risgiau Corfforaethol yn monitro'r risgiau, gan gynnwys a ydynt o fewn yr awydd i gymryd risgiau neu y tu hwnt iddo.
- Mae'r swyddogaeth Archwilio a Sicrwydd yn rhoi sicrwydd annibynnol ynghylch risgiau busnes allweddol, fel y bo'n briodol ac yn seiliedig ar ei chynllun archwilio.

2. Dadansoddi

- Rydym yn dadansoddi'r tebygolrwydd y bydd pob risg a nodwyd yn crisialu o ystyried y mesurau lliniaru sydd ar waith.
- Rydym yn asesu'r effaith bosibl gan ystyried enw da ariannol, materion cyfreithiol a rheoleiddiol, materion gweithredol ac iechyd a diogelwch.
- Ar y cyd, mae'r dadansoddiad hwn yn ein galluogi i bennu a oes angen rhoi mesurau lliniaru ychwanegol ar waith o ystyried ein hawydd i gymryd risgiau.

4. Monitro ac adrodd

- Mae'r timau arwain is-adrannol yn adolygu risgiau a rheolaethau lliniaru.
- Caiff Pwyllgor Gweithrediadau'r BBC adroddiad ar y risgiau strategol, gweithredol a'r risgiau o ran cydymffurfiaeth bob deufis.
- Cyflwynir diweddariad misol ar risg i Bwyllgor Gweithredol y BBC.
- Cyflwynir adroddiad chwarterol ar risg i'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn ymdrin â risgiau strategol a gweithredol allweddol, risgiau allweddol o ran cydymffurfiaeth a risgiau sy'n dod i'r amlwg. Cynhelir archwiliadau dwfn o risg mewn meysydd penodol ym mhob pwyllgor.
- Cyflwynir adroddiad diweddaru chwarterol i Fwrdd y BBC ar risgiau strategol a gweithredol allweddol, a risgiau allweddol o ran cydymffurfiaeth.

3. Ein prif risgiau

Mae Bwrdd y BBC wedi cynnal asesiad o'r prif risgiau a wynebir gan y Grŵp, gan gynnwys y rheini a fyddai'n peryglu ei fodel busnes a'i berfformiad yn y dyfodol.

Ystyri effaith y risgiau hyn wrth ddatblygu datganiad y BBC ynghylch hyfywedd. Mae'r prif risgiau ac ansicrwydd a wynebir gan y Grŵp wedi'u nodi isod:

Allwedd dosbarthiad risg:

- Risgiau strategol
- Risgiau gweithredol

Allwedd dibenion cyhoeddus:

- 1** Darparu newyddion a gwybodaeth sy'n ddiuedd er mwyn helpu pobl i ddeall ac ymgysylltu â'r byd o'u hamgylch.
- 2** Cynorthwyo pobl o bob oedran i ddsygu.
- 3** Dangos yr allbwn a'r gwasanaethau mwyaf creadigol a nodedig o'r ansawdd gorau.
- 4** Adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol holl wledydd a rhanbarthau'r DU, a chefnogi economi greadigol y DU.
- 5** Adlewyrchu'r DU, ei diwylliant a'i gwerthoedd i'r byd.

Allwedd blaenoriaethau strategol:

- A** Didueddrwydd
- B** Cynnwys o bwys
- C** Defnyddio mwy o gynnyrch ar-lein
- D** Tyfu incwm masnachol y BBC

Allwedd i newidiadau risg:

Newid mewn risg yn ystod 2022/23:

- ▲ Mae'r risg wedi cynyddu yn ystod y flwyddyn
- Mae'r risg wedi aros yn sefydlog yn ystod y flwyddyn
- ▼ Mae'r risg wedi lleihau yn ystod y flwyddyn

Risgiau strategol

1. Newid strwythurol yn ymddygiad cynulleidfaoedd, wedi'i gyflymu gan gystadleuaeth ddigidol

Risg: Methiant i addasu i'r newid cynyddol o allbwn teledu a radio a ddarlledir i fformatau digidol, gan gynnwys gwasanaeth fideo ar alw y tansgrifir iddo (SVOD) a chynnwys ar y we.

Effaith bosibl: Mae lefelau cynulleidfaoedd yn gostwng am fod cynulleidfaoedd yn defnyddio gwasanaethau amgen, gan leihau gwerth gwasanaeth cyhoeddus y BBC.

Perchennog risg: **Y Cyfarwyddwr Strategaeth a Pherfformiad**

Cyfeiriad 2022/23: ▲

Dibenion cyhoeddus: **1 2 3 4 5**

Blaenoriaethau strategol: **B C D**

Gweithgareddau a gynhaliwyd yn 2022-23:

- Darparu teitlau gwreiddiol a nodedig o Brydain ym mhob un o'n genres fideo a sain, e.e. *Happy Valley*, *The Traitors* yn ogystal â phodlediadau unigryw, e.e. *I'm Not a Monster – The Shamima Begum Story*.
- Darparu darllediadau byw yn ystod un o'r blynyddoedd mwyaf o ran cerddoriaeth fyw (Glastonbury) a chwaraeon byw (Ewros y Merched, Cwpan y Byd FIFA y Dynion), yn ogystal â chwarae rôl bwysig yn rhai o'r digwyddiadau cenedlaethol pwysicaf.
- Nodi cynllun buddsoddi sylweddol ar gyfer cynnwys fideo premiwm ar gyfer y pum mlynedd nesaf.

Risg weddilliol a gweithgareddau arfaethedig ar gyfer 2023/24:

- Rhoi ein cynllun ail-fuddsoddi ar waith ar gyfer cynnwys fideo premiwm ar iPlayer a chydgyssylltu a thyfu ein portffolio cynhyrchion digidol.
- Gwneud gwelliannau o ran personoli ein harlwy digidol a phrofiad defnyddwyr ohono. Datblygu cynhyrchion ap BBC News. O ran BBC Sounds, canolbwyntio ar ryddhau podlediadau am gyfnod penodol, caffael podlediadau, podlediadau ffurf fer a rhaglennu Sounds yn unig. Darparu deunydd gweledol ar gyfer mwy o gynnwys sain.

Metrigau risg allweddol:

- Metrigau cynulleidfaoedd yn cynnwys cyrhaeddiad, ehangder a'r amser a dreuliyd gyda'r BBC yn ôl demograffeg amrywiol, gan gynnwys cynulleidfaoedd iau, pobl o gefndir Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol, y gwledydd a'r rhanbarthau.
- Tueddiadau gwyltio digyffelyb (defnyddio cynnwys nas darlledwyd ar y teledu, h.y. SVOD neu gemau) wedi'u mesur.

Llywodraethu

Ein prif risgiau – parhad

2. Y cyflenwad o raglenni a'r gystadleuaeth am dalent greadigol ac ar yr awyr

Risg: Mae cyflenwad annigonol o raglenni ac anallu'r BBC i ddenu a chadw talent greadigol ac 'ar yr awyr', yn atal y BBC rhag gallu cynnal ansawdd ac ehangder y cynnwys a gynigir ganddo.

Effaith bosibl: Lefelau cynulleidfaoedd cyffredinol is am nad yw cynnwys yn ddeniadol i gynulleidfaoedd penodol.

Perchennog risg: **Y Prif Swyddog Cynnwys**

Cyfeiriad 2022/23: ➤

Dibenion cyhoeddus: **2 3 4 5**

Blaenoriaethau strategol: **B D**

Gweithgareddau a gynhaliwyd yn 2022-23:

- Datblygu strategaeth cyflenwi pob cynnwys sy'n canolbwyntio ar gryfhau ein gallu i gystadlu am syniadau a chreu canolfannau rhagoriaeth.
- Datblygu strategaeth glir i gadw talent allweddol, meithrin talent newydd a chynnal cyflenwad cryf o dalent.
- Sicrhau cyllid ychwanegol ar gyfer mentrau talent a chynhyrchu, gan gynnwys rhoi ein hymrwymiad i amrywiaeth greadigol ar waith, sy'n buddsoddi mewn cynnwys amrywiol a chynhwysol.
- Galluogi dull cyson o gcontractio a chynabod talent.

Risg weddilliol a gweithgareddau arfaethedig ar gyfer 2023/24:

Mynd i'r afael â risg peidio â denu'r dalent a'r syniadau gorau drwy wneud y canlynol:

- Ymgysylltu'n gynyddol â'r sector drwy amrywiaeth o weithgareddau, gan gynnwys briffiadau i gynhyrchwyr, cyfarfodydd rhwng cyfarwyddwyr genres a chyflenwyr.
- Gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau sgiliau, darlledwyr eraill a chyflenwyr er mwyn sicrhau y caiff sgiliau penodol eu meithrin.
- Sefydlu 'Grŵp Talent Ar yr Awyr' sy'n gweithio ar draws Cynnwys, Newyddion a'r Gwledydd.

Metrigau risg allweddol:

- Nifer y Cynlluniau a'r Bwrsariau Talent.
- Across The UK – canran y gwariant ar gomisiynu teledu y tu allan i Lundain a % y gwariant o fewn y Gwledydd.
- Cynnwys Cwmnïau Annibynnol cymwys.
- Defnyddio'r gronfa amrywiaeth a chynhwysiant creadigol.

3. Didueddrwydd

Risg: Methiant i ddarparu cynnwys diduedd a chywir yr ymddiriedir ynddo, gan gynnwys newyddion. Mae didueddrwydd yn gynyddol bwysig o ran gwleidyddiaeth a chynulleidfaoedd yn y DU ac yn fyd-eang, yn enwedig yng nghyd-destun twyllwbyodaeth gyffredinol a gwahaniaeth barn. Mae trafodaeth gyhoeddus ddargyfeiriol, diffyg ymddiriedaeth mewn sefydliadau a dylanwad cyfryngau cymdeithasol yn ei gwneud hi'n fwy anodd ei gyflawni.

Effaith bosibl: Gall methiant i ddarparu cynnwys diduedd a chywir, gan gynnwys newyddion, arwain at ddiffyg ymddiriedaeth ac anfodlonrwydd ymhlith cynulleidfaoedd, gan arwain at golli cynulleidfaoedd yn y DU ac yn fyd-eang.

Perchennog risg: **Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol y BBC**

Cyfeiriad 2022/23: ➤

Dibenion cyhoeddus: **1 3 4 5**

Blaenoriaethau strategol: **A B**

Gweithgareddau a gynhaliwyd yn 2022-23:

- Rhoi'r Cynllun Deg Pwynt ar Ddieddrwydd a Safonau Golygyddol ar waith yn dilyn Adolygiad Serota yn 2021.
- Ymgorffori safonau a phrosesau didueddrwydd ar y cyd ag arweinwyr ar bob lefel.
- Gofynion clir i greu cynnwys yn unol â'r Canllawiau Golygyddol.
- Rhoi hyfforddiant ar ddieddrwydd i staff a gweithwyr llawrydd.
- Cwblhau adolygiad o ddieddrwydd a gomisiynwyd gan Fwrdd y BBC mewn perthynas â Threthiant a Gwariant Cyhoeddus. Cwblhau'r adolygiad cyntaf o gynnwys safonau golygyddol rhaglenni, gan gynnwys didueddrwydd.
- Atgyfnerthu'r tîm Polisi Golygyddol, gan ganolbwyntio'n benodol ar newyddion a materion cyfoes a chynnwys ffeithiol.
- Mae cwynion ynghylch didueddrwydd yn destun prosesau dyfarnu'r Uned Cwynion Gweithredol ac Ofcom. Adroddir am achosion o dorri canllawiau hyd at, ac yn cynnwys, lefel y Bwrdd. Hysbysir Bwrdd y BBC am achosion difrifol o dorri'r safonau golygyddol hefyd.

Risg weddilliol a gweithgareddau arfaethedig ar gyfer 2023/24:

Mynd i'r afael â risg adroddiadau diduedd a thwyllwbyodaeth drwy wneud y canlynol:

- Cwblhau rhaglen bellach o Adolygiadau Thematig ac Adolygiadau o Gynnwys.
- Lansio BBC Verify, tîm a brand, a fydd yn defnyddio adnoddau a thechnegau i ymchwilio i wybodaeth, fideos a delweddau, eu cyrchu a'u dilysu.
- Parhau i gyflwyno hyfforddiant ar ddieddrwydd.

Metrigau risg allweddol:

- Lefelau cwblhau hyfforddiant ar ddieddrwydd.
- Arolwg olrhain didueddrwydd.
- Cwynion a gadarnhawyd.
- Achosion difrifol o dorri'r safonau golygyddol.
- Canlyniadau arolygon cynulleidfa.

4. Cyflymder darparu cynhyrchion digidol

Risg: Methiant i gyflymu'r newid yn ein portffolio digidol ac, felly, i ddiwallu anghenion cynulleidfaoedd.

Effaith bosibl: Ni all cynulleidfaoedd gael gwerth digonol o'n cynigion ar-lein, gan achosi i'r BBC golli cyfran o'r farchnad i ddarparwyr SVOD eraill ac, o ganlyniad, ei wneud yn llai abl i sicrhau gwerth i'r cyhoedd mewn byd digidol.

Perchennog risg: Y Prif Swyddog Cynhyrchion

Cyfeiriad 2022/23: >

Dibenion cyhoeddus: 1 3

Blaenoriaethau strategol: B C D

Gweithgareddau a gynhaliwyd yn 2022-23:

- Strategaeth ddigidol, yn seiliedig ar fap trywydd a thargedau, i gynyddu aeddfedrwydd digidol y BBC, er budd strategaeth Gwerth i Bawb y BBC.
- Datblygu ein gallu i greu cynhyrchion, gan ganolbwyntio ar gynnig profiad personol i ddefnyddwyr y tu hwnt i fewngofnodi.
- Buddsoddi mewn technoleg i symleiddio'r strwythur presennol ac ategu un llwyfan modiwlaid.
- Uwchsgilio arweinwyr er mwyn ennyn hyder yn yr amgylchedd digidol.
- Gwella galluoedd rheoli ac olrhain data'r BBC ac integreiddio mwy o ddata.

Risg weddilliol a gweithgareddau arfaethedig ar gyfer 2023/24:

Mynd ati i wella profiadau defnyddwyr yn unol â'r gystadleuaeth drwy wneud y canlynol:

- Gwella'r cynhyrchion digidol a gynigir, gan gynnwys profiad symudol yn y man cywir.
- Profi a chyflwyno ap BBC News newydd sy'n cynnig profiad cyfoethocach wedi'i deilwra'n benodol.
- Cyflwyno dulliau a ffyrdd ystwyth o weithio, a darparu adnoddau ategol i bob aelod o staff sy'n ymwneud â'r trawsnewidiad digidol.

Metrigau risg allweddol:

- Nifer y defnyddwyr sy'n mewngofnodi bob wythnos ar lwyfannau digidol y BBC.
- % o gynulleidfa'r BBC sy'n defnyddio llwyfannau digidol y BBC.
- Yr amser y mae'n ei gymryd i gyflwyno cynhyrchion arfaethedig newydd i'r farchnad.

Llywodraethu

Ein prif risgiau – parhad

Risgiau gweithredol

1. Ein sefyllfa ariannol

Risg: Anallu i gyflawni ein canlyniadau disgwylidiedig o ganlyniad i gyfyngiadau ariannol sy'n deillio o'r canlynol:

- Lefelau casglu ffi'r drwydded is o ganlyniad i gyfraddau osgoi talu uwch, newidiadau demograffig yn effeithio ar niferoedd cartrefi neu gynulleidfaoedd yn 'optio allan' o'n cynnwys.
- Anallu i reoli costau cynhyrchu a gweinyddol yn llwyddiannus.
- Methiant i gyflawni'r buddiannau masnachol disgwylidiedig drwy ein hendidau masnachol.

Effaith bosibl: Llai o gynnwys a chynhyrchion a/neu lai o fuddsoddiad yn ein hamcanion strategol (gan gynnwys ein llwyfannau digidol), a fyddai'n debygol o gael effaith andwyol ar ein gallu i gyrraedd cynulleidfaoedd.

Perchennog risg: **Prif Swyddog Ariannol**

Cyfeiriad 2022/23: ➤

Gweithgareddau a gynhaliwyd yn 2022-23:

- Monitro cyfraddau casglu ffi'r drwydded a chyfraddau osgoi talu yn agos, gan gynnwys gostyngiad yng nghyfraddau twf cartrefi a newidiadau o ran defnydd cynulleidfaoedd o'r cyfryngau.
- Cyllidebu cadarn ac olrhain gwariant ar gyfer cynhyrchu cynnwys.
- Monitro cyfamodau dyledion masnachol (gwirioneddol a rhagamcanol) yn chwarterol.
- Rheolaethau cadarn dros wariant ar orbenion er mwyn sicrhau y cânt eu cadw mor isel â phosibl, gan flaenoriaethu gwariant ar gynnwys a gwasanaethau.
- Craffu ar sefyllfa ariannol y BBC ar lefel y Bwrdd, y Pwyllgor Archwilio a Risg, y Bwrdd Masnachol, y Pwyllgor Gweithredol a'r Pwyllgor Gweithrediadau.
- Adolygiadau busnes gweithredol a hyfywedd blynyddol i asesu sefydlogrwydd ariannol parhaus.
- Adroddiadau rheolaidd i randdeiliaid allanol e.e., Ofcom, yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, ymddiriedolwyr y pensiwn ac ati.

Risg weddilliol a gweithgareddau arfaethedig ar gyfer 2023/24:

Eir i'r afael ag effaith andwyol pwysau o ran chwyddiant a refeniw'r drwydded ar ein cadwyn gyflenwi drwy wneud y canlynol:

- Cyflwyno rhaglen arbedion newydd hyd at 2027/28.
- Cadarnhau cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig actiwaraidd 2022 lle y mae'r setliad yn gynaliadwy ar gyfer y BBC ac yn diogelu aelodau'r cynllun pensiwn.

Metrigau risg allweddol:

- Cyfraddau casglu ar gyfer refeniw ffi'r drwydded.
- Cyflawni rhaglenni arbedion.
- Lefelau gorbenion y cyllidebwyd ar eu cyfer.
- Metrigau ar berfformiad endidau masnachol gan gynnwys gwerthiannau, EBITDA.
- Cydymffurfiaeth â lefelau dyledion yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.
- Perfformiad cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig y BBC.

2. Pwysau sefydliadol

Risg: Methiant i reoli cyflymder newidiadau sefydliadol sy'n peri risg y caiff ein pobl eu rhoi o dan bwysau gweithredol sylweddol.

Mae hyn wedi'i hategu gan broses drawsnewid gyflymach ym mhob un o lsadrannau'r BBC, gan gyflwyno mentrau eofn a hirsefydledig ac arloesi strwythurol, er mwyn creu sefydliad symlach a mwy darbodus, a sicrhau bod pob maes yn sicrhau Gwerth i Bawb.

Effaith bosibl: Effaith andwyol ar gynhyrchiant a llesiant staff a mwy o botensial am weithredu diwydiannol.

Perchennog risg: **Y Prif Swyddog Pobl**

Cyfeiriad 2022/23: ➤

Gweithgareddau a gynhaliwyd yn 2022-23:

- Dulliau cyfathrebu effeithiol â'r staff, gyda gweithgarwch ymgysylltu yn cael ei fonitro drwy arolygon staff.
- Ffordd agored ac effeithiol o weithio gyda'r undebau.
- Rhoi'r pwys mwyaf ar lesiant staff y BBC drwy greu amgylchedd diogel, sy'n ymrwymedig i weithio hybrid.
- Llinell gymorth chwythu'r chwiban ar waith fel bod modd rhoi gwybod am bryderon ymddygiadol, gan gynnal ymchwiliadau lle y bo'n briodol.
- Cynlluniau parhad busnes gweithredol lleol ar waith.
- Cydgyssylltu gweithgareddau newid er mwyn atal nifer o risgiau cysylltiadau diwydiannol rhag codi ar yr un pryd yn yr un lle.

Risg weddilliol a gweithgareddau arfaethedig ar gyfer 2023/24:

Mynd i'r afael â risgiau yn ymwneud â chynhyrchiant ac ymgysylltu â staff sy'n deillio o newid sylweddol drwy wneud y canlynol:

- Cynyddu ymdrechion cyfathrebu i adrodd straeon integredig am waith a darpariaeth yr adran adnoddau dynol, dro ar ôl tro ac mewn ffordd ddiddorol o dan fantell profiad cyflogeion.
- Ceisio defnyddio diswyddiadau gwirfoddol lle bynnag y bo'n bosibl i ail-gydbwyso gofynion staffio.
- Manteisio ar dechnoleg i sicrhau y caiff cyflogeion eu cynnwys ac y gallant ganolbwyntio ar waith cynhyrchiol.

Metrigau risg allweddol:

- Canlyniadau Arolygon Boddhad Cyflogeion.
- Y defnydd o adnoddau llesiant.
- Monitro'r llinell gymorth chwythu'r chwiban.
- Cyfraddau cwblhau cyrsiau hyfforddi.
- Diwrnodau a gollwyd o ganlyniad i weithredu diwydiannol.

3. Denu a chadw staff

Risg: Methiant i ddenu a chadw'r staff sydd eu hangen i gyflawni'r strategaeth Gwerth i Bawb.

Effaith bosibl: Mae anallu i gadw a chyflogi staff yn effeithio ar gynhyrchiant, brwdfrydedd, moral a llesiant y staff.

Perchennog risg: Y Prif Swyddog Pobl

Cyfeiriad 2022/23: ➤

Gweithgareddau a gynhaliwyd yn 2022-23:

- Rhoi system a phrosesau recriwtio a chynefino gwell ar waith.
- Dechrau rhaglen prentisiaethau graidd y BBC.
- Parhau i roi ffocws ar y Rhaglen Mynegai i Uwch-arweinwyr; ffordd gyson o fesur, gwerthfawrogi a chefnogi ein harweinwyr a'u dwyn i gyfrif am eu perfformiad;
- Parhau â dull myConversation o ymdrin â pherfformiad a datblygiad staff, gan ganolbwyntio ar nodau a'r cysylltiad â'r strategaeth, ehangu cyfleoedd gyrfa a datblygu a chyflwyno gweithgareddau newydd i sicrhau perfformiad uchel parhaus.
- Cynnal yr adolygiad blynyddol o gyflogau.

Risg weddilliol a gweithgareddau arfaethedig ar gyfer 2023/24:

Parhau i ganolbwyntio ar ein harweinyddiaeth ac Amrywiaeth a Chynhwysiant drwy wneud y canlynol:

- Parhau i ddenu talent anabl drwy raglen Extend, gyda rolau wedi'u clustnodi ar waith.
- Creu diwylliant cynhwysol sy'n denu ac yn cadw talent amrywiol.
- Cyflwyno rhaglen datblygu arweinwyr newydd er mwyn nodi cymorth a disgwyliadau cyson ar gyfer arweinwyr tîm hyd at uwch-arweinwyr.
- Ehangu'r Rhaglen Mynegai Arweinyddiaeth ac adborth 360 yn seiliedig ar Werthoedd y BBC, gan ein galluogi i fesur, gwerthfawrogi a chefnogi ein harweinwyr a'n huwch-reolwyr a'u dwyn i gyfrif am eu perfformiad.
- Parhau i ganolbwyntio'n benodol ar ymdrechion ym maes Amrywiaeth a Chynhwysiant er mwyn sicrhau yr ymgysylltir â phob aelod o'r staff.

Metrigau risg allweddol:

- Cyfraddau cadw cyflogeion, trosiant a rheswm dros adael.
- Pobl o gefndir Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol, anabledd, rhywedd, LHDTC+ yn cael eu cynrychioli ymhlith yr arweinwyr a'r staff yn gyffredinol.
- Targedau Amrywiaeth a Chynhwysiant wedi'u hymgorffori yn y Mynegai Uwch-arweinwyr.
- Canlyniadau Arolygon Boddhad Cyflogeion.

4. Risg olygyddol

Risg: Anallu i atal Cynnwys nad yw'n ddiduedd nac yn cydymffurfio â Chanllawiau Golygyddol y BBC rhag cael ei ryddhau.

Effaith bosibl: Torri safonau a all arwain at golli ymddiriedaeth yn y BBC a niwed i enw da.

Perchennog risg: Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol y BBC

Cyfeiriad 2022/23: ➤

Gweithgareddau a gynhaliwyd yn 2022-23:

- Cyfathrebu rheolaidd â staff golygyddol ynglŷn â'r angen i gynnwys gydymffurfio â'r Canllawiau Golygyddol a hyrwyddir gan y Pwyllgor Canllawiau a Safonau Golygyddol.
- Canllawiau golygyddol a chanllawiau penodol ategol wedi'u cynnal gan y tîm Polisi Golygyddol, gan sicrhau eu bod yn hygyrch i bob aelod o'r staff a chwmni cynhyrchu annibynnol.
- Rhoi cyfres symlach o weithdrefnau carlam ar waith ar gyfer ymdrin â chwynion a hunanymchwiliadau.
- Gweithdrefnau i sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion Ofcom, wedi'u hategu gan adroddiadau a gwaith monitro.
- Creu llwybr chwythu'r chwiban newydd ar gyfer pob pryder golygyddol.
- Rhoi gwybod i'r Pwyllgor Archwilio a Risg a'r Pwyllgor Canllawiau a Safonau Golygyddol am gwynion a datgeliadau chwythu'r chwiban.

Risg weddilliol a gweithgareddau arfaethedig ar gyfer 2023/24:

Ymgorffori'r newidiadau i'r safonau golygyddol a argymhellwyd gan Adolygiad Serota yn ein gweithgareddau Busnes fel Arfer fydd y flaenoriaeth o hyd, gan gynnwys:

- Orlhain cwynion, canlyniadau ymchwiliadau a datgeliadau chwythu'r chwiban er mwyn nodi unrhyw dueddiadau neu bwyntiau dysgu y tu hwnt i'r materion a godwyd.
- Adolygu a diweddarau'r Canllawiau Golygyddol a'r canllawiau ar y cyfryngau cymdeithasol.

Metrigau risg allweddol:

- Cwynion a gadarnhawyd.
- Achosion difrifol o dorri'r safonau golygyddol.
- Penderfyniadau Ofcom.

Llywodraethu

Ein prif risgiau – parhad

5. Iechyd, diogelwch a diogeledd

Risg: Methiant i ddiogelu iechyd, diogelwch, diogeledd a llesiant ein pobl, ein cyfranwyr a'n hymwelwyr, gan gynnwys y rheini y mae gennym ddyletswydd gofal drostynt.

Effaith bosibl: Gall methiant i ofalu am iechyd corfforol a/neu iechyd meddwl ein pobl, ein newyddiadurwyr, ein cyfranwyr a'n hymwelwyr effeithio ar enw da y BBC, yn ogystal â'i ganlyniadau rheoleiddiol ac ariannol.

Perchennog risg: **Y Prif Swyddog Gweithredu**

Cyfeiriad 2022/23: ➤

Gweithgareddau a gynhaliwyd yn 2022-23:

- Mae polisiâu a gweithdrefnau ar waith ar gyfer diogelwch a diogelu, gan gynnwys rhestrau gwirio i'w dilyn wrth ymgysylltu â chwmnïau cynhyrchu annibynnol.
- Cyrsiau hyfforddi ac ymwybyddiaeth ar gyfer diogelwch a diogelu. Hyfforddiant arbenigol ar gyfer staff sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau risg uchel neu'n eu goruchwyllo.
- Systemau rheoli digwyddiadau er mwyn monitro digwyddiadau diogelwch, gan gynnwys camau unioni.
- Cymorth arbenigol ychwanegol ar gyfer timau sy'n gweithredu mewn tiriogaethau Risg Uchel.
- Mae fframwaith sicrwydd ar waith i brofi trefniadau diogelu.

Risg weddilliol a gweithgareddau arfaethedig ar gyfer 2023/24:

Bydd rheoli diogelwch mewn digwyddiadau a chynrychiadau risg uchel, lleoliadau rhyngwladol i ardaloedd risg uchel ac ymgorffori gweithdrefnau diogelu ar draws yr Isadrannau yn parhau i fod yn ffocws. Ymhlith y gweithgareddau arfaethedig mae'r canlynol:

- Cyflwyno model gweithredu newydd ar gyfer diogelwch.
- Adolygu ac ail-lunio hyfforddiant ar ddiogelu a risg uchel, gan gynnwys ar gyfer staff rhyngwladol.
- Lansio llwyfan ar gyfer cofnodi digwyddiadau diogelu.

Metrigau risg allweddol:

- Cyfraddau cwblhau hyfforddiant.
- Nifer y digwyddiadau adroddadwy RIDDOR, gan gynnwys digwyddiadau fu bron â digwydd.
- Nifer y digwyddiadau difrifol.
- Nifer y pryderon diogelu a godwyd.
- Lefelau diffyg cydymffurfio a nodwyd yn ystod ymweliadau sicrwydd ac arolygiadau.
- Camau agored ar gyfer gwella sy'n deillio o'r ymweliadau sicrwydd a'r arolygiadau.

6. Newid a thrawsnewid

Risg: Trefniadau aneffeithiol o reoli rhaglenni newid yn effeithio ar y gallu i gyflawni nodau strategol a gweithredol y BBC.

Effaith bosibl: Mae'r oedi cyn cyflwyno mentrau newid allweddol yn effeithio ar allu'r BBC i gyflawni amcanion strategol a gweithredol allweddol a hefyd ar gynaliadwyedd ariannol a morâl y staff.

Perchennog risg: **Y Cyfarwyddwr Trawsnewid**

Cyfeiriad 2022/23: ➤

Gweithgareddau a gynhaliwyd yn 2022-23:

- Monitro statws prosiectau, risgiau a mesurau lliniaru gan y Swyddfa Drawsnewid.
- Mae'r Pwyllgor Gweithrediadau yn goruchwyllo ac yn herio prosiectau mawr. Ar gyfer y Portffolio Prosiectau Allweddol, mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg a'r Pwyllgor Gweithredol yn ymgymryd â gwaith craffu ychwanegol bob chwarter.
- Mae'r swyddogaeth Sicrwydd Prosiect yn canolbwyntio ar roi sicrwydd ynghylch risg cyflawni a chynnig gwerth i dalwyr ffi'r drwydded. Mae sicrwydd yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn cynnwys adolygiadau ar adeg benodol a sicrwydd strwythuredig parhaus ym mhob rhan o bortffolio newid y BBC.
- Timau prosiect medrus ac ymroddedig sy'n cymhwyso disgyblaethau rheoli prosiect.

Risg weddilliol a gweithgareddau arfaethedig ar gyfer 2023/24

Mwy o ffocws ar effaith chwyddiant a'r amgylchedd macro-economaid ehangach. Ymhlith y gweithgareddau mae'r canlynol:

- Mwy o waith craffu agos ar brosiectau adeiladu wrth i anwadarwydd y farchnad ar gyfer deunyddiau a gwasanaethau adeiladu barhau i fod yn risg allweddol.
- Mwy o ddefnydd o wybodaeth am y farchnad a ddarparwyd drwy amrywiaeth o arbenigwyr pwnc trydydd parti.

Metrigau risg allweddol:

- Nifer y prosiectau â statws 'Coch'.
- Prosiectau sydd mewn perygl o fethu a chyflawni'r llinellau amser arfaethedig.
- Amlygiad ariannol ar gyfer prosiectau â risg gyllidebol.
- Prosiectau ag adnoddau cyfyngedig.
- Prosiectau sydd mewn perygl o fethu â chyflawni buddiannau.

7. Cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau rhyngwladol

Risg: Methiant swyddfeydd a gweithrediadau rhyngwladol y BBC i gydymffurfio â deddfwriaeth a rheoliadau, polisiâu mewnol a safonau eraill.

Effaith bosibl: Gallai diffyg cydymffurfio arwain at ymchwiliadau posibl, cosbau a rhwymedigaethau ariannol, colli ymddiriedaeth a niwed i enw da.

Perchennog risg: Y Prif Swyddog Gweithredu – BBC News

Cyfeiriad 2022/23: ▲

Gweithgareddau a gynhaliwyd yn 2022-23:

- Cyhoeddi llawlyfr ar gyfer swyddfeydd rhyngwladol a sicrhau ei fod ar gael i holl reolwyr y swyddfeydd.
- Cryfhau rheolaethau ariannol dros brosesau ariannol allweddol.
- Ymgorffori diwydrwydd dyladwy Masnach Foesegol mewn prosesau tendro ar gyfer cyflenwyr allweddol, a defnyddio Rhestr Wirio Masnach Foesegol ar gyfer cyflenwyr lleol.
- Cyhoeddi Cod Ymddygiad newydd, ynghyd â gohebiaeth gysylltiedig, yn cefnogi diwylliant o uniondeb a chydymffurfiaeth.
- Diwygio Hyfforddiant Gorfodol yn ymdrin â meysydd cydymffurfiaeth allweddol, gan gynnwys gwrth-lwgrwobrwyo, troseddau ariannol, masnachu teg, cyfraith cystadleuaeth, amrywiaeth a chynhwysiaeth a chydaddoldeb.
- Ystyried risgiau o ran cydymffurfiaeth ryngwladol yng nghyfarfodydd misol y Pwyllgor Cydymffurfiaeth ac yng nghyfarfod chwarterol y Grŵp Llywio Newyddion Rhyngwladol.

Risg weddilliol a gweithgareddau arfaethedig ar gyfer 2023/24: Heriau o ran cydymffurfiaeth mewn marchnadoedd rhyngwladol a all effeithio ar adroddiadau newyddion a'n staff lleol drwy wneud y canlynol:

- Cynnal adolygiad o strwythurau ein hendidau tramor.
- Diweddarau holiaduron yr Hunanasesiad Cydymffurfiaeth.
- Cyflwyno rhestrau risg lleol er mwyn cynyddu gwelededd problemau cydymffurfiaeth.
- Rhoi cynllun unioni ar waith er mwyn cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau lleol yn India.

Metrigau risg allweddol:

- Lefelau cwblhau hyfforddiant gorfodol.
- Achosion yn ymwneud â threth a diweddariadau ar achosion sy'n mynd rhagddynt.
- Canlyniadau hunanasesiad cydymffurfiaeth.
- Statws 'Coch Melyn Gwyrdd' risgiau agored.
- Argymhellion Archwiliadau Mewnol agored.

8. Cadernid technoleg

Risg: Anallu i ddarparu gwasanaeth darlledu cadarn ar draws pob un o'n sianelau dosbarthu.

Effaith bosibl: Gallai gyfaddawdu ein hallbwn i'n cynulleidfaoedd a chyfaddawdu ein rhwymedigaethau i gynnal cadernid ein systemau darlledu a'n rhwydwaith.

Gallai gyfaddawdu technoleg a gwasanaethau sy'n galluogi ein perfformiad sefydliadol effeithiol.

Perchennog risg: Y Prif Swyddog Technoleg

Cyfeiriad 2022/23: ➤

Gweithgareddau a gynhaliwyd yn 2022-23:

- Mae systemau, gwasanaethau a seilwaith ategol y BBC yn gadarn, gan sicrhau nad oes unrhyw bwyntiau methu unigol yn ein systemau allweddol. Mae'r dull aml-haenog hwn yn elfen graidd o allu'r BBC i barhau i weithredu.
- Caiff perfformiad gweithredol gwasanaethau darlledu a'n gwasanaethau ar-lein ei fonitro'n barhaus gan ddefnyddio amrywiaeth o fetrigau. Mae targedau ar gyfer ein gwasanaethau allweddol yn rhan o'n trefniadau cytundebol â phartneriaid allweddol.
- Mae cynlluniau parhad busnes ac adfer ar ôl trychineb wedi'u hymarfer yn dda ar waith.

Risg weddilliol a gweithgareddau arfaethedig ar gyfer 2023/24:

Mynd i'r afael â seilwaith gwaddol a dibyniaethau sylweddol ar drydydd partiion allweddol drwy wneud y canlynol:

- Buddsoddiad wedi'i dargedu mewn gwaith i uwchraddio systemau a seilwaith er mwyn lliniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thechnoleg etifeddol.
- Parhau i ymarfer ein cynlluniau parhad busnes ac adfer ar ôl trychineb i gefnogi ein parodrwydd mewn ymateb i risgiau Cofrestr Risg Genedlaethol y DU.

Metrigau risg allweddol:

- Argaeledd, cywirdeb ac ansawdd gwasanaethau.
- Nifer y digwyddiadau, a'u difrifoldeb.
- Perfformiad yn erbyn targedau mewnol a chytundebol y cytunwyd arnynt.
- Monitro yn erbyn cytundebau lefel gwasanaeth cyflenwyr trydydd parti allweddol.

Llywodraethu

Ein prif risgiau – parhad

9. Seiberddiogelwch

Risg: Methiant i atal digwyddiad seiber, fel ymosodiad meddalwedd wystlo ar y BBC, a/neu gyflenwr trydydd parti allweddol.

Effaith bosibl: Gallai gyfaddawdu argaeledd, uniondeb a chyfrinachedd gwybodaeth y BBC (gan gynnwys data personol a sensitif arall), gan arwain at niwed i enw da a niwed ariannol, diffyg cydymffurfiaeth â gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol ac effeithiolrwydd ein perfformiad sefydliadol.

Perchennog risg: Y Prif Swyddog Diogelwch Gwybodaeth

Cyfeiriad 2022/23: ▲

Gweithgareddau a gynhaliwyd yn 2022-23:

Mae ein dull aml-haenog o leihau tebygolrwydd cam-fanteisio yn cynnwys y canlynol:

- Gwaith parhaus i fonitro ein bygythiadau, wedi'i ategu gan asesiadau/profion bygythiadau seiber ar draws systemau mewnol a thrydydd parti allanol sy'n llywio ein cynlluniau lliniaru a'n proffil risg.
- Mae galluogrwydd seiberddiogelwch ar waith ar draws ystâd y BBC, er mwyn cynyddu ein gallu i ganfod gweithgarwch maleisus, ei atal lle y bo'n bosibl, ymateb iddo ac adfer ar ei ôl.
- Rheoli gwendidau yn barhaus er mwyn canfod a rheoli bygythiadau a dileu gwendidau i ystâd y BBC.
- Mae galluogrwydd diogelu data ar waith ar draws y BBC, er mwyn rheoli risg, diogelu ein data personol a sensitif, a lleihau effaith gweithgarwch maleisus.
- Cyrsiau hyfforddi gorfodol ar Ddiogelu Data a Seiberddiogelwch ar gyfer pob aelod o staff y BBC.
- Ymarfer ein cynlluniau ar gyfer ymateb i ddigwyddiadau diogelwch er mwyn profi effeithiolrwydd ein fframwaith rheoli digwyddiadau corfforaethol ar gyfer senarios penodol.

Risg weddilliol a gweithgareddau arfaethedig ar gyfer 2023/24:

Natur sy'n datblygu'n barhaus risgiau seiber, gan gynnwys yr effaith ar ein trydydd parti on allweddol a'r risgiau sy'n gysylltiedig â gwall ac ymddygiad dynol. Caiff hyn ei reoli drwy'r canlynol:

- Rhaglen ymwybyddiaeth a diwylliant diogelu gwybodaeth ar gyfer y staff, er mwyn codi ymwybyddiaeth o seiberddiogelwch personol.
- Rhaglen waith barhaus i asesu proffil risg ein seilwaith a'n gwasanaethau craidd.
- Rhoi cynlluniau parodrwydd datblygedig ar waith mewn ymateb i broffil risg seiber uwch y flwyddyn hon.

Metrigau risg allweddol:

- Nifer y digwyddiadau seiber, eu math a'u difrifoldeb.
- Statws gwaith rheoli patsys diogelwch.
- Cyfraddau cwblhau hyfforddiant gorfodol.
- Cyfraddau cwblhau gwaith sicrwydd mewnol ac allanol.

10. Cynaliadwyedd amgylcheddol a newid yn yr hinsawdd

Risg: Methiant i gyrraedd y lefelau datgarboneiddio sydd wedi'u pennu gennym yn ein hymrwymadau Sero Net ar gyfer 2030 neu i gyflawni'r uchelgeisiau o ran cynnwys a nodir yn ein Haddewid Cynnwys Hinsawdd.

Effaith bosibl: Canfyddiadau negyddol ymhlith y cyhoedd, cynulleidfaoedd, talent a chyflogion yn y meysydd hyn o ganlyniad i'r canlynol:

- Methu â chyflawni ein hymrwymadau Sero Net ac uchelgeisiau ein Haddewid Cynnwys Newid yn yr Hinsawdd.
- Methu â chymryd camau amgylcheddol ar yr un lefel â darlledwyr eraill.

Perchennog risg: Cyfarwyddwr Cynaliadwyedd y Grŵp

Cyfeiriad 2022/23: ➤

Gweithgareddau a gynhaliwyd yn 2022-23:

- Mae cynaliadwyedd y rhaglen Sero Net wedi'i ddo sbarthu'n brosiect allweddol gyda threfniadau llywodraethu, targedau ac adroddiadau wedi'u dogfennu.
- Rhoi llwyfan data cynaliadwyedd ar waith fel bod modd rheoli ac olrhain perfformiad.
- Hyfforddiant ar gynaliadwyedd ar waith ar gyfer pob aelod o'r staff.

Risg weddilliol a gweithgareddau arfaethedig ar gyfer 2023/24:

Cefnogi'r broses o roi'r cynllun ar waith yn gyson yn yr isadrannau drwy wneud y canlynol:

- Dechrau proses i roi cynllun datgarboneiddio seilwaith ar waith drwy gyflwyno, e.e. pypiau gwres a gorsafoedd gwefru cerbydau trydan.
- Datblygu achos busnes Cwmpas 3.
- Datblygu targedau hirdymor i gyrraedd Sero Net a chadarnhau'r cynllun pontio.
- Cydweithio i ddatblygu strategaeth sy'n torri tir newydd ar gyfer y diwydiant, gyda mapiau trywydd a thargedau.

Metrigau risg allweddol:

- Targedau allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr Cwmpas 1, 2 a 3.
- Cyfraddau cwblhau hyfforddiant ar gynaliadwyedd.
- Cyflawni targedau ar gyfer lleihau allyriadau teithio.
- Cynnwys ag ardystiadau Albert.

Ceir rhagor o fanylion am ein gweithgareddau sy'n gysylltiedig â chynaliadwyedd yn y tudalennau ar gynaliadwyedd amgylcheddol o dudalen 66.

Datganiad ynghylch hyfywedd

Yn unol â Chod Llywodraethu Corfforaethol y DU, mae Bwrdd y BBC wedi asesu rhagolygon y Gorfforaeth dros gyfnod hwy na'r 12 mis sy'n ofynnol o dan y ddarpariaeth 'Busnes Gweithredol'.

Ystyriodd Bwrdd y BBC y cynllun tair blynedd ar gyfer y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2026. Ystyrir bod gorwel tair blynedd yn briodol gan fod hyn yn unol â phroses gyllidebu a chynllunio'r BBC. Mae'r cynllun tair blynedd yn ystyried llifau arian parod yn ogystal â'r cyfamodau ariannol a chyfleusterau credyd.

Y tybiaethau allweddol sy'n sail i'r cynllun tair blynedd, a'r rhagolwg cysylltiedig o lifau arian parod, yw setliad ffi'r drwydded sy'n pennu'r paramedrau ariannol ar gyfer y BBC rhwng 2023/24 a 2027/28 a'r Siarter a'r Cytundeb sy'n diogelu ffi'r drwydded tan 2027, ynghyd â chyflawni arbedion ychwanegol a nodwyd a thaliadau adennill diffygion Cynllun Pensiwn y BBC y cytunwyd arnynt ag Ymddiriedolwyr y cynllun pensiwn. Mae'r broses hon yn rhoi'r hyder ar gyfer rhagamcanion arian parod blynyddoedd i ddod ac mae'r Bwrdd yn gyfforddus â'r lefelau a ragamcanwyd. Cyflwynwyd adroddiadau rheoli arian parod chwarterol ychwanegol er mwyn sicrhau bod rheoli risg yn flaenoriaeth allweddol.

Yn ogystal â'r broses gyllidebu, cynhaliwyd asesiad cadarn o'r prif risgiau a wynebir gan y Gorfforaeth, fel y'u disgrifir yn yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon o dudalen 111, gan gynnwys y rhai a fyddai'n peryglu ei model busnes, perfformiad yn y dyfodol, solfedd neu hylifedd. Ar gyfer 2023/24, mae angen rheoli'r ansicrwydd o ran amodau'r farchnad a'r economi sy'n newid yn barhaus yn llym er mwyn cyflawni dibenion y BBC o fewn y cyllid sydd ar gael. O ganlyniad, cynhaliwyd profion straen ariannol ychwanegol a dadansoddiad o sensitifrwydd, gan ystyried incwm mewn perygl yn ogystal â'n hymateb i setliad diweddar ffi'r drwydded. Mae'r Llywodraeth wedi rhyddhau papur gwyn yn ddiweddar yn edrych ar adnewyddu'r Siarter yn 2027/28, sy'n cael ei ystyried ond sydd y tu hwnt i gyfnod yr adolygiad hwn.

Cynhaliwyd dadansoddiad o sensitifrwydd mewn perthynas â'r llif arian parod er mwyn modelu'r effeithiau posibl pe bai'r prif risgiau yn codi mewn gwirionedd, yn unigol neu ar y cyd. Cyfrifwyd y gofyniad benthycu uchaf drwy foddelu cyfuniad o risgiau difrifol ond credadwy (gweler y tabl ar y dde), ond, a chan gynnwys mesurau lliniaru, arhosodd y llifau arian parod o fewn y terfyn benthycu drwy gydol y cyfnod tair blynedd.

Gan ystyried sefyllfa arian parod bresennol Grŵp y BBC, y prif risgiau a'r dadansoddiad o sensitifrwydd a nodir uchod, mae gan y Bwrdd ddisgwyliad rhesymol y bydd y Gorfforaeth yn gallu parhau i weithredu a bodloni ei rhwymedigaethau wrth iddynt ddod yn ddyledus dros gyfnod tair blynedd yr asesiad.

Risg	Senario a fodelwyd	Mesurau lliniaru a fodelwyd
Cynnydd yn y cyfraddau osgoi talu ffi'r drwydded	Gallai'r amgylchedd economaidd presennol effeithio ar gyfraddau adnewyddu a phrynu trwyddedau. Modelwyd – cynnydd yn y cyfraddau osgoi talu ffi'r drwydded uwchlaw'r gyfradd sydd wedi'i chynnwys yn y rhagolygon.	Rydym wedi archwilio nifer o fesurau lliniaru lefel uchel, gan gyd-fynd â'r broses o gyflawni strategaeth Gwerth i Bawb y BBC a gan sicrhau'r adenillion mwyaf o fuddsoddiad. Byddai hyn yn rhoi blaenoriaeth i weithgarwch nad yw'n ymwneud â chynulleidfaoedd fel cyfyngu ar a/neu oedi gwariant cyfalaf ac oedi gwariant ailstrwythuro, ynghyd ag archwilio cynigion masnachol amgen. Yn y pen draw, gallai mentrau gynnwys rhannu mwy o gynnwys rhwng gwasanaethau, gan leihau'r gwariant cyffredinol ar gynnwys a newid y cymysgedd genre.
Gostyngiad yn y cyfraddau treiddio teledu	Newidiadau yn ymddygiad cynulleidfaoedd a'r gostyngiad yn y cyfraddau treiddio teledu yn cyflymu. Modelwyd – gostyngiad yn y cyfraddau treiddio teledu uwchlaw'r gyfradd sydd wedi'i chynnwys yn y rhagolygon.	
Risg arbedion	Modelwyd – effaith cynlluniau arbedion heb eu cyflawni'n llawn.	
Risg fasnachol	Modelwyd – y tybiaethau o ran incwm masnachol mewn rhagolygon heb eu cyflawni.	

Llywodraethu Adroddiad y Bwrdd Masnachol

Rwyf wedi mwynhau fy mlwyddyn gyntaf fel Cadeirydd Bwrdd BBC Commercial Limited, sydd bellach yn cynnwys BBC Studios, stiwdio cynnwys byd-eang â sianelau a gwasanaethau ffrydiau, a darparwr cyfleusterau stiwdio BBC Studioworks.

Mae gweithgareddau masnachol y BBC yn chwarae rôl cynyddol bwysig wrth sicrhau cyllid ychwanegol y tu hwnt i ffi'r drwydded a hyrwyddo talent a chreadigrwydd o Gymru a ledled y byd. Mae twf masnachol bellach yn rhan graidd o strategaeth y Grŵp.

Rôl y Bwrdd Masnachol yw cynnig ei arbenigedd byd-eang i graffu ar y gweithgareddau hyn a llywio timau gweithredol pob busnes er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl ar gyfer y BBC, ac ar ei ran.

Ym mis Ebrill 2022, daeth y swyddogaeth llywodraethu a goruchwylio masnachol, sef BBC Commercial Holdings Limited gynt, yn BBC Commercial Limited. Ehangodd ei brofiad anweithredol yn benodol i gynnwys y rheini â chefnidir digidol a byd-eang lefel uwch.

Pan sefydlwyd y Bwrdd yn wreiddiol, ymhlith y newydd-ddyfodiadau anweithredol a benodwyd iddo oedd fi fy hun, Gunjan Bhow, gynt o Walgreens Boots Alliance a The Walt Disney Studios, a Bhav Singh, sylfaenydd a Phrif Swyddog Gweithredol grŵp dysgu digidol Sandbox & Co, gynt o Pearson a ViacomCBS, ochr yn ochr â'r aelod anweithredol presennol a chyn aelod gweithredol o Sky, Mai Fyfield.

Ar 1 Ebrill 2023, gwnaethom groesawu Claire Hungate, cyn-Brif Swyddog Gweithredol Warner Bros TV Production UK a Llywydd a Phrif Swyddog Gweithredu presennol sefydliad e-chwaraeon Team Liquid, ynghyd â chyn-Gadeirydd a Phrif Swyddog Gweithredol Fox Television Group, Gary Newman, a chyn-Brif Swyddog Ariannol ITV a Kantar, Ian Griffiths.

Ym mis Mawrth 2023, ymddiswyddodd Steve Morrison ac aelod hirdymor Bwrdd y BBC (ac Ymddiriedolaeth y BBC), Elan Closs Stephens. Rydym yn ddiolchgar i'r ddau ohonynt am eu gwaith caled. Hoffwn ganmol Elan yn bersonol am oruchwylio'r Bwrdd ar ei ffurf flaenorol mewn modd craff a thrylwyr.

Gwnaethom gyfarfod 12 gwaith yn ystod y flwyddyn. Ystyriodd aelodau'r Bwrdd ddiweddariadau rheolaidd ar berfformiad ariannol a busnes, yn ogystal ag adolygu canlyniadau rhagolygon a thrafod y cyllidebau a'r targedau arfaethedig ar gyfer y flwyddyn i ddod. Lluniodd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, fel yr archwilydd allanol, adroddiadau cynllunio gwaith archwilio ac adroddiadau ar adeg cwblhau i ni eu hystyried, a chynhaliodd y Pwyllgor Archwilio a Risg ei sesiwn flynyddol ar faterion rheoli a llywodraethu, yr oedd uwch-reolwyr Studios yn bresennol ynddi.

Mae BBC Commercial wedi perfformio'n dda, ac mae'n amlwg bod sylfaen gadarn ar gyfer twf pellach.

Mae BBC Studios yn mynd o nerth i nerth, gyda gwerthiannau o £2 biliwn ac EBITDA o £240 miliwn, sef y ffigurau gorau erioed, yn dystiolaeth o'r galw byd-eang parhaus am ei gynnwys o ansawdd uchel. Llwyddodd i ennill gwobrau ac i ddod â phobl ynghyd drwy ei ddulliau adrodd straeon, o *Frozen Planet II*, a gyrhaeddodd 20.5 miliwn o wylwyr unigryw yn y DU ar draws ei rediad cyntaf ar BBC One, y ddrama a enillodd wobrau RTS, *Sherwood*, a *Dancing with the Stars*, gan ehangu i 61 o diriogaethau ledled y byd.

Rhoddodd y Bwrdd ystyriaeth fanwl i gynllun strategol hirdymor i ysgogi twf yn BBC Studios, sydd bellach yn anelu at ddyblu'r busnes rhwng 2021/22 a 2028. Gwnaethom drafod strategaeth BBC Studios ar gyfer tyfu a chaffael eiddo deallusol a brandiau; ei dargedau ar gyfer buddsoddi mewn cynnwys a gwasanaethau – yn benodol rhai digidol, gan gynnwys Newyddion – a thalent, yn ogystal â thactegau i wella perfformiad sianelau llinellol i'r eithaf. Gwnaethom hefyd gymeradwyo cyfres o ychwanegiadau at gyfres BBC Studios o Labeli Cynhyrchu a Chwmnïau Annibynnol y Buddsoddwyd ynddynt ar draws y genres wedi'u sgrïptio a heb eu sgrïptio.

Y flwyddyn hon, cyflawnodd BBC Studioworks werthiannau o £41 miliwn ac EBITDA o £5 miliwn. Enillodd fusnes newydd gan gynrychiadau ar draws y sector creadigol a lansiodd ei stiwdio bwrpasol newydd yn Kelvin Hall yn Glasgow. Gwnaethom ystyried cynlluniau i fuddsoddi mewn cyfarpar a chyfleusterau newydd er mwyn sicrhau twf yn y dyfodol, yn ogystal â chymeradwyo pedwar llwyfan sain yn y DU i'w hychwanegu at ei bortffolio gwerthiannau. Mae'r busnes yn gweithredu mewn marchnad gystadleuol iawn, ond mae ganddo gynlluniau twf cadarn ar waith i ddatblygu ei dalent a'i weithrediadau.

O ganlyniad i'r perfformiad hwn, gyda'i gilydd talodd busnesau masnachol y BBC ddiffidendau o £152 miliwn i Commercial Ltd, gan gynyddu'r arian parod a ddelir i £207 miliwn a chefnogi datganiad diffidendau o £198 miliwn i Grŵp y BBC ar gyfer 2022/23. Mae gan y Grŵp Masnachol cyffredinol falans arian parod net cyfanredol o £84 miliwn, sy'n rhoi sylfaen gadarn ar gyfer y dyfodol.

Mae maint y twf rydym yn ei ystyried ar gyfer ein gweithgareddau masnachol yn uchelgeisiol, a bydd angen i'n timau gweithredol ddefnyddio eu holl greadigrwydd ac ystyrydder. Mae'n bosibl hefyd y bydd angen cynyddu lefelau dyledion i ariannu mentrau twf. Yn gyffredinol, mae sefyllfa BBC Commercial yn cynnig cyfle gwirioneddol i'r BBC cyfan, ac mae'r Bwrdd yn edrych ymlaen at chwarae rôl i gyflawni'r uchelgais hwnnw.

Damon Buffini

Cadeirydd Bwrdd Masnachol y BBC ac un o gyfarwyddwyr anweithredol y BBC
27 Mehefin 2023

Adroddiad y Pwyllgor Canllawiau a Safonau Golygyddol

Mae cynulleidfaoedd, yn gwbl gywir, yn disgwyl i'r BBC greu'r cynnwys gorau, gan gyrraedd y safonau golygyddol uchaf. Rôl y Pwyllgor Canllawiau a Safonau Golygyddol yw sicrhau bod y BBC yn cyrraedd y safonau a bennwyd yn ei Ganllawiau Golygyddol a'i fod yn atebol drwy ei broses gwynion. Fel un o is-bwyllgorau Bwrdd y BBC, mae'r Pwyllgor Canllawiau a Safonau Golygyddol yn adrodd i'r Bwrdd am risgiau golygyddol presennol a'r rhai sy'n dod i'r amlwg, yn monitro dull y BBC o liniaru twyllwbyodaeth, yn rhoi unrhyw argymhellion a wneir gan y Bwrdd ynghylch safonau golygyddol ar waith, ac yn darparu'r rhyngwyneb rhwng y BBC ac Ofcom mewn perthynas â safonau golygyddol.

Y flwyddyn hon, comisiynodd y Pwyllgor Canllawiau a Safonau Golygyddol y Bwrdd Gweithredol i adolygu ei Ganllawiau Golygyddol, a chytunodd y dylai egwyddorion cywirdeb a didueddrwydd dyladwy barhau i fod yn gymwys i holl allbwn y BBC. Mae hyn yn gosod mwy o rwymedigaeth ar y BBC nac ar ddarledwyr eraill, ond mae bod yn ddiduedd ac yn gywir wrth wraidd yr hyn y mae'r BBC yn ei gynrychioli. Felly, mae'n briodol y dylai'r egwyddorion hyn barhau i fod yn gymwys i bob allbwn, ni waeth ble y caiff ei gynhyrchu na sut y caiff ei ddefnyddio. Cafodd y Pwyllgor hefyd ei friffio'n llawn ar y broses o sefydlu adolygiad, gan John Hardie, o ddefnydd gweithwyr llawrydd nad ydynt yn ymwneud â newyddion o gyfryngau cymdeithasol. Bydd yr adolygiad yn gwneud argymhellion i'r Bwrdd Gweithredol a bydd y rhain yn cael eu hadlewyrchu yn y Canllawiau newydd.

Mae llawer o waith y flwyddyn hon wedi ymwneud â rhoi argymhellion Adolygiad Serota ar waith. Mae'r Pwyllgor Canllawiau a Safonau Golygyddol wedi cael adroddiadau rheolaidd ar waith tîm Gweithredu Serota, a gafodd y dasg o gyflawni 39 o argymhellion Adolygiad Serota a chynllun deg pwynt y Bwrdd Gweithredol ar ddidueddrwydd gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol. Mae'n bleser gennym nodi bod holl argymhellion yr adolygiad ac amcanion y cynllun didueddrwydd wedi'u rhoi ar waith. Aed ar drywydd yr argymhellion penodol yn ymwneud â gwaith y Pwyllgor Canllawiau a Safonau Golygyddol: rydym wedi penodi dau Gynghorydd Golygyddol allanol i'r Pwyllgor, ac mae trafod materion golygyddol a risg bellach yn eitemau rheolaidd ar agenda pob cyfarfod o'r Pwyllgor. Diwygiwyd Cylch Gorchwyl y Pwyllgor i adlewyrchu'r newidiadau hyn. Bydd y Pwyllgor Canllawiau a Safonau Golygyddol yn parhau i fonitro'r ffordd y caiff yr argymhellion eu rhoi ar waith ac i sicrhau y caiff yr ymrwymadau eu bodloni.

Yn dilyn Adolygiad Serota a'r Cynllun Didueddrwydd, mae'r BBC wedi creu'r Editorial Standards Learning Hub, sy'n cynnwys dros 30 awr o gynnwys dysgu golygyddol er mwyn helpu i gynnal safonau golygyddol. Ar 31 Mawrth 2023, mae 97.2% o staff y BBC wedi cwblhau hyfforddiant ar ddidueddrwydd.

Un o argymhellion allweddol Adolygiad Serota oedd sefydlu Adolygiadau Themateg. Cafodd y Pwyllgor y dasg o gynhyrchu'r Adolygiadau hyn gan Fwrdd y BBC, gan gynnwys argymell pynciau i'w hadolygu a datblygu cylch gorchwyl i'r Bwrdd ei gymeradwyo. Caiff yr Adolygiadau eu cynnal yn annibynnol ar y BBC, ac maent yn ffordd bwysig o fonitro didueddrwydd yn y BBC. Cafodd yr Adolygiad Themateg cyntaf ar drethiant, gwariant cyhoeddus, benthyciadau gan y Llywodraeth a dyledion, a arweiniwyd gan Andrew Dilnot a Michael Blastland, ei gyhoeddi ym mis Ionawr 2023. Rhoddwyd y wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am ddatblygiadau drwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys dulliau ymchwil, cyfweiliadau â rhanddeiliaid a materion newydd. Ers i'r Adolygiad gael ei gyhoeddi, mae'r Pwyllgor wedi cael diweddiadau gan y Bwrdd Gweithredol ar y broses o roi canfyddiadau'r Adolygiad ar waith, a byddwn yn parhau i fonitro hyn. Wrth symud ymlaen, yr uchelgais yw cynnal dau adolygiad y flwyddyn.

Mae system ymdrin â chwynion 'BBC First' yn rhan o gwmpas adolygiad tymor canolig y Llywodraeth o'r BBC, a chafodd ei hadolygu yn adroddiad Ofcom ym mis Mehefin 2022, *Sut mae Ofcom yn rheoleiddio'r BBC*. Fel y Pwyllgor sy'n gyfrifol am oruchwylio'r broses gwynion, mae'r Pwyllgor Canllawiau a Safonau Golygyddol wedi cydweithio â'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ac Ofcom mewn perthynas â hyn. Mae'r BBC wedi cydymffurfio â phob un o Benderfyniadau newydd Ofcom mewn perthynas ag ymdrin â chwynion, gan gynnwys cyhoeddi canfyddiadau 'heb eu cadarnhau' mewn perthynas â chwynion yn ymwneud â didueddrwydd dyladwy a chywirdeb dyladwy; ac rydym wedi cyflwyno newidiadau i'n proses gwynion er mwyn ei gwneud yn symlach i'w defnyddio ac yn fwy tryloyw. Mae'r newidiadau hyn yn ychwanegol ar y rhai a nodwyd gennym yn yr Adroddiad Blynyddol diwethaf. Bydd y Pwyllgor Canllawiau a Safonau Golygyddol yn parhau i ymgysylltu ag Ofcom mewn perthynas â rheoleiddio chwynion a safonau golygyddol a bydd aelodau tîm safonau Ofcom a'r Pwyllgor Canllawiau a Safonau Golygyddol yn cyfarfod bob chwe mis o hyn ymlaen.

Cafodd y BBC 229,123 o gwynion ar gam 1 o'r broses gwynion yn 2022/23. Roedd y nifer hwn 204,449 yn llai na'r hyn a gafwyd y flwyddyn ddiwethaf, yn bennaf o ganlyniad i nifer y chwynion a gafwyd y flwyddyn honno am y sylw a roddwyd i farwolaeth EIB Dug Caeredin. Ymdriniodd yr Uned Cwynion Gweithredol â 1,199 o gwynion ar gam 2 o broses gwynion y BBC yn 2022/23. Canfu'r Uned fod y BBC wedi torri safonau golygyddol ar 43 achlysur. Mae'r Pwyllgor Canllawiau a Safonau Golygyddol yn cael manylion am bob cwyn, ac mae'n trafod achosion o dorri safonau ac unrhyw faterion cysylltiedig â'r Bwrdd Gweithredol. Cyflwynir y ffigurau chwynion hyn i Fwrdd y BBC hefyd.

Cyflawnwyd y DPAau a bennwyd gan Ofcom ar gyfer ateb chwynion ar gam 1 a 2 o'r broses gwynion 'BBC First' (apêl i Ofcom yw cam 3, lle y bo'n berthnasol) ar gyfer cam 1. Ymdrinwyd â 97% o gwynion ar gam 1 o fewn 10 diwrnod gwaith yn erbyn targed o 93%. Daethpwyd â 35% o gwynion ar gam 2 i ben o fewn 20 diwrnod gwaith ar gyfer chwynion cam 2 safonol a 35 diwrnod gwaith ar gyfer chwynion cam 2 cymhleth yn erbyn targed o 80%.

Gellir priodoli'r rheswm dros fetu â chyflawni'r DPAau ar gam 2 bron yn gyfan gwbl i un achos cymhleth iawn, y cafwyd nifer digyffelyb o uchel o gwynion yn ei gylch. Cafodd hyn ei esbonio wrth y Pwyllgor Canllawiau a Safonau Golygyddol a Bwrdd y BBC ar y pryd, a'i dderbyn.

Ym mlwyddyn ariannol 2022/23, canfu Ofcom fod y BBC wedi torri'r Cod Darlledu ar dri achlysur. Roedd y ddau achos 'heb eu cadarnhau' yn ymwneud â chwynion a aeth yn uniongyrchol i Ofcom o dan Breifatrwydd a Thegwch ac nid drwy system BBC First, heblaw am un, ar gyfer Didueddrwydd, a aeth drwy system y BBC. Rhoddodd Ofcom ei farn ar ddwy erthygl ar-lein gan y BBC hefyd. Mae unrhyw achos o dorri'r safonau golygyddol yn destun siom fawr ac yn rhywbeth mae'r Pwyllgor Canllawiau a Safonau Golygyddol yn ei gymryd o ddifrif. Rydym wedi trafod y canfyddiadau'n fanwl â'r Bwrdd Gweithredol. Gwnaethom nodi hefyd mai hwn oedd yr achos cyntaf o dorri'r safonau ar gyfer Didueddrwydd ers i Ofcom ddod yn rheoleiddiwr y BBC am ddidueddrwydd a chywirdeb yn 2017.

Ynghyd â'r 43 o ganfyddiadau 'heb eu cadarnhau' gan Uned Cwynion y Bwrdd Gweithredol yn 2022/23, nodwyd yr achosion difrifol canlynol o dorri'r safonau golygyddol gan y Bwrdd Gweithredol yn ystod y flwyddyn:

Llywodraethu

Adroddiad y Pwyllgor Canllawiau a Safonau Golygyddol – parhad

BBC Somali Service – darlledodd y gwasanaeth gyfweiliad gydag ysgolhaig Islamyddol, Sheikh Aden Sunne, o wladwriaeth enciliol Somaliland. Cafwyd adroddiadau nas cadarnhawyd ei fod wedi ymuno â sefydliad gwaharddedig al-Shabab ac y gallai gael ei benodi'n arweinydd ar y sefydliad hwnnw. Ni wnaeth gwasanaeth BBC Somali yr atgyfeiriad sy'n ofynnol i Gyfarwyddwr y Polisi a Safonau Golygyddol cyn gofyn am gyfweiliad â'r clerigwr, nac ar unrhyw adeg cyn i'r cyfweiliad gael ei ddarparu na'i gyhoeddi ar-lein. Roedd hyn yn torri Canllawiau Golygyddol y BBC. Nid oedd y cyfweiliad yn cyrraedd safonau didueddrwydd y Canllawiau Golygyddol chwaith. Cafodd y stori a'r fideo eu tynnu i lawr o'r wefan. Atgoffwyd y tîm Somali ynghylch gofynion y Canllawiau Golygyddol, gan gynnwys y protocol ar gyfer atgyfeiriadau gorfodol.

BBC Cymru Wales – darlledodd a chyhoeddodd adroddiad ynghylch yr Eisteddfod Genedlaethol a'i Phrif Weithredwr. Roedd yr adroddiad yn cynnwys honiadau di-sail ynghylch yr Eisteddfod a rhyngweithio'r Prif Weithredwr â chymuned leol Tregaron a gynhaliodd yr Eisteddfod yn 2022.

Tynnwyd pob fersiwn o'r stori i lawr o BBC Ar-lein a BBC Sounds. Ysgrifennodd BBC Cymru at y Prif Weithredwr a'r Wyl yn ymddiheuro am y darllediadau. Darlledwyd yr ymddiheuriad hwn ar raglen newyddion BBC Radio Cymru yn ystod oriau gyrru, *Post Prynhawn*, ar yr un noson a chafodd ei rannu ar wefan Cywiro ac Egluro y BBC.

Cynhaliodd Adran Newyddion a Materion Cyfoes BBC Cymru ymchwiliad trylwyr i'w harferion comisiynu a chynhyrchu. Datblygwyd cynllun gweithredu a'i roi ar waith.

The Papers, BBC News Channel – ni wnaeth sawl sylw ac ymateb gan y cyflwynydd ynghylch etholiad arweinydd y Ceidwadwyr yn un bennod o'r rhaglen hon gyrraedd safonau golygyddol y BBC am eu bod wedi rhoi cyfle i'r gynulleidfa arfer safle golygyddol ar ran y BBC. Ni chafodd rhai o'r safbwyntiau a fynegwyd gan westeion ar y rhaglen eu gwrthwynebu na'u herio'n ddigonol chwaith.

Yn dilyn ymchwiliad, cydnabu'r BBC ar y wefan Cywiro ac Egluro fod hwn yn achos difrifol o dorri'r safonau golygyddol. Mae trafodaethau didueddrwydd yn mynd rhagddynt â'r holl Olygyddion Cynorthwyol a'r cyflwynwyr ar y News Channel, fel rhan o broses arfarnu'r BBC.

Jhalak Dikhhla Jaa, India – dyma fersiwn India o *Strictly Come Dancing*, a gynhyrchir gan BBC Studios Productions Mumbai ar gyfer rhwydwaith Colors TV. Ar gyfer Diwali, ysbrydolwyd y ddawns gan ymateb milwrol India i ymosodiad terfysgol ar safle byddin India yn Uri Kashmir yn 2016. Roedd y ddawns hon yn torri nifer o ganllawiau, gan gynnwys niwed a thramgwydd a didueddrwydd.

Rhodddwyd proses ar waith am weddill y gyfres ar gyfer atgyfeiriadau ymlaen llaw i'r tîm ymgynghori Cynrychiadau Rhyngwladol yn Llundain. Rhodddwyd hyfforddiant gloiwy wyneb yn wyneb ar safonau golygyddol hefyd i swyddogion cynhyrchu rhyngwladol.

BBC Tyne and Wear – credodd y tîm ar gam fod yr actor Hollywood Will Ferrell wedi trydar ymddiheuriad i gefnogwyr Sunderland ar ôl i Sunderland guro QPR. Cyhoeddwyd erthygl ar-lein yn seiliedig ar yr hyn a oedd yn drydariad ffug erbyn gweld. Cafodd yr erthygl ei thrydar hefyd gan BBC News ddwywaith a'i rhannu ar dudalen Facebook BBC News ynghyd â BBC North East and Cumbria.

Ar ôl sylweddoli'r camgymeriad, tynnwyd yr erthygl i lawr a chafodd cywiriad ei rannu ar wefan Cywiro ac Egluro y BBC. Mae'r tîm wedi cael rhagor o gyngor a hyfforddiant ar nodi cyfrifon ffug. Caiff sesiynau tebyg eu cynnal gyda thimau digidol ar draws BBC England.

Caiff pob achos difrifol o dorri'r safonau golygyddol eu hadrodd i'r Pwyllgor Canllawiau a Safonau Golygyddol ac i Fwrdd y BBC.

Bu'n flwyddyn lawn iawn i'r Pwyllgor Canllawiau a Safonau Golygyddol. Rydym wedi croesawu Deborah Turness, Prif Swyddog Gweithredol Newyddion a Materion Cyfoes y BBC, i'r Pwyllgor Canllawiau a Safonau Golygyddol fel aelod ac mae Michael Prescott a Caroline Daniel wedi ymuno fel Cynghorwyr Golygyddol annibynnol – mae pob un ohonynt wedi atgyfnerthu'r amrywiaeth o leisiau ar y Pwyllgor hwn ac wedi dod â safbwyntiau newydd i'r trafodaethau. Hoffwn ddiolch i'm cyd-aelodau ar y Pwyllgor, Robbie Gibb, Tim Davie ac Ian Hargreaves, ac i David Jordan, Peter Johnston a Rizwana Rahmani o'r tîm Polisi Golygyddol a Safonau am eu gwaith diwyd y flwyddyn hon. Daeth cyfnod Ian fel aelod o'r Bwrdd i ben ar 31 Mawrth ac felly, hon yw ei flwyddyn olaf fel aelod o'r Pwyllgor. Bu'n aelod eithriadol o'r Pwyllgor, gwasanaethodd fel Cadeirydd am bum mlynedd, a hoffem ddiolch iddo am ei gyfraniad parhaus i'r safonau golygyddol.

Nicholas Serota

Cadeirydd y Pwyllgor Canllawiau a Safonau Golygyddol
27 Mehefin 2023

Adroddiadau Pwyllgorau'r Gwledydd

Mae'r pedwar Pwyllgor ar gyfer y Gwledydd yn cefnogi'r Bwrdd drwy adolygu a monitro allbwn a pherfformiad y BBC ar draws y DU. Yn yr adran hon ceir adroddiad gan y Cadeirydd ar waith pob Pwyllgor yn ystod y flwyddyn.

Cymru

Bu hon yn flwyddyn eithriadol o brysur i BBC Cymru Wales.

Dychwelodd y gwyliau mawr o'r diwedd. Roedd yr Eisteddfod Genedlaethol yn Nhregaron yn ddigwyddiad llawn llawenydd, a rhoddodd ein timau gryn sylw iddi ar deledu, radio ac ar-lein. Gwnaethom groesawu Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd a Sioe Frenhinol Cymru yn ôl. A chynhaliwyd 6 Music Festival yng Nghaerdydd.

Gwnaethom ddathlu canmlwyddiant y BBC yng Nghymru gydag arddangosfa ddifyr o arferion gwyllo yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd. Lanswyd Archif Ddarlledu Genedlaethol gyntaf y DU yn y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth.

Roedd gan BBC Wales Investigates straeon newyddiadurol cryf gan gynnwys y rhaglen *Killing in Tiger Bay*. Enillodd cyfres ddrama gomedï Kayleigh Llewellyn, *In my Skin*, wobrau BAFTA ac RTS. Cafodd ein tîm newyddion flwyddyn eithriadol o brysur. Gwelwyd ymchwiliadau yn y byd chwaraeon pan wnaed honiadau yn erbyn Undeb Rygbi Cymru. Tynhaodd gafael timau pêl-droed a rygbi'r dynion a'r merched eu gafael ar gynulleidfaedd ar draws pob llwyfan gyda'u perfformiadau.

Yn ystod y flwyddyn, cyfarfu Pwyllgor Cymru deirgwaith ac roedd cynlluniau'r BBC ar gyfer Across the UK yn destun cryn drafod. Gwelwyd rhai llwyddiannau cynnar gan gynnwys darlledu'r *Early Breakfast Show* a gynhyrchwyd gan Bengo, cwmni annibynnol yng Nghaerdydd, ar Radio 2 o Gaerdydd. Gwn y bydd ein Cyfarwyddwr, Rhuanedd Richards, yn ddiflino yn ei hymdrechion i geisio cyfleoedd newydd wrth i bob un ohonom geisio cyflawni swyddi, mwy o gyfleoedd gyrfa a thwf economaidd y tu allan i Lundain.

Edrychaf ymlaen at ein Pwyllgorau yn y dyfodol ac i glywed gan aelodau'r gynulleidfa ledled Cymru.

Yn ystod y flwyddyn, ymunodd Ian Hargreaves, Rhodri Talfan Davies, Rhuanedd Richards a Rhys Evans â mi ar y Pwyllgor. Hoffwn ddiolch iddynt ac i bawb sydd wedi cyfrannu y flwyddyn hon.

Yn olaf, ymddeolodd ein haelod, yr Athro Ian Hargreaves y flwyddyn hon ar ôl cyfnod o chwe blynedd. Byddwn yn colli ei ddoethineb a'i ymrwymiad i Bwyllgor Cymru.

Ceir gwybodaeth fanylach am berfformiad y BBC yng Nghymru ar dudalen 30 ac ar dudalennau 154-157. I ddarllen mwy am Bwyllgor BBC Cymru ewch i: bbc.com/aboutthebbc/whoweare/bbcboard/wales

Elan Closs Stephens

Cadeirydd Pwyllgor Cymru
27 Mehefin 2023

Yr Alban

Yn wyneb blwyddyn eithriadol o heriol yn ariannol, bu timau BBC Scotland yn gweithio'n galed i wasanaethu ein cynulleidfaedd. Fel Cadeirydd Pwyllgor yr Alban, roedd yn bleser gennyf weld â'm llygaid fy hun y penderfyniadau meddylgar ac arloesol, er anodd weithiau, a wnaed er mwyn sicrhau parhad ac ansawdd ar bob llwyfan.

Mae'r flwyddyn hon yn arwyddocaol iawn, yn nodi canmlwyddiant y BBC yn yr Alban a'r darllediad Gaeleg cyntaf, gyda chynnwys a digwyddiadau arbennig drwy'r calendr. Ym mis Mawrth, cyflwynwyd y newyddion rhwydwaith am 6pm a 10pm o Pacific Quay yn Glasgow, ac ymwelodd Tim Davie, y Cyfarwyddwr Cyffredinol, â'r safle.

Gan adeiladu ar ein hymrwymiad i wasanaethu'r Alban gyfan, mae'r Pwyllgor wedi cyfarfod yn Aberdeen, Caeredin a Glasgow, a chynhelir y cyfarfod nesaf yn Inverness, a bydd yn parhau i symud o gwmpas y wlad yn ymgysylltu â thimau, cynulleidfaedd a rhanddeiliaid. Wrth glywed gan grŵp o aelodau cynulleidfaedd o bob cwr o'r Alban, tynnwyd sylw at ein dyletswydd i sicrhau, wrth groesawu dyfodol digidol cyffrous ar gyfer y BBC sy'n ein cysylltu ni â'r byd, ein bod yn parhau i gofio bod nodweddion diwylliannol yn perthyn i'r Gwledydd sy'n cyfoethogi'r DU gyfan pan gânt eu rhannu. Mae'r timau ar draws y llwyfannau yn gweithio'n galed i ddod â'r rhain yn fyw gyda chynnwys adloniannol a difyr, gan gynnwys allbwn a gafodd ei gydnabod yn BAFTA Scotland ac yng Ngwobrau Newyddiaduraeth Teledu'r RTS.

Yn ystod y flwyddyn eisteddodd Richard Sharp, Rhodri Talfan Davies, Steve Carson a Luke McCullough ar y Pwyllgor hwn gyda mi. Hoffwn ddiolch i bob un ohonynt, a chydabod Richard Sharp, ein Cadeirydd am ei gyfraniad brwdfrydig a chymwynasgar.

Dros y flwyddyn i ddod, edrychaf ymlaen at gysylltu'n barhaus â chynulleidfaedd, timau a rhanddeiliaid wrth i ni ailadeiladu'r cysylltiadau dynol niferus a dorwyd yn ystod y pandemig. Mae amrywiaeth diwylliant a barn ledled y wlad mewn sefyllfa dda ac mae BBC Scotland mewn lle da i helpu i'w ddathlu.

Yn anochel, byddwn yn parhau i wynebu heriau technegol, ariannol, gwleidyddol a diwylliannol o bob tu, ond rwy'n hyderus bod gennym dimau ardderchog i sicrhau'r gwerth uchel y mae cynulleidfaedd yn ei ddisgwyl a'i haeddu.

Ceir rhagor o wybodaeth am berfformiad y BBC yn yr Alban ar dudalen 31 ac ar dudalennau 158-161. I ddarllen mwy am Bwyllgor BBC Scotland ewch i: bbc.com/aboutthebbc/whoweare/bbcboard/scotland

Muriel Gray

Cadeirydd Pwyllgor yr Alban
27 Mehefin 2023

Llywodraethu

Adroddiadau Pwyllgorau'r Gwledydd – parhad

Gogledd Iwerddon

Rydym wedi parhau i ganolbwyntio ar Sicrhau Gwerth i Bawb y flwyddyn hon. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys blaenoriaethau digidol yn gyntaf, adeiladu gwasanaethau ar iPlayer a Sounds a chomisiynu dramâu o bwys fel *Blue Lights*. Mae'r gyfres hon yn enghraifft bwysig o bortreadu dilys ac mae'n adlewyrchu blaenoriaethau Across the UK y BBC. Roedd *Murder in Paradise*, *Made Up in Belfast* a *The Hotel People* ymysg yr uchafbwyntiau comisiynu ar gyfer teledu rhwydwaith y BBC. Ac ategwyd y llwyddiannau hyn gan berfformiad cryf y llinyn *Assume Nothing* ac allbwn arall a gynhyrchwyd yn lleol ar Sounds.

Cafodd Gogledd Iwerddon flwyddyn dda o gynrychiadau a chyfleusterau cynhyrchu gwell. Belfast oedd y rhan gyntaf o'r BBC y tu allan i Lundain i lansio set lawn newydd ar gyfer ei rhaglen newyddion ar y teledu am 6.30pm – gan wella'r profiad gwyllo i gynulleidfaoedd a phosibiliadau golygyddol y rhaglen. Mae'r gwaith o ailddatblygu Broadcasting House, Belfast yn mynd rhagddo'n llawn. Bydd y buddsoddiad hwn yn rhoi buddiannau pwysig ar gyfer allbwn, staff a chynulleidfaoedd y BBC yng Ngogledd Iwerddon.

Cafwyd heriau ariannol ac o ran blaenoriaethau gwasanaeth a'r angen i ymateb i newidiadau yn anghenion ac ymddygiadau cynulleidfaoedd. Arweiniodd y broses o ailystyried gwaith Radio Foyle fel rhan o newidiadau ehangach yn strwythurol ac o ran amserlennu at rai pryderon. A gwnaed addasiadau eraill, a oedd yn anodd weithiau, ar draws BBC Northern Ireland yn gyffredinol. Byddwn yn parhau i adolygu'r newidiadau hyn a'u heffaith, gan ystyried uchelgeisiau strategol a golygyddol ehangach y BBC a'u buddiannau i'r gwasanaethau a wasanaethir gennym.

Yn ystod y flwyddyn eisteddodd Nicholas Serota, Rhodri Talfan Davies, Adam Smyth a Mark Adair ar y Pwyllgor hwn gyda mi. Hoffwn ddiolch i bob un ohonynt a llongyfarch Adam ar gael ei benodi'n Gyfarwyddwr BBC Northern Ireland a Peter Johnston, ei olynydd uniongyrchol, ar ei rôl newydd fel Cyfarwyddwr Cwynion ac Adolygiadau Golygyddol. Edrychaf ymlaen at weld gweledigaeth Adam ar gyfer ein gwasanaethau a rôl ddatblygol y BBC ym mywyd creadigol ac economi Gogledd Iwerddon.

Roedd yn ffrainc parhau fel Cadeirydd Dros Dro Pwyllgor Gogledd Iwerddon. Bydd Syr Nick, sef Uwch-gyfarwyddwr Annibynnol Bwrdd y BBC a minnau yn parhau i weithio'n ddiflino yn cefnogi tîm gweithredol a staff y BBC a'n holl gynulleidfaoedd yng Ngogledd Iwerddon. Rydym yn gobeithio y gellir penodi Aelod o Fwrdd y BBC cyn gynted ag y bo modd, gan sicrhau bod Gogledd Iwerddon yn cael ei gynrychioli'n fwy llawn ar lefel Bwrdd fel sy'n ofynnol gan Siarter y BBC.

Ceir gwybodaeth fanylach am berfformiad y BBC yng Ngogledd Iwerddon ar dudalen 32 ac ar dudalennau 162-164. I ddarllen mwy am Bwyllgor BBC Northern Ireland, ewch i: [bbc.com/aboutthebbc/whoweare/bbcboard/northernireland](https://www.bbc.com/aboutthebbc/whoweare/bbcboard/northernireland)

Elan Closs Stephens

Cadeirydd Dros Dro Pwyllgor Gogledd Iwerddon
27 Mehefin 2023

Lloegr

Mae ymrwymiad y BBC i fod yn ddiuedd yn ymestyn y tu hwnt i'r rhwydwaith ac mae hyn yn llawer pwysicach nag yn ein gweithrediadau newyddion rhanbarthol a radio lleol sy'n adlewyrchu amrywiaeth y lleisiau a'r safbwyntiau ledled Lloegr.

Dyna pam rydym wedi ymrwmo i atgyfnerthu ein gwasanaeth newyddion ar-lein lleol, gan gyflwyno mwy o newyddiadau dreiddiol a buddsoddi mewn allbwn sain newydd.

Mae newid yn anodd ac mae'n gyfnod o newid mawr yn Lloegr. Gwn y bu'n gyfnod anodd i sawl un wrth i ni weithio drwy newidiadau Gwerth i Bawb y BBC a hoffwn ddiolch i'n timau am eu gwaith caled parhaus.

Gwn fod pryderon wedi bod gan rai o aelodau ein cynulleidfaoedd hefyd, yn benodol ynghylch radio lleol. Mae'n bwysig ein bod yn parhau i asesu effaith y newidiadau hyn yn ofalus dros y misoedd nesaf.

Fodd bynnag, wrth i gynulleidfaoedd droi'n gynyddol at gynnwys newyddion digidol, credwn y bydd y newidiadau hyn yn cynnig hyd yn oed mwy o werth i dalwyr ffi'r drwydded ledled Lloegr, gan ein helpu i gysylltu'n well â'r cymunedau a wasanaethir gennym a dangos doniau eithriadol ein holl staff.

Bydd ein cynlluniau i sefydlu timau adroddiadau ymchwilol ledled y wlad yn ein galluogi i weld y tu ôl i'r penawdau a chynnig dadansoddiadau craff o faterion lleol allweddol ar draws pob llwyfan.

Y flwyddyn hon, roedd yn bleser enfawr cael cwrdd â'r tîm gwych sy'n gweithio yn BBC Radio York. Clywsom gan gynulleidfaoedd ledled Swydd Efrog gan ddysgu sawl peth ganddynt.

Yn ystod y flwyddyn eisteddodd Nicholas Serota, Rhodri Talfan Davies, Jason Horton ac Adrian Mills ar y Pwyllgor hwn gyda mi. Hoffwn ddiolch i aelodau ein Pwyllgor ac i bawb sydd wedi cyfrannu at ein gwaith dros y flwyddyn ddiwethaf.

Ymysg yr uchafbwyntiau nodedig yn ein darllediadau roedd Gemau'r Gymanwlad yn Birmingham, a oedd yn ddigwyddiad ysblennydd a llwyddodd ein timau ar-lein, teledu a radio i gyfleu'r holl gyffro.

Helpodd taith tîm pêl-droed dynion Lloegr yng Nghwpan y Byd a llwyddiant hynod y Llewesau yng ngêm derfynol Ewros UEFA i Fenywod i uno cymaint yn fwy o gymunedau.

Mae gennym rôl hanfodol i'w chwarae fel ffynhonnell newyddion diduedd a chywir yr ymddiriedir ynddo sy'n adlewyrchu barn amrywiol, sy'n cynnig adloniant o ansawdd uchel ac sy'n dathlu'r gorau sydd gan ein gwlad i'w gynnig. Bydd ein hymrwymiad i gryfhau ein gwasanaeth newyddion yn sicrhau ein bod yn parhau i fod wrth galon bywyd cymunedol am flynyddoedd i ddod.

Ceir gwybodaeth fanylach am berfformiad y BBC yn Lloegr ar dudalen 33 ac ar dudalennau 165-168. I ddarllen mwy am Bwyllgor BBC England ewch i: [bbc.com/aboutthebbc/whoweare/bbcboard/england](https://www.bbc.com/aboutthebbc/whoweare/bbcboard/england)

Robbie Gibb

Cadeirydd Pwyllgor Lloegr
27 Mehefin 2023

Adroddiad y Pwyllgor Masnachu Teg

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi manylion am waith y Pwyllgor Masnachu Teg yn 2022/23. Yn ystod y flwyddyn eisteddais fel aelod o'r Pwyllgor a chafodd ei gadeirio gan Ian Hargreaves. Ers i Ian adael Bwrdd y BBC ym mis Ebrill 2023, ac wrth i aelodau newydd gael eu recriwtio i'r Bwrdd, rwyf wedi cyflawni rôl Cadeirydd y Pwyllgor dros dro hyd nes i rolau diwygiedig y Pwyllgor gael eu cyflwyno.

Masnachu Teg yw'r term rydym yn ei ddefnyddio i ddisgrifio ein prosesau a'n harferion, o fewn Grŵp y BBC ac wrth ddelio â thrydydd partïon, er mwyn sicrhau bod ein gwasanaethau masnachol a'n gwasanaethau cyhoeddus yn parhau i fod yn briodol ar wahân ac yn masnachu â'i gilydd ar sail marchnad. Mae hyn yn golygu na all y rhannau o'r BBC a ariennir gan ffi'r drwydded roi mantais gystadleuol i weithrediadau masnachol y BBC nac i unrhyw gwmni cynhyrchu annibynnol arall na thrydydd parti arall rydym yn ymwneud ag ef.

Sefydlwyd y Pwyllgor Masnachu Teg gan y Bwrdd er mwyn monitro a sicrhau gwahanu priodol rhwng gweithgareddau gwasanaeth cyhoeddus a masnachol y BBC, yn unol â'r fframwaith ar gyfer gweithgareddau masnachol a bennwyd gan Ofcom.

Prif swyddogaeth y Pwyllgor yw goruchwyllo cydymffurfiaeth y BBC â'n rhwymedigaethau rheoleiddiol ar gyfer masnachu a gwahanu rhwng yr is-gwmnïau gwasanaeth cyhoeddus a masnachol. Ymhlith cyfrifoldebau craidd y Pwyllgor mae'r canlynol:

- ystyried adroddiadau ar y graddau y mae gweithgareddau'r BBC yn gyson â gofynion masnachu a gwahanu Ofcom ac ymgysylltu'n anffurfiol â'r rheoleiddiwr yn flynyddol;
- parhau i adolygu cydymffurfiaeth y BBC â gofynion rheoleiddio masnachu a gwahanu Ofcom;
- comisiynu a derbyn sicrwydd annibynnol blynyddol ynghylch rheolaethau cydymffurfio;
- ystyried datganiad o wahanu gweithredol, adroddiadau blynyddol a Llawlyfr Masnachu Grŵp y BBC, a'u cymeradwyo i'w cyhoeddi; ac
- sicrhau bod methodolegau prisiau trosglwyddo'r BBC yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Cafodd y rheolau masnachu a gwahanu eu diweddarau ddiwethaf gan Ofcom ym mis Ebrill 2023 ac maent yn rhan o fframwaith Ofcom ar gyfer gweithgareddau masnachol y BBC, sy'n rheoleiddio rhyngweithio'r BBC â'r farchnad drwy ei weithgareddau gwasanaeth cyhoeddus a gweithgareddau ei is-gwmnïau masnachol.

Mae'r fframwaith yn ei gwneud yn ofynnol i'r BBC sicrhau'r canlynol:

- bod yr holl weithgareddau masnachol yn cael eu cyflawni gan is-gwmnïau masnachol;
- bod unrhyw is-gwmnïau ar wahân i wasanaeth cyhoeddus y BBC yn weithredol;
- ei fod yn darparu nwyddau a gwasanaethau i is-gwmnïau masnachol ar sail telerau masnachol hyd braich;
- bod is-gwmnïau yn gwneud enillion masnachol;
- bod y BBC yn sicrhau bod prosesau priodol ar waith o ran tryloywder, monitro ac adrodd ar weithgareddau'r is-gwmnïau.

Er mwyn sicrhau y cydymffurfir â'r rheolau hyn, mae'r Pwyllgor yn goruchwyllo ac yn sicrhau prosesau a gweithdrefnau'r BBC er mwyn sicrhau bod ymwybyddiaeth a dealltwriaeth uchel o'r fframwaith. I wneud hyn, mae tîm Polisi'r BBC yn rheoli rhaglen hyfforddi wedi'i thargedu ar gyfer staff sy'n debygol o ddod ar draws materion Masnachu Teg. Dros y flwyddyn ddiwethaf, gwelwyd perfformiad cryf parhaus o ran cydymffurfiaeth â hyfforddiant ar Fasnachu Teg, gyda chyfraddau cydymffurfio a gynhelir ar lefel uchel wedi cynyddu'n gyson – 98% ar gyfer hyfforddiant lefel Uwch a 95% ar gyfer hyfforddiant lefel Ymwybyddiaeth yn Ch4 22/23.

Yn ystod y flwyddyn, cafodd y Pwyllgor ei frifffio ar faterion Masnachu Teg a materion rheoleiddio perthnasol, gan gynnwys adolygiad Ofcom o BBC Studios, trosglwyddo cynrychiadau mewnol BBC Children i BBC Studios, a meincnodi ffioedd ar gyfer defnydd Studios o frand y BBC. Gwnaethom hefyd nodi na chafodd y BBC unrhyw gwynion perthnasol yn y maes hwn.

Yn ystod y flwyddyn, mynychwyd ein cyfarfodydd gan y Cyfarwyddwr Polisi a'r Rheolwr Rheoleiddio, yn ogystal â Phrif Swyddog Gweithredu'r Grŵp, y Pennaeth Cyfreithiol Masnachol a chynghorwyr eraill fel y bo angen. Cynhaliwyd tri chyfarfod o'r Pwyllgor yn ystod y flwyddyn (mae tabl presenoldeb y Pwyllgor i'w weld ar dudalen 105).

Er mwyn cefnogi'r fframwaith, a rhoi sicrwydd ynglŷn â'r ffordd y mae'r BBC yn ymdrin â rheoleidd-dra a'r defnydd o arian cyhoeddus, mae'r Pwyllgor yn parhau i gomisiynu o'i wirfodd sicrwydd blynyddol gan roddwr sicrwydd yn unol ag ISAE 3000 (Diwygiedig). Mae adroddiad y rhoddwr sicrwydd ar Fasnachu Teg ar y dudalen nesaf.

Mae'r Cytundeb Fframwaith yn nodi pedwar maen prawf ar gyfer ymgymryd â gweithgareddau masnachol y BBC: mae'n cyd-fynd â'r Genhadaeth a'r Dibenion Cyhoeddus; effeithlonrwydd masnachol; nid yw'n peryglu enw da'r BBC na gwerth ei frand; ac nid yw'n ystumio'r farchnad. Ar ôl cael adroddiadau gan yr uwch-reolwyr perthnasol, ac ar ôl ystyried y canfyddiadau o ran Sicrwydd Masnachu Teg, mae'r Pwyllgor Masnachu Teg yn fodlon bod pob gwasanaeth masnachol wedi bodloni'r meini prawf uchod yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023.

Muriel Gray

Cadeirydd dros dro y Pwyllgor Masnachu Teg
27 Mehefin 2023

Llywodraethu

Adroddiad Sicrwydd Annibynnol ar Fasnachu Teg i'r BBC ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023

Barn am drefniadau Masnachu Teg

Yn ein rôl fel darparwr sicrwydd rhesymol Masnachu Teg y BBC, rydym wedi asesu'r system o reolaethau mewnol a sefydlwyd yn y BBC i gydymffurfio ag agweddau ar Fasnachu Teg gofynion Masnachu a Gwahanu Ofcom ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023 ('y Trefniadau Masnachu Teg').

Yn ein barn ni, mae'r BBC wedi sefydlu ac wedi cymhwyso system o reolaethau mewnol sy'n rhoi sicrwydd rhesymol iddo gydymffurfio â gofynion y Trefniadau Masnachu Teg ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023.

Cyfrifoldebau Bwrdd y BBC

Mae Ofcom wedi rhoi dyletswydd ar y Bwrdd i sefydlu a gweithredu system o reolaethau mewnol sydd â'r nod o sicrhau cydymffurfiaeth â Threfniadau Masnachu Teg y BBC ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023, gan gynnwys nodi ac asesu'r risgiau a allai beryglu Masnachu Teg a llunio ymatebion i risgiau o'r fath a'u rhoi ar waith.

Ein hannibyniaeth a rheoli ansawdd

Rydym wedi cydymffurfio â gofynion Cod Moeseg ICAEW o ran annibyniaeth a materion moesegol eraill – cod sy'n seiliedig ar egwyddorion sylfaenol uniondeb, gwrthrychedd, cymhwysedd proffesiynol a sylw dyladwy, cyfrinachedd ac ymddygiad proffesiynol.

Gwnaethom gymhwyso'r Safon Ryngwladol ar Reoli Ansawdd (y DU) 1 ("ISQM (UK) 1"), a bennwyd gan y Cyngor Adrodd Ariannol. Yn unol â hynny, gwnaethom gynnal system ansawdd gynhwysfawr gan gynnwys polisiau a gweithdrefnau a ddogfennwyd mewn perthynas â chydymffurfiaeth â gofynion moesegol, safonau proffesiynol a gofynion cyfreithiol a rheolaethol cymwys.

Ein cyfrifoldebau

Rydym yn gyfrifol am fynegi barn am reolaethau mewnol y BBC i sicrhau cydymffurfiaeth â'r Trefniadau Masnachu Teg, yn seiliedig ar ein gwaith sicrwydd. Gwnaethom gynnal proses sicrwydd rhesymol yn unol â Safon Ryngwladol ar Ymrwymadau Sicrwydd (ISAE) 3000 (Diwygiedig), Ymrwymadau Sicrwydd ac eithrio Archwiliadau neu Adolygiadau o Wybodaeth Ariannol Hanesyddol.

Mae'n ofynnol i ni gynllunio a chyflawni ein gweithdrefnau er mwyn cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r BBC wedi sefydlu ac wedi cymhwyso system o reolaethau mewnol sy'n rhoi sicrwydd rhesymol ei fod wedi cydymffurfio â gofynion y Trefniadau Masnachu Teg ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023.

Cynhaliwyd asesiad risg er mwyn nodi'r agweddau hynny ar gyfundrefn reoli Masnachu a Gwahanu'r BBC a oedd fwyaf tebygol o arwain at beidio â chydymffurfio â'r Trefniadau Masnachu Teg, gan ganolbwyntio ein profion manwl ar y meysydd hyn. Dewiswyd achosion unigol o ohebiaeth masnachu teg y BBC i'w hadolygu, a gwnaethom archwilio cofnodion ysgrifenedig a chyfweld â phartion perthnasol ar gyfer pob un. Fel rhan o'n gwaith, archwiliwyd y trefniadau ar gyfer prisiau trosglwyddo a gwahanu, defnyddio brand y BBC a thalu amdano, a chymhwyso gofyniad y Siarter Frenhinol nad yw gweithgareddau masnachol y BBC, o ganlyniad i'w cydberthynas â Gwasanaethau Cyhoeddus y DU, gweithgareddau nad ydynt yn rhai gwasanaeth neu weithgareddau masnachu, yn ystumio'r farchnad nac yn rhoi mantais gystadleuol annheg.

Cyfyngiadau annatod

Mae pob system rheolaeth fewnol yn destun cyfyngiadau, ac yn unol â hynny efallai na fydd y rheolaethau mewnol a sefydlwyd gan y BBC yn atal nac yn canfod pob achos o beidio â chydymffurfio â'r Trefniadau Masnachu Teg. At hynny, oherwydd bod materion masnachu teg yn gofyn am farn a allai yn y pen draw gael ei phrofi mewn llys barn, gan yr awdurdod cystadleuaeth neu yn rhywle arall, mae bob amser risg o her hyd yn oed lle y dilynwyd y system o reolaethau mewnol a lle y gwnaed penderfyniadau gyda'r gofal mwyaf.

Defnyddio ein hadroddiad

Gwnaed yr adroddiad hwn i'r BBC yn unig yn unol â'n cyfarwyddiadau y cytunwyd arnynt â'r Pwyllgor Masnachu Teg ar ran y BBC. Cynhaliwyd ein gwaith er mwyn i ni allu hysbysu'r Pwyllgor Masnachu Teg am y materion hynny y mae'n ofynnol i ni ei hysbysu amdanynt mewn adroddiad sicrwydd annibynnol ac nid at unrhyw ddiben arall. I'r graddau eithaf a ganiateir o dan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb i unrhyw un heblaw'r BBC am ein gwaith, am yr adroddiad hwn, nac am y farn a luniwyd gennym.

Deloitte LLP

Llundain, y DU
27 Mehefin 2023

Datganiad o gyfrifoldebau'r Bwrdd o ran yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon

Mae'r Siarter yn ei gwneud yn ofynnol i'r BBC baratoi adroddiad blynyddol a datganiad o gyfrifon archwiledig.

Mae'r Bwrdd wedi derbyn ei gyfrifoldeb am baratoi adroddiad strategol, datganiadau o gydymffurfiaeth â chodau a rheoliadau cymwys (gan gynnwys adroddiad cydnabyddiaeth y Bwrdd) a'r datganiad o gyfrifon y bwriedir iddynt roi darlun gwir a theg o sefyllfa'r BBC a'i is-gwmnïau (y 'Grŵp') a'r incwm a'r gwariant ar gyfer y cyfnod hwnnw. Mae'r Bwrdd wedi paratoi'r cyfrifon yn unol â Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) a fabwysiadwyd yn y DU. Ni chaiff y Bwrdd gymeradwyo'r datganiad o gyfrifon (neu'r 'datganiadau ariannol') oni fydd yn fodlon eu bod yn rhoi darlun gwir a theg o asedau, rhwymedigaethau a sefyllfa ariannol y Grŵp a'r gwarged neu'r diffyg yn y cyfnod hwnnw.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r Bwrdd wedi gwneud y canlynol:

- dewis polisïau cyfrifyddu addas a'u cymhwyso'n gyson;
- llunio barn a gwneud amcangyfrifon sy'n rhesymol ac yn ddarvoudus;
- nodi a gawsant eu paratoi yn unol ag IFRS a fabwysiadwyd yn y DU; a
- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol, am ei fod o'r farn y bydd y BBC yn parhau i weithredu.

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu priodol sy'n ddigonol i ddangos ac egluro trafodion y BBC a datgelu sefyllfa ariannol y Grŵp yn rhesymol gywir ar unrhyw adeg a'i alluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol ac adroddiad cydnabyddiaeth y Bwrdd yn cydymffurfio â'r Siarter. Hefyd, mae ganddo gyfrifoldeb cyffredinol i gymryd y cyfryw gamau sy'n rhesymol agored iddo i ddiogelu asedau'r BBC ac atal a chanfod achosion o dwyll ac anghysondebau eraill.

Caiff cyfrifoldebau'r Bwrdd am sicrhau bod y BBC yn gwarchod arian cyhoeddus yn drylwyr, gan gynnwys cyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra rheoli adnoddau'r BBC, eu nodi yn erthygl 16 o'r Siarter.

Y Bwrdd sy'n gyfrifol am gynnal gwefan y BBC a sicrhau ei bod yn gywir. Gall deddfwriaeth yn y DU sy'n rheoli'r gwaith o baratoi a dosbarthu datganiadau ariannol fod yn wahanol i ddeddfwriaeth mewn awdurdodaethau eraill.

Mae aelodau'r Bwrdd a oedd mewn swydd ar ddyddiad cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon, y caiff eu henwau a'u swyddogaethau eu rhestru yn adran Llywodraethu'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon, yn cadarnhau, hyd eithaf eu gwybodaeth a'u cred:

- bod y datganiadau ariannol, a baratowyd yn unol ag IFRS a fabwysiadwyd yn y DU, yn rhoi darlun gwir a theg o asedau, rhwymedigaethau, sefyllfa ariannol a diffyg y Grŵp;
- bod yr Adroddiad Blynyddol yn cynnwys adolygiad teg o ddatblygiad a pherfformiad y busnes a sefyllfa'r Grŵp, ynghyd â disgrifiad o'r prif risgiau ac ansicrwydd a wynebir ganddo;
- bod yr Adroddiad Blynyddol, yn ei gyfanrwydd, yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy ac yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen ar dalwyr ffi'r drwydded i asesu perfformiad, model busnes a strategaeth y Grŵp.

Datganiad datgelu gwybodaeth i archwilwyr

Mae aelodau'r Bwrdd a oedd mewn swydd ar adeg cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon yn cadarnhau, hyd eithaf eu gwybodaeth, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr y BBC yn ymwybodol ohoni; ac mae pob aelod o'r Bwrdd wedi cymryd yr holl gamau y dylai fod wedi'u cymryd fel aelod o'r Bwrdd er mwyn dod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol a phennu bod archwilwyr y BBC yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Busnes gweithredol

Mae'r Bwrdd wedi paratoi rhagamcanion llif arian parod am gyfnod y tu hwnt i flwyddyn o ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol hyn, ac maent wedi adolygu'r rhagamcanion hyn, ynghyd â'r materion sensitif a'r ffactorau lliniarol yng nghyd-destun yr arian sydd ar gael.

Mae'r Bwrdd yn fodlon bod y BBC mewn sefyllfa dda i reoli'r risgiau a bod ganddo ddigon o adnoddau i barhau i weithredu am y 12 mis nesaf o leiaf. O ganlyniad, mabwysiadwyd sail busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol.

Cafodd y datganiad hwn ei gymeradwyo gan y Bwrdd.



Richard Sharp
Cadeirydd
27 Mehefin 2023

PERFFORMIAD YN ERBYN YMRWYMIADAU CYHOEDDUS



Mae'r adran hon yn amlinellu ein cynnydd tuag at wahanol ymrwymadau cyhoeddus. Daw'r ymrwymadau hyn o'r Siarter, y Cytundeb, ein rhwymedigaethau o ran y drwydded ac ymrwymadau a wnaed gennym i gyflenwi gwasanaethau i'n cynulleidfaoedd.

t.131

Cydymffurfiaeth
Reoleiddiol

t.132

Dyletswyddau
Cyffredinol

t.134

Gwasanaethau
Mynediad

t.135

Elfen o gystadleuaeth

t.135

Cyflenwad radio
rhwydwaith

t.136

Dosbarthu

t.137

Hyrwyddo Gwasanaeth
Cyhoeddus y BBC

Perfformiad yn erbyn ymrwymïadau cyhoeddus Cydymffurfiaeth reoleiddiol

Mae'r adran isod yn nodi cydymffurfiaeth y BBC â'r amodau rheoleiddio yn Nhrwydded Weithredu Ofcom. Llwyddodd y BBC i fodloni bron pob un o'i 151 o amodau o dan y Drwydded Weithredu, gyda dau eithriad, a ddangosir isod.

Ar gyfer amod 2.5A, ni chafodd y cwota ei gwrrd ar dri diwrnod: 11 Gorffennaf 2022 oherwydd nam technegol, 8 Medi 2022 am fod darllediadau BBC Three wedi'u hatal oherwydd marwolaeth Ei Mawrhydi y Frenhines a 9 Medi 2022 am fod adnoddau wedi'u hailddyrranu oherwydd marwolaeth Ei Mawrhydi y Frenhines.

Ar gyfer amod 2.21, mae ein horiau yn adlewyrchu ein cynlluniau a gyhoeddwyd i ailbennu ffoecs BBC Four fel cartref archif a pherfformiad, gan leihau nifer yr oriau celfyddydau a cherddoriaeth newydd ar BBC Four a buddsoddi mwy mewn rhaglenni celfyddydau a cherddoriaeth ar BBC Two.

Rydym wedi ymgysylltu ag Ofcom ar yr amodau trwydded weithredu hyn. Ni ddisgwyliwn i Ofcom gymryd camau gorfodi.

Mae manylion llawn am ein cydymffurfiaeth ag amodau Trwydded Weithredu Ofcom i'w gweld yn ein hadroddiad ategol Cyflawni Ein Cenhadaeth a'n Dibenion Cyhoeddus. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn coladu ein perfformiad yn erbyn yr ymrwymïadau a wnaed gennym fel rhan o Gynllun Blynyddol 2022/23.

Amodau'r Drwydded Weithredu	Cwota	Gwirioneddol	Gwahaniaeth
2.5A: Newyddion ar BBC Three ar gyfer pobl 16-34 oed	Newyddion bob diwrnod o'r wythnos	Dim newyddion ar dri diwrnod – 11 Gorffennaf, 8 a 9 Medi	
2.21: Rhaglenni celfyddydol a cherddoriaeth newydd	175 awr	131 awr	-44 awr

Materion rheoleiddiol eraill

Newidiadau i Wasanaethau Cyhoeddus y BBC yn y DU a gweithgareddau nad ydynt yn rhai gwasanaeth

O dan y Siarter a'r Cytundeb, rhaid i'r BBC asesu a yw newidiadau i Wasanaethau Cyhoeddus y DU yn sylweddol ai peidio. Os ydynt, mae'n ofynnol i ni gyflawni Prawf Budd y Cyhoedd, sydd wedyn yn gorfod cael ei gymeradwyo gan Ofcom cyn y gall y newid gael ei wneud.

Ym mis Mehefin 2022, cyhoeddodd y BBC ymgynghoriad ar y cynnig i ehangu a gwella BBC iPlayer drwy gynnig mwy o focs-setiau ac archif, a sicrhau bod mwy o gyfresi'r BBC ar gael ar alw. Ym mis Medi 2022, cymeradwyodd Bwrdd y BBC Brawf Budd y Cyhoedd y BBC gan benderfynu y bydd y newidiadau arfaethedig yn cyflawni gwerth cyhoeddus ond nad oeddent yn sylweddol am na fyddant yn cael effaith andwyol sylweddol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol. Ym mis Tachwedd 2022, ar ôl adolygu'r cynlluniau, daeth Ofcom i'r casgliad nad oedd cynnig y BBC yn newid sylweddol, a thrwy hynny ganiatáu i'r BBC fwrw ati â'i gynlluniau.

Yn ystod 2022/23, rydym wedi cynnal dau asesiad perthnasedd manwl o newidiadau i Wasanaethau Cyhoeddus y DU neu weithgareddau nad ydynt yn rhai gwasanaeth;

- Newid i gynyddu arlwy newyddion lleol ar-lein y BBC yn Lloegr, gan gynnwys cyhoeddi mwy o straeon a chynyddu nifer yr ardaloedd a gwmpesir. Penderfynodd y BBC nad oedd y newidiadau'n sylweddol. Cadarnhaodd Ofcom nad oedd y newidiadau'n sylweddol ym mis Rhagfyr 2022.

- Newid i ddeunydd llafar a cherddoriaeth ar alw ar Sounds, gan gynnwys ehangu'r strategaeth caffael podlediadau, fformatau newydd ar gyfer ffurf fer, rhaglenni radio Sounds yn unig ac ehangu hyblygrwydd y BBC o ran ei drefniadau dosbarthu i bodlediadau sydd eisoes ar gael ar BBC Sounds. Penderfynodd y BBC nad oedd y newidiadau'n sylweddol. Cadarnhaodd Ofcom nad oedd y newidiadau yn sylweddol ym mis Mawrth 2023.

Newidiadau i weithgareddau masnachol y BBC

O dan y Siarter a'r Cytundeb, rhaid i'r BBC asesu a yw newidiadau i'w weithgareddau masnachol yn sylweddol ai peidio. Nid oedd unrhyw newidiadau perthnasol i weithgareddau masnachol y BBC yn ystod y cyfnod hwn.

Cwynion rheoleiddiol

O dan y Siarter a'r Cytundeb, mae'r BBC yn gyfrifol am ymdrin â chwynion, drwy 'BBC First'. Y flwyddyn hon, ni chawsom unrhyw gwynion ynghylch materion cystadleuaeth. Ni chawsom unrhyw gwynion ychwaith ynghylch gofynion perthnasol eraill nad oeddent yn olygyddol.

Bodddhad cynulleidfaoedd gyda'r ffordd y caiff y cymunedau amrywiol yn y DU eu portreadu, eu cynrychioli a'u gwasanaethu

Mae angen i'r BBC fesur bodddhad cynulleidfaoedd yn ystod y flwyddyn ariannol gyda'r ffordd y caiff y cymunedau amrywiol yn y Deyrnas Unedig gyfan eu portreadu, eu cynrychioli a'u gwasanaethu. Mae canfyddiadau'r arolwg o 2022/23 yn dangos bod y gyfran sydd o'r farn bod y BBC yn effeithiol o ran y mesurau hyn yn fwy na'r gyfran sydd o'r farn ei fod yn aneffeithiol yn ôl band oedran, rhywedd, gradd gymdeithasol, ardal o'r DU, cyfeiriadedd rhywiol ac ymysg cynulleidfaoedd gwyn a chynulleidfaoedd du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol a chynulleidfaoedd sy'n anabl a chynulleidfaoedd nad ydynt yn anabl. Mewn rhai grwpiau cynulleidfifa, er bod y mwyafrif neu fwyafrif cymharol o'r bobl a arolygwyd yn nodi bod y BBC yn effeithiol, gall y gyfran hon o bobl sy'n dweud bod y BBC yn effeithiol fod yn is nag yn eu grŵp cymharu neu gall y gyfran sy'n dweud bod y BBC yn aneffeithiol fod yn uwch. Mae hyn yn dangos bod rhai grwpiau cynulleidfifa yn llai bodlon ar y BBC yn hyn o beth nag eraill. Y flwyddyn hon, roedd hyn yn wir am gynulleidfaoedd C2DE o'u cymharu â chynulleidfaoedd ABC1 a phobl sy'n anabl o'u cymharu â phobl nad ydynt yn anabl; ac am rai mesurau ar gyfer cynulleidfaoedd du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol o'u cymharu â chynulleidfaoedd gwyn a dynion o'u cymharu â menywod. Roedd gwahaniaethau hefyd yng Nghymru a'r Alban, ac yng Ngogledd Lloegr o'u cymharu â chyfartaledd Lloegr.

Perfformiad yn erbyn ymrwymïadau cyhoeddus Dyletswyddau Cyffredinol

Mae'r Siarter yn nodi nifer o Ddyletswyddau Cyffredinol sy'n gymwys i'r BBC. Mae'r adran hon yn nodi perfformiad y BBC yn erbyn y Dyletswyddau hyn – nodwyd y mesurau adrodd yng Nghynllun Blynyddol y BBC ar gyfer 2022/23.

1. Gweithredu er budd y cyhoedd

Mesur	Cyflawnwyd
Byddwn yn cyhoeddi Cynllun Blynyddol ac Adroddiad Blynyddol	CYFLAWNWYD
Byddwn yn cyhoeddi nifer y cwynion a gafodd eu cadarnhau lle rydym wedi methu â chydymffurfio â rhwymedigaethau'r BBC o dan y Siarter a'r Cytundeb neu gyda Fframwaith Gweithredu Ofcom neu Drwydded World Service	CYFLAWNWYD – gweler Materion Rheoleiddiol Eraill
Byddwn yn cyhoeddi nifer y cwynion a gafodd eu cadarnhau ar faterion golygyddol y BBC a'r nifer cyffredinol o gwynion a wnaed	CYFLAWNWYD – gweler yr Adroddiad ar Ganllawiau a Safonau Golygyddol
Byddwn yn cyhoeddi data mesur perfformiad, yn cynnwys data ar gyflawni'r dibenion cyhoeddus	CYFLAWNWYD

2. Ymgysylltu â'r cyhoedd

Mesur	Cyflawnwyd
Byddwn yn cyhoeddi data blynyddol ar safbwyntiau cynulleidfaoedd ynghylch y BBC fel rhan o'r Adroddiad Blynyddol	CYFLAWNWYD
Byddwn yn cynnal tua chwe digwyddiad wyneb yn wyneb gyda chynulleidfaoedd ac yn adrodd ar y canfyddiadau yn Adroddiad Blynyddol y BBC, a chaiff pedwar ohonynt eu cynnal gan Bwyllgorau Gwledydd y Bwrdd	CYFLAWNWYD – gweler Ymgysylltu â chynulleidfaoedd

3. Effaith ar y farchnad

Mesur	Cyflawnwyd
Byddwn yn cyhoeddi ac yn ymgynghori ar unrhyw newidiadau sylweddol a gynllunnir	CYFLAWNWYD – gweler Materion Rheoleiddiol Eraill
Byddwn yn cyhoeddi'n flynyddol nifer y cwynion rheoleiddiol a gafodd eu cadarnhau a'r camau gweithredu a gymerwyd mewn ymateb iddynt	CYFLAWNWYD – gweler Materion Rheoleiddiol Eraill
Byddwn yn cyhoeddi nifer y camau gorfodi gan Ofcom mewn perthynas â chydymffurfio â Fframwaith Gweithredu Ofcom yn y maes hwn	CYFLAWNWYD – dim
Byddwn yn cyhoeddi canlyniadau unrhyw Brofion Budd y Cyhoedd	CYFLAWNWYD – gweler bbc.com/aboutthebbc/reports/consultation

4. Bod yn agored, yn dryloyw ac yn atebol

Mesur	Cyflawnwyd
Byddwn yn cyhoeddi Cynllun Blynyddol sy'n nodi blaenoriaethau strategol, cynlluniau creadigol a chyllideb y BBC ac unrhyw newidiadau sylweddol arfaethedig i wasanaethau	CYFLAWNWYD – gweler bbc.com/aboutthebbc
Byddwn yn cyhoeddi'r canlynol ar ôl y digwyddiad perthnasol: <ul style="list-style-type: none"> Cofnodion cyfarfodydd y Bwrdd Penderfyniadau pwysig yn ymwneud â newidiadau i'r cylch gwaith creadigol, cynllun gwaith a newidiadau sylweddol i weithgareddau Gwasanaethau Cyhoeddus y DU, gweithgareddau nad ydynt yn ymwneud â gwasanaethau, a gweithgareddau masnachol Cofnodion cryno cyfarfodydd pwyllgorau'r Bwrdd 	CYFLAWNWYD – gweler bbc.com/aboutthebbc
Byddwn yn cyhoeddi Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon, sy'n cynnwys crynodeb manwl o berfformiad yn erbyn ein cwotâu rheoleiddiol; manylion ariannol llawn a chyfrifon; a gwybodaeth sydd ei hangen fel rhan o'n Hadroddiad Gwybodaeth am Gydraddoldeb	CYFLAWNWYD
Byddwn yn parhau i gyhoeddi'r datgeliadau cyflog sy'n ofynnol o dan y Siarter, ynghyd â'n cyfundrefn wirfoddol o ddatgelu cyflogau chwarterol a threuliau ar gyfer uwch-reolwyr	CYFLAWNWYD – gweler yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth

5. Partneriaeth

Mesur	Cyflawnwyd
Byddwn yn casglu ac yn cyhoeddi data perfformiad ar allbwn a gweithgarwch partneriaethau allweddol, yn cynnwys ar yr amrywiaeth o bartneriaethau sydd gan y BBC, yr amrywiaeth o bartneriaid, ehangder daearyddol, ac effaith	CYFLAWNWYD – gweler Partneriaethau a mentrau cydweithredol

6. Amrywiaeth

Mesur	Cyflawnwyd
Byddwn yn cyhoeddi data manwl ar amrywiaeth ein holl staff, gan gynnwys cefndir economaidd-gymdeithasol, fel rhan o'n Hadroddiad Gwybodaeth am Gydraddoldeb blynyddol	CYFLAWNWYD – gweler yr Adroddiad Gwybodaeth am Gydraddoldeb
Byddwn yn parhau i gyhoeddi gwybodaeth am y bwlc cyflog rhwng y rhywiâu, a dadansoddiad o'n bylchau cyflog ar gyfer grwpiau eraill	CYFLAWNWYD – gweler yr adroddiad ar y Bwlch Cyflog yn y BBC
Byddwn hefyd yn cyhoeddi data mesur perfformiad, a gasglwyd wrth gyflawni ein pedwerydd diben cyhoeddus	CYFLAWNWYD

7. Technoleg

Mesur	Cyflawnwyd
Byddwn yn parhau i fuddsoddi yn adran Ymchwil a Datblygu'r BBC yn unol ag amcanion hirdymor y BBC	CYFLAWNWYD
Byddwn yn parhau i rannu ein dealltwriaeth o waith Ymchwil a Datblygu, er enghraifft defnyddio papurau gwyn y diwydiant a chyfarfodydd proffesiynol perthnasol, yn cynnwys cyrff safonol. Byddwn yn defnyddio ein presenoldeb ar y we ac yn gymdeithasol i bwysleisio negeseuon allweddol i gynulleidfa ehangach	CYFLAWNWYD

8. Stiwardio arian cyhoeddus

Mesur	Cyflawnwyd
Barn archwilio wir a theg gan archwilwyr allanol y BBC	CYFLAWNWYD
Byddwn yn adrodd ar ein dulliau o ddarparu gwybodaeth i'r Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio a Risg am gydymffurfiaeth â'r Siarter, er mwyn sicrhau bod y trafodion a geir yn natganiadau ariannol y BBC wedi'u cymhwysu at y dibenion yn ôl y bwriad, a'u bod yn cydymffurfio â'r fframweithiau perthnasol sy'n eu llywodraethu	CYFLAWNWYD
Byddwn yn cydymffurfio ag amodau cyllido fel rhan o gytundeb cyllido ar wahân, e.e. arian grant i'r BBC World Service	CYFLAWNWYD
Byddwn yn cyhoeddi ein hymateb i'r adolygiadau Gwerth am Arian a gynhaliwyd gan y SAG neu bartion eraill a gomisiynwyd	CYFLAWNWYD

9. Arweiniad ac arfer gorau

Mesur	Cyflawnwyd
Byddwn yn archwilio ein cydymffurfiaeth wirfoddol â Chod Llywodraethu Corfforaethol y DU ac egwyddorion llywodraethu corfforaethol da yn seiliedig ar nod cyffredinol cydymffurfio â'r Cod lle y bo'n bosibl	CYFLAWNWYD – gweler Llywodraethu
Bydd ein Hadroddiad Blynyddol yn nodi perfformiad y BBC yn erbyn y Cod; meysydd lle nad yw'r Cod yn berthnasol i'r BBC; meysydd lle mae'r Siarter yn drech na'r Cod; a meysydd lle nad yw'r BBC yn cydymffurfio	CYFLAWNWYD – gweler Llywodraethu
Byddwn hefyd yn cyhoeddi Adroddiad Gwybodaeth am Gydraddoldeb, yn unol â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus	CYFLAWNWYD – gweler yr Adroddiad Gwybodaeth am Gydraddoldeb
Caiiff datganiad blynyddol am gasglu ffi'r drwydded ei archwilio gan y SAG a'i osod gerbron Senedd y DU	CYFLAWNWYD
Byddwn yn parhau i gydymffurfio ag arfer gorau wrth gynnig hyfforddiant ar amrywiaeth o faterion fel gwrth-lwgrwobrwyo, diogelu data ac amddiffyn plant	CYFLAWNWYD

10. Dyletswyddau cyffredinol mewn perthynas â gweithgareddau masnachol.

Mesur	Cyflawnwyd
Bydd y Pwyllgor Masnachu Teg yn parhau i: adolygu cydymffurfiaeth y BBC â gofynion masnachu a gwahanu Ofcom; comisiynu archwiliad annibynnol blynyddol; adolygu, ystyried a chymeradwyo methodolegau prisiau trosglwyddo'r BBC; adrodd ar hynt yn Adroddiad Blynyddol y BBC; ac adolygu cydymffurfiaeth barhaus gweithgareddau masnachol â'r pedwar maen prawf masnachol	CYFLAWNWYD – gweler Adroddiad y Pwyllgor Masnachu Teg
Byddwn yn dilyn ein polisi cyhoeddedig ar newidiadau sylweddol i weithgareddau masnachol	CYFLAWNWYD – gweler Materion Rheoleiddiol Eraill
Mae ein fframwaith cwynion yn cynnwys gweithdrefn ar gyfer cwynion ynghylch methiant i fodloni unrhyw ofynion o ran gweithgareddau masnachol	CYFLAWNWYD
Byddwn yn cyhoeddi newidiadau sylweddol posibl sydd ar droed i wasanaethau masnachol yng Nghynllun Blynyddol y BBC, yn dibynnu ar faterion cyfrinachedd masnachol	CYFLAWNWYD
Byddwn yn cynnal y prawf masnachol ar gyfer unrhyw newid sylweddol arfaethedig i'n gweithgareddau masnachol, ac yn cyhoeddi'r newid arfaethedig unwaith y byddwn wedi gwneud hynny	CYFLAWNWYD – dim
Byddwn yn parhau i hyfforddi staff allweddol ar gydymffurfiaeth â'r rheolau Masnachu Teg	CYFLAWNWYD – gweler Adroddiad y Pwyllgor Masnachu Teg
Byddwn yn parhau i gyflawni ein rhwymedigaethau cyhoeddi a darparu gwybodaeth i Ofcom, gan nodi perfformiad ariannol ein his-gwmnïau masnachol a nodi methodolegau manwl ar gyfer prisiau trosglwyddo o fewn ein grŵp	CYFLAWNWYD – gweler yr Adroddiad Blynyddol ar Ddaliadau Masnachol a Llawlyfr Masnachu'r Grŵp
Byddwn yn cyhoeddi nifer y cwynion a gafodd eu cadarnhau ynghylch cydymffurfiaeth â'r gofynion o ran gweithgareddau masnachol o dan y Siarter a'r Cytundeb neu yn Fframwaith Gweithredu Ofcom, a'n hymateb i gwynion o'r fath	CYFLAWNWYD – dim
Byddwn yn cyhoeddi nifer y camau gorfodi gan Ofcom mewn perthynas â chydymffurfio â Fframwaith Gweithredu Ofcom yn y maes hwn	CYFLAWNWYD – dim
Bydd y Pwyllgor Masnachu Teg yn adrodd ar ei waith yn yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon bob blwyddyn	CYFLAWNWYD – gweler Adroddiad y Pwyllgor Masnachu Teg

Perfformiad yn erbyn ymrwymïadau cyhoeddus Gwasanaethau Mynediad

Disgrifiadau sain

	Oriau disgrifiadau sain		Cyfanswm oriau 2022/23	Oriau gwirioneddol ar gyfer y flwyddyn (%)		Targed ar gyfer y flwyddyn (%)	
	2022/23	2021/22		2022/23	2021/22	2022/23	2021/22
BBC One	1,877	1,847	8,736	21.5%	21.1%	20.0%	20.0%
BBC Two	2,290	2,097	8,736	26.2%	24.0%	20.0%	20.0%
BBC Three	1,227	162	3,236	37.9%	30.4%	20.0%	20.0%
BBC Four	1,217	1,020	3,104	39.2%	33.2%	20.0%	20.0%
CBBC	1,464	1,805	4,352	33.6%	36.7%	20.0%	20.0%
CBeebies	1,254	1,114	4,883	25.7%	22.8%	20.0%	20.0%
BBC Scotland	597	510	1,815	32.9%	28.1%	20.0%	20.0%
Cyfanswm llinellol	9,926	8,555	34,862				

	Rhaglenni â disgrifiadau sain		Cyfanswm y rhaglenni 58,699 ²	Oriau gwirioneddol ar gyfer y flwyddyn (%)		Targed ar gyfer y flwyddyn (%)	
	Gweler Nodyn 2			Gweler Nodyn 2		Dd/G	Dd/G
BBC iPlayer ¹	8,212		58,699 ²	14%		Dd/G	Dd/G

Dehongli drwy iaith arwyddion

	Oriau dehongli drwy iaith arwyddion		Cyfanswm oriau 2022/23	Oriau gwirioneddol ar gyfer y flwyddyn (%)		Targed ar gyfer y flwyddyn (%)	
	2022/23	2021/22		2022/23	2021/22	2022/23	2021/22
BBC One	499	488	8,736	5.7%	5.6%	5.0%	5.0%
BBC Two	467	462	8,736	5.3%	5.3%	5.0%	5.0%
BBC Three	225	30	3,236	7.0%	5.7%	5.0%	5.0%
BBC Four	189	196	3,104	6.1%	6.4%	5.0%	5.0%
CBBC	277	286	4,352	6.4%	5.8%	5.0%	5.0%
CBeebies	256	262	4,883	5.2%	5.4%	5.0%	5.0%
BBC Scotland	100	103	1,815	5.5%	5.7%	5.0%	5.0%
BBC News	510	527	8,736	5.8%	6.0%	5.0%	5.0%
Cyfanswm llinellol	2,523	2,354	43,597				

	Rhaglenni wedi'u dehongli drwy iaith arwyddion		Cyfanswm y rhaglenni 58,699 ²	Oriau gwirioneddol ar gyfer y flwyddyn (%)		Targed ar gyfer y flwyddyn (%)	
	Gweler Nodyn 2			Gweler Nodyn 2		Dd/G	Dd/G
BBC iPlayer ¹	4,484		58,699 ²	7.6%		Dd/G	Dd/G

Isdeitlau

	Oriau isdeitlo		Cyfanswm oriau 2022/23	Oriau gwirioneddol ar gyfer y flwyddyn (%)		Targed ar gyfer y flwyddyn (%)	
	2022/23	2021/22		2022/23	2021/22	2022/23	2021/22
BBC One	14,017	14,130	14,029	99.9%	99.9%	100.0%	100%
BBC Two	9,183	9,189	9,185	100.0%	100%	100.0%	100%
BBC Three	3,234	533	3,236	99.9%	100%	100.0%	100%
BBC Four	3,102	3,077	3,104	99.9%	100%	100.0%	100%
CBBC	4,352	4,919	4,352	100.0%	100%	100.0%	100%
CBeebies	4,882	4,882	4,883	100.0%	100%	100.0%	100%
BBC Scotland	1,880	1,914	1,880	100.0%	99.9%	100.0%	100%
BBC Parliament	3,029	2,404	8,736	34.7%	27.5%	dd/g	dd/g
BBC News	8,733	8,732	8,736	100.0%	100%	100.0%	100%
Cyfanswm llinol	52,412	49,780	58,141				

	Rhaglenni wedi'u hisdeitlo		Cyfanswm y rhaglenni 58,699 ²	Oriau gwirioneddol ar gyfer y flwyddyn (%)		Targed ar gyfer y flwyddyn (%)	
	Gweler Nodyn 2			Gweler Nodyn 2		Dd/G	Dd/G
BBC iPlayer ¹	50,866		58,699 ²	86.7%		Dd/G	Dd/G

Nodiadau
1 Ar gyfer y pum prif sianel ddarlledu, gan gynnwys y gwledydd ac amrywiadau rhanbarthol, caiff yr holl gynnwys ei isdeitlo, caiff disgrifiadau sain eu darparu ar gyfer 20% ac mae iaith arwyddion ar gael ar gyfer 5%. Mae'r holl gynnwys hwn, gan gynnwys fersiynau ag isdeitlau, disgrifiadau sain ac iaith arwyddion, ar gael ar BBC iPlayer. Mae BBC iPlayer yn cyfuno'r prif sianelau darlledu hynny a sianelau eraill lle darperir llai o wasanaethau mynediad, felly mae'r ffigurau cyffredinol ar gyfer iPlayer yn is na'r prif sianelau darlledu.

2 Ffigurau ar gyfer cyfanswm nifer y penodau sydd ar gael ar BBC iPlayer heb gynnwys cynnwys S4C a'r World Service. Cafwyd newid methodolegol ers adroddiad y flwyddyn flaenorol. Mae hyn oherwydd Bellach, rydym yn cyfrif pob rhaglen fel pwynt data unigol, yn hytrach na chyfrif pob fersiwn wahanol o'r un rhaglen. Mae'r newid hwn mewn methodoleg wedi arwain at werth cyfanswm rhaglenni is o gymharu ag adroddiad blynyddoedd blaenorol, a chynnydd yng nghanran y rhaglenni y cyfrifir bod ganddynt isdeitlau, fodd bynnag, mae'n adlewyrchu'n fwy cywir y canfyddiad o'r rhaglenni sydd ar gael i gynulleidfaoedd drwy BBC iPlayer.

3 Oherwydd talgrynnu, efallai na fydd rhai cyfansymiau'n cyfateb i swm y ffigurau ar wahân.

4 Dim ond ers 1 Chwefror 2022 y mae BBC Three yn sianel llinellol eto – sy'n egluro'r nifer bach o oriau yn 2021-22 o gymharu â 2022-23.

Elfen o gystadleuaeth

O dan y Siarter a'r Cytundeb, rhaid i'r BBC sicrhau cystadleuaeth rhwng cynhyrchwyr y BBC a chynhyrchwyr allanol, boed yn gynhyrchwyr annibynnol ai peidio, ar gyfer cynhyrchu cynnwys teledu, radio ac ar-lein. Mae lefelau'r elfen o gystadleuaeth wedi cynyddu i bob math o gynnwys. Rhoddir rhagor o wybodaeth am elfen gystadleuol mewn teledu a radio yn Adroddiad Cyflenwi Comisiynu'r BBC, a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r adroddiad hwn: bbc.co.uk/commissioning/documents/bbc-commissioning-supply-report-202223.pdf.

Llwyfan	Targed i gystadlu ar ei gyfer	Oriau ag elfen o gystadleuaeth hyd yma	Dyddiad cwblhau	Cyflawnwyd
Teledu*	100% o'r oriau perthnasol	63%	31 Rhagfyr 2027	Ar waith
Radio**	60% o'r oriau perthnasol	62%	31 Rhagfyr 2022	Cyflawnwyd
Ar-lein***	100% o'r gwariant perthnasol	80%	31 Rhagfyr 2027	Ar waith

Nodiadau

* Mae'r Cytundeb yn ei gwneud yn ofynnol i'r BBC sicrhau cystadleuaeth ar gyfer 100% o'r rhaglenni teledu perthnasol erbyn 31 Rhagfyr 2027 Mae ein halldro yn seiliedig ar nifer yr oriau a ddarlledwyd neu a ddarparwyd ar BBC iPlayer yn 2022, gan ystyried penderfyniadau comisiynu a wnaed hyd at 31 Rhagfyr 2022

** Mae'r Cytundeb yn ei gwneud yn ofynnol i'r BBC wneud yn siŵr, ar gyfer rhaglenni radio perthnasol, ei fod yn sicrhau cystadleuaeth ar gyfer o leiaf 60% o amser darlledu perthnasol erbyn 31 Rhagfyr 2022 Mae hyn wedi'i gyflawni bellach Mae ein halldro yn seiliedig ar nifer yr oriau a ddarlledwyd yn 2022/23, gan ystyried penderfyniadau comisiynu a wnaed hyd at 31 Mawrth 2023

*** Mae'r Cytundeb yn ei gwneud yn ofynnol i'r BBC sicrhau cystadleuaeth ar gyfer 100% o'r deunydd ar-lein perthnasol erbyn 31 Rhagfyr 2027 Mae'r BBC wedi diffinio deunydd ar-lein perthnasol mewn modd sy'n cadw at ddarpariaethau'r Cytundeb ac mae wedi trafod y diffiniad hwn ag Ofcom Rydym yn mesur yr elfen o gystadleuaeth ar-lein drwy wariant ar gynhyrchu cynnwys deunydd ar-lein perthnasol Mae ein halldro yn seiliedig ar wariant yn 2022/23

Cyflenwad radio rhwydwaith

Mae'r tabl canlynol yn dangos lefelau oriau radio rhwydwaith y BBC gan wahanol gyflenwyr.

	Cyfran o'r holl oriau cymwys a gynhyrchwyd gan gynhyrchwyr annibynnol ar gyfer Radio Rhwydwaith y BBC (%)		Cyfran o'r holl oriau cymwys a gynhyrchwyd gan gynhyrchwyr y BBC ar gyfer Radio Rhwydwaith y BBC (%)	
	2022/23	2021/22	2022/23	2021/22
Radio 1	25.6	25.5	74.4	74.5
1Xtra	19.2	20.1	80.8	79.9
Radio 2	53.0	50.9	47.0	49.1
Radio 3	11.3	11.8	88.7	88.2
Radio 4	16.8	15.2	83.2	84.8
BBC 4 Extra	0.0	0.0	100	100
BBC Radio 5 live and 5 live sports extra	21.8	20.5	78.2	79.5
BBC 6 Music	46.3	36.5	53.7	63.5
BBC Asian Network	35.2	25.2	64.8	74.8
Cyfanswm	31.0	28.0	69.0	72.0

Nodiadau

Nid yw oriau cymwys yn cynnwys ailddarllediadau, cyd-ddarllediadau, newyddion craidd, addysg/gweithredu cymdeithasol, cyflwyno, allbwn EBU na World Service

Mae gwybodaeth am ein cyflenwad teledu rhwydwaith yn 2022/23 ar gael yn Adroddiad Cyflenwi Comisiynu'r BBC, a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r adroddiad hwn bbc.co.uk/commissioning/documents/bbc-commissioning-supply-report-202223.pdf

Perfformiad yn erbyn ymrwymïadau cyhoeddus Dosbarthu

Mae dosbarthu cynnwys y BBC yn allweddol i gyflawni ein cenhadaeth a'n dibenion cyhoeddus. Mae'r Siarter yn ei gwneud yn ofynnol i'r BBC adrodd ar y ffordd y mae wedi sicrhau bod ei allbwn a'i wasanaethau ar gael i'r cyhoedd. Mae'r adran hon yn amlinellu ein cynnydd y flwyddyn hon.

98.5%

Cwmpas Teledu Daearol Digidol (DTT) o ran cartrefi yn y DU.

99%

Signal AM/FM o ran cartrefi yn y DU

97.5%

Signal DAB o ran cartrefi yn y DU

98%

Argaeledd gwasanaethau lloeren o ran aelwydydd yn y DU

Mae BBC iPlayer ar gael ar

>20,000

o fathau o ddyfeisiau i gyd

Mae BBC Sounds ar gael ar

>20,000

o fathau o ddyfeisiau i gyd

Noder

Mae'r ffigurau ar gyfer Teledu Daearol Digidol a DAB yn ymwneud â signal ar gyfer gwasanaethau a ddarperir ar amlblecs y BBC. Yn ogystal, caiff gorsafoedd radio'r gwledydd a'r rhanbarthau a nifer bach o sianelau HD eu darparu drwy amlblecs masnachol. Mae BBC iPlayer ar gael ar fwy na 420 o lwyfannau (grwpiau o ddyfeisiau) ac mae BBC Sounds ar gael ar fwy na 250 o lwyfannau (grwpiau o ddyfeisiau).

Mae'r BBC yn dosbarthu ei gynnwys gyda'r nod o roi mynediad llawn a chyfleus i'w holl wasanaethau i'w gynulleidfaoedd, sy'n berthnasol iddynt. Yn 2022/23 rydym wedi parhau i sicrhau:

- ein bod yn darlledu ein gwasanaethau teledu a radio yn effeithiol yn gyffredinol
- bod iPlayer, gwasanaeth fideo ar alw ar-lein y BBC, ar gael ar fwy o ddyfeisiau defnyddwyr (o setiau teledu deallus, i gonsolau gemau a llechi) nag unrhyw wasanaeth ffrydio arall yn y DU
- bod deunydd sain byw ac ar alw ar gael yn eang i gynulleidfaoedd ar nifer cynyddol o ddyfeisiau

